



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Rhif ymchwil cymdeithasol: 62/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2026

Gwerthusiad Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL

© Hawlfraint y Goron

Digital ISBN: 978-1-83745-440-2

Gwerthusiad Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Awduron: Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics. (2026). Gwerthusiad Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif ymchwil cymdeithasol 62/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwi>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Benjamin Lewis

Social Research and Information Division

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

03000257438

TimYmchwilTai@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys.....	1
Rhestr o Dablau	4
Rhestr o Ffigurau.....	5
Geirfa 6	
1. Cyflwyniad a chefnidir	11
1.1 Safon Ansawdd Tai Cymru.....	12
1.2 Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.....	14
1.3 Nodau ac amcanion y prosiect	16
1.3.1 Amcanion Gwerthusiad SATC 2023	16
1.3.2 Amcanion y Gwerthusiad ORP	18
1.4 Strwythur yr adroddiad	20
2. Methodoleg.....	22
2.1 Trosolwg methodoleg	22
2.2 Methodoleg fanwl	22
2.2.1 Cam cwmpasu a datblygu ToC.....	22
2.2.2 Ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid tai cymdeithasol	23
2.2.3 Dadansoddiad VfM o ORP 3.....	28
3. Damcaniaethau Newid	39
3.1 Ynglŷn â'r fframwaith Damcaniaethau Newid	39
3.2 ToC Safon Ansawdd Tai Cymru 2023	39
3.2.1. Mewnbynnau, gweithgareddau, ac allbynnau	39
3.2.2 Canlyniadau	41
3.2.3 Effeithiau	42
3.3 ToC y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	43
3.3.1. Mewnbynnau, gweithgareddau, ac allbynnau	43
3.3.2 Canlyniadau	44
3.3.3 Effeithiau	45
4. Canfyddiadau	47
4.1 SATC 2023.....	47
4.1.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith landlordiaid cymdeithasol	47
4.1.2 Pontio landlordiaid cymdeithasol i'r Safon newydd	51

4.1.3	Profiad landlordiaid cymdeithasol gyda'r gofynion adrodd diwedddaredig	57
4.1.4	Safbwyntiau landlord ar ymgysylltu â thenantiaid	61
4.1.5	Safbwyntiau tenantiaid ar eu rôl nhw yn y Safon wedi'i diwedddaru.....	65
4.1.6	Safbwyntiau landlordiaid cymdeithasol ar gyflwr eu stoc tai	69
4.1.7	Profiadau tenantiaid o'u cartrefi	72
4.1.8	Newidiadau a dymunir gan y tenantiaid	78
4.1.9	Landlordiaid cymdeithasol yn asesu helaethder newid a chydymffurfiaeth	80
4.1.10	Landlordiaid cymdeithasol ar ddichonolrwydd y Safon wedi'i diwedddaru.....	88
4.1.11	Newidiadau a roddwyd ar waith i fodloni'r Safon newydd	95
4.1.12	Effaith ar denantiaid SATC	100
4.2	Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	108
4.2.1	Profiad landlordiaid cymdeithasol wrth hawlio a chyrchu cyllid ORP	108
4.2.2	Lefel arloesedd landlordiaid cymdeithasol	114
4.2.3	Ffactorau sy'n effeithio ar roi ORP ar waith	118
4.2.4	Ystyriaethau ariannu, cynllunio a chyflawni	122
4.2.5	Profi a dysgu landlordiaid cymdeithasol.....	128
4.2.6	Profiadau tenantiaid gyda gwaith ôl-osod	130
4.2.7	Effaith ORP ar gyfer landlordiaid cymdeithasol.....	137
4.2.8	Effaith ORP ar denantiaid cymdeithasol	140
4.2.9	Dadansoddiad cost a budd o ORP 3.....	142
5.	Casgliadau ac argymhellion	166
5.1.1	Casgliadau ar gyfer SATC 2023.....	166
	Profiad a chanlyniadau i'r tenant.....	166
	Profiad y landlordiaid o weithredu	166
5.1.2	Casgliadau ar gyfer ORP.....	167
	Profiad y tenant.....	167
	Profiad y landlord a chyflenwi	167
	Profi a dysgu a gallu sector.....	168
	Gwerth am Arian.....	169
	Amcanion heb eu bodloni	171
5.1.3	Cyfuniad traws-raglen.....	171
5.1.4	Argymhellion.....	171
	Argymhellion ar gyfer SATC	171
	Argymhellion ar gyfer ORP	174
Atodiad A:	Proffil ymatebwyr arolwg	178

Arolwg tenantiaid ORP	178
Arolwg tenantiaid SATC 2023	179
Atodiad B: Atodiad Technegol ar gyfer CBA	181
Senario gwrthffeithiol ('busnes fel arfer')	182
Cafodd dwy senario gwrthffeithiol eu diffinio:	182
Costau ORP 3	183
Buddion	183
Arbedion ynni	183
Allyriadau carbon is	185
Effaith ar iechyd (QALYs)	186
Arbedion cost gofal iechyd o ganlyniadau iechyd gwell	192
Lles cynyddol (WELLBYs)	194
Atodiad C: Deunyddiau gwaith maes	196
Arolwg ar gyfer landlordiaid	196
Arolwg Tenantiaid.....	204
Arolwg SATC 2023	204
Arolwg Tenantiaid: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	215
Canllaw trafodaeth y cyfweiliad – Landlordiaid.....	231
Canllaw A: Safon Ansawdd Tai Cymru 2023.....	236
Canllaw B: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	243

Rhestr o Dablau

Tabl 1: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol statig	146
Tabl 2: Crynodeb o'r canfyddiadau - Senario cyflwyno gohiriedig.....	151
Tabl 3: Crynodeb o ganfyddiadau – Senario gwrthffeithiol statig - Ychwanegu WELLBYs	155
Tabl 4: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol cyflwyno gohiriedig – Ychwanegu WELLBYs.....	156
Tabl 5: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol statig – 10 mlynedd o effaith ar iechyd.....	157
Tabl 6: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol statig – 20 mlynedd o effaith ar iechyd.....	158
Tabl 7: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol cyflwyno gohiriedig – 10 mlynedd o effaith ar iechyd.....	159
Tabl 8: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol cyflwyno gohiriedig – 20 mlynedd o effaith ar iechyd.....	160
Tabl 9: Crynodeb o ganfyddiadau – Senario gwrthffeithiol statig – EQ-5D-3L.....	161
Tabl 10: Crynodeb o'r canfyddiadau – Senario gwrthffeithiol cyflwyno gohiriedig – EQ-5D-3L	162
Tabl 11: Gwerthoedd iechyd i ddefnyddioldeb wedi'u hunan-sgorio (EQ-5D-5L).....	188
Tabl 12: Model mapio ar groes o EQ-5D-5L i EQ-5D-3L	191

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: ToC SATC 2023: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau	40
Ffigur 2: ToC SATC 2023: Canlyniadau	41
Ffigur 3: ToC SATC 2023: Effeithiau	42
Ffigur 4: ToC ORP: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau	44
Ffigur 5: ToC ORP: Canlyniadau	45
Ffigur 6 : Effeithiau	6
Ffigur 1: ToC SATC 2023: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau	40
Ffigur 2: ToC SATC 2023: Canlyniadau	41
Ffigur 3: ToC SATC 2023: Effeithiau	42
Ffigur 4: ToC ORP: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau	44
Ffigur 5: ToC ORP: Canlyniadau	45
Ffigur 17: Y ddau becyn – Costau a buddion wedi’u disgowntio dros gyfnod o 30 mlynedd	150
Ffigur 17: Y ddau becyn – Costau a buddion wedi’u disgowntio dros gyfnod o 30 mlynedd	150

Geirfa

Pwmp gwres o'r aer

Dyfais sy'n cymryd gwres o'r awyr y tu allan ac yn ei symud y tu mewn i adeilad i ddarparu gwres. Mae'n gweithio mewn ffordd debyg i gyflyrydd aer ond i'r gwrthwyneb. Mae gan y pwmp gwres ddwy brif ran o'r enw cyfnewidwyr gwres: un y tu allan, lle mae gwyntyll yn tynnu aer i mewn, ac un y tu mewn, sydd naill ai'n cynhesu'r aer yn uniongyrchol neu'n cynhesu dŵr sy'n cael ei gylchredeg trwy reiddiaduron neu wres tanlawr. Gall rhai pypiau gwres o'r aer hefyd oeri adeilad trwy dynnu gwres o'r tu mewn a'i ryddhau y tu allan. Gall eraill gynhesu dŵr ar gyfer defnydd domestig, gan ei storio mewn tanc dŵr poeth.

Cymhareb Cost a Budd (BCR)

Cymhareb gwerth presennol y buddion i werth presennol y costau ar gyfer prosiect, rhaglen, neu fuddsoddiad. Mae BCR sy'n fwy nag 1 yn dangos bod y buddion yn fwy na'r costau, tra bod BCR sy'n llai nag 1 yn awgrymu bod y costau'n fwy na'r buddion.

Dadansoddiad cost a budd

Dull o gymharu costau rhaglen bolisi â'i buddion disgwylidig i benderfynu a yw'n fuddsoddiad gwerth chweil.

Inswleiddio Waliau Ceudod (CWI)

Inswleiddio sy'n cael ei osod o fewn y bwlch (ceudod) rhwng waliau mewnol ac allanol adeilad.

Ôl-osod ynni dwfn

Adnewyddiad cartref neu adeilad wedi'i gynllunio i gyflawni arbedion ynni sylweddol a lleihau allyriadau, wrth ddarparu perfformiad ynni uchel.

Asesiadau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)

Gwerthusiad sy'n mesur pa mor effeithlon o ran ynni yw eiddo. Mae asesiadau EPC yn graddio cartref ar raddfa o A (mwyaf effeithlon) i G (lleiaf effeithlon). Mae'r asesiad hefyd yn darparu argymhellion ar gyfer gwella perfformiad ynni a lleihau allyriadau carbon.

Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR)

Mesur o effaith cartref ar yr amgylchedd o ran allyriadau carbon deuocsid (CO₂). Po uchaf yw'r sgôr, y lleiaf yw'r effaith sydd ganddo ar yr amgylchedd. Mae'r sgôr hon yn seiliedig ar berfformiad yr adeilad a'i wasanaethau sefydlog (megis gwres a goleuadau).

Inswleiddio Waliau Allanol (EWI)

Yn gysylltiedig â ffyrdd o inswleiddio, amddiffyn ac addurno tu allan adeilad. Yn nodweddiadol mae'n defnyddio deunyddiau fel polystyren ehangedig, gwlân mwynau, ewyn polywrethan, neu ewyn ffenolaidd fel yr haen inswleiddio. Yna mae'r haen hon yn cael ei gorchuddio â gorffeniad gwrth-dywydd, megis rendr sment, gorffeniadau mwynau neu synthetig, slipiau brics, teils, neu fyrddau addurniadol. Gellir defnyddio rendr inswleiddio mewn rhai lleoliadau hefyd.

System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS)

System yn y DU a ddefnyddir i asesu risgiau iechyd a diogelwch posibl mewn eiddo preswyl yn y DU. Mae'n gwerthuso 29 categori o beryglon, pob un yn cael ei sgorio yn seiliedig ar y tebygolrwydd o ddigwydd a difrifoldeb posibl niwed. Defnyddir y system gan awdurdodau lleol, landlordiaid, a gweithwyr tai proffesiynol i nodi risgiau a chymryd camau i wella diogelwch ac amodau byw mewn cartrefi.

Inswleiddio Waliau Mewnol (IWI)

Dull o inswleiddio adeilad trwy ychwanegu deunydd inswleiddio at arwynebau mewnol waliau. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd ynni trwy leihau colli gwres a chynnal tymheredd dan do mwy sefydlog.

Sefydliad cydfuddiannol

Cymdeithas dai sy'n eiddo i'w haelodau ac yn cael ei rheoli ganddynt, a all gynnwys tenantiaid a gweithwyr, sy'n gweithredu ar sail gydweithredol.

Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres (MVHR)

System awyru sy'n echdynnu hen aer o adeilad wrth adfer gwres ohono a'i ddefnyddio i gynhesu aer ffres sy'n dod i mewn.

Gwerth Presennol Net (NPV)

Y gwahaniaeth rhwng gwerth presennol y buddion a gwerth presennol costau prosiect, rhaglen, neu fuddsoddiad. Mae NPV positif yn dangos bod y buddion yn drech na'r costau, tra bod NPV negatif yn awgrymu'r gwrthwyneb.

Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP)

Mae ORP yn ddull tŷ cyfan, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o ddatgarboneiddio tai cymdeithasol presennol yng Nghymru. Mae'n galluogi awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u teilwra sy'n

gwella cynhesrwydd fforddiadwy ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol. Mae Cyfnod 3 ORP (2025–2026) yn canolbwyntio ar nodi'r llwybr ôl-osod mwyaf effeithiol ar gyfer pob cartref, gan gefnogi cyflawni SATC 2023 a chyfrannu at nodau sero net hirdymor. Mae'r rhaglen yn dilyn model "profi a dysgu", gan ysgogi arloesedd wrth ystyried anghenion seilwaith ehangach megis sgiliau, caffael, cyllid, deunyddiau a datblygiad economaidd ledled Cymru.

Safonau ôl-osod PAS 2035

Safon Brydeinig ar gyfer ôl-osod a gwella effeithlonrwydd ynni tai. Mae'n nodi fframwaith ansawdd cydnabyddedig ar gyfer dylunio, gosod a gwerthuso prosiectau ôl-osod, gyda'r nod o sicrhau bod arbedion ynni yn cael eu cyflawni, bod risgiau megis diffygion neu leithder yn cael eu lleihau, a bod preswylwyr yn elwa o gysur gwell a chostau tanwydd is. Mae cydymffurfio'n ofynnol ar gyfer prosiectau a ariennir trwy gynlluniau megis y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, Cartref Cynnes: Cronfa Tai Cymdeithasol, Rhwymedigaeth Cwmni Ynni, neu Gynllun Cyflawni Awdurdod Lleol.

Ffotofoltäig (PV)

System sy'n trosi golau haul yn uniongyrchol yn drydan gan ddefnyddio celloedd solar. Mae systemau PV yn cael eu gosod yn gyffredin ar doeau neu strwythurau eraill i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)

Deddf sy'n safoni hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru, gan greu un fframwaith cyfreithiol ar gyfer pob cytundeb rhentu.

Landlordiaid Cymdeithasol

Sefydliadau sy'n darparu tai i bobl, fel arfer am renti is na'r farchnad, gan gynnwys cynghorau lleol a chymdeithasau tai.

Sgoriau Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP)

System swyddogol llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni adeiladau preswyl. Mae sgoriau SAP yn seiliedig ar ffactorau megis inswleiddio, systemau gwresogi, awyru, a thechnolegau adnewyddadwy, ac fe'u mynegir ar raddfa o 1 (gwael) i 100 (rhagorol). Mae sgoriau uwch yn dynodi costau rhedeg is a gwell effeithlonrwydd ynni.

Llwybrau Ynni Targedig (TEPs)

Dull a ddefnyddir i gynllunio a blaenoriaethu gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar draws stoc tai. Mae TEP yn nodi mesurau a all arwain at ddatgarboneiddio annedd unigol, fel y gellir ei gynhesu gan system wresogi carbon isel am gost fforddiadwy.

Damcaniaethau Newid (ToCs) Fframwaith a ddefnyddir i esbonio sut a pham y disgwylir i newid dymunol ddigwydd mewn cyd-destun penodol. Mae ToCs yn mapio dilyniant mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, gan nodi'r tybiaethau a'r amodau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant.

TrustMark 2035

Fframwaith sicrhau ansawdd a gymeradwywyd gan lywodraeth y DU sy'n sicrhau bod gwaith a wneir mewn cartrefi yn bodloni safonau cydnabyddedig. O dan fframwaith ôl-osod PAS 2035, rhaid i bob prosiect effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod gael ei gyflawni gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru â TrustMark. Mae cofrestru TrustMark yn cadarnhau bod gosodwyr, dylunwyr ac aseswyr yn gymwys, yn cydymffurfiol, ac yn cyflawni gwaith sy'n amddiffyn preswylwyr ac eiddo.

Asesiadau Stoc Cyfan (WSA)

Adolygiad o gyflwr stoc a data effeithlonrwydd ynni, meddalwedd a sgiliau dadansoddi data landlord cymdeithasol, gyda'r bwriad o ennill a dangos dealltwriaeth ddigonol o'u stoc tai presennol.

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (WDQR 2021)

Safon Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r safonau ansawdd swyddogaethol gofynnol ar gyfer tai fforddiadwy anghenion cyffredinol newydd ac wedi'u hadfer. Mae WDQR 2021 yn cwmpasu effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio, dulliau adeiladu modern, gofynion gofod a hygyrchedd, addasrwydd ar gyfer anghenion aelwydydd newidiol, parodrwydd technoleg, a mesurau diogelwch. Mae'r safon yn berthnasol i bob cynllun tai fforddiadwy a ariennir yn gyhoeddus a gyflwynir i'w graffu'n dechnegol o 1 Hydref 2021.

Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Mae SATC yn set o safonau gorfodol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru, gan sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da, yn ddiogel, ac yn effeithlon o ran ynni, gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes. Diweddarwyd y safon yn 2023, gyda fersiwn newydd, SATC 2023, gan gyflwyno targedau effeithlonrwydd ynni uwch ac ystyriaethau ar gyfer bioamrywiaeth a thlodi dŵr i ddiwallu anghenion modern a chefnogi ymdrechion datgarboneiddio.

Dadansoddiad Gwerth am Arian (VfM)

Dull a ddefnyddir i asesu a yw prosiect, rhaglen, neu bolisi yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer yr adnoddau a fuddsoddwyd. Mae dadansoddiad VfM yn archwilio'r

cydbwysedd rhwng costau, ansawdd ac effeithiolrwydd i benderfynu a yw'r buddion a gyflawnwyd yn cyfiawnhau'r gwariant.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae polisïau amgylcheddol a thai yn feysydd ffocws hanfodol i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'i hymrwymiad hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targedau lleihau allyriadau statudol ar gyfer 2030, 2040, a 2050, a Chyllidebau Carbon pum mlynedd i gyflawni llwybr tuag at allyriadau sero net erbyn 2050 ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)). Er bod angen lleihau allyriadau ar draws pob sector o'r economi, mae'r sector tai wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth oherwydd ei raddfa a'i ddylanwad polisi. Mae tai yn cyfrif am 27% o'r defnydd ynni cenedlaethol, sef cyfanswm yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi, goleuadau ac offer ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)), a 10% o'r allyriadau carbon uniongyrchol, sef y CO₂ a ryddheir o danwydd a losgir mewn cartrefi ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Cefnogir yr ymdrechion amgylcheddol hyn ymhellach gan [Strategaeth Addasu Hinsawdd Cymru](#), sy'n cryfhau gwydnwch hinsawdd, a chan [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#), sy'n tanlinellu pwysigrwydd datblygu cynaliadwy a chynllunio hirdymor i sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am fwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy, fel yr amlygwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru 2040 ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)) ac yr adlewyrchir yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Ystyrir bod tai fforddiadwy o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer creu cymunedau cryf a gwydn. Mae ymdrechion yn canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy gan sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion esblygol y boblogaeth, megis cymdeithas sy'n heneiddio a phatrymau gwaith a byw newidiol. Mae [Deddf Rhentu Tai 2016](#) a Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn anelu at sicrhau bod tai yn fforddiadwy, ond hefyd yn gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ynni, gan ddarparu cartrefi mwy diogel a modern sy'n gwella ansawdd bywyd tenantiaid.

Mae ôl-osod cartrefi presennol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru, lle mae llawer o'r stoc tai ymhlith yr hynaf yng Ngorllewin Ewrop ([Grŵp Ymgynghorol Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019](#)). Mae tai cymdeithasol yn cyflwyno cyfle uniongyrchol i ôl-osod, gan fod mwy o reolaeth llywodraethol dros uwchraddio yn caniatáu creu amgylchedd galluogi ar gyfer ôl-osod eang ar draws y sector tai, gan fynd i'r afael â materion megis datblygu sgiliau, caffael, modelau ariannu, dewis deunyddiau, a'r economi sylfaenol.

Mae [SATC 2023](#) a'r [Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio \(ORP\)](#) yn rhannu nodau sydd wedi'u halinio'n agos, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau tai ac amgylcheddol mewn ffyrdd cyflenwol. Mae SATC 2023 yn pwysleisio gwella amodau tai cymdeithasol trwy sicrhau bod cartrefi'n bodloni safonau penodol o ran diogelwch, cysur a fforddiadwyedd, tra hefyd yn ymgorffori mesurau sy'n fuddiol i'r amgylchedd, megis sgoriau effeithlonrwydd ynni a dulliau cyfrifo. Yn y cyfamser, mae ORP yn mynd i'r afael â heriau hinsawdd drwy ddatgarboneiddio cartrefi presennol, gwella ansawdd tai, ac yn y pen draw cefnogi Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod eu stoc tai yn fforddiadwy i'w gwresogi ac yn cael yr effaith amgylcheddol leiaf posibl (Rhan 3 o SATC 2023). Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn dangos y cysylltiad rhwng nodau tai ac amgylcheddol, gan anelu at gyflawni amodau byw gwell a llai o effaith amgylcheddol. Yn yr adrannau canlynol, rydym yn darparu trosolwg manwl o bob menter cyn amlinellu nodau a strwythur yr adroddiad hwn.

1.1 Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae'r SATC, a gyflwynwyd gyntaf yn 2002 mewn ymateb i'r strategaeth "Cartrefi Gwell i Bobl yng Nghymru" ([Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001](#)), yn fenter bolisi a gynlluniwyd i wella ansawdd tai ledled Cymru drwy sefydlu safonau clir ar gyfer tai cymdeithasol. I ddechrau, ceisiodd SATC sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'u hinswleiddio'n dda, ac yn effeithlon o ran ynni. Ffocws canolog y safon yw ôl-osod stoc tai presennol i fodloni safonau byw cyfoes. Yn ogystal, blaenoriaethodd uwchraddio ceginau ac ystafelloedd ymolchi i wella amodau byw tenantiaid.

I ddechrau, anelodd SATC at gydymffurfiaeth erbyn 2012. Gwnaeth heriau, gan gynnwys trosglwyddo stoc tai, yr angen am ganllawiau a gorfodi cliriach, a newidiadau mewn goruchwyliaeth lywodraethol, orfodi estyniadau, yn gyntaf i 2020, ac wedi hynny i 2021 mewn ymateb i bandemig COVID-19 ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)). Buddsoddwyd dros £2 biliwn, a chyflawnwyd cydymffurfiaeth â SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol) erbyn mis Mawrth 2022 er gwaethaf yr heriau hyn ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Drwy gydol ei weithrediad, mae SATC wedi'i lunio gan fframweithiau ddeddfwriaeth a pholisi esblygol. Er enghraifft, sefydlodd [Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#) y fframwaith cydymffurfio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'landlordiaid cymdeithasol'), gan osod safonau rheoleiddio ar gyfer rheoli a darparu tai. Yn yr un modd, amlinellodd y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru ([Llywodraeth Cymru, 2017](#)) ymhellach ofynion llywodraethu a darparu gwasanaethau i sicrhau bod darparwyr tai yn cyflawni eu rhwymedigaethau wrth

flaenoriaethu lles tenantiaid. Ymhellach, mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus leihau allyriadau a gwella effeithlonrwydd ynni, gan osod cyllidebau carbon sy'n rhwymo'n gyfreithiol i gefnogi'r nodau hyn.

Wedi'i weithredu ym mis Ebrill 2024, mae SATC 2023 diweddaredig yn cyflwyno sawl newid mawr, gan ymgorffori gwersi o werthusiad crynodol 2021 ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)) o SATC (mae rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r gwerthusiad blaenorol yn yr adran nesaf). Mae'r [Safon ddiweddaredig](#) yn canolbwyntio ar wella ansawdd cartrefi wrth alinio â nodau amgylcheddol, gan gyflwyno targedau mwy penodol ar gyfer datgarboneiddio, effeithlonrwydd ynni, ac effeithlonrwydd dŵr ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)). Mae'r newidiadau hyn hefyd yn adlewyrchu fframweithiau deddfwriaethol ehangach megis y 7 nod llesiant a amlinellir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a [uchelgeisiau Sero Net Cymru](#) ar gyfer cyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Yn fwy penodol, er mwyn bodloni'r [Safon ddiweddaredig](#), mae'n ofynnol i gartrefi fodloni 8 rhan graidd bellach, gyda chydymffurfiaeth yn cael ei hasesu drwy 42 elfen ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Mae'r Safon ddiweddaredig hefyd yn cyflwyno gofynion strategol ac adrodd cliriach ar gyfer landlordiaid cymdeithasol drwy orfodi Asesiadau Stoc Cyfan (WSAs) a Llwybrau Ynni Targedig (TEPs). Mae WSAs a TEPs yn brosesau hanfodol sy'n cefnogi landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol i gyflawni nodau cynaliadwyedd a datgarboneiddio. Mae WSAs yn adolygiadau cyfnodol o ansawdd data, cyflwr stoc tai ac effeithlonrwydd ynni, gan roi sylfaen i landlordiaid cymdeithasol ddeall eu stoc yn llawn a gweithredu'r gwelliannau gofynnol yn well. Yn seiliedig ar yr asesiadau hyn, mae landlordiaid cymdeithasol yn datblygu TEPs ar gyfer pob un o'u heiddo, gan amlinellu mesurau penodol ar gyfer datgarboneiddio a gwresogi carbon isel sy'n esblygu dros amser i adlewyrchu data, technolegau a chyfluoedd ariannu newydd. Rhaid i TEPs fod ar waith erbyn 2027.

Mae angen mecanweithiau adrodd gwell i olrhain cynnydd, yn enwedig o ran effeithlonrwydd ynni a thargedau cynaliadwyedd cyffredinol. Erbyn 31 Mawrth 2025, rhaid i landlordiaid cymdeithasol gyflwyno polisi cydymffurfio i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod eu stoc tai yn bodloni'r Safon ddiweddaredig.

Yn ogystal, mae'r ffurflenni data o dan y Safon ddiweddaredig bellach yn gofyn am ddogfennaeth ar lefel eiddo, gan ddisodli'r adrodd lefel gyfanredol blaenorol. Bwriad y newid hwn yw rhoi darlun cliriach i Lywodraeth Cymru o gydymffurfiaeth ar draws y sector tai cymdeithasol ac i gefnogi gwell dealltwriaeth o gyflwr cartrefi yng Nghymru. Mae'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol o dan y Safon ddiweddaredig ddarparu data yn unol â fformat data penodedig sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei hechdynnu'n uniongyrchol o'r systemau

presennol. Mae'r ffurflen ddata yn ategu'r cyflwyniad polisi cydymffurfio blynyddol, sy'n darparu cyd-destun o amgylch y data a gyflwynir. Mae'r gofyniad cyflwyno data cyntaf ar 14 Mai 2026, ac fe'i wneir yn fewnol. O 2026 i 2027 ymlaen, bydd gofyn i landlordiaid hefyd ddilysu eu data'n allanol yn rheolaidd, gan ddarparu sicrwydd ychwanegol a chryfhau hyder mewn cydymffurfiaeth a adroddir.

Yn ogystal, rhaid i landlordiaid ddiweddarau a diwygio eu cynllun busnes i flaenoriaethu gwaith angenrheidiol, asesu anghenion buddsoddi, ac ymgorffori strategaeth ymgysylltu tenantiaid. Yn olaf, dylid datblygu cynlluniau ymgysylltu tenantiaid i sicrhau bod safbwyntiau tenantiaid yn cael eu hystyried drwy gydol y broses.

Mae amserlen SATC 2023 yn amlinellu'r prif gerrig milltir canlynol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol: (i) mae angen iddynt werthuso stoc tai, amcangyfrif gofynion buddsoddi, ymgysylltu â thenantiaid, a chyflwyno Polisi Cydymffurfio erbyn mis Mawrth 2025, (ii) disgwylir iddynt ddatblygu Llwybrau Ynni Targed erbyn mis Mawrth 2027, a (iii) chadarnhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safon erbyn mis Mawrth 2034.

1.2 Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Mae ORP yn fenter gwerth £220m a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datgarboneiddio tai cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd ei lansio yn 2020 fel rhan o'r Rhaglen Dai Arloesol ([Llywodraeth Cymru, 2020](#)), ac mae'n deillio o argymhellion adroddiad [Cartrefi Gwell, Cymru Gwell, Byd Gwell](#). Roedd yr adroddiad yn dadlau dros ôl-osod ynni dwfn mewn cartrefi presennol, yn enwedig o fewn y sector tai cymdeithasol, er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a chyflawni o leiaf Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A ar draws stoc tai erbyn 2050.

Mae ORP wedi'i strwythuro'n gamau sy'n adeiladu ar ei gilydd, gan gynyddu dysgu a chyflawni yn raddol. Yn ystod dwy flynedd gyntaf ei gweithredu (ORP 1, ORP 2.1), canolbwyntiodd y rhaglen ar ddatblygu dulliau ymarferol a graddadwy i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon, wedi'u canoli o amgylch 4 piler: ffabrig yn gyntaf, sy'n canolbwyntio ar wella inswleiddio i leihau colli gwres; technoleg, trwy osod systemau gwresogi uwch a mecanweithiau monitro ynni; ynni gwyrdd, gan ddisodli ynni tanwydd ffosil i ddewisiadau amgen gwyrddach; ac ymgysylltu â phobl trwy hyrwyddo arferion ynni cynaliadwy, uwchsgilio, a chreu swyddi yn y sectorau tai ac ynni. Mireiniwyd y rhaglen dros amser, gydag ORP 2.2 yn culhau ei meini prawf technegol i gadw'r dull ffabrig yn gyntaf yn unig wrth ehangu ei nodau cyffredinol i gynnwys ffactorau sylfaenol, megis sgiliau, caffael, a chyllid. Mireiniodd ORP 3.1 y rhaglen ymhellach, gan ei chysylltu'n benodol â gofynion

effeithlonrwydd ynni newydd SATC 2023, gan bwysleisio ystyriaethau'r gweithlu a'r gadwyn gyflenwi, a gwneud monitro cartrefi yn ofynnol.

Cynyddodd y cyllid ar draws cyfnodau, o tua £11 miliwn yn ORP 1 i tua £30 miliwn yng Nghyfnod 2, a £51 miliwn ym Mlwyddyn 1 o [Gyfnod 3](#), sy'n rhedeg o 2022 i 2027 yn dilyn estyniad diweddar. Dros y blynyddoedd, bwriad ORP oedd gwasanaethu fel prawf cysyniad ar gyfer ôl-osodiadau, gan sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi datblygiad strategaeth ôl-osod hirdymor, gan arwain a dylanwadu ar ymdrechion ôl-osod ar draws pob deiliadaeth tai yng Nghymru ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)).

Un o nodau canolog ORP 3 yw cynorthwyo landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu strategaethau sy'n cyd-fynd ag agweddau 'Cynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio' SATC 2023. Cyflawnir hyn yn bennaf trwy ddull cynhwysfawr o ôl-osod, gan gynnwys optimeiddio inswleiddio waliau, llofftiau a lloriau, uwchraddio drysau a ffenestri, cynyddu aerglosrwydd i'r eithaf, sicrhau awyru priodol, gosod systemau pwmp gwres trydan, ac ymgorffori technolegau adnewyddadwy, megis paneli solar a batris storio ynni.

I hawlio cyllid o dan yr ORP, rhaid i gartrefi fodloni gofynion monitro manwl i ddangos effeithiolrwydd yr uwchraddiadau. Mae hyn yn gofyn am osod Monitorau Amgylcheddol ac Ynni (EEM) sydd â synwryddion integredig. Fel isafswm, rhaid i bob cartref gynnwys mesuryddion ynni sylfaenol ar gyfer mewnforyon ac allforyon nwy a thrydan, yn ogystal â synwryddion i gofnodi tymheredd mewnol, lleithder cymharol, a lefelau CO2 bob 15 munud. Ar ben hynny, mae cartrefi gydag uwchraddiadau ychwanegol yn ddarostyngedig i ofynion monitro ychwanegol (e.e., profion aerglosrwydd, monitro cyflenwad gwresogi, a mesuryddion gwres gofod). Rhaid i'r holl waith gydymffurfio â'r fanyleb ddiweddaraf sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer ôl-osod ynni yn y DU ([Publically Available Specification 2035:2023](#)). Yn ogystal, rhaid storio data o bob gweithgaredd ôl-osod yn y [Warws Data TrustMark](#).

Mae'r rhaglen yn anelu at ymestyn y tu hwnt i adnewyddu tai a gwelliannau effeithlonrwydd thermol, trwy ddarparu buddion ehangach i gymunedau a hwyluso mabwysiadu arferion ôl-osod yn ehangach ar draws y sector tai. Mae'n bwriadu creu effeithiau economaidd-gymdeithasol drwy greu cyfleoedd cyflogaeth, cefnogi datblygu sgiliau, a chyfrannu at dwf diwydiant lleol. Yn ogystal, mae'n cefnogi nodau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru drwy hyrwyddo lleihau gwastraff a gwreiddio egwyddorion yr economi gylchol yn fewnol. Yn olaf, rhoddir pwyslais cryf ar rannu mewnwelediadau a gwersi arwyddocaol a ddysgwyd, gan sicrhau tryloywder ac annog mabwysiadu arfer gorau yn eang o fewn y sector tai ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

1.3 Nodau ac amcanion y prosiect

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiadau cynhwysfawr o SATC 2023 a'r ORP. Archwiliodd y ddau werthusiad brofiadau landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid tai cymdeithasol i ddeall sut cafodd y mentrau eu gweithredu a'u heffeithiau canfyddedig. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad Gwerth am Arian (VfM) fel rhan o werthusiad yr ORP i asesu cost-effeithiolrwydd ORP 3, gan fynd y tu hwnt i effeithiau canfyddedig i archwilio canlyniadau a chostau mesuradwy. Er bod gwerthusiadau SATC 2023 ac ORP wedi'u cynnal ar wahân, cyfunwyd gwaith maes lle bo'n bosibl i leihau'r baich ar gyfranogwyr ymchwil.

Mae'r adrannau canlynol yn ehangu ar amcanion penodol pob gwerthusiad, a gytunwyd arnynt ar ddechrau'r prosiect gyda Llywodraeth Cymru a/neu a fireiniwyd ymhellach yn ystod y broses ymchwil.

1.3.1 Amcanion Gwerthusiad SATC 2023

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- ymwybyddiaeth
 - beth yw lefelau ymwybyddiaeth sylfaenol a pharhaus tenantiaid o SATC 2023?
- cynhwysiant a chyfranogiad
 - a yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith?
 - a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed drwy gydol y broses?
 - a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n ddigonol i addasu i newidiadau (e.e., technolegau newydd)?
 - a yw tenantiaid yn teimlo eu bod nhw'n cymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi?
- profiadau tenantiaid o'u cartrefi
 - a yw tenantiaid yn teimlo bod eu cartrefi'n bodloni safon briodol?
 - a ydyn nhw'n credu bod SATC 2023 wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac ym mha ffyrdd?

- pa feini prawf SATC 2023 y mae tenantiaid yn eu hystyried i fod bwysicaf?
- i ba raddau y mae tenantiaid yn credu bod newidiadau sy'n gysylltiedig â SATC yn effeithio ar eu lles corfforol neu feddyliol?
- ffactorau cyd-destunol
 - sut mae profiadau'n amrywio ar draws nodweddion gwarchodedig, mathau o aelwydydd, daearyddiaethau, neu LCCau?
 - pa ffactorau cyd-destunol eraill sy'n effeithio ar brofiadau tenantiaid?

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- ymwybyddiaeth o'r Safon ac eglurder canfyddedig y canllawiau
- canfyddiadau o ba mor effeithiol y mae'r pontio o'r hen Safon wedi'i reoli
- profiadau o weithredu, gan gynnwys:
 - pa agweddau sy'n haws neu'n anos eu bodloni
 - amllder ac agwedd at arolygon eiddo
 - ymarferoldeb a chost rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am gydymffurfiaeth SATC
- barn ar gategorïau cydrannau, gan gynnwys:
 - dehongliad o godau asesu
 - defnydd meini prawf "llwyddiant amodol" a "methiant dros dro"
- profiadau o ofynion adrodd data SATC
- a oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i weithredu'r Safon

Amcan 3: Cynnal gwerthusiad canlyniad o SATC 2023

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- i ba raddau y mae SATC 2023 yn cyflawni ei effeithiau bwriadedig, gan gynnwys gwelliannau mewn boddhad ac ansawdd bywyd
- a ellir gweld effeithiau ar ymddygiadau tenantiaid, yn enwedig mewn perthynas â defnydd ynni a dŵr
- a yw effeithiau'n amrywio ar draws nodweddion gwarchodedig

- effeithiolrwydd gwaith a ariennir trwy ORP sy'n cyfrannu at Ran 3 SATC ("Fforddiadwy i Wresogi")

Amcan 4: Syntheseiddio tystiolaeth ar draws SATC 2023 ac ORP

Roedd yr amcan hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith integredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi gwerthuso mentrau datgarboneiddio tai cyfredol a rhai'r dyfodol yng Nghymru.

1.3.2 Amcanion y Gwerthusiad ORP

Amcan 1: Cynnal dadansoddiad cost a budd cymdeithasol o ORP

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- nodi buddiolwyr allweddol (tenantiaid, landlordiaid, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru)
- mesur a moneteiddio gwerth canlyniadau'r rhaglen
- nodi a chostio'r holl fewnbynnau perthnasol
- cymharu costau a buddion gan ddefnyddio metrigau VfM priodol (BCR, NPV, IRR)
- pennu'r cwmpas dadansoddol priodol o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael
- rhannu canfyddiadau â Llywodraeth Cymru
- sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- mapio prosesau casglu data ORP
- cymharu a gwerthuso gwahanol ddulliau ôl-osod, gan gynnwys addasrwydd ar gyfer gwahanol archdeipiau a rhanbarthau
- asesu a yw ORP wedi galluogi Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i feithrin gwybodaeth ymarferol, gallu a hyder wrth ôl-osod stoc tai Cymru

Amcan 3: Deall profiadau tenantiaid o ORP

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- ymwybyddiaeth
 - beth yw lefelau ymwybyddiaeth sylfaenol a pharhaus tenantiaid o ORP?

- cynhwysiant a chyfranogiad
 - a yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith?
 - a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed drwy gydol y broses?
 - a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n ddigonol i addasu i newidiadau (e.e., technolegau newydd)?
 - a yw tenantiaid yn teimlo eu bod nhw'n cymryd rhan ystyrllon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi?
- profiadau tenantiaid o'u cartrefi
 - a yw tenantiaid yn teimlo bod eu cartrefi'n bodloni safon briodol?
 - a ydyn nhw'n credu bod ORP wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac ym mha ffyrdd?
 - i ba raddau y mae tenantiaid yn credu bod newidiadau sy'n gysylltiedig ag ORP yn effeithio ar eu lles corfforol neu feddyliol?
- ffactorau cyd-destunol
 - sut mae profiadau'n amrywio ar draws nodweddion gwarchodedig, mathau o aelwydydd, daearyddiaethau, neu LCCau?
 - pa ffactorau cyd-destunol eraill sy'n effeithio ar brofiadau tenantiaid?

Amcan 4: Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Roedd yr amcan hwn yn cynnwys y cwestiynau ymchwil canlynol:

- ymwybyddiaeth o ORP ac eglurder canfyddedig y canllawiau ar gyfer hawlio a chael mynediad at y gronfa
- canfyddiadau ynghylch a oedd y gefnogaeth a ddarparwyd i weithredu gofynion ORP yn ddigonol
- sut wnaeth landlordiaid arolygu eu heiddo i sicrhau cymhwysedd ar gyfer ORP?
- canfyddiadau o ofynion ORP (gan gynnwys ôl-osodiadau a gofynion adrodd cyfatebol)
- pa agweddau ar ORP3 oedd hawsaf i'w bodloni, a pha rai oedd fwyaf heriol?
- beth yw effaith ganfyddedig yr ôl-osodiadau a ddarparwyd fel rhan o ORP ar eu stoc tai?

- sut roedd mynediad at ddarpariaeth yr ORP yn amrywio dros amser ac ar draws gwahanol gamau'r rhaglen

Ni chafodd amcan ychwanegol a gynhwyswyd ar ddechrau'r prosiect ei ganlyn. Nod yr amcan hwn oedd archwilio dichonoldeb ehangu gweithgaredd ôl-osod y tu hwnt i'r sector tai cymdeithasol i ddaliadaethau eraill. Yn benodol, ceisiodd ystyried sut y gellid cymhwyso egwyddorion ôl-osod mewn cyd-destunau eraill, megis y Sector Rhentu Preifat, ac asesu a oedd digon o ddata yn bodoli i gefnogi modelu neu werthuso yn y dyfodol ar draws daliadaethau.

Ni chafodd yr amcan hwn ei ganlyn ymhellach wrth i'r ymchwil fynd yn ei flaen. Byddai asesu trosglwyddadwyedd dulliau ôl-osod, modelau cyflawni, costau neu ganlyniadau i ddaliadaethau eraill yn ystyrlon wedi gofyn am gasglu data ychwanegol a gwaith dadansoddol y tu hwnt i gylch gwaith y gwerthusiad hwn. Felly, parhaodd y ffocws ar yr amcanion craidd o fewn y cwrpas, gan gydnabod perthnasedd y cwestiwn ehangach hwn ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae pennod 2 yn nodi'r dull methodolegol
- Mae pennod 3 yn cyflwyno'r damcaniaethau newid ar gyfer SATC 2023 ac ORP a ddatblygwyd yn y cyfnod cwrpasu
- Mae pennod 4 yn amlinellu canfyddiadau ein gweithgareddau ymchwil sylfaenol.
 - mae'n tynnu ar safbwyntiau gan landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid cymdeithasol, a ymgysylltwyd trwy arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws
 - mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n thematig, gan gyfuno canlyniadau arolygon â chanfyddiadau ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws
 - mae'r dadansoddiad yn dechrau gyda SATC 2023 ac yna'n symud ymlaen i ORP
 - ar gyfer SATC 2023, mae'r canfyddiadau'n canolbwyntio ar y pontio i'r Safon newydd, cynnydd hyd yma, a phrofiadau o'i gweithredu, gan gynnwys barn tenantiaid ar eu cartrefi a dymunoldeb ac effaith y gwaith
 - ar gyfer ORP, mae'r canfyddiadau'n canolbwyntio ar brofiadau landlordiaid cymdeithasol o hawlio'r gronfa, cyflawni gwaith ORP, ac ymgysylltu â'r dull

profi a dysgu, yn ogystal â'r effeithiau canfyddedig ar landlordiaid a thenantiaid

- yn ogystal, cynhelir dadansoddiad cost a budd i asesu gwerth am arian ORP 3
- Mae pennod 5 yn crynhoi'r prif gasgliadau sy'n deillio o'r ymchwil, gan fyfyrrio ar y cynnydd a wnaed a'r rhwystrau a wynebwyd gyda SATC wrth iddo yn symud tuag at y nod o gydymffurfiaeth lawn, yn ogystal â chryfderau, heriau, a VfM ORP
 - mae'n dod i ben gyda myfyrdodau ar y ddwy raglen gyda'i gilydd

2. Methodoleg

2.1 Trosolwg methodoleg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddir yng ngwerthusiad SATC 2023 a'r ORP. Mabwysiadodd y gwerthusiad ddull seiliedig ar ddamcaniaeth, wedi'i lywio gan egwyddorion gwerthuso realistig, gyda'r nod o ddeall nid yn unig a oedd SATC 2023 ac ORP yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, ond hefyd sut ac i bwy, ac o dan ba amodau. Gweler 1.3.1 a 1.3.2 ar gyfer rhestr lawn o'r amcanion ymchwil a archwiliwyd.

Defnyddiodd y gwerthusiadau ddyluniad dulliau cymysg, gan gyfuno dulliau meintiol ac ansoddol i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o gyflawniad ac effaith SATC 2023 ac ORP ar draws pob cam o'r rhaglen (ORP 1, 2, a 3). Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad cost a budd yn benodol ar gyfer ORP 3 i bennu VfM Cyfnod 3 y rhaglen (2025-26). Er bod y gwerthusiadau wedi'u cynnal ar wahân, lle bo'n bosibl, cyfunwyd casglu data i leihau'r baich ar randdeiliaid.

Dechreuodd y prosiect gyda chyfnod cwmpasu, a oedd yn cynnwys adolygiad desg, cwmpasu data, a chyfweliadau cwmpasu, i ddiffinio cwmpas y gwerthusiad, llywio offer gwaith maes, a datblygu 2 theori newid (ToCs), un fesul rhaglen. Roedd y prif gam casglu data yn cynnwys dylunio a lledaenu arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid tai cymdeithasol. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys dylunio a chyflwyno'r CBA o ORP 3.

Mae'r ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth sylfaenol ar gyflwyno ac effaith SATC 2023 ac ORP, y gellir ei defnyddio i lywio monitro yn y dyfodol a, lle bo'n briodol, ei hailadrodd neu adeiladu arno mewn gwaith dilynol.

2.2 Methodoleg fanwl

2.2.1 Cam cwmpasu a datblygu ToC

Er mwyn egluro cwmpas a blaenoriaethau'r ymchwil, cynhaliwyd adolygiad desg, cwmpasu data, a chyfweliadau cwmpasu fel rhan o gam cyntaf yr ymchwil. Roedd yr ymchwil desg yn cynnwys adolygu dogfennau'r llywodraeth, gwerthusiadau blaenorol o SATC 2023 ac ORP, a ffynonellau ystadegol a data perthnasol i roi trosolwg o amcanion, gweithrediad ac effeithiau'r rhaglenni. Canolbwyntiodd cwmpasu data ar nodi ac asesu setiau data sydd ar gael i bennu eu perthnasedd, eu dibynadwyedd a'u cyfyngiadau ar gyfer y gwerthusiad. Yn olaf, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu ddechrau mis Chwefror 2025 i wirio gwybodaeth

bresennol, mynd i'r afael â bylchau gwybodaeth, a chasglu mewnwelediadau ychwanegol. Cynhaliwyd pedwar cyfweiliad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac un gyda chynrychiolydd o gorff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai.

Trwy'r gweithgareddau uchod, datblygodd y tîm ymchwil eu dealltwriaeth o amcanion, mewnbynnau, gofynion, allbynnau disgwyliedig a chanlyniadau'r ddwy fenter. Prif ganlyniad y cyfnod hwn oedd datblygu dau ToC cynhwysfawr, sy'n mapio sut y disgwylir i SATC 2023 ac ORP yrru newid a chreu effaith hirdymor. Mae ToC yn offeryn pwysig ar gyfer gwerthusiadau effaith ac economaidd, gan gefnogi nodi canlyniadau pwysig i'w meintioli a'u moneteiddio. Mae hefyd yn darparu'r sail ar gyfer archwilio cysylltiadau achosol posibl rhwng gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglen ar draws sawl dimensiwn, gan gynnwys lleihau carbon, diogelwch a lles, effaith amgylcheddol, ac ymgysylltiad cymunedol.

Datblygwyd fersiynau cychwynnol o'r ddau ToC yn seiliedig ar fewnwelediadau o'r adolygiad desg, cwmpasu data, a chyfweiliadau cwmpasu, a gyflwynwyd i randdeiliaid Llywodraeth Cymru mewn gweithdy. Diwygiwyd y ddau ToC yn unol â'r adborth a dderbyniwyd.

2.2.2 Ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid tai cymdeithasol

Yn dilyn y cyfnod cwmpasu, cynhaliwyd gwaith maes gyda landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid tai cymdeithasol trwy arolygon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Cynlluniwyd y dull hwn i gasglu data meintiol ac ansoddol, gan ganiatáu dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â SATC 2023 ac ORP.

Ymgysylltu â thenantiaid

Gan gydnabod bod llais tenantiaid yn ganolog i ddeall effaith polisïau tai yn y byd go iawn, ymgysylltwyd â thenantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru trwy arolygon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws. O'r cyfnod cwmpasu, roedd y tîm ymchwil wedi nodi nad oedd tenantiaid yn debygol o fod yn gyfarwydd â SATC 2023, ac nad oeddent yn ymwybodol a oedd cyllid ORP wedi effeithio arnynt. Oherwydd bod rhai tenantiaid cymdeithasol yn byw mewn cartrefi wedi'u huwchraddio trwy ORP tra bod eraill yn byw mewn cartrefi nad oeddent wedi'u huwchraddio (ac felly'n ddarostyngedig i SATC 2023), ni allai'r tîm ymchwil na'r tenantiaid eu hunain nodi pa raglen oedd yn berthnasol i bob aelwyd. Roedd gan landlordiaid cymdeithasol, fodd bynnag, gofnodion manwl o weithgarwch ôl-osod a statws eiddo, gan eu galluogi i nodi tenantiaid cymwys. Felly, dosbarthodd landlordiaid wahoddiadau ymchwil ar ran tîm y prosiect, gan sicrhau bod cyfranogwyr priodol yn cael eu cyrraedd. Yna cynhaliwyd ymgysylltu ar gyfer pob menter ar wahân.

Drwy ymgysylltu â thenantiaid, y nod oedd taflu goleuni ar bynciau megis eu canfyddiadau o'u cartrefi, lefel eu hymwybyddiaeth o SATC 2023 ac ORP, a graddfa, proses ac effaith unrhyw waith a wnaed fel rhan o'r mentrau hyn. Casglodd yr arolygon fewnwelediadau eang gan ystod eang o denantiaid, tra bod adran o'r arolwg ORP hefyd yn casglu gwybodaeth i gefnogi'r dadansoddiad VfM o ORP 3. Ar ben hynny, galluogodd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws archwiliad mwy manwl o brofiadau a safbwyntiau unigol.

Cafodd dau arolwg, un ar gyfer SATC 2023 ac un ar gyfer ORP, eu dylunio gan Alma Economics a'u lledaenu gan landlordiaid cymdeithasol. Cynlluniwyd pob arolwg i gymryd llai na 15 munud i'w gwblhau ac fe'i gynhaliwyd ar Microsoft Forms. Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg rhwng Mehefin a Hydref 2025. Derbyniodd arolwg SATC 2023 1,285 o ymatebion, a derbyniodd arolwg ORP 275 o ymatebion. Ni ellid pennu cyfradd ymateb union, gan nad yw nifer y tenantiaid a dderbyniodd wahoddiad i gwblhau'r arolwg yn hysbys. Mae dadansoddiad o nodweddion demograffig ymatebwyr yr arolwg, gan gynnwys eu lledaeniad daearyddol, ar gael yn Atodiad A.

Roedd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws wedi'u lled-strwythuro a'u cynnal o bell, naill ai trwy Microsoft Teams neu dros y ffôn, yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwr. Dewisodd y tenantiaid a oeddent am gymryd rhan mewn cyfweiliad neu grŵp ffocws, a derbyniodd pob cyfranogwr daleb gwerth £10 i ddiolch iddynt am eu hamser. Casglwyd diddordeb mewn cymryd rhan a dewisiadau ar gyfer fformat y cyfranogiad trwy ffurflenni mynegi diddordeb a ddosbarthwyd gan landlordiaid cymdeithasol, a gafodd eu cysylltu hefyd ar ddiwedd y ddau arolwg. Ni chynhaliwyd unrhyw samplu, a gwahoddwyd pob tenant a fynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan i wneud hynny. Parhaodd cyfweiliadau tua 30 munud, a pharhaodd grwpiau ffocws hyd at 60 munud. Fel gyda'r arolygon, canolbwyntiodd pob ymgysylltiad ar naill ai SATC 2023 neu ORP. Rhwng Mehefin a Hydref 2025, cymerodd 45 o denantiaid ran mewn cyfweiliadau neu grwpiau ffocws yn ymwneud â SATC 2023; dim ond 4 cyfweiliad a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer ORP.

Cyfyngiadau ymgysylltu â thenantiaid

Dylid cydnabod nifer o gyfyngiadau wrth ddehongli canfyddiadau'r arolygon tenantiaid. Y brif her wrth ymgysylltu â thenantiaid tai cymdeithasol oedd nad oedd gan y tîm ymchwil fanylion cyswllt uniongyrchol ac felly roeddent yn dibynnu ar landlordiaid cymdeithasol i ddosbarthu'r arolygon ar eu rhan. Cynhaliodd y tîm amrywiaeth o weithgareddau i uchafu cyfranogiad, gan gynnwys cynnal cyfathrebu rheolaidd â landlordiaid, darparu deunyddiau hyrwyddo, mynychu digwyddiadau Cymuned Ymarfer, cynnal sesiynau gwybodaeth, a chefnogi hyrwyddo ehangach trwy bostiad ar y cyfryngau cymdeithasol gan Lywodraeth

Cymru. Fodd bynnag, gan nad yw cysondeb y dosbarthiad gan landlordiaid cymdeithasol yn hysbys, ac o ystyried na sicrhawyd cyfweliadau gyda 25% o awdurdodau lleol a 40% o LCCau, yn ogystal â lledaeniad daearyddol anghyson yr ymatebion (gweler isod), mae'n debygol bod y cyrhaeddiad cyffredinol wedi parhau i fod yn gyfyngedig. Yn ogystal â hyn, i denantiaid y cysylltwyd â nhw ond a ddewisodd beidio â chymryd rhan, mae'n bosibl bod diffyg cymhelliant i gwblhau'r arolwg (yn wahanol i'r cyfweliad) a bod â blaenoriaethau personol cystadleuol hefyd wedi cyfrannu at lefelau ymgysylltu is.

At ei gilydd, derbyniodd arolwg SATC 2023 1,285 o ymatebion, a derbyniodd arolwg ORP 274 o ymatebion. Er bod y ffigurau hyn yn rhoi mewnwelediad defnyddiol, dim ond cyfran fach iawn o'r 245,000 o gartrefi cymdeithasol amcangyfrifedig yng Nghymru y maent yn eu cynrychioli. Yn ogystal, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd pennu cyfanswm y tenantiaid sydd wedi derbyn gwaith ôl-osod o dan yr ORP, gan nad oes cofnod canolog o'r holl gartrefi sy'n cymryd rhan yn cael ei gynnal. Oherwydd hynny, dylid dehongli'r canfyddiadau yn ofalus, gan eu bod yn adlewyrchu cyfran gyfyngedig o'r boblogaeth tenantiaid.

Mae lledaeniad daearyddol hefyd yn gyfyngiad sylweddol. Gyda 22 awdurdod lleol ledled Cymru, y bwriad oedd cyflawni dosbarthiad rhesymol gytbwys o ymatebion. Fodd bynnag, ni wireddwyd hyn yn ymarferol. Roedd ymatebion arolwg SATC 2023 wedi'u crynhoi'n drwm yng Nghasnewydd (37%) a Sir Benfro (19%), gyda chynrychiolaeth gyfyngedig o lawer o ardaloedd eraill a dim ymatebion gan denantiaid yn Ynys Môn a Gwynedd. Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer arolwg yr ORP, lle'r oedd yr ymatebion wedi'u crynhoi yng Nghastell-nedd Port Talbot (15%), Wrecsam (14%), a Merthyr Tudful (12%).

Mae proffil demograffig yr ymatebwyr hefyd yn llunio'r canfyddiadau. Cwblhawyd y ddau arolwg yn bennaf gan gyfranogwyr benywaidd (70% SATC; 72% ORP), gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn uniaethu fel gwyn (93% SATC; 95% ORP). Adroddodd cyfran uchel o'r ymatebwyr am anabledd (66% SATC; 67% ORP). O'i gymharu â'r boblogaeth ehangach o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, lle mae 54% yn fenywod a 46% yn ddynion, 94.8% yn uniaethu fel gwyn, a 34% yn nodi anabledd, mae'r samplau hyn yn cynnwys cyfran uwch o ymatebwyr benywaidd ac anabl ond cyfran debyg o ymatebwyr gwyn ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)). Gan nad yw'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, efallai na fydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn adlewyrchu barn a phrofiadau'r boblogaeth hon yn llawn. Am arddangosfa fanylach o nodweddion yr ymatebwyr, cyfeiriwch at Atodiad A.

Wynebodd cyfranogiad mewn cyfweliadau tenantiaid a grwpiau ffocws heriau tebyg. Recriwtiwyd y rhan fwyaf o denantiaid drwy'r broses gofrestru ar gyfer yr arolwg, gan wneud

ymgysylltiad yn ddibynnol i raddau helaeth ar gwblhau'r arolwg. Roedd ymdrechion ychwanegol, megis dosbarthu taflenni gyda chodau QR i ganiatáu i denantiaid gofrestru diddordeb yn uniongyrchol, yn aneffeithiol i raddau helaeth. Ar y cyfan, roedd cyfanswm y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws yn gyfyngedig, gyda chyfranogiad isel iawn ymhlith tenantiaid ORP (4 cyfranogwr i gyd) a chynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau SATC 2023 yn ystod pythefnos olaf y gwaith maes. Nid yw'n bosibl darparu proffil demograffig o'r rhai a gafodd eu cyfweld, gan na chasglwyd unrhyw wybodaeth bersonol wrth gofrestru er mwyn amddiffyn preifatrwydd cyfranogwyr.

Ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol

Ymgysylltwyd â landlordiaid cymdeithasol drwy arolwg a chyfweiliadau. Yn wahanol i denantiaid, roeddent yn gyfarwydd â SATC 2023 ac ORP, felly cynhaliwyd yr ymgysylltiad ar yr un pryd lle bo'n bosibl er mwyn osgoi blinder cyfranogiad.

Nod ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol oedd archwilio eu hymwybyddiaeth, eu profiadau a'u safbwyntiau ar SATC 2023 ac ORP. Roedd hyn yn cynnwys eu dealltwriaeth o'r gofynion, digonolrwydd y canllawiau a'r gefnogaeth sydd ar gael, heriau wrth fodloni safonau, dulliau o asesu cydymffurfiaeth a chymhwysedd, a chanlyniadau canfyddedig, megis cynnydd, ymarferoldeb, ac effaith. Er bod yr arolygon wedi casglu adborth eang gan ystod eang o landlordiaid cymdeithasol, hwylusodd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws archwiliad mwy manwl o brofiadau a dulliau sefydliadol.

Datblygwyd un arolwg yn cwmpasu SATC 2023 ac ORP gan y tîm ymchwil a'i ddosbarthu i landlordiaid cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Cynlluniwyd yr arolwg i gymryd llai na 15 munud i'w gwblhau ac fe'i gynhaliwyd ar Microsoft Forms. Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg rhwng Mai a Hydref 2025. Derbyniwyd cyfanswm o 32 ymateb. Mewn rhai achosion, cyflwynwyd mwy nag un ymateb fesul landlord cymdeithasol gan fod y cwestiynau a ofynnwyd yn berthnasol i fwy nag un rôl o fewn y sefydliad, o ystyried eu strwythurau mewnol. Allan o'r 45 landlord cymdeithasol yng Nghymru, cysylltwyd â 27 yn llwyddiannus, sy'n golygu bod cynrychiolaeth o 60% wedi'i chyflawni. Derbyniwyd ymatebion gan 8 allan o 11 awdurdod lleol (73%) a 19 allan o 34 (59%) cymdeithas tai.^[troednodyn1]

Roedd cyfweiliadau'n lled-strwythuredig ac yn cael eu cynnal o bell trwy Microsoft Teams. Casglwyd diddordeb mewn cymryd rhan trwy ffurflen mynegi diddordeb ac o restr o fanylion cyswllt landlordiaid cymdeithasol a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru. Parhaodd y

Footnotes

[1] Mae awdurdodau lleol yn berchen ar oddeutu 36% o dai cymdeithasol tra bod LCCau yn berchen ar oddeutu 64%. Mae maint eu stoc tai yn amrywio'n fawr gan fod maint stoc awdurdodau lleol yn amrywio o 3,350 i 14,340 o gartrefi a maint stoc LCCau yn amrywio o 50 i 13,000 o gartrefi.

cyfweiliadau hyd at 60 munud ac roeddent yn ymdrin â naill ai SATC 2023, ORP, neu'r ddau. Rhwng Mai a Hydref 2025, ymgysylltwyd â 15 sefydliad i gyd, gyda 10 trafodaeth yn cael eu cynnal am y ddwy raglen, 4 trafodaeth yn cael eu cynnal ynghylch ORP, ac un drafodaeth yn cael ei chynnal ynghylch SATC 2023.

Dadansoddiad

Cynhaliwyd ystadegau disgrifiadol ar y wybodaeth feintiol a gasglwyd drwy'r 3 arolwg. Dadansoddwyd yr holl fewnwelediadau o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gan ddefnyddio dadansoddiad thematig, a oedd yn cynnwys nodi prif themâu o fewn ac ar draws y wybodaeth a gasglwyd. Roedd dadansoddiadau ansoddol a meintiol yn mynd i'r afael â phynciau tebyg, megis ymwybyddiaeth o'r Safon ddiweddaedig, profiadau gydag ôl-osodiadau diweddar a ysgogwyd gan y Safon neu ORP i denantiaid, a phrofiadau landlordiaid o bontio i a bodloni'r Safon newydd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau tenantiaid a landlordiaid yn thematig ac ochr yn ochr er mwyn rhoi dealltwriaeth fwy cyflawn o'r dystiolaeth.

I gyfleu pa mor gyffredin oedd safbwyntiau penodol ymhlith landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd, defnyddir graddfa ddangosol yn seiliedig ar gyfrannau. Dewiswyd y dull hwn i amlygu patrymau cyffredinol heb awgrymu cywirdeb ystadegol, a fyddai'n gamarweiniol o ystyried maint bach y sampl yn dilyn ymgysylltiad ansoddol, natur nid ar hap y cyfranogiad, a'r ffaith na ellir dehongli diffyg ymateb yn ddibynadwy fel anghytundeb neu gytundeb. Mewn ymchwil ansoddol, gall tawelwch ddigwydd am sawl rheswm: efallai y bydd cyfranogwyr yn teimlo nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddyn nhw, efallai eu bod yn ansicr am eu hateb, neu efallai y byddant yn dewis peidio â chyfrannu ar y foment honno.

Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer y grŵp landlordiaid yn unig oherwydd gofynnwyd yr un cwestiynau neu set debyg o gwestiynau i gyfranogwyr yn fras, gan wneud cymariaethau ar draws y cyfweiliadau yn fwy ymarferol. Dilynodd ymgysylltiad â thenantiaid cymdeithasol, fodd bynnag, strwythur canghennog: gofynnwyd cwestiynau gwahanol i wahanol grwpiau o denantiaid yn dibynnu a oedd eu hól-gosodiadau wedi'u cwblhau, wedi'u cynllunio, neu ddim yn digwydd. Casglom fewnwelediadau hefyd trwy grwpiau ffocws, lle'r oedd lefel a math y cyfranogiad yn amrywio'n fawr rhwng unigolion. Oherwydd y gwahaniaethau hyn, mae'n anodd atgynhyrchu'r dull hwn ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid cymdeithasol.

Mae'r raddfa ganlynol yn berthnasol i ymgysylltu ansoddol â landlordiaid cymdeithasol:

Graddfa	Cyfran
Achosion unigol	Un unigolyn
Ychydig	≥30% o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw
Rhai	31-40% o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw
Llawer	41-50% o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw
Y mwyafrif	51-69% o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw
Y mwyafrif helaeth	70%+ o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw
Pob un	100% o landlordiaid cymdeithasol yn darparu adborth ar y pwnc penodol hwnnw

2.2.3 Dadansoddiad VfM o ORP 3

Cynhaliwyd CBA Cymdeithasol i asesu VfM ORP 3, yn dilyn [canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#). Mae CBA cymdeithasol yn ddull strwythuredig a ddefnyddir i gymharu'r ystod lawn o gostau a buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ymyrraeth mewn termau ariannol. Yn y gwerthusiad hwn, defnyddir y CBA fel un o'r offer dadansoddol i asesu effaith gyffredinol y rhaglen ac i feintioli ei werth cymdeithasol net. Mae VfM, ffocws trosfwaol y dadansoddiad, yn ystyried a yw'r rhaglen yn cynhyrchu buddion cymdeithasol digonol o'i gymharu â'i gostau ac a yw adnoddau wedi'u defnyddio'n effeithiol. Felly mae'r CBA yn darparu tystiolaeth feintiol allweddol sy'n bwydo i'r asesiad VfM ehangach, ond mae VfM hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau ansoddol ehangach a dadansoddiad cyd-destunol y tu hwnt i'r canlyniadau wedi'u monetieiddio.

Mae'r dadansoddiad cyfredol yn monetieiddio'r prif gostau a buddion economaidd-cymdeithasol sy'n deillio o'r rhaglen, gan eu cymharu â senarios 'busnes fel arfer'

gwrthffeithiol lle na chynhaliwyd y rhaglen. Darperir rhagor o fanylion am y tybiaethau dadansoddol, yr adeiladu llinell sylfaen, a gwerthoedd paramedr ar gyfer pob ffrwd fudd yn Atodiad B.

Cwmpas a phecynnau a ddadansoddwyd

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y CBA ar lefel gyffredinol y rhaglen (gan gymharu cyfanswm costau a buddion ORP 3) ac ar lefel y pecyn ôl-osod unigol. Roedd ORP 3 yn cynnwys y mathau canlynol o becynnau ôl-osod:

- Pecyn 1: monitro yn unig (Mesurau 'ffrwythau isel') – monitro, bylbiau golau, inswleiddio lloffttydd, rheolaethau gwres
- Pecyn 2: PV a batri yn unig – PV, batri, PV a batri
- Pecyn 3: newid systemau gwresogi yn unig – ffocws ar newid neu uwchraddio systemau gwresogi heb fesurau ffabrig: pwmp gwres, pwmp gwres hybrid, gwresogydd stôr sy'n cadw gwres yn dda, paneli is-goch
- Pecyn 4: Ffabrig yn unig – ffocws ar wella amlen yr adeilad drwy inswleiddio a gwaith cysylltiedig: Inswleiddio Waliau Allanol (EWI), Inswleiddio Waliau Ceudod (CWI), Inswleiddio Waliau Mewnol (IWI), to newydd, inswleiddio llofft
- Pecyn 5: set gymhleth o fesurau lluosog – pecyn cyfun o ôl-osod ffabrig a systemau: EWI, CWI, IWI, inswleiddio lloffttydd, inswleiddio lloriau, gwelliannau awyru, ffenestri a drysau newydd, Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres (MVHR), PV, batri
- Pecyn 6: set gymhleth o fesurau lluosog a thrydaneiddio gwres – ôl-osodiad dwfn yn cyfuno uwchraddiadau ffabrig a systemau llawn gyda gwres carbon isel: EWI, CWI, IWI, inswleiddio lloffttydd, inswleiddio lloriau, gwelliannau awyru, ffenestri a drysau newydd, MVHR, PV, batri, trydaneiddio gwres drwy bwmp gwres, gwres is-goch, gwresogyddion stôr sy'n cadw gwres yn dda

Oherwydd argaeledd data, roedd y CBA yn canolbwyntio ar 2 becyn:

- Pecyn 2: Systemau PV a batri
- Pecyn 4: mesurau ffabrig yn gyntaf
- Pecynnau 2 a 4 wedi'u cyfuno

Datblygwyd fframwaith CBA hawdd ei ddefnyddio yn Excel i gyd-fynd â'r dadansoddiad hwn a bydd yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru. Mae'r offeryn yn galluogi diweddarau'r prif baramedrau (e.e. costau, data monitro, neu ganlyniadau arolygon) wrth i dystiolaeth

newydd ddod ar gael, gan gefnogi CBAs pecynnau ôl-osod unigol yn y dyfodol ac, yn y pen draw, gwerthusiad llawn ar lefel y rhaglen.

Amserlen a disgowntio

Gan ddilyn arfer safonol, dadansoddwyd costau a buddion y rhaglen dros gyfnod o 30 mlynedd, gan ddechrau yn 2022 i 2023 (Blwyddyn 1 ORP 3) ac yn dod i ben yn 2051/52 (Blwyddyn 30). Mae'r amserlen hon yn alinio â safonau CBA nodweddiadol ar gyfer gwerthusiadau seilwaith a pholisi hirdymor, gan sicrhau bod effeithiau tymor byr a thymor hir yn cael eu casglu ([Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, 2022](#)).

Mynegir costau a buddion yn y dyfodol mewn termau real, sy'n golygu bod chwyddiant wedi cael ei dynnu fel bod modd cymharu'r gwerthoedd dros amser. Cafodd costau a buddion yn y dyfodol yn nhermau real 2022 i 2023 eu disgowntio i bennu eu gwerth presennol, gan ystyried VfM amser (h.y., y dewis o dderbyn buddion nawr yn hytrach nag yn y dyfodol). Cymhwyswyd cyfradd ddisgownt cymdeithasol o 3.5%, fel yr amlinellwyd yn [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#). Mae cyfradd disgownt gymdeithasol yn adlewyrchu egwyddor bod yn well gan bobl yn gyffredinol dderbyn buddion yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach, a bod costau a buddion yn y dyfodol yn cael eu gwerthfawrogi ychydig yn llai na'r rhai sy'n digwydd heddiw. Mae disgowntio felly yn galluogi mynegi holl effeithiau'r dyfodol yn nhelerau heddiw, gan ganiatáu cymhariaeth deg a chyson o gostau a buddion dros amser.

Agregodd y model gostau a buddion disgowntiedig i gyfrifo:

- Gwerth Presennol Net (NPV): y gwahaniaeth rhwng gwerth presennol buddion a gwerth presennol costau
- Cymhareb Buddion a Chostau (BCR): cymhareb gwerth presennol buddion i werth presennol costau

Senarios gwrthffeithiol

Nodwedd bwysig y methodoleg CBA yw y dylid cymharu costau a buddion â senario gwrthffeithiol neu "fusnes fel arfer" – y sefyllfa lle nad yw'r ymyrraeth yn digwydd, h.y., nid yw ORP 3 yn cael ei weithredu. Mae hon yn dybiaeth gritigol mewn unrhyw CBA oherwydd ni all neb arsylwi realiti amgen; mae'r senario gwrthffeithiol yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o beth fyddai wedi digwydd heb y rhaglen. Felly gall y dewis o senario gwrthffeithiol gael effaith sylweddol ar y canlyniadau.

Diffiniwyd dau senario gwrthffeithiol:

1. senario gwrthffeithiol statig

- dim ymyrraeth - mae'r llinell sylfaen geidwadol hon yn tybio na fyddai'r mesurau ôl-osod a gyflwynir o dan ORP 3 yn digwydd fel arall
- o dan y senario hwn, tybir y bydd amodau tai presennol yn aros yr un fath, heb unrhyw welliannau cysylltiedig mewn iechyd, lles, na chanlyniadau amgylcheddol

2. senario cyflwyno gohiriedig

- ôl-osod graddol wedi'i ysgogi gan bolisi - mae'r senario gwrthffeithiol hwn yn tybio y byddai gwelliannau ôl-osod tebyg i ORP 3 yn cael eu gweithredu yn y pen draw, ond ar gyflymder arafach a mwy gwasgarog oherwydd fframweithiau polisi cyfredol, dim cyllid pwrpasol (fel o dan ORP 3), a dynameg y farchnad
- tybir y bydd gweithgaredd ôl-osod yn dechrau ym Mlwyddyn 3, gan symud ymlaen ar 5% o gyfanswm cyfaint ôl-osod ORP 3 y flwyddyn, gyda chwblhad erbyn Blwyddyn 23
- o dan y dybiaeth hon, mae costau a buddion fel ei gilydd yn cronni'n raddol dros amser
- mae disgowntio yn lleihau gwerth presennol buddion gohiriedig, yn enwedig ar gyfer enillion ynni ac iechyd cynnar

Costau

Roedd elfen costau'r CBA yn cynnwys y costau cyfalaf a gosod sy'n gysylltiedig â'r mesurau ôl-osod, yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru yr holl wybodaeth costau sydd ar gael ar gyfer Pecynnau 2 a 4. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer is-set fach o dai wedi'u hôl-osod yr oedd data costau ar gael. Er mwyn amcangyfrif cyfanswm costau Pecynnau, cyfrifwyd cost gyfartalog fesul pecyn a'i chymhwyso i gyfanswm y cartrefi a gafodd eu trin. Mae hyn yn cyflwyno tybiaeth nad yw efallai'n cofnodi amrywiad lleol mewn costau'n llawn, gan gynnwys gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â mathau o eiddo neu nodweddion ardal.

Yn unol ag arfer safonol CBA, dyrannwyd costau yn ôl y flwyddyn y cawsant eu hysgwyyddo, gan adlewyrchu amseriad y gweithgaredd ar draws ORP 3.1 (2022 i 2023), ORP 3.2 (2023 i 2024), ac ORP 3.3 (2024 i 2025).

Buddion

Mae'r CBA yn cofnodi'r prif fuddion economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o ORP 3, gan gynnwys arbedion ynni aelwydydd, gostyngiadau mewn allyriadau carbon, gwell iechyd a lles, a chostau gofal iechyd is. Modelwyd y buddion hyn gan ddefnyddio cyfuniad o ddata monitro, tystiolaeth arolwg, a llenyddiaeth gyhoeddedig, gyda'r holl amcangyfrifon wedi'u meincnodi yn erbyn senarios gwrthffeithiol "dim ymyrraeth" a "chyflwyno gohiriedig".

Arbedion ynni

Mae mesurau ôl-osod o dan ORP 3 yn arwain at arbedion ynni oherwydd bod aelwydydd yn defnyddio llai o adnoddau ynni ar ôl y gwaith. Y gostyngiad hwn mewn defnydd o ynni yw ffynhonnell graidd enillion llesiant cymdeithasol.

Mesurir yr arbedion hyn fel a ganlyn. Oherwydd yr ôl-osodiadau, mae gostyngiadau mewn defnydd aelwydydd o ynni, ac mae'r gostyngiadau hyn yn arwain at filiau ynni is, sy'n cynyddu incwm gwario tenantiaid ac yn cyfrannu at well cysur a llesiant cyffredinol. Ar yr un pryd, mae darparwyr ynni yn profi gostyngiadau refeniw. Mae'n wir bod pob £1 y mae aelwyd yn ei arbed ar ynni yn cyfateb i £1 o refeniw coll i gwmnïau ynni. Fodd bynnag, er bod yr arbediad o £1 i aelwydydd yn ennill llesiant clir, dim ond y gyfran o golled £1 y cwmnïau sy'n cyfateb i elw sy'n cynrychioli colled llesiant. Mae'r gweddill yn adlewyrchu defnydd llai o adnoddau ac nid yw'n golygu colled llesiant cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod effeithiau llesiant net yn cael eu cofnodi'n gywir, mae'r dadansoddiad yn didynnu'r elw coll ac unrhyw drethi cynhyrchu perthnasol sy'n gysylltiedig â gwerthiannau ynni is, gan mai taliadau trosglwyddo rhwng cwmnïau a'r llywodraeth yw'r rhain, a phan fydd gwerthiannau'n methu, mae'r llywodraeth yn colli'r refeniw hwn.

Amcangyfrifwyd arbedion ynni gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan xRI, a ddadansoddodd ddata monitro ar ôl ôl-osod o eiddo ORP 3. Casglwyd y data monitro hwn trwy synwryddion yn y cartref a osodwyd fel rhan o'r rhaglen. Roedd yr amcangyfrifon canlyniadol yn darparu arbedion ynni blyneddol cyfartalog fesul cartref ar gyfer pob pecyn ôl-osod, a oedd yn sail i'r cyfrifiadau budd ynni moneteiddiedig yn y CBA.

Er mwyn pennu cyfran yr arbedion biliau sy'n berthnasol i lesiant, gwnaethom ddefnyddio'r [Tablau Cyflenwad a Defnydd Mewnbwn-Allbwn](#). Ar gyfer y sector trydan, mae gwarged cynhyrchwyr (gwarged gweithredu gros ynghyd â threthi cynhyrchu net) yn cyfrif am 19% o gyfanswm yr allbwn. Ar gyfer y sector nwy, y ffigur cyfatebol yw 12%. Mae cymryd cyfartaledd ar draws y ddau danwydd yn rhoi amcangyfrif rhesymol bod 15% o bob £1 o filiau ynni cartref is yn cyfateb i warged cynhyrchwyr a gollwyd. Mae'r 15% hwn yn cael ei

dynnu o arbedion bil gros i adlewyrchu'r golled llesiant i gynhyrchwyr. Mae'r 85% sy'n weddill yn cynrychioli llesiant cymdeithasol net gwirioneddol, gan fynegi gwerth defnyddio llai o adnoddau oherwydd galw is am ynni. Mae'r driniaeth hon yn gwbl gyson â chanllawiau [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF](#) ar nodi effeithiau economaidd gwirioneddol yn hytrach na throsglwyddiadau.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn adlewyrchu sut mae'r buddion hyn yn esblygu dros amser. Mae rhai technolegau – megis PV a batris (Pecyn 2) yn profi colledion effeithlonrwydd graddol wrth iddynt heneiddio. I fynegi hyn, cymhwyswyd cyfradd diraddio perfformiad cymedrol, yn seiliedig ar dystiolaeth gyhoeddedig a mewnbwn technegol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn tybio bod arbedion ynni ar eu huchaf yn syth ar ôl eu gosod ac yn dirywio'n araf bob blwyddyn, yn gyson â pherfformiad system a arsylwyd dros amser. Mewn cyferbyniad, disgwylir i welliannau ffabrig yn gyntaf, megis inswleiddio waliau allanol (Pecyn 4), gynnal eu heffeithiolrwydd am lawer hirach, gan eu bod yn dod yn rhan o strwythur yr adeilad ac nad ydynt yn destun yr un draul na diraddio mecanyddol. Yn unol â hynny, ni chymhwyswyd unrhyw ddibrisiant perfformiad i'r mesurau hyn yn yr achos canolog.

Gostyngiadau allyriadau carbon

Mae defnydd ynni is yn arwain yn uniongyrchol at allyriadau nwyon tŷ gwyrdr is. Amcangyfrifwyd yr allyriadau hyn a osgowyd gan ddefnyddio data xRI ar ostyngiadau mewn CO₂. Cyfrifwyd gwerth yr arbedion carbon canlyniadol gan ddefnyddio'r amserlen brisiau carbon ganolog [Department for Energy Savings and Net Zero \(2024\)](#), sy'n neilltuo gwerth ariannol i bob tunnell o garbon a osgowyd.

Roedd y tybiaethau ar barhad y buddion hyn yn adlewyrchu'r rhai a gymhwyswyd ar gyfer arbedion ynni: dirywiad graddol ar gyfer mesurau sy'n seiliedig ar dechnoleg a pherfformiad sefydlog ar gyfer ôl-osodiadau ffabrig yn gyntaf. Mae hyn yn sicrhau cynrychiolaeth gyson a realistig o effeithiau amgylcheddol hirdymor.

Gwelliannau iechyd

Gall amodau tai gwell arwain at iechyd corfforol gwell trwy leihau amlygiad i oerfel a lleithder. Darparodd data o arolwg tenantiaid ORP 3 y sail ar gyfer amcangyfrif enillion iechyd.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg nodi'r mesurau ôl-osod yr oeddent yn gwybod eu bod wedi'u gosod yn eu cartrefi. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon a rheolau hidlo wedi'u diffinio ymlaen llaw, dosbarthwyd yr ymatebwyr i'r pecynnau ôl-osod perthnasol. O'r 274 o denantiaid a gwblhaodd yr arolwg, dosbarthwyd 32.5% (N=89) fel rhai sy'n derbyn mesurau

Pecyn 2 a 7.3% (N=20) fel rhai yn derbyn mesurau Pecyn 4. Ni wnaeth cyfanswm o 126 o ymatebwyr ateb y cwestiynau ymwybyddiaeth ôl-osod ac felly cawsant eu heithrio o ddadansoddiad iechyd penodol i becynnau.

Hefyd, adroddodd yr ymatebwyr am eu hiechyd corfforol cyn ac ar ôl yr ôl-osod gan ddefnyddio graddfa hunan-raddio 5 pwynt. Ar gyfer Pecyn 2, rhoddodd 86 o ymatebwyr sgoriau iechyd cyn ac ar ôl yr ôl-osod: Adroddodd 9 welliant, adroddodd 71 ddim newid, ac adroddodd 6 ddirywiad. Ymhlith y rhai a adroddodd welliant, roedd y newid cyfartalog yn gynnydd o 1 pwynt ar y raddfa 5 pwynt. Ymhlith y rhai a adroddodd ddirywiad, roedd y dirywiad cyfartalog yn 0.5 pwynt (Nodyn: Er na allai ymatebwyr unigol adrodd am newidiadau ffracsiynol, mae hyn yn adlewyrchu cyfartaledd ar draws sawl unigolyn). Ar y cyfan, roedd maint y gwelliant a adroddwyd yn fwy na maint y dirywiad.

Ar gyfer Pecyn 4, rhoddodd 19 o ymatebwyr sgoriau cyn ac ar ôl: adroddodd 4 welliant, adroddodd 15 ddim newid, ac adroddodd neb ddirywiad.

Ar gyfer ymatebwyr a ddarparodd sgoriau iechyd cyn ac ar ôl ôl-osod, mapiwyd y newidiadau hunan-raddio hyn i werthoedd cyfleustodau [EQ-5D](#) - mesur economeg iechyd safonol o ansawdd bywyd. Darperir manylion y dull mapio yn Atodiad B. Yna amcangyfrifwyd gwerthoedd cyfleustodau cyfartalog cyn ac ar ôl ôl-osod, a defnyddiwyd y gwahaniaeth rhyngddynt i gyfrifo Blynnyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd (QALYs); darperir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Mae cyfyngiad allweddol yn ymwneud â nifer yr ymatebion i'r arolwg fesul pecyn. Ar gyfer Pecyn 4, gyda 19 o ymatebion, mae maint y sampl yn is na'r hyn a ystyrir fel arfer yn ddigonol ar gyfer cadernid ystadegol (rheol gyffredinol: N=30). O ganlyniad, mae'n bosib na fydd y gwahaniaethau a welwyd rhwng canlyniadau iechyd cyn ac ar ôl ôl-osod yn ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hyn yn cynrychioli'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar effeithiau iechyd ar gyfer aelwydydd ORP 3.

Mae cyfyngiad arall yn ymwneud â chynrychioldeb sampl yr arolwg. Er bod ymatebion wedi'u derbyn ar draws ystod o feysydd, mae'n bosib na fydd nodweddion yr ymatebwyr (gan gynnwys oedran, incwm, a chyfansoddiad yr aelwyd) yn adlewyrchu'n llawn yr holl aelwydydd ORP 3. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer canlyniadau iechyd, lle gall statws iechyd sylfaenol amrywio'n sylweddol.

Ystyriwyd pwysoli data'r arolwg yn ôl lleoliad gwledig/trefol. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer daearyddiaeth y byddai pwysoli yn ôl rhaniad gwledig/trefol yn unig yn cywiro ac ni fyddai'n gwella cynrychiolaeth ar gyfer ffactorau eraill heb eu harsylwi (e.e., statws economaidd-

gymdeithasol, difrifoldeb yr angen, neu nodweddion anheddau). Ar ben hynny, yn absenoldeb tystiolaeth gref bod effeithiau ôl-osod yn amrywio'n systematig rhwng lleoliadau gwledig a threfol – nad yw'n cael ei nodi gan y dystiolaeth sydd ar gael – gallai cymhwyso pwysoli o'r fath ychwanegu cymhlethdod heb wella cywirdeb yn sylweddol.

Mae tystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu gradd uchel o gysondeb mewn amodau tai cymdeithasol sylfaenol ledled Cymru. Mae SATC yn gosod gofynion ansawdd gorfodol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gynnal cartrefi 'mewn cyflwr da' waeth beth fo lleoliad, gan hyrwyddo cysondeb mewn amodau tai sylfaenol ar draws ardaloedd trefol a gwledig ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)). Yn ogystal, mae ystadegau swyddogol stoc anheddau yn dangos bod tai rhent cymdeithasol yn bresennol ar draws pob ardal awdurdod lleol a bod stoc tai cymdeithasol wedi cynyddu'n eang ledled Cymru mewn blynyddoedd diweddar, heb unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth systematig rhwng gwledig a threfol o ran dosbarthiad deiliadaeth na chyfansoddiad stoc ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)).

Tybiaethau meddiannaeth

Mae amcangyfrif cyfanswm y buddion iechyd yn gofyn am dybiaeth ynghylch nifer yr unigolion sy'n byw ym mhob cartref wedi'i ôl-osod. Gan nad oedd data meddiannaeth ar lefel aelwydydd ar gael o fewn setiau data ORP 3, defnyddiwyd data Cyfrifiad 2021 i ddeillio cyfradd meddiannaeth gyfartalog ar gyfer tai rhent cymdeithasol yng Nghymru (2.20 o bobl fesul cartref). Mae hyn yn cyflwyno ansicrwydd: gall meintiau gwirioneddol aelwydydd ar gyfer derbynwyr ORP 3 fod yn wahanol i'r cyfartaledd rhent cymdeithasol cenedlaethol. Fodd bynnag, yn absenoldeb data meddiannaeth ar lefel eiddo, mae'r dybiaeth hon yn darparu bras amcan rhesymol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Pennu gwerth ariannol ar effeithiau iechyd

Mynegwyd gwelliannau iechyd fel Blynyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd (QALYs), gan gyfuno newidiadau mewn ansawdd a hyd iechyd. Moneteiddiwyd pob QALY ychwanegol ar £70,000 (prisiau 2020 i 21), yn gyson â [canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#). Tybiwyd y byddai effeithiau iechyd yn parhau am 5 mlynedd yn yr achos sylfaenol, gyda chyfnodau amgen (10 ac 20 mlynedd) yn cael eu profi trwy ddadansoddiad sensitifrwydd.

Arbedion costau gofal iechyd

Yn ogystal â gwella lles unigol, gall amodau cartref gwell leihau'r baich ar y system gofal iechyd. Mae cartrefi cynhesach a sychach yn lleihau nifer yr achosion o gyflyrau anadlol a

chardiofasgwlaidd sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau oer a llaith. Cymhwysodd y dadansoddiad dystiolaeth gan [Cost Lawn Tai Gwael yng Nghymru \(Nicol et al. 2019\)](#) ar gostau triniaeth y GIG ar gyfer peryglon sy'n gysylltiedig â thai i amcangyfrif yr arbedion gofal iechyd posibl a gynhrychir gan ORP 3.

Deilliwyd graddfa'r arbedion hyn o'r gostyngiad mewn lleithder a chysur thermol gwell a arsylwyd mewn arolygon tenantiaid, wedi'i gyfyngu i ymatebwyr a dosbarthwyd fel rhai a dderbyniodd mesurau Pecynnau 2 neu 4, yn y drefn honno. Cymhwyswyd y newidiadau a arsylwyd hyn i gostau uned perthnasol y GIG i amcangyfrif arbedion gofal iechyd posibl y gellir eu priodoli i ORP 3. Yna cafodd yr arbedion blynyddol hyn eu hagregu a'u disgowntio i'r gwerth presennol, gan alinio â'r gorwel amser a ddefnyddir ar gyfer buddion sy'n seiliedig ar QALY.

Effeithiau lles

Gall ymyriadau ôl-osod wella lles goddrychol tenantiaid hefyd, drwy well cysur, llai o straen, a gwell diogelwch ynni. Aseswyd effeithiau lles gan ddefnyddio data o arolwg tenantiaid ORP 3, a oedd yn cynnwys cwestiynau lles y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS-4) ar foddhad bywyd, hapusrwydd, ymdeimlad o werth, a gorbryder ([ONS, 2025](#)). Cyfyngwyd y dadansoddiad i ymatebwyr a ddosbarthwyd fel rhai a dderbyniodd fesurau ôl-osod Pecynnau 2 neu 4.

Mynegwyd newidiadau mewn sgoriau lles cyfartalog fel Blynyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu ar gyfer Lles (WELLBYs), gan ddilyn [canllawiau Llyfr Gwyrdd atodol Trysorlys EF ar werthuso lles](#). Mae WELLBYs yn meintoli gwelliannau mewn boddhad bywyd ar raddfa gyson o 0-10 a gellir eu moneteiddio gan ddefnyddio cyfraddau trosi safonol.

Er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith gydag effeithiau QALY, cyflwynwyd gwerthusiadau yn seiliedig ar WELLBY fel achos sensitifrwydd, gan ddangos gwerth cymdeithasol ehangach ORP 3 y tu hwnt i ganlyniadau iechyd ac amgylcheddol.

Buddion ansoddol ehangach

Nodwyd nifer o fuddion ehangach, er nad ydynt wedi'u moneteiddio, drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid a thystiolaeth eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys perthnasoedd gwell rhwng tenantiaid a landlordiaid, ymgysylltiad tenantiaid gwell o ran rheoli ynni, cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau lleol, ac effeithiau dosbarthiadol yn cefnogi aelwydydd incwm isel. Er bod yr effeithiau hyn yn syrthio y tu allan i'r CBA meintioledig, maent yn darparu tystiolaeth ansoddol bwysig o'r gwerth cymdeithasol ac economaidd ehangach a grëwyd gan ORP 3.

Dadansoddiad sensitifrwydd

I brofi cadernid canlyniadau'r CBA, cynhaliwyd cyfres o ddadansoddiadau sensitifrwydd i archwilio sut mae amrywiadau yn y prif dybiaethau yn effeithio ar y canlyniadau. Bwriad hy profion hyn yw dangos pa mor sensitif yw'r canlyniadau i ansicrwydd yn y sylfaen dystiolaeth ac i helpu darllenwyr i ddeall pa dybiaethau sydd bwysicaf ar gyfer casgliadau VfM.

Roedd profion cadernid yn cynnwys amrywiadau yn hyd tybiedig effeithiau iechyd, gan gymharu'r achos sylfaenol 5 mlynedd â gorwelion amser estynedig o 10 mlynedd ac 20 mlynedd. Mae profi cyfnodau hwy yn dangos sut mae canlyniadau'n newid yn dibynnu ar ba mor hir y tybir y bydd gwelliannau iechyd yn parhau. Os yw buddion yn para'n sylweddol hwy na'r achos sylfaen ceidwadol, mae'r gwerth sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cynyddu yn unol â hynny; os ydynt yn pylu'n gynt, mae'r budd cyffredinol yn cael ei leihau. Mae hyn yn helpu i roi cyd-destun i ansicrwydd ynghylch hyd oes effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â gwelliannau tai.

Archwiliodd set bellach o brofion y ffordd y troswyd gwelliannau iechyd i QALYs. Yn y dadansoddiad craidd, defnyddiwyd y dull EQ-5D-5L, gan ei fod yn alinio'n agos â'r raddfa iechyd 5 pwynt a ddefnyddiwyd yn yr arolwg tenantiaid ORP 3. Ar gyfer profi sensitifrwydd, cafodd y canlyniadau iechyd a hunan-adroddwyd hyn eu trosi hefyd gan ddefnyddio'r dull EQ-5D-3L. Mae'r dull hwn yn gosod aelwydydd mewn categorïau iechyd 3 lefel ehangach, gan arwain at enillion QALY amcangyfrifedig mwy ceidwadol (h.y. is). Mae cynnwys y gymhariaeth hon yn caniatáu i bobl nad ydynt yn arbenigwyr weld sut y gall gwahanol ffyrdd o drosi sgoriau iechyd arolygon i werthoedd QALY ddylanwadu ar ganlyniadau, gan ddangos o hyd bod y rhaglen yn cynnig VfM o dan y ddau ddull.

Ar wahân, gwnaethom brofi cynnwys WELLBYs ochr yn ochr â QALYs. Mae WELLBYs yn trosi newidiadau mewn lles goddrychol (a fesurir o'r cwestiynau ONS-4) i uned gyffredin a gwerth ariannol; gan fod lles yn gorgyffwrdd ag iechyd corfforol, ni chafodd WELLBYs eu cynnwys yn y CBA craidd, ond fe'u hychwanegwyd yn y dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos y gwerth cymdeithasol ehangach y tu hwnt i iechyd yn unig. Mae cynnwys WELLBYs yn dangos sut gallai cipio diffiniad ehangach o les gynyddu gwerth cymdeithasol amcangyfrifedig y rhaglen. Mae hyn yn rhoi syniad i ddarllenwyr o'r buddion ychwanegol mae'n bosib nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn metrigau iechyd yn unig.

Yn olaf, cymharwyd y canlyniadau o dan y ddau senario gwrthffeithiol – y senario "dim ymyrraeth" statig a'r senario cyflwyno gohiriedig, lle mae gweithgarwch ôl-osod yn symud ymlaen yn fwy graddol dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae'r gymhariaeth hon yn dangos sut

mae tybiaethau am beth fyddai wedi digwydd heb ORP 3 yn effeithio ar y canlyniadau: mae'r senario gwrthffeithiol statig yn priodoli'r holl fuddion a arsylwyd i'r rhaglen, tra bod y senario gwrthffeithiol cyflwyno gohiriedig yn tybio bod gwelliannau tebyg yn digwydd yn hwyrach ac yn arafach. Mae profi'r ddau senario yn helpu i arddangos bod y rhaglen yn cyflawni VfM positif hyd yn oed wrth dybio llinell sylfaen fwy ceidwadol wedi'i arwain gan bolisi.

3. Damcaniaethau Newid

3.1 Ynglŷn â'r fframwaith Damcaniaethau Newid

Mae fframwaith ToC yn dangos sut mae polisi, ymyrraeth, neu raglen yn arwain at newid. Mae'n amlinellu sut mae adnoddau a buddsoddir (mewnbynnau) a gweithgareddau yn arwain at gynhyrchion uniongyrchol (allbynnau), sydd yn eu tro yn gallu cyflawni amcanion polisi (canlyniadau ac effeithiau). Yn y dadansoddiad hwn, mae'r ddau ToC yn dangos sut y gellir cyflawni nodau pob menter a sut y gellir creu newid. Mae'r fframweithiau ToC hyn yn ganolog i'r fethodoleg werthuso, gan ddarparu'r damcaniaethau rhaglen sy'n sail i'r gwerthusiad hwn sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, wedi'i lywio gan egwyddorion realaidd. Yn ogystal â gwasanaethu fel offeryn pwysig ar gyfer effeithiau SATC 2023 ac ORP, maent hefyd yn adnodd gwerthfawr i landlordiaid cymdeithasol, gan eu harwain i gyflawni'r nod o fodloni gofynion y ddwy raglen.

3.2 ToC Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

3.2.1. Mewnbynnau, gweithgareddau, ac allbynnau

Yn ToC SATC 2023, mae'r **mewnbyn** yn cynrychioli fframwaith y Safon. O'r fframwaith hwn, rhaid i landlordiaid cymdeithasol ymgymryd â chyfres o **weithgareddau** mewn trefn gronolegol benodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon.

Gofynion hyd at 31 Mawrth 2025:

Erbyn y dyddiad hwn, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- gynnal WSAs i bennu cam presennol y stoc tai a'r meysydd sydd angen eu gwella
- datblygu polisi cydymffurfiaeth a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru – yna rhaid adolygu'r polisi bob blwyddyn
- adolygu eu cynllun busnes i alinio â'r Safon newydd, wrth asesu eu hanghenion buddsoddi
- cynnwys cynllun ymgysylltu â thenantiaid

Gofynion hyd at 16 Mai 2025:

Erbyn y dyddiad hwn, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- ddarparu'r ffurflen ystadegol flynyddol gyntaf i ddangos y cynnydd a wnaed o ran bodloni'r Safon

Gofynion hyd at 31 Mawrth 2027:


Erbyn y dyddiad hwn, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- lunio TEPs ar gyfer pob eiddo yn eu stoc tai, i ddangos sut y byddant yn bodloni'r gofynion effeithlonrwydd ynni

Yn dilyn WSAs a TEPs, bydd landlordiaid cymdeithasol yn bwrw ymlaen â gweithredu'r gwaith sydd ei angen i fodloni'r Safon, sy'n cynnwys (i) gwelliannau effeithlonrwydd ynni, (ii) gosod mesuryddion ynni clyfar, (iii) uwchraddiadau diogelwch, (iv) moderneiddio mannau mewnol ac allanol a gwella amgylcheddau cartref mewnol.

Yr **allbwn** yw cyflawni cydymffurfiaeth lawn â SATC 2023, gan sicrhau bod yr holl welliannau tai gofynnol yn cael eu cwblhau, bod safonau effeithlonrwydd ynni yn cael eu bodloni, a bod amodau byw yn cael eu gwella ar draws y stoc tai cymdeithasol.

Ffigur 1: ToC SATC 2023: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau



Disgrifiad o Ffigur 1: Ffigur yn dangos y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer fframwaith SATC 2023. Mae'r diagram yn dangos y perthynas rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, ac allbynnau. Mae'n dechrau gyda mewnbynnau, megis cynnal WSAs, llunio TEPs, a gweithredu gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Mae'r rhain yn bwydo i weithgareddau'r fframwaith, gan arwain at y prif allbwn — cyflawni cydymffurfiaeth lawn â SATC 2023.

3.2.2 Canlyniadau

Catgoreiddiwyd canlyniadau canolradd cydymffurfiaeth lawn â SATC 2023 ar draws yr holl stoc tai cymdeithasol yn thematig yn seiliedig ar locws y buddion disgwyledig:


Canlyniadau perfformiad ynni: Perfformiad amlen adeilad gwell, o ganlyniad i welliannau inswleiddio; Effeithlonrwydd ynni tai gwell (sgoriau EPC Band A a SAP 92 / EIR 92); Defnydd ynni mwy clyfar, gan gynnwys systemau monitro ynni ac amgylcheddol; Ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad tenantiaid cynyddol mewn ymddygiadau arbed ynni.

Canlyniadau boddhad a lles tenantiaid: Diogelwch cartref gwell: diogelwch tân a thrydanol gwell, ffenestri/drysau diogel, a llai o risg o ddamweiniau; Cysur thermol: Tenantiaid yn teimlo'n fodlon â'r tymheredd a'r amgylchiadau amgylcheddol yn eu tai; Biliau Ynni Is: Gall inswleiddio priodol ac ynni glân effeithlon leihau'r galw am ynni a thorri costau ynni; Iechyd tenantiaid gwell, gan leihau'r risgiau o salwch sy'n gysylltiedig ag amodau tai gwael.

Canlyniadau effaith amgylcheddol lleiaf: Defnydd dŵr is; Ôl-troed carbon llai o ganlyniad i uwchraddiadau sy'n effeithlon o ran ynni.

Canlyniadau ymgysylltu cymunedol: Cydweithredu cryfach rhwng landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid; Penderfyniadau mwy gwybodus, wedi'u llywio gan ddata ar gyfer tai cymdeithasol.

Ffigur 2: ToC SATC 2023: Canlyniadau




Disgrifiad o Ffigur 2: Ffigur yn dangos canlyniadau'r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer fframwaith SATC 2023. Mae'r diagram yn cyflwyno 4 categori o ganlyniadau: perfformiad ynni, boddhad a lles tenantiaid, effaith amgylcheddol, ac ymgysylltu â'r gymuned.

3.2.3 Effeithiau

Mae buddion y canlyniadau uchod ar eu hochr nhw yn arwain at effeithiau hirdymor, gan gefnogi gweledigaeth SATC 2023: Tai cymdeithasol yng Nghymru yn bodloni'r safonau uchaf o ran diogelwch, cysur, ac effeithlonrwydd ynni, gan gael yr effaith amgylcheddol leiaf posibl.

Effeithiau: Stoc tai cymdeithasol cynaliadwy, sy'n bodloni sgoriau EPC Band A a SAP 92 /EIR 92; Lleihau dibyniaeth ar ynni a thlodi tanwydd, gan arwain at well lles ariannol i denantiaid; Cymunedau iachach: Gostyngiad mewn problemau sy'n gysylltiedig ag iechedd; Gwerth uwch asedau tai cymdeithasol; Arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus ehangach; Mabwysiadu arferion Tai Cynaliadwy yn eang.

Ffigur 3: ToC SATC 2023: Effeithiau



Disgrifiad o Ffigur 3: Ffigur yn dangos effeithiau'r ToC ar gyfer fframwaith SATC 2023. Mae'r diagram yn amlygu'r effeithiau ehangach, hirdymor sy'n deillio o weithredu, gan gynnwys cymunedau iachach, llai o ddibyniaeth ar ynni a thlodi tanwydd, ac arbedion cost i wasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'n dangos sut mae'r effeithiau hyn yn adeiladu ar y canlyniadau cynharach, gan ffurfio'r cam terfynol yn ToC y fframwaith.

3.3 ToC y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

3.3.1. Mewnbynnau, gweithgareddau, ac allbynnau

Yn ToC yr ORP, mae'r **mewnbyn** yn cyfeirio at y cyllid sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. I hawlio'r cyllid ORP yn llwyddiannus, thaid i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â set o ofynion. Unwaith y bydd cyllid wedi'i sicrhau, rhaid iddynt wedyn wneud gwaith gwella penodol o fewn eu heiddo i gyflawni'r ymrwymadau hyn. Y gweithredoedd gofynnol hyn yw'r **gweithgareddau**. Yn fwy penodol:

Gweithgareddau ar gyfer Derbyn ORP 3:

I dderbyn y gronfa ORP 3, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- gwblhau ffurflen gais, gan gynnwys manylion am y gwaith a dadansoddiad o'r gost
- cytuno i ofynion ôl-osod a monitro ORP 3
- cytuno i ddyletswyddau adrodd ORP 3

Gweithgareddau ar ôl derbyn ORP 3:

Ar ôl derbyn y gronfa ORP 3, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- weithredu'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni tai
- osod synwryddion monitro amgylcheddol ac ynni
- osod Systemau Ynni Deallus (ddim yn orfodol)


Gweithgareddau ar gyfer cwblhau'r rhaglen:

I gwblhau'r gwaith ORP 3 yn llwyddiannus, rhaid i landlordiaid cymdeithasol:

- cyflwyno niferoedd ôl-osod, mathau o ymyriadau, a phrif ganlyniadau i Warws Data TrustMark (ers ORP 3.3)
- cyflwyno data cyn ac ar ôl ôl-osod i blatfform Llywodraeth Cymru
- adrodd gwybodaeth eu cyflenwyr i Lywodraeth Cymru
- adrodd adborth ar hyfforddi eu staff a'u cyflenwyr

Mae **allbynnau** cwblhau gwaith ORP 3 yn llwyddiannus yn ddeublyg: anheddau cymdeithasol wedi'u hôl-osod sy'n cefnogi Rhan 3 o SATC 2023, ac astudiaethau achos sy'n arddangos buddion ôl-osod, gan helpu i ysgogi mabwysiadu ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ffigur 4: ToC ORP: Mewnbynnau, Gweithgareddau, ac Allbynnau



Disgrifiad o Ffigur 4: Ffigur yn dangos y ToC ar gyfer yr ORP. Mae'r diagram yn dangos y llif o fewnbynnau drwy weithgareddau i allbynnau. Mae mewnbynnau'n cynnwys cwblhau ffurflenni cais, gosod synwryddion monitro amgylcheddol ac ynni, a gweithredu gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Mae'r gweithredoedd hyn yn arwain at allbynnau megis anheddau cymdeithasol wedi'u hôl-osod ac arddangos buddion ôl-osod i ysgogi ymgysylltu â'r cyhoedd a mabwysiadu ehangach.

3.3.2 Canlyniadau

Categoreiddiwyd canlyniadau canolradd ORP 3 llawn yn yr holl anheddau cymdeithasol yn thematig yn seiliedig yr meysydd ehangach lle rhagwelwyd gwelliannau neu fuddion.

Canlyniadau perfformiad ynni: Perfformiad amlen adeilad gwell, o ganlyniad i welliannau inswleiddio; Effeithlonrwydd ynni tai gwell (sgoriau EPC Band A a SAP 92 / EIR 92); Defnydd ynni mwy clyfar, gan gynnwys systemau monitro ynni ac amgylcheddol; Ansawdd amgylcheddol dan do gwell: Gwell lleithder, lefelau lleithedd, rheolaeth alergenau; Ymwybyddiaeth a chyfranogiad tenantiaid cynyddol mewn ymddygiadau arbed ynni.


Canlyniadau boddhad a lles tenantiaid: Cysur thermol: Tenantiaid yn teimlo'n fodlon â'r tymheredd a'r amgylchiadau amgylcheddol yn eu tai; Biliau Ynni Is: Gall inswleiddio priodol ac ynni glân effeithlon leihau'r galw am ynni a thorri costau ynni; Iechyd tenantiaid gwell, gan leihau'r risgiau o salwch sy'n gysylltiedig ag amodau tai gwael.

Canlyniadau effaith amgylcheddol lleiaf: Ôl-troed carbon llai o ganlyniad i uwchraddiadau sy'n effeithlon o ran ynni.

Canlyniadau ymgysylltu cymunedol: Cydweithredu cryfach rhwng landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid; Penderfyniadau mwy gwybodus, wedi'u llywio gan ddata ar gyfer tai cymdeithasol.

Canlyniadau'r economi werdd a sgiliau: Twf economaidd lleol: Busnesau lleol yn elwa o waith ôl-osod, galw cynyddol am wasanaethau, ac adnoddau gwell; Creu swyddi ac uwchsgilio'r gweithlu: Cyfleoedd cyflogaeth newydd a hyfforddi/uwchsgilio staff.

Ffigur 5: ToC ORP: Canlyniadau




Disgrifiad o Ffigur 5: Ffigur yn dangos canlyniadau'r ToC ar gyfer yr ORP. Mae'r diagram yn grwpio canlyniadau i 5 categori: perfformiad ynni, boddhad a lles tenantiaid, effaith amgylcheddol, ymgysylltiad cymunedol, ac economi a sgiliau gwyrdd. Mae pob categori yn cynrychioli'r meysydd allweddol o welliant a ddisgwylir o weithgareddau ac allbynnau'r rhaglen, gyda chysylltiadau gweledol yn dangos sut mae'r canlyniadau hyn gyda'i gilydd yn cyfrannu at amcanion cyffredinol y rhaglen.

3.3.3 Effeithiau

Mae buddion y canlyniadau uchod ar eu hochr nhw yn arwain at effeithiau hirdymor, gan gefnogi gweledigaeth yr ORP: Darparu cartrefi carbon isel sy'n effeithlon o ran ynni drwy ôl-osod arloesol, gan gefnogi dyfodol cynaliadwy i gymunedau ar yr un pryd.

Effeithiau: Stoc tai cymdeithasol cynaliadwy, sy'n bodloni sgoriau EPC Band A a SAP 92 / EIR 92; Lleihau dibyniaeth ar ynni a thlodi tanwydd, gan arwain at well lles ariannol i denantiaid; Cymunedau iachach: Gostyngiad mewn problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd; Twf economaidd parhaus: Creu swyddi, cadwyn gyflenwi leol wedi'i chryfhau, gweithlu wedi'i uwchsgilio, a swyddi gwyrdd; Arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ehangach; Mabwysiadu arferion Tai Cynaliadwy yn eang.

Disgrifiad o Ffigur 5: Ffigur yn dangos canlyniadau'r ToC ar gyfer yr ORP. Mae'r diagram yn grwpio canlyniadau i 5 categori: perfformiad ynni, boddhad a lles tenantiaid, effaith amgylcheddol, ymgysylltiad cymunedol, ac economi a sgiliau gwyrdd. Mae pob categori yn cynrychioli'r meysydd allweddol o welliant a ddisgwylir o weithgareddau ac allbynnau'r rhaglen, gyda chysylltiadau gweledol yn dangos sut mae'r canlyniadau hyn gyda'i gilydd yn cyfrannu at amcanion cyffredinol y rhaglen.



Disgrifiad o Ffigur 6: Ffigur yn dangos effeithiau'r ToC ar gyfer yr ORP. Mae'r diagram yn dangos yr effeithiau ehangach, hirdymor sy'n deillio o weithredu'r rhaglen, gan gynnwys cymunedau iachach, llai o ddibyniaeth ar ynni, ac arbedion cost ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'n dangos sut mae'r effeithiau hyn yn deillio o ganlyniadau cynharach yn y fframwaith, sy'n cynrychioli cam olaf ToC yr ORP.

4. Canfyddiadau

4.1 SATC 2023

Myfyriodd landlordiaid cymdeithasol ar eu dealltwriaeth o SATC 2023 a'r capasiti o fewn eu sefydliadau i'w weithredu. Gwnaethant drafod yr heriau a wynebwyd, eu profiadau cynnar gyda'r pontio, asesiadau cychwynnol o'u stoc, datblygu polisiau cydymffurfio, a chynlluniau ar gyfer gweithredu, yn ogystal â'u profiadau o ymgysylltu â thenantiaid.

Trafododd tenantiaid eu hymwybyddiaeth o SATC 2023 a'u safbwyntiau ar ansawdd eu cartrefi. Gwnaethant fyfyrho hefyd ar y newidiadau a wnaed eisoes a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer eu heiddo o dan SATC 2023. Trafododd tenantiaid nad oeddent yn ymwybodol o gynlluniau ar gyfer y dyfodol sut y byddent yn dymuno gwella ansawdd eu cartrefi yn lle hynny.

4.1.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith landlordiaid cymdeithasol

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: CY1 – Ymwybyddiaeth o'r Safon ac eglurder y canllawiau; CY3 – Profiadau o weithredu, gan gynnwys pa agweddau sy'n haws neu'n anos eu bodloni; CY4 – Barn ar categorïau cydrannau a dehongli gofynion; CY5 – Profiadau gyda gofyniad adrodd data SATC; CY6 – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti, a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth:**

Adroddodd pob ymatebydd landlord cymdeithasol eu bod o leiaf yn gymharol gyfarwydd â SATC 2023, gyda'r mwyafrif ohonynt yn disgrifio eu dealltwriaeth fel un gynhwysfawr (CY1).

- **Dealltwriaeth wedi'i chryfhau trwy ymgysylltu cynnar:**

Cefnogodd cyfranogiad cynnar yn y gwaith o ddatblygu'r Safon a deialog barhaus â Llywodraeth Cymru eglurder a dehongliad cyffredin o ofynion (CY1).

- **Nodi heriau gweithredu yn gynnar:**

Nodwyd yn gyson mai bodloni Rhan 3 o'r Safon ddiweddaedig oedd yr elfen fwyaf heriol, yn enwedig ar gyfer stoc hŷn sy'n cael ei gwresogi â nwy, gan fynd i'r afael yn

Deall gofynion y Safon

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol am lefelau eu dealltwriaeth o SATC 2023 yn yr arolwg, nododd yr holl ymatebwyr eu bod naill ai'n gyfarwydd iawn (28 allan o 32, sef 88%) â'r Safon neu'n gymharol gyfarwydd (12%). Ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr nad oeddent yn gyfarwydd â SATC 2023 na dewis peidio ag ateb y cwestiwn. Ar ben hynny, nododd rhwng 84% a 100% eu bod yn wybodus iawn neu'n wybodus i raddau am bob un o'r gofynion penodol.

Adlewyrchwyd y lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r Safon newydd yn ein canfyddiadau cyfweiliad hefyd, gyda'r holl landlordiaid cymdeithasol yn nodi bod ganddynt ddealltwriaeth dda o SATC 2023. Pan ofynnwyd iddynt pa mor gynhwysfawr oedd eu dealltwriaeth o'r Safon newydd, disgrifiodd y mwyafrif helaeth o landlordiaid cymdeithasol hi fel dealltwriaeth gynhwysfawr iawn, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am gydymffurfio â gofynion y Safon ddiweddaedig. I'r mwyafrif helaeth, roedd cymryd rhan gynnar yn natblygiad y Safon yn fuddiol, gan helpu i egluro ei gofynion ac annog dealltwriaeth gyffredin o'i phwrpas. Yn ogystal, nododd rhai landlordiaid cymdeithasol fod cyfathrebu parhaus â Llywodraeth Cymru yn cefnogi eu dealltwriaeth a'u gweithrediad parhaus o'r Safon.

"Rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn mynd trwy bob elfen o SATC, ac rydym hefyd wedi bod yn ôl ac ymlaen gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod ein dehongliad o SATC yn gywir. Rydym wedi gwneud llawer iawn o waith ar SATC yn ystod y chwe mis diwethaf." (Landlord)

Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd hefyd fod arbenigedd a dealltwriaeth o'r Safon wedi'i ganoli'n bennaf ymhlith aelodau'r timau sy'n gyfrifol am ei gweithredu, er bod gan weddill y timau o fewn y sefydliad ddealltwriaeth dda o'r gofynion ar wahanol lefelau yn gyffredinol. Disgrifiwyd y gofynion eu hunain fel rhai a oedd wedi'u cynllunio'n dda ond yn sydd yn heriol, ond bod hynny'n briodol o ystyried eu huchelgeisiau.

"Rwy'n credu bod ein dealltwriaeth o'r Safon yn eithaf cynhwysfawr. Mae wedi bod braidd yn hyblyg, fel y dywedwyd wrthym ar y dechrau, ond mae ein dealltwriaeth gyffredinol yn dda [...] Er bod rhai meysydd o'r busnes nad yw'n eu cwmpasu cymaint, o fewn ein tîm canolog a'r sefydliad ehangach, mae lledaeniad eithaf da o wybodaeth ar draws gwahanol lefelau." (Landlord)

Defnydd o gymorth allanol

Ceisiodd llawer o landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd gymorth allanol, yn benodol ar gyfer datblygu llwybrau ynni targed, gan nad oedd ganddynt y sgiliau na'r systemau angenrheidiol yn fewnol. Cafwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru trwy weithgorau a sesiynau un-i-un, a ddisgrifiwyd fel rhai arbennig o ddefnyddiol ar gyfer deall gofynion casglu data. Soniodd un landlord fod staff Llywodraeth Cymru wedi mynd trwy'r Safon gyda nhw ac yn awyddus i ddod â sefydliadau ynghyd i drafod y manteision a'r anfanteision.

Caffaelwyd cymorth allanol yn benodol i ddatblygu TEPs, gan ategu'r asesiadau stoc gyfan, a oedd eisoes ar y gweill. Cydnabu rhai landlordiaid cymdeithasol fod eu sefydliadau yn aml yn brin o'r sgiliau mewnol sydd eu hangen i gwblhau'r TEPs; felly, cyflogwyd contractwyr allanol er mwyn cynnal asesiadau EPC i sicrhau bod data'n gyfredol. Cyflogodd rhai landlordiaid cymdeithasol hefyd gwmnïau arbenigol i ddatblygu llwybrau ynni targed, a helpodd i fapio sut y gallai eiddo wella eu heffeithlonrwydd ynni dros amser. Roedd angen y gefnogaeth allanol hon oherwydd nad oedd gan landlordiaid cymdeithasol y sgiliau mewnol na'r systemau TG i gynnal asesiadau a dadansoddiadau o'r fath.

“O ran amodau'r Stoc Gyfan a'r Llwybrau Ynni Targedig, rydym yn dod â'r data gofynnol yn fewnol gan wahanol contractwyr sy'n ymdrin â gwaith EPC i ni. Er ein bod wedi hyfforddi rhai o'n staff i gynnal profion EPC, rydym wedi canfod ei bod hi'n gyflymach, yn fwy effeithlon, ac yn fwy cost-effeithiol allanoli'r math hwn o waith.”
(Landlord)

Heriau a nodwyd o'r cychwyn cyntaf

Er bod mwyafrif helaeth y landlordiaid cymdeithasol wedi nodi dealltwriaeth drylwyr o'r Safon, disgrifiodd rhai landlordiaid a gyfwelwyd eu bod wedi nodi heriau gyda gweithrediad ymarferol o'r cychwyn cyntaf. Nodwyd yr heriau hyn yn benodol ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol i fodloni Rhan 3 (a drafodir yn fanylach yn yr adran ganlynol) o'r Safon ddiweddaredig, a ystyriwyd fel y prif ddiweddariad o'r hen un ac a oedd yn peri heriau yn dibynnu ar nodweddion eu stoc.

“Bydd targedau ynni bob amser yn heriol, ond rydym yn deall yn llawn pam. Nid wyf yn credu bod hyn yn adlewyrchu gwendid penodol ar ein rhan ni, yn enwedig o ystyried sut mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r gofynion. Mae'r heriau'n gysylltiedig yn bennaf â gweithredu, yn enwedig ar gyfer canran sylweddol o stoc sy'n hen ac wedi'i gwresogi â nwy. Byddwn i'n dweud bod y gofynion wedi'u diffinio'n

dda ac yn heriol, ond rwy'n credu eu bod nhw bob amser wedi'u bwriadu i fod yn heriol." (Landlord)

Teimlai rhai landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd hefyd fod angen dehongli ac egluro ymarferol pellach ar rai agweddau ar y Safon, gan eu bod yn cael eu hystyried yn anymarferol yn weithredol neu o bosibl yn feichus yn ystod y gweithredu. Un enghraifft a drafodwyd oedd gofynion storio allanol ar gyfer beiciau ac offer. Roedd gan lawer o eiddo a adeiladwyd rhwng y rhyfeloedd ar lethrau serth neu wedi'u torri i mewn i lethrau lle gardd cyfyngedig iawn, gan adael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl i ddarparu'r storfa ofynnol heb waith adeiladu sylweddol. Maes amwysedd arall oedd y dull diweddaraf o gasglu ac adrodd data i Lywodraeth Cymru, sydd wedi symud i lefel yr eiddo. Nid oedd rhai landlordiaid a gyfwelwyd yn teimlo bod hyn yn glir ar unwaith ac roedd angen canllawiau ychwanegol arnynt i'w ddeall.

Cododd ychydig o landlordiaid cymdeithasol heriau pellach gyda'r dehongliad cychwynnol o'r Safon, gan gynnwys gosod larymau tân mewn mannau cymunedol, a ystyriwyd yn anymarferol, a chyflwyno'r gydran bioamrywiaeth, a oedd weithiau'n cynnwys ailgyflwyno gerddi a oedd wedi'u tynnu o'r blaen.

4.1.2 Pontio landlordiaid cymdeithasol i'r Safon newydd

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **CY1** – Ymwybyddiaeth o'r Safon ac eglurder canfyddedig y canllawiau; **CY2** – Canfyddiadau o ba mor effeithiol y mae'r pontio o'r hen Safon wedi'i reoli; **CY5** – Profiadau gyda gofynion adrodd data SATC; **CY6** – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Roedd landlordiaid wedi canfod pontio i SATC 2023 yn heriol. Mae tystiolaeth o gyfweiliadau yn awgrymu bod hyn yn bennaf oherwydd y gofynion diweddaedig eu hunain, yn hytrach na sut y rheolwyd y pontio. Disgrifiodd mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a gyfweilwyd y broses bontio fel un llyfn a chefnogol, wedi'i hategu gan ymgynghori cynnar, amserlenni clir, ac ymgysylltiad parhaus gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd ymgorffori cyfyngedig o adborth gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran y gofynion effeithlonrwydd ynni. Dywedodd landlordiaid a holwyd fod canllawiau a sesiynau Llywodraeth Cymru wedi eu helpu i ddeall a gweithredu SATC 2023. Awgrymodd cyfweiliadau fod landlordiaid wedi profi rhywfaint o amrywiad wrth ddehongli a chymhwyso'r Safon newydd, gyda heriau achlysurol wrth ei halinio â gofynion eraill.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Cyfnod pontio heriol:**

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod dwy ran o dair o landlordiaid wedi canfod bod y cyfnod pontio yn heriol neu'n heriol iawn. Eglurodd cyfweiliadau fod yr heriau hyn yn ymwneud yn bennaf â chynnwys, cyflymder ac uchelgais y Safon newydd, yn hytrach na heriau wrth reoli'r cyfnod pontio (CY2).

- **Cyfnod pontio wedi'i reoli'n dda ar y cyfan:**

Mae cyfweiliadau'n amlygu bod ymgynghori cynnar, canllawiau clir, a digon o amser arweiniol cyn mis Hydref 2023 wedi eu helpu i baratoi a chynllunio eu sefydliadau (CY1, CY2).

- **Ymgysylltiad a chefnogaeth werthfawr gan Lywodraeth Cymru:**


Ystyriwyd yn eang fod ymgysylltu parhaus â thimau Llywodraeth Cymru, gweithdai, a chymorth un-i-un yn ddefnyddiol wrth egluro newidiadau, disgwyliadau, a gwahaniaethau gweithredol rhwng Safonau, fel yr adlewyrchwyd mewn cyfweiliadau

(CY1, CY2).

- **Profiadau cymysg o ymgynghori a dylanwad cyfyngedig ar ganlyniadau:**
Er bod rhai landlordiaid wedi canfod bod ymgynghori yn ystyrlon, roedd eraill yn teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan amser, cymhlethdod, a chyfleoedd cyfyngedig i ddeall y goblygiadau'n llawn. Adroddodd rhai landlordiaid a gyfwelwyd nad oedd gan eu hadborth fawr o effaith ar ofynion terfynol y Safon (CY2).
- **Pwysau gweithredu cynnar a phryderon ynghylch dichonoldeb:**
Nodwyd yn gyson mai targedau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio Rhan 3 oedd y mwyaf heriol, wedi'u gwaethygu gan amserlenni tynn, cyfyngiadau cyllidebol, a chyflwr stoc presennol y landlordiaid cymdeithasol, yn yr arolwg a'r cyfweliadau fel ei gilydd (CY6).
- **Cefnogaeth barhaus gyda bylchau sy'n dod i'r amlwg:**
Croesawyd canllawiau ôl-gyhoeddi ac ymgysylltu rheolaidd yn gyffredinol, ond cyflwynodd y gofynion ffurfiol diweddaredig a'r disgwyliadau cyflymach ar gyfer TEPs ansicrwydd a llwyth gwaith ychwanegol (CY5).
- **Dehongliad ac eglurder gofynion anghyson:**
Er gwaethaf canfyddiadau'r arolwg yn dangos eglurder rhesymol, datgelodd cyfweliadau dehongliadau amrywiol o ofynion, gan amlygu'r risg o ddulliau cydymffurfio anghyson (CY1).

Yn yr arolwg, gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol am eu profiad gyda'r pontio i SATC 2023 o fersiynau blaenorol o'r Safon. Disgrifiodd bron i hanner yr ymatebwyr (14 allan o 32, sef 44%) y pontio yn heriol, tra bod 22% arall wedi'i ganfod yn heriol iawn. Fel y dangosir yn Ffigur 1, adroddodd 28% fod y pontio wedi bod yn syml, a chanfu cyfrannau llai ei fod naill ai'n syml iawn (3%) neu ddim yn syml nac yn heriol (3%). Ni ddewisodd yr un ymatebydd fod yn well ganddynt peidio ag ateb.

Ffigur 7: Canfyddiadau o'r pontio i SATC 2023 ymhlith landlordiaid cymdeithasol (n=32)



Disgrifiad o Ffigur 7: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg landlordiaid (n=32) ynghylch profiadau gyda'r pontio i SATC 2023 o fersiynau cynharach o'r Safon. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o 'syml iawn' i 'heriol iawn.' Mae'r siart yn nodi bod cyfran fwy o'r ymatebwyr wedi canfod bod y pontio yn heriol yn hytrach na syml.

Er bod mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol yn yr arolwg wedi disgrifio'r pontio i'r Safon newydd yn heriol, eglurodd y landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd fod hyn yn bennaf oherwydd bod cynnwys y Safon newydd yn anodd ei weithredu ac yn rhy uchelgeisiol o ran nodau ac amserlenni, yn hytrach na'r broses bontio ei hun. Mewn gwirionedd, pan ofynnwyd iddynt sut y cafodd y cyfnod pontio rhwng y ddwy Safon ei drin, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd wedi ei ganfod yn llyfn ac wedi'i reoli'n dda. Cydnabuwyd bod y Safon newydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer ymgynghori ymhell cyn y cyfnod mynd yn fyw ym mis Hydref 2023, a'i bod yn rhagnodol iawn ynghylch disgwyliadau, gan roi canllawiau a digon o amser i sefydliadau baratoi.

Roedd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai yn y Tîm Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a'r Tîm Safonau Tai, yn cael eu hystyried yn sylwgar ac yn ymatebol, gan wneud ymdrechion gwirioneddol i ddeall eu sefyllfaoedd a'u pryderon. Roedd gweithdai a sesiynau gwybodaeth yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer egluro'r gwahaniaethau rhwng y ddwy Safon a gofynion gweithredol ychwanegol, megis casglu

data. Er nad oedd gan swyddogion atebion ar unwaith bob amser, roedd eu hymatebolrwydd a'u cefnogaeth yn cael eu gwerthfawrogi am helpu i reoli'r cyfnod pontio.

Er bod nodau'r Safon ddiwedddaredig yn cael eu cefnogi'n eang gan y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd, arweiniodd ei uchelgais ganfyddedig at rwystredigaethau cynnar. Nododd y mwyafrif helaeth heriau cynnar wrth gyrraedd y targedau datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni (Rhan 3). Ystyriwyd bod y gofynion cyllidebol a'r amserlenni tynn (a drafodir yn fanylach yn yr adrannau canlynol) yn rhoi straen sylweddol ar sefydliadau o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal, disgrifiodd un landlord y gofyniad lloriau newydd fel un "llethol iawn," gan ychwanegu costau ychwanegol ac oedi achlysurol wrth ei gydlyn â gwaith ailaddurno. Teimlai landlord arall fod Cymru yn ceisio aros ar y blaen i weddill y DU, gan osod targedau uchelgeisiol sydd, er eu bod yn cael eu croesawu, weithiau'n afrealistig, yn enwedig o ystyried cyflwr presennol y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru a'r amser cyfyngedig sydd ar gael.

Cyfnod ymgynghori

Roedd barn landlordiaid cymdeithasol wedi'i rhannu ynghylch sut y rheolwyd y cyfnod ymgynghori. Roedd llawer yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrin ag ef yn dda, tra nad oedd llawer o rai eraill yn teimlo bod yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol. Amlygodd y rhai a oedd wedi'i chael yn ddefnyddiol fod cyfathrebu'n glir ac yn amserol, bod digwyddiadau a gweithdai wedi'u trefnu ledled Cymru, bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech weladwy i ymgysylltu â'r sector, a bod digon o amser wedi'i ddarparu ar gyfer ymgynghori. Ar y llaw arall, crybwyllodd y rhai a oedd wedi'i chael yn anefnyddiol yr amserlen fer, y nifer fawr o fynychwyr a oedd yn bresennol yn y gweithdai a'r digwyddiadau, a chymhlethdod deall y goblygiadau llawn, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd rhoi adborth ystyrion.

"I fod yn deg i Lywodraeth Cymru, fe wnaethon nhw'r hyn oedden nhw'n gallu.

Cynhalion nhw sawl gweithdy i'n helpu ni i ddeall y newidiadau rhwng yr hen Safon a'r un newydd. [...] Dw i'n meddwl bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull systemig fel rhan o ailgynllunio'r Safon." (Landlord)

"Ar y pryd, ie, ymgynghorwyd â ni, ac roedd hynny'n ymddangos yn rhesymol. Fy mhetrustod yw efallai nad oeddem yn deall yn llawn ganlyniadau posibl rhai cymalau fel y daethant i'r amlwg yn ddiweddarach. Er enghraifft, gyda'r llwybr ynni targedig, mae'n rhaid i bob cartref fodloni safon C75 erbyn 2030, a daw'r gofynion cynllunio i rym erbyn 2027" (Landlord)

Er bod rhai landlordiaid cymdeithasol wedi nodi bod eu barn wedi cael ei hystyried i ryw raddau, roedd y mwyafrif yn teimlo nad oedd adborth y sector wedi'i adlewyrchu'n llawn yng nghyhoeddiad terfynol y Safon. Adroddwyd mai prif ffocws y drafodaeth oedd gofynion effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio Rhan 3. Amlygodd y landlordiaid cymdeithasol hyn bryderon ynghylch hyfywedd y targedau, cyflymder y gweithredu, ac argaeledd sgiliau a chyllid sydd eu hangen i fodloni'r gofynion newydd. Roedd rhai ohonynt wedi dadlau dros dargedau llai uchelgeisiol neu amserlenni diwygiedig, ond yn aml cafodd eu mewnbwn ychydig iawn o effaith ar y canlyniad. Nododd landlord hefyd anghysondebau technegol a gwrthdaro ehangach o fewn dulliau asesu cyfredol, lle gall mesurau sy'n gwella sgoriau SAP weithiau waethygu Sgoriau Effaith Amgylcheddol (EIR), gan adael sefydliadau'n ansicr ynghylch sut i flaenoriaethu buddsoddiad nes bod methodolegau newydd, megis y [Model Ynni Cartref](#), yn cael eu cyflwyno. Pwysleisiodd landlord arall y ffaith bod y targedau yr un fath ar draws sefydliadau, heb ystyried cyfanswm eu stoc tai.

“Roedd y Safon newydd bob amser yn mynd i fod yn symud tuag at ddatgarboneiddio. Dwi'n meddwl ein bod ni i gyd wedi deall hynny. Dyna'r cyfeiriad oedd y wlad yn mynd iddo. [...] Fe wnaethon ni roi adborth ar hynny, a dw i'n credu bod ein barn wedi cael ei hystyried.” (Landlord)

“Mae cyflawni a darparu adnoddau i fodloni'r Safon ar draws [sawl mil] o eiddo yn sylweddol anos. Felly, o ran yr amserlen, nid oedd yn gymesur mewn gwirionedd.” (Landlord)

Teimlai mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd, er gwaethaf cyfyngiadau capasiti a heriau seilwaith y sector, mai dim ond mân addasiadau a wnaeth Llywodraeth Cymru i ofynion y Safon ddiweddaedig. Er enghraifft, nododd un landlord, er bod croeso i ymestyn y gofynion tymor canolig o 2029 i 2030, ei fod yn cyd-fynd â chyflwyno gofynion mwy heriol, megis y targed SAP 75, a oedd yn lleihau ei fudd, a gwnaeth landlord arall drafod bod cyhoeddi'r Safon newydd ar unwaith yn dilyn yr ymgynghoriad yn atgyfnerthu'r canfyddiad bod adborth y sector wedi cael ychydig iawn o effaith.

“Mae'r targedau maen nhw wedi'u gosod heb gyllid yn afrealistig, a hyd yn oed gyda chyllid, dydyn nhw dal ddim yn ymddangos yn gyraeddadwy oherwydd nad yw'r seilwaith yng Nghymru yn ei le. Nid dim ond yr arian sy'n bwysig, ond hefyd yr amserlenni. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn gwneud y targedau'n afrealistig [...] Mae'n iawn bod yn uchelgeisiol, ond dylai targedau fod yn gyraeddadwy hefyd. [...] Dydw i ddim yn credu bod mewnbwn y sector wedi'i ystyried yn llawn wrth osod dyheadau realistig.” (Landlord)

Cymorth ar ôl i'r Safon gael ei chyhoeddi

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol, “Pa mor ddigonol yw'r cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod i'ch helpu i gyrraedd SATC 2023?” yn yr arolwg, roedd bron i hanner (15 allan o 32, sef 47%) yn ystyried bod y cymorth yn ddigonol iawn. Disgrifiodd 34% arall y cymorth fel yn ddigonol i raddau. Roedd cyfrannau llai yn ystyried y cymorth yn llai cadarnhaol, gyda 12% yn ei sgorio'n annigonol i raddau neu'n annigonol iawn. Teimlai'r gweddill nad oedd y cymorth yn ddigonol nac yn annigonol, neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn. Ni nododd yr un o'r cyfranogwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael.

Daeth mewnwelediadau tebyg i'r amlwg o'n cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol, a nododd, pan gyhoeddwyd SATC 2023, fod Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau defnyddiol ar y Safon newydd. Eglurodd sesiynau gyda chynrychiolwyr y llywodraeth ac ymgynghorwyr y newidiadau a'u cyfeiriad bwriadedig, felly nid oedd unrhyw bethau annisgwyl mawr wrth eu rhyddhau. Cefnogodd sesiynau dal i fyny rheolaidd a chyfathrebu hygyrch sefydliadau ymhellach i ddeall y gofynion newydd.

Er gwaethaf y dull a oedd yn gyffredinol ddefnyddiol, nododd rhai landlordiaid cymdeithasol hefyd fylchau yn y canllawiau a ddarparwyd. Soniasant fod rhai ceisiadau adrodd gan Lywodraeth Cymru wedi creu ansicrwydd. Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys diwygiadau i ofynion cyflwyno data, gyda meysydd newydd wedi'u cyflwyno nad oeddent yn disgwyl iddynt fod yn ofyniad ffurfiol. Er enghraifft, nododd un landlord nad oedd disgwyl gwirio a oedd gan eiddo fesuryddion nwy a thrydan clyfar, er gwaethaf cael ei gynnwys yn y Safon gyhoeddedig, ac roedd hyn yn golygu bod angen ail-wneud rhywfaint o'r gwaith a gwblhawyd yn flaenorol. Soniodd landlord arall nad oedd y cais i gwblhau TEPs ar gyfer cyfran sylweddol o'u stoc tai erbyn 2026 wedi'i gyfleu ymlaen llaw a'i fod yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n creu pwysau ychwanegol y tu hwnt i amserlen wreiddiol SATC 2023, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob TEP gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2027.

Eglurder y gofynion newydd

O ran eglurder gofynion newydd SATC, dywedodd dros hanner y landlordiaid cymdeithasol a holwyd (19 allan o 32, sef 59%) bod y gofynion yn glir iawn neu'n bennaf yn glir. Dywedodd 22% pellach eu bod yn glir i raddau, 13% eu bod yn aneglur i raddau a 6% eu bod yn aneglur iawn. Ni wnaeth yr un o'r ymatebwyr ddewis peidio ag ateb y cwestiwn.

Yn groes i'r darlun cadarnhaol o'r arolwg, datgelodd y cyfweiliadau fod landlordiaid cymdeithasol wedi dehongli'r Safon newydd mewn gwahanol ffyrdd, a oedd weithiau'n creu

dryswch. Adroddodd rhai landlordiaid cymdeithasol mewn cyfweiliadau fod gwahanol ddehongliadau o ofynion, megis y rhai ar gyfer manau awyr agored, wedi arwain at anghysondebau, yn enwedig mewn datblygiadau tai newydd. Nododd rhai nad oedd eu ceisiadau am fframwaith polisi cydymffurfio safonol wedi derbyn unrhyw ymateb ffurfiol, gan arwain at ddulliau amrywiol o gyflwyno eu polisiâu cydymffurfio (a drafodir ymhellach yn yr adran nesaf). Tynnodd un landlord sylw hefyd at fylchau mewn gofynion penodol, megis lleithder a llwydni, nad oeddent wedi'u cynnwys yn llawn yn nrafft cychwynnol SATC 2023. Yn ogystal, nododd landlord arall nad yw SATC yn alinio â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 [Gofynion ansawdd datblygu ar gyfer cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol: 2021, Llywodraeth Cymru, 2021](#)), gan ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod cartrefi newydd eu hadeiladu yn cydymffurfio â'r ddwy safon heb fod angen addasiadau costus ar ôl eu hadeiladu.

“Roedd llawer o sesiynau yn dilyn gweithredu'r Safon newydd. Er enghraifft, gyda chanllawiau polisi: Pryd bynnag y byddai'r pwnc hwn yn codi, byddai llawer o landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau yn gofyn a oedd templed neu ganllawiau pennawd. Yr ymateb a gawsom fel arfer oedd bod pob sefydliad yn wahanol, felly mae angen i bolisiâu fod yn briodol ac yn addas ar gyfer pob sefydliad. Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi darganfod eu bod bellach yn ystyried cael gwared ar y gofyniad polisi. Y rheswm yw bod y ffurflenni wedi amrywio'n fawr o ran ansawdd a sylwedd. Pe baent yn darparu templed, gallai pawb ei lenwi'n gyson.” (Landlord)

4.1.3 Profiad landlordiaid cymdeithasol gyda'r gofynion adrodd diweddaedig

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **CY1** – Eglurder canfyddedig y canllawiau (wedi'i gyfyngu i ddisgwyliadau polisi cydymffurfio); **CY4** – Barn ar gategorïau cydrannau, gan gynnwys dehongli codau asesu; **CY5** – Profiadau gyda gofynion adrodd data SATC;

CY6 – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Mae tystiolaeth yn dangos, er bod landlordiaid cymdeithasol wedi ymgysylltu'n weithredol â pholisi cydymffurfio SATC 2023 ac, mewn rhai achosion, eu bod wedi'i ganfod yn werthfawr ar gyfer egluro blaenoriaethau a chyfyngiadau sefydliadol, profwyd

y broses yn eang fel un feichus, yn bennaf yn gysylltiedig â'r gofynion ffurflenni data. Yn ymarferol, roedd llawer o landlordiaid yn cyfuno'r polisi cydymffurfio strategol â'r ffurflenni data yn y cyfweiliadau, yn rhannol oherwydd bod y ddau wedi'u datblygu ar yr un pryd a'u trafod gyda'i gilydd, ac yn rhannol oherwydd nad oedd y cyfweleion bob amser yr unigolion sy'n gyfrifol am gyflwyno'r data.

Arweiniodd diffyg templedi safonol a chanllawiau esblygol ynghylch y polisi cydymffurfio at ddryswch, dehongliadau amrywiol, a gofynion sylweddol ar adnoddau.

Hefyd, adroddodd rhai landlordiaid am heriau ymarferol gyda'r ffurflenni, gan ddisgrifio'r broses fel un sy'n cymryd llawer o amser, sy'n rhy fanwl, ac sydd o werth cyfyngedig wrth wella ansawdd bywyd tenantiaid.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Aneglurder polisi cydymffurfio a gofynion adrodd data:**

Cyfunodd y mwyafrif helaeth o landlordiaid yn y cyfweiliadau'r polisi cydymffurfio strategol â ffurflenni ystadegol estynedig, yn bennaf oherwydd bod y ddau wedi'u harchwilio ar yr un pryd yn ystod cyfweiliadau, yn ogystal ag oherwydd eu natur gyd-ddibynnol a graddfa'r newid sy'n gysylltiedig â'r ddau. Creodd hyn ddryswch ynghylch pwrpas a chwmpas, gan gynyddu'r baich gweinyddol (CY5).

- **Ymgysylltiad gweithredol â datblygu polisi cydymffurfio:**

Roedd yr holl landlordiaid a gyfwelwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â chwblhau'r polisi cydymffurfio.

Roedd ychydig o landlordiaid cymdeithasol yn ei ystyried yn ymarfer adeiladol a wellodd ddealltwriaeth o SATC 2023 a chefnogodd gynllunio mwy realistig wedi'i alinio â blaenoriaethau sefydliadol (CY1).

- **Diffyg canllawiau a disgwyliadau anghyson ynghylch cyflwyniadau polisi cydymffurfio:**

Arweiniodd y diffyg canllawiau cynnar neu dempledi at amrywiad eang mewn cyflwyniadau polisi cydymffurfio, gyda landlordiaid yn dehongli'r gofynion yn wahanol ac yn cynhyrchu allbynnau o wahanol hyd, ffocws a chymhlethdod (CY1, CY6).

- **Pryderon ynghylch cymesuredd a VfM:**

Cwestiynodd llawer o landlordiaid a oedd yr ymdrech oedd ei hangen i gynhyrchu ffurflenni ystadegol mor fanwl yn darparu buddion cymesur, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd bywyd tenantiaid (CY6).

Mae'r tîm gwerthuso'n cydnabod bod dryswch yn ymarferol rhwng y polisi cydymffurfio a'r gofynion adrodd ar ffurflenni data ystadegol weithiau, gan fod y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol wedi'u cymysgu yn ein trafodaethau cyfweiliad. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y ddau bwnc wedi'u trafod ar yr un pryd yn ystod y cyfweiliadau ac oherwydd efallai nad oeddem wedi siarad â'r unigolion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi a chyflwyno'r ffurflenni data. O ganlyniad, roedd y gwahaniaeth rhwng y polisi cydymffurfio, fel dogfen gyd-destunol, strategol, a'r ffurflenni ystadegol, sydd yn gwbl ffeithiol ac wedi'u bwriadu i ddangos cynnydd, weithiau'n aneglur yn ein trafodaethau. Am y rheswm hwn, rydym yn cyflwyno'r polisi cydymffurfio a'r ffurflenni ystadegol o fewn yr un adran (gydag is-adrannau ar wahân), gan nodi, yn ymarferol, fod y llinellau rhyngddynt weithiau'n aneglur mewn trafodaethau cyfweiliad.

Profiadau gyda chyflwyno polisi cydymffurfio

Nododd pob landlord cymdeithasol a gyfwelwyd eu bod wedi ymwneud yn uniongyrchol â chwblhau'r polisi cydymffurfio ar gyfer SATC 2023. I ychydig o landlordiaid cymdeithasol, roedd y polisi cydymffurfio yn cynnig cyfle i adolygu gofynion deddfwriaethol ochr yn ochr â'u blaenoriaethau sefydliadol. Helpodd nhw i nodi prif flaenoriaethau a chydabod cyfyngiadau sefydliadol, gan gefnogi cynllunio mwy realistig. Roedden nhw'n cydnabod yr angen am ddulliau wedi'u teilwra yn hytrach nag ateb un maint i bawb. Disgrifiodd un landlord y datganiad cydymffurfio fel datganiad ffurfiol o sut maen nhw'n bwriadu cyflawni gofynion SATC, gan ddarparu strwythur i'w cynllunio a'u penderfyniadau.

“Cymerodd y polisi cydymffurfio newydd [...] sawl wythnos i mi ei gwblhau yn y diwedd. Roedd angen llawer o ymchwil, ond nid oedd hynny'n beth drwg; fe wnaeth i mi ddarllen a deall y Safon yn drylwyr. Ni allwch wneud sylwadau ar rywbeth oni bai eich bod yn ei ddeall yn llawn. Ni allwch ysgrifennu polisi ar gyfer rhywbeth nad ydych yn ei ddeall. Mewn sawl ffordd, roedd yn broses dda, ond ar y pryd, roedd yn teimlo'n eithaf poenus, a dweud y gwir.” (Landlord)

Adroddodd y mwyafrif helaeth o landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd am ddryswch ynghylch yr hyn a ddisgwyd yn y polisïau a gyflwynwyd, gan nodi nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu templed i arwain y broses gyflwyno. Er bod y polisi cydymffurfio yn ofyniad o'r safon flaenorol, cyflwynodd y Safon newydd wybodaeth ychwanegol yr oedd angen ei chynnwys. O ganlyniad, dehonglodd pob sefydliad y gofynion yn wahanol, gan arwain at gyflwyniadau a oedd yn amrywio o ran hyd, ffocws a strwythur. Er enghraifft, mynegodd un landlord cymdeithasol amrywiad yn ei ddull, gan nodi bod eu polisi yn fwriadol fyr ac yn canolbwyntio ar yr elfennau hanfodol, tra bod sefydliadau eraill wedi buddsoddi

cryn dipyn o amser ac adnoddau i gynhyrchu llyfrynnau cydymffurfio ar raddfa lawn. Awgrymodd landlord arall y gallai'r materion hyn fod wedi cyfrannu at benderfyniad diweddarach Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r gofyniad ar gyfer cyflwyno polisïau cydymffurfio, yn ôl pob tebyg mewn ymateb i'r amrywiad eang mewn dulliau ar draws y sector.

“Roedd y polisi cydymffurfio yn llawer o waith. Cafodd ei allanoli, ac a dweud y gwir, dydw i ddim yn siŵr pa werth a ychwanegodd. Yn bennaf, mae'n dweud wrth denantiaid, a Llywodraeth Cymru, beth rydyn ni'n mynd i'w wneud beth bynnag.”
(Landlord)

Profiadau gyda gofynion ffurflenni data

O ran y gofynion ffurflenni ystadegol, roedd rhai landlordiaid cymdeithasol o'r farn bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar ofynion diweddaredig ar lefel a math y dystiolaeth i gefnogi asesiad o gydymffurfiaeth ag elfennau unigol y Safon yn aneglur. Mewn rhai achosion, trafodasant fod adolygiadau diweddarach Llywodraeth Cymru yn wahanol i'w cyngor cychwynnol. Er enghraifft, nododd landlord fod hyd yn oed swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn ansicr i ddechrau ynghylch y lefel ddisgwyliedig o fanylder neu'r math o ddata i gefnogi glynu wrth elfennau SATC.

Hysbysodd swyddogion Llywodraeth Cymru ni fod y newid o adrodd cyfanredol i ddata lefel eiddo yn amlygu nad oedd asesiadau weithiau wedi'u hategu gan dystiolaeth gofnodedig o dan drefniadau blaenorol, gyda chydymffurfiaeth yn aml yn cael ei thybïo yn absenoldeb gwybodaeth i'r gwrthwyneb. Mae'r Safon ddiweddaredig a'i gofynion casglu data cysylltiedig yn gwneud yr absenoldeb hwnnw'n eglur.

“Yn y pen draw, darparodd Llywodraeth Cymru dampled, ond am fisoedd, roedd landlordiaid yn gofyn sut ddylem ei gyflwyno yn ystod pob digwyddiad ynghylch y polisi cydymffurfio^[troednodyn2]. CSV, tabiau ar wahân, ac ati. Yr ateb cyson oedd, ‘Anfonwch yr hyn sydd gennych chi atom ni; byddwn ni'n delio ag ef.’ Achosodd hyn broblemau ymarferol. Erbyn dechrau 2025, roedden ni eisoes wedi comisiynu [nifer] o arolygon, ond roedd y daenlen gofynion data terfynol yn cynnwys meysydd nad oedden ni erioed wedi'u gweld o'r blaen. Felly, roedd gennym ni ddata arolwg nad oedd yn bodloni'r fanyleb ofynnol yn llawn.” (Landlord)

Footnotes

[2] Mae'r mater hwn yn ymwneud â'r ffurflen ddata yn hytrach na'r polisi cydymffurfio; cyfeiriodd y landlord at y polisi cydymffurfio mewn camgymeriad.

Y tu hwnt i'r ansicrwydd, adroddodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod cyflwyno'r gofynion adrodd ar gyfer bodloni'r Safon yn cynnwys tasgau rhy fanwl a llafurus ac yn llawer mwy cymhleth na gofynion y Safon flaenorol. O ganlyniad, roeddent yn cwestiynu gwerth adrodd mor fanwl. Teimlai landlord arall hefyd nad oedd yr ymdrech ofynnol yn gwneud llawer i wella ansawdd bywyd tenantiaid o'i gymharu â gwelliannau mwy pendant, gan wneud i'r broses ymddangos yn aneffeithlon ac nid yn werth da am arian.

4.1.4 Safbwyntiau landlord ar ymgysylltu â thenantiaid

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2 – Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Amcan 1 (yn anuniongyrchol) – Deall ymwybyddiaeth, cynhwysiant a chyfranogiad tenantiaid yn SATC 2023 (fel yr adroddwyd gan landlordiaid)

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 2: CY3** – Profiadau gweithredu, gan gynnwys pa agweddau sy'n haws neu'n anos eu bodloni; **CY6** – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith. **Amcan 1: CY1** – Ymwybyddiaeth tenantiaid o SATC 2023 (tystiolaeth ddirprwyol); **CY2** – A yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn wybodus ac yn ymgysylltu (tystiolaeth ddirprwyol)

Mae dystiolaeth yn dangos bod landlordiaid cymdeithasol yn cydnabod ymgysylltiad tenantiaid fel agwedd hanfodol ond heriol o gyflawni SATC 2023. Er bod y mwyafrif helaeth o landlordiaid yn defnyddio strategaethau ymgysylltu strwythuredig, mae llawer yn nodi anawsterau wrth gynnal ymgysylltiad tenantiaid eang a chynrychioliadol. O safbwyntiau landlordiaid, mae ymwybyddiaeth tenantiaid o SATC 2023 yn gyfyngedig yn gyffredinol, gydag ymgysylltiad yn aml yn cael ei yrru gan effeithiau uniongyrchol, pendant yn hytrach nag amcanion ehangach y Safon. Mae pryderon ynghylch aflonyddwch, fforddiadwyedd, a thechnolegau anghyfarwydd yn llunio eu safbwynt ymhellach.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Ymwybyddiaeth canfyddedig isel gan denantiaid o SATC 2023:**

O safbwyntiau landlordiaid cymdeithasol, mae tenantiaid yn gyffredinol yn dangos ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig o SATC 2023 fel fframwaith polisi, yn enwedig ei elfennau technegol sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Disgrifiwyd cysyniadau megis sero net a lleihau carbon fel rhai haniaethol ac anodd i denantiaid uniaethu â nhw oni bai eu bod yn gysylltiedig â buddion ymarferol (Amcan 1).

- **Defnyddio dulliau ymgysylltu aml-sanel strwythuredig:**

Adroddodd y mwyafrif helaeth o landlordiaid cymdeithasol eu bod wedi mabwysiadu strategaethau ymgysylltu aml-sanel, gan gynnwys arolygon boddhad tenantiaid, grwpiau tenantiaid, digwyddiadau cyhoeddus, cylchlythyrau, gwefannau, a chyfryngau cymdeithasol. Amlygodd cyfweiliadau enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu cam wrth gam, gyda chyfathrebu cyn y gwaith i egluro'r pwrpas a'r blaenoriaethau, ac yna adborth ar ôl cwblhau i gasglu barn tenantiaid (CY6).

- **Cyfngiadau ar gyrhaeddiad a chynrychioldeb ymgysylltu:**

Adroddodd ychydig o landlordiaid fod ymgysylltiad tenantiaid yn aml yn cael ei ddominyddu gan grŵp bach o breswylwyr hynod ymgysylltiedig nad ydynt efallai'n adlewyrchu'r boblogaeth denantiaid ehangach. Disgrifiwyd ymgysylltu y tu hwnt i'r grŵp hwn yn eang fel anodd, gyda rhai landlordiaid yn adrodd bod tenantiaid yn dangos diddordeb cyfyngedig yn SATC y tu hwnt i'r effeithiau uniongyrchol ar eu cartrefi eu hunain (CY6).

- **Ystyrir ymgysylltiad tenantiaid fel maes lle mae lle i wella:**

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod hanner y landlordiaid cymdeithasol yn teimlo'n niwtral ynghylch eu gallu i ymgysylltu â thenantiaid yn effeithiol, tra bod tua thraean yn dweud eu bod wedi canfod ymgysylltu â thenantiaid yn anodd i raddau neu'n anodd iawn. Mae'r cyfweledigion yn dangos amrywiad mewn hyder ac effeithiolrwydd ar draws sefydliadau, ynghyd â llawer o landlordiaid cymdeithasol yn cydnabod y gellid gwneud mwy i'r perwyl hwnnw (CY3).

- **Gwrthwynebiad i fesurau effeithlonrwydd ynni, yn enwedig pymptiau gwres o'r aer:**

Amlygodd ychydig o landlordiaid wrthwynebiad tenantiaid i bympiau gwres o'r aer, wedi'i yrru gan bryderon ynghylch costau gweithredu, ymateb gwresogi arafach, sŵn, ac anghyfarwyddrwydd. Adroddwyd hefyd bod sôn negyddol ar lafar gwlad a chyhoeddusrwydd gwael o osodiadau cynnar yn dylanwadu ar agweddau tenantiaid. Nododd landlordiaid fod newidiadau fframio o ran cysur ac arbedion biliau posibl wedi helpu i wella ymgysylltiad (Amcan 1 – Cynhwysiant a chyfranogiad).

Yn yr arolwg, gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol pa mor anodd oeddent yn ei chael hi i fodloni'r gwahanol ofynion ar gyfer SATC 2023, a nododd hanner yr ymatebwyr eu bod yn 'niwtral' o ran ymgysylltu â thenantiaid yn effeithiol. Nododd 34% pellach (11 allan o 32) y byddent yn ei chael hi'n anodd iawn (16%) neu'n anodd i raddau (19%) i ymgysylltu'n

effeithiol â thenantiaid. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt sut roeddent yn bwriadu ymgysylltu â thenantiaid ynghylch newidiadau a wnaed i'w cartrefi, arolygon boddhad tenantiaid (23%), grwpiau tenantiaid (20%), a chyfryngau cymdeithasol (15%) oedd yr opsiynau a ddewiswyd amlaf. Mae mewnwelediadau o gyfweliadau â landlordiaid cymdeithasol yn darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau o ymgysylltu â thenantiaid fel rhan o'r Safon newydd.

Ymgysylltu a chyfathrebu â thenantiaid

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol sut maen nhw'n bwriadu ymgysylltu â thenantiaid ar gyfer SATC 2023 mewn cyfweliadau, dywedodd y mwyafrif helaeth eu bod yn trefnu ymgysylltu â thenantiaid o amgylch dulliau strwythuredig, aml-sianel i gynnwys preswylwyr drwy gydol y broses. Mae strategaethau ymgysylltu â thenantiaid yn gyffredinol yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyfleoedd i roi adborth, gan sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o waith a gynlluniwyd ac yn deall ei bwrpas. Roedd enghreifftiau a rannwyd gan landlordiaid cymdeithasol yn cynnwys paneli tenantiaid pwrpasol a thimau cyfranogiad, digwyddiadau cyhoeddus, cylchlythyrau, a chynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â SATC ar eu gwefannau, yn ogystal â phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Disgrifiodd un landlord ddull 2 gam hefyd, gyda briffiau cyn y prosiect i hysbysu tenantiaid am waith a gynlluniwyd, gofynion cydymffurfio â SATC, a blaenoriaethau, ac adborth ar ôl cwblhau i gasglu barn preswylwyr ar ganlyniadau a phrosesau. Eglurodd landlord arall o sefydliad cydfuddiannol fod cynnwys tenantiaid hefyd yn ymestyn i benderfyniadau ar gyllidebau a chynlluniau busnes, gan ddylanwadu ar ba brosiectau sy'n cael eu cyflawni a chefnogaeth i fentrau, megis ôl-osodiadau cynhesrwydd fforddiadwy.

“Mae gennym grŵp cyfranogiad tenantiaid eithaf gweithgar, ac ymgynghorwyd â nhw'n llawn a'u cadw'n wybodus drwy gydol y broses. Dros yr haf, cynhaliwyd saith neu wyth digwyddiad gennym yn y gymuned. Bu swyddogion tai a staff cynnal a chadw'n bresennol, ac roedd tenantiaid yn gallu dod i siarad â ni gydag unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch SATC.” (Landlord)

Fodd bynnag, dywedodd llawer o landlordiaid cymdeithasol nad oedd ymgysylltiad tenantiaid â SATC 2023 mor effeithlon â byddant wedi dymuno ag sy'n ofynnol, gan gydnabod bod modd gwella hynny. Nododd rhai er bod rhai tenantiaid yn cymryd rhan, ar y cyfan roedd cyfranogiad yn gyfyngedig ac yn aml, grŵp bach o denantiaid ymroddedig, nad oeddent yn cynrychioli'r sylfaen ehangach o denantiaid, fyddai'n ei yrru. Adroddwyd bod ymgysylltiad y tu hwnt i'r cylch hwnnw yn anodd, oherwydd bod gan y rhan fwyaf o denantiaid agwedd ddifater yn gyffredinol tuag at drafodaethau neu fentrau ehangach, gan

ganolbwyntio ar y gwaith uwchraddio a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu cartrefi nhw'n unig.

“Mae gennym ni grŵp tenantiaid bywiog, ond mae'n fach iawn ac, yn fy marn i, nid yw'n cynrychioli'r holl denantiaid ar draws y fwrdeistref. Rydym wedi rhannu'r Safonau gyda nhw, ond nid wy'n siŵr eu bod nhw wedi cyfrannu rhyw lawer atynt. Er ein bod ni'n ceisio ei hyrwyddo, yn bennaf drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac rydym wedi dechrau torri'r Safonau'n adrannau llai, mae modd gwella.” (Landlord)

Ymateb tenantiaid i'r SATC 2023

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol mewn cyfweiliadau am ymwybyddiaeth tenantiaid o SATC 2023 a sut maent yn effeithio ar eu bywydau pob dydd, nododd rhai fod diffyg diddordeb cyffredinol ymhlith tenantiaid. Arsylwodd rhai landlordiaid fod gan y rhan fwyaf o denantiaid ddealltwriaeth gyfyngedig o'r agweddau mwy technolegol o'r Safon a phrin yw'r diddordeb maent yn ei fynegi mewn ystyriaethau amgylcheddol ehangach neu faterion cynaliadwyedd yn y tymor hwy. Mae cwynion neu amharodrwydd yn gyffredin yn ystod gwaith gwella, yn aml oherwydd sŵn, tarfiadau neu amseru anghyfleus. Dywedodd un landlord er bod peth rwystredigaeth yn amhosib ei hosgoi, gall cyfathrebu'n rhagweithiol helpu i'w lleihau. Ystyriwyd bod dweud wrth denantiaid o flaen llaw, sicrhau bod cyfathrebu agored ar gael yn ystod y gwaith, a darparu ffyrdd clir o godi pryderon yn strategaethau effeithiol i gynyddu'r lefel o ymgysylltiad.

Yn ogystal, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod rhai tenantiaid yn amharod, neu hyd yn oed yn gwrthwynebu, waith uwchraddio effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi. Esboniwyd bod tenantiaid yn ei chael hi'n anodd cysylltu â nodau datgarboneiddio SATC 2023 yn aml, oherwydd bod termau megis "sero net" a "lleihau carbon" yn gallu teimlo'n bell neu'n haniaethol. Mae'r syniadau hyn yn tueddu i beidio â denu llawer o ddiddordeb oni bai eu bod nhw'n gysylltiedig â buddion ymarferol a chlr, megis biliau ynni is neu gysur gwell. Pan fydd cyfathrebu'n canolbwyntio ar y canlyniadau hyn, mae tenantiaid cymdeithasol yn fwy agored a pharod i gymryd rhan ym mhrofiad landlordiaid cymdeithasol.

Roedd pryderon ariannol hefyd yn ffactor pwysig pan ddaw i amharodrwydd tenantiaid. Mae canfyddiad bod tenantiaid yn poeni am gostau cynnal uwch, yn enwedig pan fydd systemau newydd yn dibynnu ar drydan yn fwy. Mae'r pryderon hyn yn waeth pan fydd ansicrwydd ynghylch pa mor fforddiadwy fydd hi i weithredu technolegau newydd ac yn sgil ffafrio systemau cyfarwydd, dibynadwy yn gyffredinol. Amlygodd ambell landlord cymdeithasol fod gosodiad pypiau gwres o'r aer (ASHPs) yn bwynt penodol o wrthwynebiad. Yn aml, mae tenantiaid sy'n gyfarwydd â boeleri nwy traddodiadol yn ystyried pypiau gwres i fod yn llai

cyfleus oherwydd gwresogi arafach, costau trydan uwch a phroblemau posib gyda sŵn. Dywedwyd hefyd fod canfyddiad negyddol ar lafar gwlad o osodiadau ASHP cynnar a chyhoedduswydd gwael wedi llywio agweddau tenantiaid ac wedi cynyddu anffodlonrwydd.

"Un o'r rhwystrau rydym yn ei wynebu yw mewn perthynas â'r elfennau gwres fforddiadwy, yn enwedig pan ddaw i bympiau gwres o'r aer, yn bennaf oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu pypiau gwres o'r aer, yn enwedig i denantiaid sy'n gwresogi eu cartrefi gyda nwy ar hyn o bryd. Mae newid i system o'r aer yn golygu dibynnu ar drydan, a chyda prisoedd ynni uchel a pherygl iddynt gynyddu ymhellach, mae hynny'n bryder mawr." (Landlord)

4.1.5 Safbwyntiau tenantiaid ar eu rôl nhw yn y Safon wedi'i diweddaru

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **CY1** – Ymwybyddiaeth: Beth yw lefelau ymwybyddiaeth sylfaenol a pharhaus tenantiaid o SATC 2023? **CY2** – Cynhwysiant a chyfranogiad: A yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith? A ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed drwy gydol y broses? A ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n ddigonol i addasu i newidiadau (e.e., technolegau newydd)? Ydynt yn teimlo bod ganddynt gyfranogiad ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi?

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o denantiaid ymwybyddiaeth gyfyngedig o SATC 2023 a'u bod yn profi lefelau isel o gyfathrebiad a chyfranogiad rhagweithiol mewn perthynas â'r Safon wedi'i diweddaru. Er bod rhai tenantiaid wedi siarad am ymarferion ymgysylltu cadarnhaol, nid yw'r profiadau hynny yn eang. Disgrifiodd llawer o denantiaid eu bod yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth ganddynt am waith a gynlluniwyd, eu bod wedi'u heithrio o brosesau gwneud penderfyniadau, ac nad oeddent wedi cael eu cefnogi'n ddigonol i addasu i newidiadau yn eu cartrefi.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Ymwybyddiaeth sylfaenol isel o SATC 2023:**

Mae canfyddiadau arolwg yn adlewyrchu nad oedd tua dau draean o denantiaid wedi clywed am SATC 2023 cyn cymryd rhan yn yr arolwg, gyda chyfran bellach a oedd yn ansicr. Atgyfnerthodd canfyddiadau cyfweiliadau hyn, gan ddangos bod y rhan fwyaf o denantiaid yn anghyfarwydd â'r term neu'n aneglur am yr hyn mae'r Safon yn ei olygu

(CY1).

- **Mae ymwybyddiaeth yn cael ei gwthio'n bennaf gan gyfathrebu gyda landlordiaid neu rolau penodol:**

Ymhlith y tenantiaid a oedd yn ymwybodol o SATC 2023, roedd y rhan fwyaf o denantiaid a holwyd yn yr arolwg yn dweud eu bod nhw wedi dysgu amdano drwy eu landlord neu eu darparwr tai. Yn gyffredinol, roedd ymwybyddiaeth uwch yn gysylltiedig â thenantiaid a oedd mewn rolau cynrychioliadol, ymgynghoriadau, neu waith proffesiynol yn y sector tai, yn hytrach na chyfathrebiad systematig i'r holl denantiaid (CY1).

- **Dealltwriaeth gyfyngedig hyd yn oed ymhlith tenantiaid a oedd yn ymwybodol:**

Hyd yn oed pan oedd tenantiaid y cyfweiliadau wedi clywed am SATC 2023, roedd dealltwriaeth yn aml yn gyfyngedig. Yn gyffredinol, roeddent yn gwybod ei bod yn gysylltiedig â safonau sylfaenol neu welliannau i dai, ond roedd diffyg gwybodaeth ganddynt ynghylch y gofynion penodol neu sut y gallai'r Safon effeithio ar eu cartrefi (CY1).

- **Cyfathrebu anghyson ac adweithiol yn aml gan landlordiaid:**

Roedd llawer o denantiaid yn ein cyfweiliadau yn dweud bod cyfathrebu isel neu aneffeithiol, a bod gwaith trwsio a gwella yn digwydd yn bennaf dim ond ar ôl i'r problemau gael eu codi gan y tenantiaid eu hunain. Mynegodd sawl un rwystredigaeth yn sgil y diffyg hysbysiad o flaen llaw am waith a gynlluniwyd, amserlenni disgwylidig neu darfiadau posib. Roedd eraill yn adrodd bod cefnogaeth ddilynol annigonol ar ôl cwblhau gwaith ôl-osod (CY2).


- **Teimladau o gael eu hallgáu a'u tanwerthfawrogi:**

Roedd sawl tenant a gafodd gyfweiliad yn disgrifio cyswllt rhwng landlordiaid a thenantiaid i fod yn amheronol, gyda hysbysiad cyfyngedig o ymweliadau a thybiaethau ynghylch argaeledd. Cyfrannodd hyn at ymdeimlad o gael eu diystyru neu eu trin fel "dinasyddion ail ddosbarth" (CY2).

- **Enghreifftiau o arfer ymgysylltu mwy cadarnhaol:**

Roedd lleiafrif o denantiaid a gafodd gyfweiliadau yn adrodd am brofiadau cadarnhaol, gan gynnwys cyfathrebu rhagweithiol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-byst a llythyron, cyswllt drws i ddrws gan swyddogion tai, a chyfleoedd i arsylwi gwaith ôl-osod mewn cartrefi eraill. Ystyriwyd yr ymagweddau hyn i fod yn rhai a oedd yn rhoi sicrwydd wrth feithrin dealltwriaeth ac ymddiriedaeth (CY2).

Ffigur 8: Ymwybyddiaeth o SATC 2023 ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol cyn cymryd rhan yn yr arolwg (n=1285)



Disgrifiad o Ffigur 8: Siart bar sy'n dangos ymatebion o arolwg tenantiaid tai cymdeithasol SATC (n=1,285) pan ofynnwyd a oedd cyfranogwyr yn ymwybodol o'r SATC 2023 cyn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r siart yn dangos mai'r ymateb mwyaf cyffredin oedd 'nac oeddwn', wedi'i ddilyn gan 'oeddwn' ac yna 'Nid wyf yn gwybod.'

Gofynnwyd i denantiaid a oeddent wedi clywed am y SATC 2023 yn ystod yr arolwg ac roedd ymwybyddiaeth yn gymharol isel, gyda 62% o denantiaid (797 allan o 1,285) yn dweud nad oeddent wedi clywed amdano (gweler Ffigur 2). Roedd 12% pellach yn ansicr, ac ychydig dros chwarter (26%) yn dweud eu bod nhw wedi clywed am SATC 2023. Roedd yn well gan nifer fach o'r ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn.

O'r rhai hynny a oedd wedi clywed am y SATC 2023, dywedodd y rhan fwyaf eu bod nhw wedi dysgu amdani am y tro cyntaf drwy eu landlord neu eu darparwr tai, a soniwyd am hyn gan 136 allan o'r 398 o ymatebwyr (34%). Roedd tua un o bob chwech wedi clywed amdani ar-lein (17%), a chyfran debyg drwy'r cyfryngau cymdeithasol (15%). Daeth nifer lai yn ymwybodol drwy ddogfennau neu ffynonellau swyddogol megis Llywodraeth Cymru neu ddeunydd awdurdod lleol (13%), a chlywodd llai eto drwy ffrindiau neu gymdogion (7%), digwyddiadau cymunedol (3%), neu sianeli eraill (5%).

Nodwyd bod lefelau tebyg o ymwybyddiaeth yn y cyfweiliadau a thenantiaid, lle'r oedd y mwyafrif yn anghyfarwydd a'r term neu'r gofynion penodol mae'n ei bennu ar gyfer eu cartrefi. Hyd yn oed ymhlith y rhai hynny â pheth ymwybyddiaeth, roedd dealltwriaeth yn

gyfyngedig yn aml. Nododd un tenant ei fod yn ymwybodol o'r Safonau ond nid oedd wedi eu darllen yn fanwl, ac roedd ond yn deall eu bod nhw'n ymwneud â sicrhau bod cartrefi'n bodloni gofynion penodol.

Roedd gan ychydig o'r tenantiaid wybodaeth flaenorol am SATC 2023, fel arfer oherwydd amgylchiadau penodol. Dysgodd rhai am y Safonau drwy eu cyfranogiad wrth gynrychioli tenantiaid neu mewn pwyllgorau tai, a thrwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Daeth eraill yn fwy ymwybodol drwy eu gwaith proffesiynol ym maes tai cymdeithasol, er nid oedd hyn yn golygu o reidrwydd fod eu landlord eu hun wedi cyfathrebu gyda nhw am hyn. Yn ychwanegol, roedd ychydig o denantiaid wedi ceisio cael gwybodaeth yn annibynnol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Arferion cyfathrebu rhwng tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol

Disgrifiodd tenantiaid brofiadau amrywiol gyda chyfathrebu gyda landlordiaid, gyda rhai ohonynt yn dweud bod cyswllt isel iawn neu aneffeithiol. Dywedodd rhai tenantiaid nad oeddent yn derbyn cyfathrebu rheolaidd o'u landlordiaid. Roedd dulliau cyfathrebu hefyd yn peri rhwystrau i rai tenantiaid, oherwydd bod cynnal cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith yn ei gwneud hi'n anodd bod yn bresennol. Esboniodd un tenant:

"Nid ydynt yn ystyried pobl sy'n gweithio. Felly, alla i ddim â'u helpu i wneud newidiadau oherwydd fy mod i'n gweithio. Felly sut mae hi'n bosib mewn gwirionedd cael trosolwg onest a help gan eich tenantiaid os ydych chi'n eithrio pawb sy'n gweithio?" (Tenant)

Dywedodd y rhan fwyaf o denantiaid fod yr holl waith uwchraddio neu drwsio yn adweithiol, a'u cwblhau dim ond ar ôl iddynt godi'r broblem. Nodwyd hefyd ganddynt y byddant yn gwerthfawrogi ymagwedd fwy rhagweithiol gan eu landlordiaid ynghylch gwaith ôl-osod a chyfathrebu amdano. Mynegodd rhai tenantiaid rwystredigaeth nad oeddent erioed wedi cael eu hysbysu am waith adnewyddu a oedd ar ddod, er enghraifft, pan fyddai disgwyl cwblhau gwaith ar geginau, ystafelloedd ymolchi neu allanol, nac am y tarfu posib a allai gwaith o'r fath ei achosi. Yn lle hynny, roeddent yn teimlo'n gyfrifol am ofyn am y diweddaraf a gwneud ceisiadau am waith trwsio, gan wynebu amseroedd aros hir yn aml cyn i gamau gael eu cymryd. Hyd yn oed ar ôl gosod y gwelliannau, roedd tenantiaid yn dweud eu bod yn cael eu gadael gyda llyfrynnau cyfarwyddiadau am systemau newydd, megis boeleri, heb unrhyw ganllawiau ymarferol ar sut i'w defnyddio. Nododd un tenant nad oedd yn deall sut oedd ei thermostat yn gweithio nes i aelod o'r teulu esbonio iddo. Yn ogystal, disgrifiodd rhai tenantiaid y broses fel un a oedd yn amheronol ac a oedd yn digalonni, gan nodi nad oedd landlordiaid cymdeithasol yn dweud wrthynt cyn ymweliadau a'i bod hi'n ymddangos eu bod

nhw'n cymryd yn ganiataol y byddai tenantiaid bob amser ar gael yn ystod oriau gwaith. Cyfrannodd diffyg ymgysylltiad rhagweithiol at ymdeimlad o gael eu diystyru neu eu tangwerthfawrogi yn y broses rheoli tai.

"Dw i'n cysylltu â'r awdurdod lleol i drefnu gwaith trwsio mor aml ag y gallaf [...] Y peth yw, nid ydynt yn dweud wrthot ti pan fyddant yn dod. Maen nhw'n credu nad oes neb mewn tai cymdeithasol yn gweithio [...] mae'n digalonni llawer i feddwl hynny, rydych chi'n cael eich trin fel dinesydd ail ddosbarth achos eich bod chi'n byw mewn tai cymdeithasol." (Tenant)

Roedd y diffyg cyfathrebu hwn yn golygu nad oedd y rhan fwyaf o denantiaid yn cael eu hysbysu am waith ar ddod sy'n ofynnol o dan SATC 2023. Mewn achosion lle cafodd tenantiaid wybod am newidiadau arfaethedig, roedd yr ymwybyddiaeth hon yn aml yn deillio o amgylchiadau penodol. Er enghraifft, roedd rhai tenantiaid a oedd yn gwasanaethu fel cynrychiolwyr yn derbyn gwybodaeth am waith sydd ar ddod. Fodd bynnag, roeddent yn parhau i fod yn ansicr am pryd y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn eu cartrefi nhw. Mewn rhai sefyllfaoedd, anfonodd landlordiaid cymdeithasol syrfewyr i werthuso eu cartrefi, a oedd yn gweithredu fel arwydd cyntaf i denantiaid y gallai newidiadau fod ar y gorwel. Ar y llaw arall, dywedodd rhai tenantiaid eu bod nhw wedi derbyn nodyn, llythyron a, weithiau, alwadau yn dweud wrthynt am newidiadau ar y gorwel i'w cartrefi.

Soniodd rhai tenantiaid am brofiadau cyfathrebu mwy cadarnhaol gyda'u landlordiaid. Disgrifiwyd un gymdeithas tai fel un a oedd yn cynnal cyswllt da drwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-byst a llythyron, a swyddogion tai hefyd yn cnocio ar ddrysau i sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o'r newidiadau a gynlluniwyd. Disgrifiwyd cyswllt cadarnhaol gan ambell denant arall, megis cael eu gofyn am eu barn a chael eu gwahodd i arsylwi gwelliannau mewn cartrefi eraill i ddeall y newidiadau.

"Maent yn hysbysebu llawer ar Facebook. Maent yn e-bostio, ac maent hyd yn oed yn anfon llythyron. Felly, mae pobl yn gwybod os ydyn nhw yn y fath yna o grŵp, mae'n dod [y gwelliannau]. Mae hefyd sôn am bobl yn y dyfodol nad ydyn nhw wedi cael gwaith ôl-osod ond byddai'n manteisio o'i gael, yn mynd i weld pa olwg sydd ar ôl-osodiad. Felly, fel gallan nhw weld, does dim byd i boeni amdano." (Tenant)

4.1.6 Safbwyntiau landlordiaid cymdeithasol ar gyflwr eu stoc tai

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: Amcan 2: CY3 – Profiadau o weithrediad; CY6

– A oes gan landlordiaid y sgiliau, y gallu a'r rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Mae tystiolaeth yn awgrymu er bod y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid cymdeithasol yn adrodd am lefelau uchel o gydymffurfiaeth â llawer o feini prawf SATC 2023 ledled eu stoc tai, mae heriau sylweddol yn parhau mewn perthynas â bodloni gofynion Rhan 3 o'r Safon wedi'i diweddaru. Mae gwahaniaethau o ran oedran, dyluniad a lleoliad stoc yn gwneud cydymffurfiaeth yn anodd. Mae'r heriau hyn yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau strwythurol o fewn y stoc tai a phwysau gweithredol, ariannol a pholisi ehangach.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Cydymffurfiaeth uchel yn cael ei hadrodd mewn perthynas â meini prawf ansawdd tai craidd:**

Mae canfyddiadau arolwg yn nodi yr adroddwyd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol fod o leiaf 70% o'u stoc yn bodloni'r rhan fwyaf o feini prawf SATC 2023. Er hyn, dywedodd cyfran ychydig yn llai o landlordiaid fod o leiaf 70% o'u stoc yn bodloni'r meini prawf mewn perthynas â bod yn fforddiadwy i'w wresogi a'i fod yn ecogyfeillgar (CY3).

- **Amrywiaeth sylweddol mewn nodweddion, lleoliad a math o adeilad y stoc:**

Dyweddodd landlordiaid fod gwahaniaethau sylweddol mewn oedran, dyluniad, cyflwr, lleoliad a math eu stoc tai, a oedd yn llywio eu gallu i fodloni'r gofynion sy'n dod i'r amlwg. Roedd hen stoc neu stoc a etifeddwyd, cartrefi mewn amgylcheddau agored neu heriol, ac adeiladau aml-uned megis fflatiau, lle mae cytundeb preswylwyr a chynllun yr adeilad yn cymhlethu ôl-osodiadau, yn gysylltiedig â galwadau cynnal a chadw uwch a chostau cyflawni uwch, gan gyfrannu at gwblhau anghytwys o fewn y stoc tai (CY3).

- **Heriau ariannol, gweithlu a strategol:**

Roedd cyfyngiadau ariannol yn cael eu nodi'n gyson fel prif rwystr, gyda rhai landlordiaid yn wynebu dyled barhaus yn sgil bodloni'r Safon SATC flaenorol ac roedd eraill yn dweud bod cyllidebau cyfalaf a mynediad i adnoddau cyfyngedig. Roedd diffygion llafur medrus, yn enwedig ar gyfer gwaith ôl-osod arbenigol o dan SATC 2023 a'r ORP, yn rhwystro cynnydd ymhellach, gyda'r rhwystrau'n arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig. Caiff pwysau gweithredol eu dwysáu gan flaenoriaethau strategol sy'n cystadlu, gan gynnwys cydymffurfiaeth a deddfwriaeth

tai newydd, gwella ymgysylltiad tenantiaid, uwchraddio systemau rheoli asedau, a chymbwys buddsoddiad mewn stoc bresennol gyda datblygu cartrefi newydd (CY6).

Yn yr arolwg, gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol am y gyfran o'u stoc tai a oedd yn bodloni pob un o feini prawf SATC 2023 (roedd yr opsiynau ymateb yn cynnwys y mwyafrif helaeth = >90%, llawer = 70%-90%, rhai = 50%-69%, ychydig = 20%-39%, ac ychydig iawn = <20%). Dywedodd naw deg pedwar y can o landlordiaid cymdeithasol (sef 30 allan o 32) fod naill ai'r mwyafrif helaeth neu lawer o'r cartrefi mewn cyflwr da. Dywedodd wyth deg wyth % o landlordiaid fod naill ai'r mwyafrif helaeth neu lawer o gartrefi'n ddiogel, bod ganddynt ystafelloedd ymolchi modern, bod ganddynt geginau modern ac ystafelloedd am-bwrpas. Dywedodd canran ychydig yn llai o landlordiaid fod y mwyafrif helaeth neu lawer o'u cartrefi yn gyffyrddus i fyw ynddynt (84%), yn hyrwyddo lles tenantiaid (78%), a bod ganddynt ddigon o le y tu allan (72%). Yn olaf, dywedodd 63% fod gan y mwyafrif helaeth neu lawer o'u cartrefi erddi wedi'u cynnal yn dda a'i bod hi'n fforddiadwy eu gwresogi, a dywedodd 44% eu bod yn ecogyfeillgar.

Rhoddodd y cyfweiliadau gyfle i landlordiaid cymdeithasol ddisgrifio a dweud mwy am eu stoc tai ac i ba raddau maent yn bodloni meini prawf SATC 2023. Ar draws y bobl hynny y cyfwelwyd â nhw, roedd oedran a chyflwr eu stoc tai yn amrywio'n eang, gan adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn rhanbarth, patrymau datblygu, mathau o landlord, a maint sefydliadol. Roedd rhai landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn disgrifio rheoli stoc sy'n heneiddio ac sydd a heriau strwythurol parhaus, gan gynnwys hen ddeunyddiau toeon a'r angen am waith cynnal a chadw parhaus i fodloni gofynion presennol. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau trosglwyddo stoc yn dal i reoli cartrefi gyda thoeon haearn rhychog gwreiddiol neu systemau concrit cynnar lle bellach mae angen gwaith adnewyddu. Mewn gwrthgyferbyniad, mae cymdeithasau tai sydd bob amser wedi datblygu eu heiddo eu hunain, yn hytrach nag etifeddu stoc gynt yr awdurdod lleol, yn tueddu i ddal portffolios iau, wedi'u hadeiladu yn ystod y 1980au neu'n hwyrach. Mae'r stoc tai fwy modern hon yn cynnig manteision o ran ynni-effeithlonrwydd a bodloni targedau hinsawdd ac ôl-osodiadau sy'n dod i'r amlwg yn fwy effeithiol.

Nododd llawer o landlordiaid cymdeithasol amrywiaeth o heriau gweithredu sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw, uwchraddio ac ehangu eu stoc tai. Roedd diffyg llafur medrus yn cael ei ddyfynnu'n aml fel prif rwysr, yn enwedig ar gyfer gwaith ôl-osod arbenigol a chydymffurfio â'r Safon newydd, yn ogystal â chyflawni'r ORP. Er bod hyn y fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig, nododd ambell ymatebydd y gall denu llafur medrus, ledled Cymru yn ei chyfanrwydd, fod yn heriol oherwydd cystadleuaeth o ardaloedd eraill y DU.

Mae cyflawni gwaith ôl-osod yn cyflwyno anawsterau penodol, yn enwedig i landlordiaid cymdeithasol gyda nifer fach o fflatiau ac adeiladau aml-uned cymhleth. Er enghraifft, mewn rhaglenni insiweiddio waliau allanol mae angen ymgysylltu â'r holl breswylwyr mewn bloc, ac adroddwyd y gallai gwrthwynebiad gan ychydig iawn o denantiaid yn unig achosi oedi i gynlluniau. Mae nodweddion ffisegol fflatiau mewn adeiladau uchel iawn ac isel iawn hefyd yn ffactorau sy'n gallu cymhlethu ymyriadau, megis gosod paneli solar, cynyddu costau sgaffaldiau, a chodi cwestiynau am sut caiff arbedion ynni eu dyrannu rhwng defnyddwyr cymunedol ac unigol. Gall amodau daearyddol ac amgylcheddol gymhlethu pethau ymhellach. Rhannodd landlord gyda ni y gall topograffeg a phatrymau tywydd mewn rhai ardaloedd greu heriau cynnal a chadw gwahanol i fathau tebyg o gartrefi, gyda chartrefi mewn cymoedd ucheldirol yn gofyn yn aml iawn am waith cynnal a chynnal mwy rheolaidd a gwaith mwy costus na'r rhai hynny mewn ardaloedd iseldirol.

Cydnabu rhai landlordiaid cymdeithasol eu bod nhw hefyd yn cydbwyso sawl blaenoriaeth cystadleuol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd megis [Deddf Tai Rhent \(Cymru\)](#), gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd, ac integreiddio systemau meddalwedd rheoli asedau newydd. Yn olaf, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol bwysau cynyddol i ehangu cyflenwad tai mewn ymateb i argyfwng tai cenedlaethol. Mae hyn yn creu tensiwn strategol rhwng buddsoddi mewn gwaith ôl-osod i'r stoc bresennol a dyrannu adnoddau i ddatblygu tai newydd.

Nodwyd hefyd fod pwysau ariannol yn ffactor cyfyngu sylweddol ar draws awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Dywedodd un sefydliad ei fod yn cario dyled sylweddol sy'n gysylltiedig â thai, yn bennaf yn codi o fenthycia cynharach i fodloni gofynion y Safon SATC flaenorol. Codwyd pryderon tebyg gan ychydig o landlordiaid cymdeithasol eraill, a ddisgrifiodd yr angen i gydbwyso gwaith cynnal a chadw arferol ac amcanion datgarboneiddio hirdymor yn erbyn cyllidebau cyfalaf cyfyngedig. Dywedodd sefydliad llai gyda stoc ar wasgar yn ddaearyddol fod ganddo anawsterau penodol, gan ddyfynnu mynediad cyfyngedig i adnoddau ariannol a staffio sy'n cyfyngu ar ei allu i fodloni gofynion newydd a chyflawni rhaglenni ôl-osod yn effeithiol. Ar draws y sector, roedd cydnabyddiaeth eang y bydd buddsoddiad parhaus a dulliau cyllido hyblyg yn hanfodol i gynnal cynnydd tuag at SATC 2023 a chyflawni nodau datgarboneiddio cenedlaethol, yn enwedig yn sgil absenoldeb cyllid ymroddedig y tu hwnt i'r ORP.

4.1.7 Profiadau tenantiaid o'u cartrefi

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: CY3 – Profiadau tenantiaid o'u cartrefi: A yw tenantiaid yn teimlo bod eu cartrefi'n bodloni safon briodol? A yw tenantiaid yn creu bod SATC 2023 wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac yma mha ffyrdd? Pa feini prawf SATC 2023 y mae tenantiaid yn eu hystyried i fod bwysicaf? I ba raddau y mae tenantiaid yn credu bod newidiadau sy'n gysylltiedig â SATC yn effeithio ar eu lles corfforol neu feddyliol?

Mae tystiolaeth o'r arolwg tenantiaid a'r cyfweiliadau yn amlygu amrywiaeth o brofiadau gyda thai o ansawdd. Er bod llawer o denantiaid yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac wedi mynegi boddhad gyda nodweddion allweddol megis ystafelloedd ymolchi, ceginau a chysur cyffredinol, dim ond ychydig ohonynt oedd yn teimlo bod eu cartrefi'n fforddiadwy o ran gwresogi ac yn rhydd o broblemau megis lleithder ac awyru gwael. Roedd profiadau'n amrywio'n eang gan ddibynnu ar oedran, dyluniad a buddsoddiad diweddar mewn tai, a mynegodd rhai tenantiaid foddhad cryf a diolchgarwch, a disgrifiodd rhai eraill broblemau parhaus sy'n effeithio'n andwyol ar eu cysur, eu hiechyd a'u lles. Mae'r canfyddiadau hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag Amcan 1 drwy gasglu ynghyd canfyddiadau tenantiaid o ansawdd tai ac effeithiau byw amodau tai.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Boddhad cyffredinol cymedrol gyda nodweddion tai allweddol:**

Mae canlyniadau arolwg yn dangos y lefelau uchaf o gytundeb ar gyfer diogelwch, wedi'i ddilyn gan ystafelloedd ymolchi, cysur cyffredinol, a cheginau. Mynegodd y rhan fwyaf o denantiaid eu bod yn cytuno bod eu cartref mewn cyflwr da, gan nodi boddhad sy'n gadarnhaol yn gyffredinol ond heb fod yn gwbl gynhwysol gyda meini prawf ansawdd tai. Amlygodd tystiolaeth y cyfweiliadau amrywiaeth sylweddol mewn profiadau tenantiaid. Roedd tenantiaid mewn cartrefi mwy newydd neu a oedd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar yn fwy tebygol o adrodd am gysur a boddhad, er bod eraill wedi disgrifio cartrefi a oedd yn diwallu anghenion sylfaenol yn unig neu'n ei gwneud hi'n ofynnol i denantiaid reoli problemau cynnal a chadw eu hunain.

- **Canfyddiadau cadarnhaol yn gyffredinol o ddiogelwch, gyda rhai eithriadau:**

Roedd y rhan fwyaf o denantiaid yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel, gan ddyfynnu nodweddion megis cloeon, intercoms ac archwiliadau rheolaidd. Disgrifiodd nifer fach bryderon diogelwch a oedd yn gysylltiedig ag aflonyddwch yn y gymdogaeth, drysau neu ffenestri anniogel, a phrofiadau o fyrgleriaeth, gan nodi

ardaloedd lle gallai gwelliannau pellach wella'r ganfyddiad o ddiogelwch.

- **Mae fforddiadwyedd gwresogi yn parhau i fod yn bryder allweddol:**


Daeth fforddiadwyedd gwresogi i'r amlwg fel y canlyniad sy'n gysylltiedig â'r SATC a berfformiodd waethaf yn yr arolwg. Er i rai tenantiaid yn y cyfweiliadau adrodd bod eu cartref yn fforddiadwy i'w wresogi, roedd eraill yn disgrifio cartrefi oer, drafftig, gyda defnydd cyfyngedig o wresogi oherwydd y gost, a'r angen i gymryd camau insiwleiddio bach eu hunain. Hefyd, codwyd pryderon am gost a natur ymarferol technolegau gwresogi newydd, gan gynnwys pympiau gwres.

- **Problemau sy'n gysylltiedig ag awyru gwael, lleithder, a mowld:**

Dyfynnwyd awyru gwael yn aml fel achos lleithder a mowld, hyd yn oed mewn cartrefi wedi'i hinsiwleiddio'n dda. Disgrifiodd llawer o denantiaid broblemau cyddwysio parhaus, yn enwedig mewn ystafelloedd ymolchi heb ffenestri nag awyru digonol, gan godi pryderon am effeithiau iechyd corfforol a meddwl a chyflwr y cartref yn yr hirdymor.

Gofynnwyd i denantiaid i ba raddau roeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau yn yr arolwg am gyflwr ac ansawdd eu cartrefi, a oedd wedi'u mapio ar ofynion SATC 2023 (gweler Ffigur 3). Y lefelau uchaf o gytundeb oedd ar gyfer diogelwch, gyda 63% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu cartrefi'n ddiogel, wedi'i ddilyn gan foddhad gydag ystafelloedd ymolchi (61%), cysur cyffredinol (58%), ceginau (56%), a chan ddatgan bod eu cartrefi mewn cyflwr da (51%). Roedd canfyddiadau isaf ar gyfer fforddiadwyedd gwresogi, lle dywedodd 44% o ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu cartref yn fforddiadwy i'w wresogi. Ymhlith y rhai hynny a oedd â gardd, dywedodd 47% ei bod yn addas at eu hanghenion, a dywedodd 39% ei bod yn hawdd ei chynnal.

Ffigur 9: Cytundeb tenantiaid tai cymdeithasol gyda datganiadau am eu cartrefi'n bodloni meini prawf SATC 2023 (n=1,285)



Disgrifiad o Ffigur 9: Bar pentyrrau sy'n dangos ymatebion o'r arolwg tenantiaid tai cymdeithasol SATC (n=1,285) ynghylch i ba raddau mae cyfranogwyr yn cytuno bod eu cartrefi'n bodloni meini prawf SATC 2023. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o 'gytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf.' Ar draws yr holl ddatganiadau, roedd y cyfrannau mwyaf o ymatebion yn y categorïau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno rhywfaint'.

Er bod canfyddiadau'r arolwg yn darparu llun eang o foddhad tenantiaid gydag agweddau gwahanol ar eu cartrefi, cynigodd y cyfweiliadau ddealltwriaeth ddyfnach o'r profiadau hyn. Disgrifiodd tenantiaid mewn mwy o fanylder eu barn am geginau ac ystafelloedd ymolchi, fforddiadwyedd gwresogi, awyru, lle yn yr awyr agored, a diogelwch.

Bodddhad a chysur yn gyffredinol

Roedd bodddhad tenantiaid yn amrywio'n sylweddol ar draws y cartrefi. Mynegodd rhai tenantiaid fodlonrwydd cryf â'u cartrefi, gan eu disgrifio fel rhai sy'n gysurus ac wedi'u cynnal yn dda. Dywedodd un tenant a oedd wedi profi digartrefedd yn ddiweddar ei fod yn teimlo'n ddiolchgar i gael lle diogel.

"Dw i'n teimlo'n ffodus iawn i gael y cartref hwn achos ces i a'm gŵr ein gwneud yn ddigartref y llynedd. Ac mae hyn wedi bod yn fendith pur i ni gael lle diogel." (Tenant)

Yn yr un modd, roedd rhai tenantiaid, yn enwedig y rhai hynny mewn cartrefi mwy newydd neu a adnewyddwyd yn ddiweddar, yn adrodd am brofiadau cadarnhaol.

Fodd bynnag, adroddodd tenantiaid eraill deimladau a oedd yn fwy cymysg. Disgrifiodd rhai eu cartrefi fel rhai oedd yn diwallu anghenion sylfaenol er gwaethaf problemau parhaus. Roedd llawer o denantiaid yn teimlo nad oedd eu cartrefi mewn cyflwr da, a disgrifiodd un broblemau parhaus ym mhob rhan o'i gartref ac un arall yn disgrifio ei gartref fel "cartref cosbi am ddewisiadau bywyd gwael" oherwydd pryderon am gynllun y cartref a phreifatrwydd. Soniodd cwpl o denantiaid am yr angen i wneud gwaith trwsio eu hunain.

"Mae cyflwr fy nghartref yn dda, ond heb ddiolch i'r awdurdod lleol." (Tenant)

Esboniodd tenant arall ag anghenion meddygol penodol nad oedd ei gartref yn addas iddo o gwbl, gan esbonio er gwaethaf dogfennaeth feddygol, nid oedd ei ofynion wedi'i fodloni'n ddigonol.

Ceginau ac ystafelloedd ymolchi

Rhannodd tenantiaid brofiadau amrywiol mewn perthynas â chyflwr a natur ymarferol ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Dywedodd llawer fod y lleoedd hyn yn gyfoes ac mewn cyflwr da, yn enwedig adeiladau mwy newydd neu gartrefi a oedd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar. Fodd bynnag, cododd sawl tenant bryderon am gynlluniau anymarferol a chynllunio gwael.

Disgrifiodd sawl tenant hefyd hen gyfleusterau yr oedd angen eu hadnewyddu. Soniodd un tenant ei bod hi'n ymddangos bod ei landlord yn ymwybodol o'r angen hwn. Adroddodd un arall er bod ei gegin yn gweithio, nid oedd wedi'i hadnewyddu ers tuag 20 mlynedd. Mynegodd rhai tenantiaid rwystredigaeth gyda gwaith adnewyddu a wnaed dan raglenni blaenorol, gan ddweud bod y gwaith wedi'i ruthro oherwydd pwysau gan y llywodraeth, gan waethygu'r sefyllfa i denantiaid.

Insiwleiddio a fforddiadwyedd gwresogi

Dywedodd llawer o denantiaid fod eu cartrefi'n fforddiadwy i'w gwresogi, yn enwedig y rhai hynny mewn cartrefi wedi'u hinsiwleiddio'n dda neu adeiladau mwy newydd. Fodd bynnag, roedd fforddiadwyedd gwresogi'n parhau i fod yn bryder i eraill. Disgrifiodd rhai tenantiaid gartrefi a oedd yn oer ac yn llaith yn ystod y gaeaf, gan achosi costau gwresogi sylweddol o uwch i gynnal tymheredd cyffyrddus. Esboniodd un tenant ei fod dim ond yn gallu fforddio gwresogi ei gartref am ychydig o oriau'n unig bob dydd yn ystod y gaeaf. Amlygodd sawl tenant broblemau gyda ffenestri a drysau drafftig, gydag un yn nodi y bu'n rhaid iddo brynu deunydd selio ei hun i gadw'r gwres i mewn. Cododd sawl tenant bryderon am dechnolegau gwresogi mwy newydd, gan ddatgan nad oeddent am bympiau gwres modern, oherwydd lle a chostau trydan.

Awyru a lleithder

Daeth awyru gwael i'r amlwg fel pryder sylweddol sy'n effeithio ar gysur ac iechyd. Dywedodd sawl tenant fod ganddynt broblemau gyda lleithder a mowld, hyd yn oed mewn cartrefi wedi'u hinswleiddio'n dda. Esboniodd un tenant er gwaethaf inswleiddio cryf, nid oedd digon o awyru yn ei fflat, ac nid oedd ffordd i wres a lleithedd ddianc. Mynegwyd pryder ganddynt y gallai hyn arwain at broblemau lleithder yn y dyfodol, gan nodi bod cymydog ar lawr is eisoes wedi angen triniaeth wrthff yngol am fowld. Disgrifiodd sawl tenant frwydrau parhaus gyda lleithder a mowld. Soniwyd yn aml am awyru gwael mewn ystafelloedd ymolchi, a nododd tenantiaid fod ystafelloedd ymolchi heb ffenestri nac awyru priodol yn arwain at gyddwysiad a lleithder. Esboniodd un tenant er bod gwaith uwchraddio gwresogi wedi helpu rhywfaint, roedd mowld yn yr ystafell ymolchi yn parhau oherwydd problemau awyru yn hytrach na phroblemau gwresogi.

Lle yn yr awyr agored

Roedd mynediad i, ac ansawdd, fannau yn yr awyr agored yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai tenantiaid yn fodlon â'u gerddi, gan eu disgrifio fel rhai a oedd yn hawdd eu cynnal neu'n cael eu cynnal yn dda gan gymdeithasau tai. Fodd bynnag, soniodd ychydig o denantiaid eraill am heriau gydag ardaloedd awyr agored. Disgrifiodd y tenantiaid hyn erddi cymunedol yr oedd yn anymarferol eu defnyddio oherwydd problemau mynediad. Roedd gwaith cynnal a chadw gerddi hefyd yn bryder a oedd yn codi dro ar ôl tro. Nododd un tenant fod ei ardd gymunedol dim ond yn cael ei chynnal pedair gwaith yr flwyddyn er gwaethaf talu tâl gwasanaeth, a oedd yn annigonol yn eu barn nhw. Esboniodd un arall fod yr ardd yn llawn chwyn pan symudon nhw i mewn, fel bod yn rhaid iddynt dalu i dorri'r gwair eu hunain.

Diogelwch a diogeledd

Roedd y rhan fwyaf o denantiaid yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, gan sôn am gloeon a oedd yn gweithio, systemau intercom, ac archwiliadau diogelwch rheolaidd. Disgrifiodd un tenant fesurau diogelwch cynhwysfawr, gan gynnwys cloeon newydd a gofalwr ar y safle. Fodd bynnag, mynegodd ychydig o denantiaid bryderon diogelwch. Soniodd un am deimlo rhywfaint yn annigol oherwydd aflonyddwch gan gymdogion ac achosion o dresmasu yn yr ardd. Soniodd un arall am fyrgleriaeth a ddigwyddodd tra'r oeddent yn yr eiddo, gan ddweud nad oedd y drysau na'r ffenestri'n ddiogel. Nododd un tenant er ei fod yn teimlo'n ddiogel, byddai gosod cloeon ar y ffenestri yn gwneud i'r cartref deimlo'n fwy diogel.

4.1.8 Newidiadau a dymunir gan y tenantiaid

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: CY3 – Profiadau tenantiaid o'u cartrefi: A yw tenantiaid yn teimlo bod eu cartrefi'n bodloni safon briodol? A yw tenantiaid yn creu bod SATC 2023 wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac yma mha ffyrdd? Pa feini prawf SATC 2023 y mae tenantiaid yn eu hystyried i fod bwysicaf? I ba raddau mae tenantiaid yn creu bod newidiadau sy'n gysylltiedig â SATC yn effeithio ar eu lles corfforol neu feddwl?; CY2 - Cynhwysiant a chyfranogiad: A yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith? A ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed drwy gydol y broses? A ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n ddigonol i addasu i newidiadau (e.e., technolegau newydd)? A yw tenantiaid yn teimlo eu bod nhw'n cymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi?

Mae cyfweiliadau'n dangos bod y newidiadau mae tenantiaid yn dymuno eu gweld yn canolbwyntio'n bennaf ar wella'r cyflwr cyffredinol, diogelwch, fforddiadwyedd gwresogi eu cartrefi, gan flaenoriaethau gwaith trwsio sylfaenol dros waith uwchraddio cymhleth. Dangosodd rhai diddordeb mewn technolegau adnewyddadwy megis paneli solar, wrth i eraill godi pryderon am awyru, lleithder, neu sŵn. Pwysleisiodd tenantiaid yn gyson bwysigrwydd ymgynghori â nhw o flaen llaw a chydabod bod eu cartrefi'n fannau mae pobl yn byw ynddynt, nid asedau eiddo yn unig.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Galw am waith trwsio sylfaenol a pherfformiad gwresogi:**

Amlygodd llawer o'r tenantiaid y cyfwelwyd â nhw alw cryf am waith trwsio sylfaenol, megis drysau a ffenestri gwell. Codwyd perfformiad a fforddiadwyedd gwresogi yn aml hefyd fel blaenoriaethau allweddol. Ystyriwyd y materion hyn i fod yn hanfodol i gysur a diogelwch ac yn flaenoriaeth dros waith uwchraddio cymhleth (CY3).

- **Safbwyntiau cymysg ar dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel:**

Yn ein cyfweiliadau, roedd rhai tenantiaid yn frwdfrydig am ynni adnewyddadwy, megis paneli solar, am resymau biliau is a chynaliadwyedd, er bod ychydig o'r rhai eraill yn poeni am bympiau gwres oherwydd sŵn, lle, neu effeithiau ar les (CY3).

- **Pryderon am ganlyniadau nas fwriadwyd:**

Roedd rhai tenantiaid y cyfwelwyd â nhw yn poeni y gallai insiwleiddio allanol neu fesurau ynni-ffeithlonrwydd eraill waethygu lleithder a mowld heb awyru priodol, gan adlewyrchu ffafriaeth dros waith uwchraddio cyfannol sy'n cydbwysu iechyd, cysur, a pherfformiad o ran ynni (CY3).

- **Pwysigrwydd ymgynghori a pharch at gartrefi tenantiaid:**

Pwysleisiodd tenantiaid yn gyson bwysigrwydd ymgynghori â nhw cyn gwneud gwelliannau a chael y cyfleoedd i roi adborth (CY2).

Dewisiadau ar gyfer gwelliannau

Amlygodd llawer o denantiaid amrywiaeth o welliannau a dymunir i'w cartrefi, gan gynnwys anghenion trwsio sylfaenol, yn enwedig mewn perthynas â drysau, ffenestri ac insiwleiddio. Roeddent yn adrodd am ddrysau a ffenestri sydd wedi'u gosod yn wael, gan arwain at ddrafftiau, lleithder, neu hyd yn oed plâu yn dod i mewn a chan ei gwneud hi'n anodd i gadw gwres yn y cartref. Roedd ceisiadau cyffredin yn cynnwys drysau newydd neu wedi'u selio'n well i wella effeithlonrwydd thermal a diogelwch y cartref, ffenestri newydd, insiwleiddio gwell, a gwaith trwsio i'r toeon i atal colled gwres. Soniodd nifer fach hefyd am nodweddion ychwanegol, megis draenio gwell a datrysiadau storio gwell.

Mynegodd rhai tenantiaid ddiddordeb cryf mewn technolegau ynni adnewyddadwy, yn enwedig paneli solar, fel ffordd o leihau costau ynni a gwella cynaliadwyedd. Soniwyd ganddynt fod tai cymdeithasol cyfagos eisoes wedi derbyn paneli solar, gan arwain at rwystredigaeth neu ddryswch ynghylch pam nad oedd eu cartrefi nhw wedi'u cynnwys. Amlygodd tenantiaid eraill ddyhead am waith uwchraddio i'w systemau gwresogi, gan nodi bod y rheiddiaduron a systemau gwresogi nwy presennol yn gweithio ond eu bod yn aneffeithlon, yn araf i dwymo, neu'n gostus i'w rhedeg. Ystyriwyd gwella perfformiad a fforddiadwyedd gwresogi fel prif flaenoriaeth, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n byw mewn hen gartrefi neu gartrefi heb eu hinsiwleiddio gystal.

Yn gyffredinol roedd croeso i waith adnewyddu ystafelloedd ymolchi, ac roedd tenantiaid yn gwerthfawrogi ystafelloedd ymolchi gweithredol a modern a oedd yn disodli'r hen gyfleusterau a oedd yn dueddol o ollwng dŵr neu dorri.

Pryderon am welliannau

Cododd rhai tenantiaid bryderon am awyru neu leithder. Roedd un tenant yn poeni y gallai insiwleiddio allanol gynyddu problemau mowld a chyddwysiad yn hytrach na datrys y problemau hyn, yn enwedig pe bai cartrefi'n mynd yn rhy aerglos heb awyru priodol. Mynegodd ambell denant amharodrwydd mewn perthynas â phympiau gwres, gan ddyfynnu

pryderon am sŵn, a fyddai'n effeithio ar eu hiechyd meddwl. Nodwyd gwelliannau cysylltiedig, megis gosod systemau mwy effeithiol wedi'u gweithredu o'r prif gyflenwad yn lle hen gawodydd trydan wrth uwchraddio boeleri, fel cyfleoedd coll.

Pwysleisiodd llawer o denantiaid bwysigrwydd ymgynghori â nhw o flaen llawn a chael y cyfle i roi adborth, yn enwedig pan allai gwelliannau fod wedi cael canlyniadau anfwriadol. Roedd rhaid yn teimlo y dylai gwelliannau fod o fudd i denantiaid fel blaenoriaeth, yn hytrach na chael eu gwrthio gan dargedau'r llywodraeth, ac y dylai gweithwyr sy'n gwneud y gwaith gynnal safonau da. Amlygwyd ganddynt er mai eiddo cynghorau neu gymdeithasau tai oeddent, roeddent yn gartrefi i denantiaid, ac mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig o ran sut caiff gwelliannau eu cynllunio a'u cyflwyno.

"Weithiau mae angen iddyn nhw drin tai'r Cyngor fel cartref, nid dim ond fel tŷ. Efallai mai eiddo'r Cyngor yw e, ond dyma ein cartref."

4.1.9 Landlordiaid cymdeithasol yn asesu helaethder newid a chydymffurfiaeth

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **CY4** – Safbwyntiau ar gategorïau cydrannol, gan gynnwys dehongli codau asesu; **CY5** – Profiadau o ofynion adrodd am ddata SATC; **CY6** – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Mae canfyddiadau o'r gwaith maes yn dangos bod landlordiaid cymdeithasol wedi gwneud cynnydd anghyson tuag at gydymffurfio â SATC 2023. Yn unol â'u hasesiad eu hunain, adroddwyd bod cynnydd yn bennaf wrth roi mesurau diogelwch a diogeledd ar waith, ond adroddwyd bod cynnydd mwy amrywiol wrth roi gofynion ar waith mewn perthynas ag ynni, cynllunio ar sail data, a thechnolegau clyfar. Ystyriwyd Gweithredu ar Sail System Gyfan (WSA) fel sail ofynnol a llwyddiannus ar y cyfan ar gyfer cydymffurfiaeth, ond roedd canfyddiad bod Llwybrau Ynni wedi'i Dargedu (TEPs) yn fwy cymhleth, yn ddwysach o ran adnoddau, ac wedi'u cyfyngu gan ddiffyg sgiliau a chanllawiau sy'n newid. Mae landlordiaid hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran gallu'r gweithlu, cadwyni cyflenwi, cyflawnder data, a dehongli'r categorïau asesu. Mae'r materion hyn wedi effeithio ar hyder wrth adrodd am gydymffurfiaeth ac wedi creu pwysau gweithredu.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Mae cynnydd ar WSA a TEP yn anghyson:**

Mae'r rhan fwyaf o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw wedi cwblhau neu'n agos i gwblhau WSA, gan ddarparu llinell sylfaen fanwl ar gyfer cynllunio a buddsoddi. Mewn gwrthgyferbyniad, disgrifiwyd TEPs yn eang i fod yn heriol oherwydd dibyniaeth ar arbenigedd allanol, diffyg sgiliau mewnol, a chanllawiau anghyflawn gan Lywodraeth Cymru, gan gyfyngu ar y cynnydd y tu hwnt i'r camau cychwynol (CY5, CY6).

- **Goblygiadau ariannol ac i'r gweithlu yn sgil cydymffurfiaeth:**

Nododd landlordiaid yn gyson mai gwaith ynni-ffeithlonrwydd a datgarboneiddio oedd elfennau mwyaf costus a chymhleth o SATC 2023. Mae'r mesurau hyn yn gofyn am sgiliau arbenigol, technolegau newydd, a chynllunio hirdymor, gan roi pwysau ariannol sylweddol ar sefydliadau. Mae argaeledd cyfyngedig o gontractwyr a syrfewyr medrus, mewn cyfuniad â chystadleuaeth sector cyfan, yn cynyddu costau ymhellach, yn creu tagfeydd ac yn rhoi straen ar gapasiti, yn enwedig ar gyfer portffolios mawr ac mewn ardaloedd gwledydd neu anghysbell (CY6).

- **Defnyddio cylchoedd asesu cam wrth gam i reoli cydymffurfiaeth:**

Dywedodd y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid eu bod yn defnyddio arolygon cyflwr stoc cam wrth gam dros 5 mlynedd, yn aml yn asesu tuag 20% o gartrefi'n flynyddol. Ystyriwyd bod yr ymagwedd hon yn haws ei rheoli ac wedi'i hintegreiddio'n well i weithrediadau rheolaidd nag arolygon ar raddfa fawr, gyda gwiriadau arbenigol yn parhau ochr yn ochr â'r rhaglenni hyn (CY5).

- **Hyder cyffredinol mewn egwyddorion SATC:**

Mynegodd y rhan fwyaf o landlordiaid hyder mewn egwyddorion trosfwaol SATC 2023 (CY4).

- **Ansicrwydd wrth roi ar waith:**

Dywedodd rhai landlordiaid fod ganddynt anawsterau wrth ddehongli a defnyddio categorïau asesu penodol, yn enwedig "pasio," "pasio amodol," "methiant dros dro," a "methiant tybiedig", yn enwedig ar draws mathau amrywiol o eiddo. Cyfrannodd canllawiau anghyson neu newidiol ymhellach **at ansicrwydd a heriau gydag adrodd mewnol (CY4).**

- **Effaith methiannau tybiedig a data coll:**

Dywedodd landlordiaid fod gostyngiadau sydyn mewn cyfraddau cydymffurfio amlwg

oherwydd bylchau mewn data yn hytrach na diffygion ffisegol, gan greu rhwystredigaeth ac amlygu pwysigrwydd systemau data cadarn a chanllawiau clir (CY4, CY5).

Pan ofynnwyd iddynt "Ar gyfer pa gyfran o'ch stoc tai y cymerwyd y camau canlynol i gefnogi cydymffurfiaeth â SATC 2023?", roedd y cynnydd uchaf a adroddwyd ymhlith y landlordiaid a arolygwyd mewn mesurau diogelwch a diogeledd, gyda 25 allan o 32 o landlordiaid cymdeithasol (78%) yn datgan bod gwelliannau megis larymau a systemau diogelwch tân a roddwyd ar waith mewn o leiaf 70% o'u heiddo.

Dangosodd yr arolwg o landlordiaid cymdeithasol fod cynnydd yn amrywio ar draws mathau gwahanol o fesurau cydymffurfiaeth SATC 2023. Roedd tua hanner o landlordiaid cymdeithasol yn adrodd am lefelau tebyg o gynnydd wrth ddatblygu TEP (50%) a chynnal asesiadau eiddo stoc gyfan (47%) am o leiaf 70% o'u stoc. Soniodd 34% o landlordiaid cymdeithasol eu bod nhw wedi cwblhau gwaith adnewyddu mewn mannau mewnol a gwelliannau i fannau awyr agored. Gosod mesuryddion clyfar a ddangosodd y cynnydd isaf, gyda 13% yn unig yn nodi eu bod nhw wedi'u gosod ar draws y rhan fwyaf o'u stoc. Esboniwyd ymhellach y lefelau amrywiol o gynnydd a ffocws ar wahanol elfennau yn ystod y cyfweiliadau.

Cynnydd ar WSA a TEP

Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn adrodd bod gwaith ar WSA a TEP ar y gweill ar hyn o bryd, er bod cynnydd yn amrywio'n eang. Yn gyffredinol, nodwyd ganddynt eu bod wedi cwblhau WSA ar draws y stoc tai, ond mae cynnal TEP yn parhau i fod ar y gweill.

Roedd croeso i broses gwblhau y WSA, ac roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol yn ei ystyried i fod yn gam cyntaf hanfodol tuag at baratoi ar gyfer SATC 2023 a symud tuag at gynllunio yn seiliedig yn fwy ar dystiolaeth. Roedd cynnal asesiadau ar draws yr holl eiddo yn darparu llinell sylfaen fanwl ar gyfer penderfyniadau cynllunio a buddsoddi. Mae'r ymagwedd ar sail data hon yn galluogi sefydliadau i asesu graddfa'r gwaith a oedd yn ofynnol a gosod disgwyliadau mwy realistig ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth, yn enwedig i dargedau amgylcheddol cam canol a therfynol.

Mewn gwrthgyferbyniad, roedd rhai landlordiaid cymdeithasol yn canfod bod datblygu TEP yn ofyniad beichus. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y ddibyniaeth ar gymorth allanol, oherwydd bod timoedd mewnol yn wynebu heriau wrth ddenu a chadw staff gyda'r sgiliau angenrheidiol ar lefelau cyflog presennol i gyflawni'r tasgau hyn yn fewnol. Yn ychwanegol

at hyn, roedd un landlord yn ystyried bod y canllawiau ar ofynion TEP yn gyfyngedig, gan nodi'r absenoldeb o gyfarwyddiadau manwl ar sut y dylid strwythuro neu ddatblygu'r cynlluniau hyn, a oedd yn cyfyngu cynnydd y tu hwnt i'r camau cychwynnol yn eu barn nhw.

Roedd y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid cymdeithasol hefyd yn adrodd, er bod cyfanswm manwl yn dibynnu ar chwyddiant ac amodau'r farchnad, eu bod wedi darparu amcangyfrif cychwynnol o'r gost i fodloni SATC 2023. Nododd y landlordiaid cymdeithasol hyn elfennau ynni-effeithiolrwydd a datgarboneiddio fel yr elfennau cost mwyaf sylweddol wrth fodloni SATC 2023. Dywedon nhw fod cydymffurfio â safonau amgylcheddol ac ynni-effeithlonrwydd yn gofyn am gyfuniad o fesurau a gwaith ar eu pennau nhw, gan gynnwys arferion insiwleiddio, gosod systemau thermal newydd, megis pypiau gwres o'r aer, ac ôl-osodiadau ynni gwyrdd megis ffotofoltegion solar (PVs) a batris. Adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn dechnegol gymhleth ac yn ddwys o ran adnoddau. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol yn credu bod y gwaith hwn yn ychwanegu baich ariannol sylweddol ar ben gwaith cynnal a chadw rheolaidd, yn rhannol oherwydd ei fod yn gofyn am sgiliau arbenigol, technolegau newydd, a chynllunio hirdymor i integreiddio gyda stoc bresennol. Ychwanegodd ambell landlord cymdeithasol mawr hefyd fod helaethder yr ymyriad mae ei angen ar draws portffolio tai mawr yn gwneud ei gyflawni yn heriol, o ran cyllid a logisteg.

Dyweddodd llawer o landlordiaid cymdeithasol hefyd fod sawl her anariannol a allai effeithio ar rai SATC 2023 ar waith. Amlygwyd mai cyfyngiadau gweithlu a chadwyn gyflenwi oedd y rhwystrau mwyaf sylweddol. Nifer gyfyngedig yn unig o ddarparwyr sy'n gallu cyflawni gwasanaethau arbenigol y mae eu hangen ar gyfer gwaith ynni-effeithiolrwydd a datgarboneiddio, ac maent yn codi ffioedd uchel, gan arwain at rai sefydliadau yn datblygu sgiliau mewnol. Roedd y landlordiaid cymdeithasol hyn yn rhagweld y byddai cystadleuaeth ymysg sefydliadau tai am nifer gyfyngedig o gontractwyr, syrfewyr a swyddogion technegol medrus yn rhoi straen ar eu hadnoddau, yn creu tagfeydd, ac yn codi costau contractau o bosib. Mae'r pryder hwn yn codi yn enwedig oherwydd bod yr holl ddarparwyr yn anelu at gyflawni targedau a therfynau amser tebyg.

Nodwyd bod capasiti staffio mewnol yn gyfyngiad pellach gan landlordiaid, a wnaeth fynegi bod eu sefydliadau yn ei chael hi'n anodd denu staff cymwys, ac yn aml bod yn rhaid iddynt ddewis rhwng codi cyflogau neu hyfforddi staff llai profiadol. Soniwyd hefyd am heriau daearyddol a logistaidd mewn ardaloedd mwy anghysbell o Gymru, gan fod llai o gontractwyr yn gweithredu yno, a chan ei gwneud hi'n anos pennu amserlenni a chreu cystadleuaeth fwy cadarn. Yn olaf, dywedwyd bod pwysau ychwanegol yn codi yn sgil

ffactorau allanol, megis prosiectau seilwaith sy'n cystadlu, a allai yrru llafur ac arbenigedd technegol i ffwrdd o'r sector tai.

"Hyd yn oed yn edrych ymlaen i 2050, byddai'n rhaid i ni i bob pwrpas ddyblu ein buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw mewn gwirionedd dim ond i fodloni'r gofynion hyn. A chost y prosiect yn unig fyddai hynny, heb gynnwys y staff sy'n ofynnol er mwyn ei gyflawni." (Landlord)

Amledd asesu

Pan ofynnwyd pa mor aml roeddent yn cynllunio cynnal arolygon o gyflwr stoc i sicrhau cydymffurfiaeth â SATC 2023, yr ymateb mwyaf cyffredin yn yr arolwg oedd pob 4 i 5 mlynedd, a ddewiswyd gan 44% o landlordiaid cymdeithasol (sef 14 allan o 32). Roedd 28% bellach yn cynllunio i asesu'n flynyddol, 9% yn bwriadu gwneud hynny bob 2 i 3 blynedd, ac nid oedd 13% wedi penderfynu eto. Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn weddill y byddant yn gwneud hynny ar adeg newid mewn meddiannaeth neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn.

Roedd adlais o'r canfyddiadau hyn yn y cyfweiliadau, lle darparodd landlordiaid cymdeithasol fanylion pellach hefyd am eu proses asesu stoc. Roedd y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn adrodd bod ymagwedd gyson at gynnal cylch asesu 5 mlynedd ar gyfer monitro cyflwr stoc a chydymffurfiaeth â SATC. Maent naill ai wedi cwblhau arolwg o gyflwr y stoc lawn yn ddiweddar, neu mae ganddynt raglenni cam wrth gam ar waith i ddal data'n barhaus.

Arfer cyffredin yw cynnal arolwg ar tuag 20% o'r stoc tai bob blwyddyn, gan ei gwneud hi'n bosib cynnal ailasesiad llawn ar yr holl eiddo o fewn cyfnod o 5 mlynedd. Dewiswyd yr ymagwedd hon fel un sy'n fuddiol oherwydd ei bod hi'n integreiddio arolygon rheolaidd i weithrediadau o ddydd i ddydd yn hytrach na dibynnu ar arolygon mawr ac anaml yn unig. Mae syrfewyr yn asesu cartrefi ar sail safonau SATC, gan nodi elfennau megis ceginau, ystafelloedd ymolchi, neu doeon i'w cynnwys mewn rhaglenni gweithfeydd mawr. Gan ddibynnu ar y cyflwr a dewis y tenant, caiff gwaith naill ai ei flaenoriaethu neu ei drefnu ar gyfer blynyddoedd hwyrach.

Mae ychydig o landlordiaid cymdeithasol wedi pennu targedau penodol o fewn y fframwaith hwn. Er enghraifft, nod un sefydliad landlord cymdeithasol yw cyflawni arolwg llawn o'i stoc tai erbyn mis Mawrth 2027, drwy gynnal lefel o asesiad parhaus sy'n cael ei adolygu o hyd ar gyfer dichonolrwydd hirdymor. Ochr yn ochr â'r arolygon o gyflwr hyn, mae rhai landlordiaid cymdeithasol yn parhau i ymgymryd â gwiriadau arbenigol ar ysbeidiau

gwahanol, megis archwiliadau diogelwch nwy blynyddol, profi trydanol blynyddol, ac archwiliadau o ardaloedd cymunedol.

"Ein nod ni yw cwblhau arolygon o gyflwr stoc ar gylch pum mlynedd gam wrth gam. Yn ogystal, rydym yn asesu ein cydymffurfiaeth â'r Safon yn flynyddol [...] Rydym yn cydweithio ag adran arall i lanhau'r data a chynnal asesiad bwrdd gwaith i bennu lle rydym ni yn erbyn y Safon bob blwyddyn ar gyfer y cyflwyniad. Dyna sut rydym yn ei reoli, yn y bôn. Rydym ni hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r syrfewyr sy'n cynnal yr arolygon o gyflwr stoc i sicrhau eu bod nhw wedi'u hyfforddi'n briodol, a'u bod nhw wedi derbyn hyfforddiant HHSRS [Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai]." (Landlord)

Dealltwriaeth o egwyddorion cydymffurfio â SATC 2023

Ar y cyfan, mae llawer o landlordiaid cymdeithasol yn ein trafodaethau yn cytuno bod egwyddorion cyffredinol SATC 2023 yn glir ac wedi'u deall yn dda. Mynegwyd lefel resymol o hyder ganddynt wrth roi'r fframwaith trosfwaol ar waith, gydag un yn adrodd cyfradd llwyddiant o 85% wrth asesu cyflwr eu stoc ac un arall yn nodi bod y data a gyflwynwyd ganddynt wedi'u halinio'n agos ag asesiadau'r llywodraeth. Er bod peth amwysedd ac anhawster yn cael eu hadrodd wrth ddehongli gofynion penodol, disgrifiodd cyfranogwyr hyn fel rhan o broses ddysgu barhaus a fydd yn gwella wrth i offer meddalwedd gael ei ddatblygu ymhellach, wrth i ddefnyddwyr ymgyswddo â hynny, ac wrth i rowndiau cychwynnol o asesu eiddo gael eu cwblhau. Roedd yr ansicrwydd hwn fwyaf amlwg wrth ddehongli marciau asesu hierarchaidd megis "Pasio," "Pasio amodol," a "Methiant dros dro," a phryd caiff y marciau hyn eu dynodi ar draws mathau gwahanol o eiddo.

Rhoddodd rhai landlordiaid cymdeithasol ragor o fanylion am yr heriau sy'n gysylltiedig â'r categori pasio amodol. Gwnaeth un gymryd yn ganiataol y byddai ei sefydliad ef yn debygol o wynebu her wrth gymhwyso marciau pasio amodol i eitemau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau, oherwydd bod y rheolau presennol yn caniatáu pasio amodol am gyfnod o 5 mlynedd yn unig, ond mae eu rhaglen fuddsoddi yn gweithredu ar sail cyfnod o gylch 9 blynedd o hyd. O ganlyniad, ni ellir cofnodi hanner eu cartrefi fel rhai Pasio Amodol. I'w gwneud hi'n bosib monitro a threfnu gwaith uwchraddio yn gywir, gallant gofnodi'r eiddo hynny fel rhai sy'n Methu ar sail dros dro, hyd yn oed pan fydd cynlluniau gwella hirdymor ar waith. Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod hyn yn adlewyrchu camddehongliad: mae'r cyfyngiad 5 mlynedd yn ymwneud â gwaith Wedi'i Drefnu – Methu Dros Dro, ond mae Pasio Amodol wedi'i neilltuo ar gyfer cyfyngiadau penodol (e.e., cyfyngiadau ffisegol, cyfyngiadau treftadaeth/cadwraeth, neu elfennau sydd wedi'u rhwystro gan gostau). Fodd bynnag, mae'r

sylw yn rhoi enghraifft o'r ansicrwydd ehangach ymhlith landlordiaid ynghylch categoreiddio eitemau yn briodol.

Soniodd landlord arall am anawsterau yn dilyn ailddosbarthiad Llywodraeth Cymru rai o'u cartrefi o fod yn rhai "Pasio" neu "Ddim yn berthnasol – Dim tenant newydd" i "Basio Amodol" heb rybudd o flaen llaw. I gychwyn, mae'r newid hwn wedi creu dryswch mewnol. Marciwyd eiddo heb denantiaethau newydd fel Pasio Amodol oherwydd bod elfennau penodol o'r Safon dim ond yn berthnasol pan fydd tenantiaeth newydd. O ganlyniad, codwyd pryderon gan landlordiaid y gallai'r cartrefi hyn aros yn y categori Pasio Amodol am gyfnod amhenodol, oherwydd gall rhai tenantiaethau bara am ddegawdau. Mae Llywodraeth Cymru wedi trosi'r cartrefi hyn yn ôl i Basio ers hynny. Roedd diffyg eglurder ymhlith landlordiaid cymdeithasol o ran a yw Pasio Amodol yn gyfwerth, i bob pwrpas, â Phasio ac am ba hyd y gallai tenantiaeth barhau i gael ei neilltuo i'r categori hwnnw.

Arsylwodd landlord cymdeithasol arall fod SATC 2023 wedi ehangu'r fframwaith asesu o'i gymharu â'r Safon flaenorol, gan gyflwyno Pasio Amodol yn lle y metrig blaenorol o "Fethiant Derbyniol". Gan ddefnyddio targed 75 Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) fel enghraifft, roedd ei sefydliad ef wedi neilltuo Pasio Amodol i'w hun tan 2030, i gydnabod y ffaith na fydd y metrig yn berthnasol yn ffurfiol tan y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, nodwyd ganddo eu bod nhw wedi derbyn canllawiau sy'n gwrthdaro gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru: dywedodd un nad oedd y metrig yn berthnasol eto, ond dywedodd un arall y dylid ei gofnodi eisoes^[troednodyn3].

Yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch Pasio Amodol, amlygodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol broblemau o ran sut caiff y statws "Methu" ei gymhwyso. Esboniodd un landlord o dan y Safon newydd, mae un Methu unigol mewn unrhyw ran o'r Safon bellach yn arwain at Fethu yn gyffredinol, ond o dan y Safon flaenorol, cyhyd â bod cartref yn pasio yn yr holl elfennau cynradd a mwyafrif o elfennau eilaidd, gallai gael marc o basio yn gyffredinol hyd yn oed pe bai rhai elfennau eilaidd yn methu. Roedd y newid hwn yn gofyn am addasiadau mewnol i brosesau ardystio SATC y sefydliad, oherwydd arweiniodd at ostyngiad amlwg mewn cyfraddau cydymffurfiaeth rhwng yr hen fframwaith a'r fframwaith newydd.

Footnotes

³³[3] Pennodd canllawiau Llywodraeth Cymru na fyddai elfennau 3b – "Dros dro, rhaid i'r holl gartrefi fodloni safon sylfaenol SAP 75 – EPC C" - yn cael eu cynnwys yn yr asesiad o gydymffurfiaeth tan 31 Mawrth 2030.

Dyweddodd landlord arall y gall data coll sbarduno marc "Methiant Tybiedig"^[troednodyn4]. Er enghraifft, gall absenoldeb pwynt unigol o ddata, megis gwybodaeth am gyfleusterau sychu, sbarduno'n awtomatig "methiant tybiedig," hyd yn oed os yw'r holl feysydd eraill yn gyflawn. Disgrifiwyd hyn i fod yn rhwystredig, yn enwedig oherwydd elfennau penodol. Er enghraifft, mae cyfleusterau sychu, a oedd yn cael eu hystyried i fod yn elfen eilaidd o'r blaen, bellach yn cael eu trin fel elfen gynradd, ac mae llawer o sefydliadau'n dal i fod wrthi'n casglu'r data hyn ar draws eu stoc o eiddo.

"Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf asesu yn teimlo'n eithaf crai. Gyda threigl amser, byddwn ni mwy na thebyg yn dod i'w derbyn yn fwy, ond ar hyn o bryd rydym yn cael trafferthion yn fewnol. Roedd gennym ni tua 50% o'n cartrefi yn dangos fel methiannau tybiedig oherwydd data coll. Wrth ystyried y peth yn fanylach, roedd y rhan fwyaf o'r data coll yn ymwneud ag un o'r elfennau craidd yn unig. Y rhwystredigaeth i ni yw allan o'r 37 neu 38 o elfennau craidd mae angen i ni eu casglu ar gyfer asesiad, pe bai data ar goll ar gyfer un elfen, roedd yn arwain at fethu ar gyfer yr eiddo hwnnw." (Landlord)

Footnotes

[4] Nid yw data coll mewn newidion cefnogi neu stocograffig yn sbarduno methiant tybiedig; dim ond newidion elfennau coll, y mae eu hangen at ddibenion asesu cydymffurfiaeth, a fydd yn sbarduno methiant tybiedig.

4.1.10 Landlordiaid cymdeithasol ar ddichonolrwydd y Safon wedi'i diweddaru

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Amcan 3 (cyd-destun): Cynnal gwerthusiad canlyniad o SATC 2023 (dichonolrwydd cyflawni effeithiau a fwriadwyd)

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: Amcan 2: CY3 – Profiadau gweithredu, gan gynnwys pa agweddau sy'n haws neu'n anos eu bodloni; **CY6** – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti, a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith.

Mae tystiolaeth yn nodi bod y mwyafrif o landlordiaid cymdeithasol yn ystyried bod SATC 2023 yn gyfuniad o elfennau syml a hynod heriol. Ystyrir gwelliannau i ansawdd tai craidd (diogelwch a gwaith trwsio cyffredinol, gwaith uwchraddio i geginau ac ystafelloedd ymolchi) yn eang i fod yn weithredadwy ac wedi'u halinio ag arferion cynnal a chadw presennol. Mewn gwrthgyferbyniad, ystyrir Rhan 3 o'r Safon, yn enwedig y targed ynni-effeithlonrwydd hirdymor o SAP 92/EPC A, i fod yr un mwyaf heriol ac, i lawer o sefydliadau, yn anghyflawnadwy ar draws eu stoc tai gyfan dan gyfyngiadau ariannol, technegol a gweithlu. Mae pryderon am gyllid, diffyg sgiliau, capasiti yn y gadwyn gyflenwi, a beichiau gweinyddol yn tanseilio ymhellach hyder wrth gyflawni.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Caiff llawer o elfennau SATC eu hystyried i fod yn syml ac wedi'u halinio ag arfer presennol:**

Dywedodd landlordiaid cymdeithasol bod llawer o agweddau ar y SATC 2023 yn adeiladu ar weithgareddau cynnal a chadw a gwella hirsefydlog. Dyfynnwyd ceginau, ystafelloedd ymolchi, mesurau diogelwch a diogeledd, lloriau, a gwaith trwsio cyffredinol yn gyson i fod yn syml yn dechnolegol ac wedi'u halinio'n agos â blaenoriaethau tenantiaid, gan eu gwneud yn gymharol rwydd eu cyflawni o fewn systemau presennol (CY3).

- **Mae rhai gofynion newydd yn dechnegol syml ond yn flaenoriaeth isel:**

Mae ychwanegiadau seilwaith bach, megis casgenni dŵr a siediau i feiciau, yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n dechnegol rwydd eu rhoi ar waith ond yn flaenoriaeth is oherwydd canfyddiad o'r effaith gyfyngedig ar brofiad tenantiaid o ddydd i ddydd (CY3).

- **Targedau ynni tymor canolog yn cael eu hystyried i fod yn gyflawnadwy gan rai landlordiaid:**

Dyweddodd nifer fach o landlordiaid eu bod yn hyderus wrth gyflawni'r targed SAP 75 drwy ymagwedd ffabrig yn gyntaf "busnes fel arfer", gan adeiladu ar raglenni presennol o insiwleiddio waliau allanol, ffenestri newydd a gwaith uwchraddio toeon. Fodd bynnag, disgwyliid y byddai cynnydd yn raddol ac yn anghyson ar draws portffolios tai (CY3).

- **Hyder isel mewn bodloni targedau ynni-ffeithiolrwydd hirdymor:**

Mae tystiolaeth o'r arolwg a'r cyfweiliadau yn dangos hyder isel wrth gyflawni SAP 75 erbyn 2030 ac yn enwedig SAP 92/EPC A erbyn 2040. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid yn rhagweld mai lleiafswm yn unig o'u stoc a fyddai'n bodloni'r safonau ynni-ffeithiolrwydd uchaf, gan adlewyrchu cyfyngiadau technegol, ffisegol ac yn ymwneud â stoc (CY3; cyd-destun Amcan 3).

- **Heriau ariannol, gweithlu acadnoddau yn cyfyngu ar ddichonolrwydd:**

Disgrifiwyd y rhan fwyaf o landlordiaid fodloni SATC 2023 i fod yn ariannol heriol, gyda chostau cyfalaf uchel ar gyfer datgarboneiddio, gwaith uwchraddio ynni-ffeithiolrwydd, a chapiau ar rent yn cyfyngu ar refeniw, gan olygu yn aml mai benthyca oedd yr unig opsiwn. Mae'r pwysau ariannol hyn yn cael eu dwysáu gan ddiffygion contractwyr medrus, aseswyr ôl-osodiadau ac arbenigwyr technegol, lle mae cystadleuaeth gyda rhaglenni datgarboneiddio eraill yn rhoi straen pellach ar gapasiti, yn codi costau ac yn oedi cyflawniad (CY6).

- **Beichiau gweinyddol a chydymffurfiaeth yn ychwanegu pwysau ychwanegol:**

Y tu hwnt i heriau gweithredol, mae gofynion rheoleiddiol ychwanegol, megis achrediad TrustMark, cydymffurfiaeth Manylebau sydd ar gael yn gyhoeddus (PAS) a chofrestru data, yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n cymryd llawer o amser, sy'n gostus ac sy'n feichus yn weinyddol. Adroddwyd bod niferoedd cyfyngedig o gontractwyr achrededig a newidiadau aml i safonau a'u bod yn creu tagfeydd, dyblygiadau ac aneffeithlonrwydd (CY6).

Elfennau syml

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol fod gan SATC 2023, fel parhad safon tai cymdeithasol y mae ei helfennau eisoes wedi'u bodloni, lawer o elfennau sy'n syml eu rhoi ar waith. Credir bod yr elfennau hyn wedi'u halinio'n dda ag arferion cynnal a chadw presennol â'u bod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â blaenoriaethau pennaf tenantiaid. Yr

enghreiffiau a ddyfynnwyd amlaf oedd ceginau ac ystafelloedd ymolchi, ynghyd â gwaith trwsio eiddo cyffredinol, sy'n dechnegol syml i'w roi ar waith. Amlygodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol hefyd fod gwaith uwchraddio rheolaidd, megis gosod carpedi, lloriau, mesurau diogelwch a diogeled, synwryddion mwg ychwanegol, yn ymyriadau y gellir eu rheoli, oherwydd bod gan sefydliadau brofiad, prosesau a thimoedd i reoli safonau eiddo o ddydd i ddydd.

Mewn perthynas ag elfennau SATC sy'n syml eu rhoi ar waith, dywedodd un landlord fod casgenni dŵr a siediau ar gyfer beiciau yn dechnegol syml, fel ychwanegiadau seilwaith bach. Fodd bynnag, ni chânt eu blaenoriaethu, oherwydd bod ganddynt effaith uniongyrchol gyfyngedig ar brofiad pob dydd tenantiaid.

"Yr elfennau haws yw'r rhai mae tenantiaid eu heisiau mewn gwirionedd, sef pethau fel diogelwch, diogeled, a bod mewn amgylchedd cyffyrddus. Maent yn gwerthfawrogi ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn fawr, ac mae'r rhannau hynny o'r Safon yn gymharol syml i'w cyflwyno. Mae rhai agweddau, megis delio gydag eiddo gwag a charpedi, hefyd yn cyd-fynd yn dda â'r hyn mae tenantiaid yn ei werthfawrogi, er y gallant fod ychydig yn fwy beichus." (Landlord)

"Mae elfennau penodol nad ydynt yn arbennig o anodd, yn fy marn bersonol i, er bod beirniadaeth sector cyfan o rai agweddau, er enghraifft y gofyniad i gyflawni carpedi a chloriau lloriau drwyddi draw. Nid yw'r her yna'n un dechnegol; mae'n ariannol yn bennaf." (Landlord)

Yn ogystal, soniodd un landlord y byddai targed ynni-effeithlonrwydd tymor canolog SAP 75 ei sefydliad, er y byddai'n gofyn am beth gwaith ar eu ran nhw, yn syml i'w fodloni. Roedd insiwleiddio waliau allanol, ffenestri newydd, a gwaith uwchraddio toeon eisoes wedi'u cyflawni mewn llawer o gartrefi yn agos i'r targed SAP 75, ac felly roedd gofyn am fesurau ychwanegol yn unig, megis gosodiadau PV solar a ariennir drwy ORP, i wella'r sgoriau ymhellach tuag at SAP 78–80.

"Er mwyn cyrraedd SAP 75, rydym yn dilyn ymagwedd 'busnes fel arfer' gan ddefnyddio dull 'ffabrig yn gyntaf', yn gosod insiwleiddio i waliau allanol, ffenestri newydd, toeon newydd, ac yn y blaen. Drwy'r ymagwedd honno, rydym yn cyrraedd tua SAP 70 i 72 yn gyffredinol. Rydym yn dod yn agos fel rhan o'n gweithrediadau arferol. Bydd yn cymryd amser i weithio drwy'r stoc tai gyfan, ond rydym wedi bod yn dilyn yr ymagwedd hon ers blynnyddoedd ac mae gennym ni gynllun busnes 30 mlynedd o hyd i barhau. Dros amser, ac yn naturiol, bydd y rhan fwyaf helaeth o'n


cartrefi yn cyrraedd EPC C, ond nid SAP 75 o reidrwydd." (Landlord)

Rhannau heriol

Yn yr arolwg, gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol pa mor hyderus oedden nhw y byddant yn cyrraedd y nod o gynnig cartrefi gyda sgôr sylfaenol o SAP 75 erbyn 2030, ac roedd yr ymatebion yn gymysg ond yn tueddu tuag at lefelau is o hyder. Dywedodd 34% eu bod yn hyderus iawn neu'n hyderus i raddau, a dywedodd cyfran fwy o 41% nad oeddent yn hyderus iawn neu nad oeddent yn hyderus o gwbl. Dywedodd tua un o bob pump (22%) nad oeddent yn hyderus na ddim yn hyderus, a dewisodd y gweddill i beidio ag ateb y cwestiwn.

At hynny, gan edrych ymlaen tuag at 2040, mynegodd landlordiaid cymdeithasol hyder cyfyngedig y bydd eu stoc tai nhw yn cyrraedd sgôr SAP 92/EPC A (gweler Ffigur 4). Dim ond 5 ymatebydd (sef 16%) oedd yn rhagweld y byddai o leiaf 70% o'u cartrefi yn bodloni'r safon hon, ac roedd 34% arall yn disgwyl y byddai hyn yn berthnasol i 40% i 69% o'u stoc. Dywedodd 38% mai ond ychydig (rhwng 20% a 39%) neu ychydig iawn (llai nag 20%) o'u cartrefi a fyddai'n cyrraedd SAP 92/EPC A, ac roedd 9% yn ansicr. Dewisodd y gweddill i beidio ag ateb y cwestiwn.

Ffigur 10: Cyfran ddisgwyliedig o stoc tai landlordiaid cymdeithasol a fwriedir i gyrraedd y sgôr SAP 92/EPC A sylfaenol erbyn 2040 (n=32)



Disgrifiad o Ffigur 10: Siart colofnau sy'n dangos ymatebion o'r arolwg landlordiaid cymdeithasol (n=32) ar y gyfran ddisgwyliedig o'u stoc tai a fwriedir i gyrraedd y sgôr SAP 92/EPC A sylfaenol erbyn 2040. Rhoddir opsiynau ymateb mewn categorïau amcangyfrif fel canran, yn amrywio o 'pob un' i 'lai nag 20%'. Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn yr ystod '40-69%', wedi'i dilyn gan 'lai nag 20%'.

Yn gyfochrog â chanfyddiadau'r arolwg, nodwyd bod bodloni Rhan 3 o SATC 2023 mewn cyfweiliadau fel yr un agwedd fwyaf heriol ar y Safon i'w chyflawni o fewn adnoddau ariannol a gweithrediadol presennol ar gyfer y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid cymdeithasol. Y prif reswm yw'r targed SAP terfynol o 92. Er yr ystyrir y targed tymor canolog o 75 i fod yn gyflawnadwy i rai landlordiaid cymdeithasol, ystyrir SAP 92 i fod yn uchelgeisiol iawn ac yn anodd iawn ei gyflawni mewn cartrefi presennol. Er enghraifft, dywedodd un landlord cymdeithasol y cyfwelwyd ag ef ei fod hyd yn oed yn fwy heriol i adeiladau newydd sy'n bodloni'r Safon flaenorol, gan eu bod nhw sgorio yn yr 80au uchel yn unig fel arfer. Mae cartrefi sy'n cael eu gwresogi gan Nwy Petrolïwm Hylifol (LPG) hefyd yn wynebu her sylweddol, oherwydd ni allant gyrraedd SAP 92 heb newid i ffynhonnell ynni arall.

O ganlyniad, roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn ystyried Rhan 3 i fod bron yn amhosib ei chyflawni heb gymorth sylweddol. Maent yn disgwyl y bydd cyflawniad yn aml yn dibynnu ar eithriadau neu "godau rheswm" i gartrefi lle nad yw gwaith uwchraddio yn ddichonol. Er y gellir uwchraddio rhai cartrefi'n haws nag eraill, ystyrir

cyflawni cydymffurfiaeth lawn ar draws portffolio tai cyfan i fod yn hynod heriol, hyd yn oed i'r sefydliadau mwyaf hyderus.

"Bydd cyrraedd y nod bennaf o eiddo 'Sgôr A' o safbwynt ynni yn eithriadol o anodd heb newid sylfaenol yn y ffynhonnell ynni. Er enghraifft, mae gennym ni rai cartrefi sy'n defnyddio LPG mewn swmp na fyddant byth yn cael sgôr A heb newid hanfodol yn eu tanwydd. Bydd rhai mathau o'r stoc yn symlach, ond bydd cyrraedd cydymffurfiaeth o 100% gyda'r gofynion ynni yn anodd iawn. Byddwn i'n dweud yn hyderus bod hyd yn oed anelu at 90%, a hyd yn oed gyda'r targedau interim o 75% erbyn 2030—er bod peth hyblygrwydd ar hyn o bryd—dyna le bydd ein prif heriau." (Landlord)

"Mae ynni adnewyddadwy, megis solar, yn rhan o'r ymagwedd hon, mae'n dal i brofi'n eithriadol o anodd gyrraedd y lefelau SAP uchel sy'n ofynnol. Nid yw hynny'n dweud y bydd pob cartref yn cyrraedd y pwynt hwnnw. Dw i'n hyderus y gallwn ni gael efallai 50% o'n stoc tai i'r lefel honno, ond bydd heriau sylweddol i sicrhau bod yr holl gartrefi yno. Mewn rhai achosion, efallai na fydd hi'n gwbl ymarferol, er nid yn amhosib." (Landlord)

Caiff yr heriau ymarferol a thechnolegol hyn eu hadlewyrchu mewn pryderon ehangach landlordiaid cymdeithasol am fodloni'r targedau ynni-ffeithlonrwydd uchaf. Yn yr ymatebion i'r arolwg, nododd llawer ohonynt nad yw cyrraedd y targedau ynni-ffeithiolrwydd uchaf, megis SAP 92 neu EPC A, yn ddichonol ar draws y stoc tai gyfan. Mae cyfyngiadau technolegol a ffisegol, gan gynnwys lle cyfyngedig ar doeon ar gyfer paneli solar, diffyg lle i'r pen er mwyn insiwleiddio lloriau, a lle cyfyngedig ar gyfer pypiau gwres, atal llawer o gartrefi rhag cyrraedd y safonau hyn. Mae oedran a deunyddiau adeiladu cyfran fawr o'r stoc yn cyfyngu ymhellach y potensial am welliannau ynni dwfn.

Goblygiadau ariannol

Wrth ystyried effaith ariannol bodloni SATC 2023, roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol a holwyd yn rhagweld heriau sylweddol. Dim ond 16% o'r ymatebwyr (sef 5 allan o 32) oedd yn teimlo y byddai'r effaith yn rheoladwy neu'n rheoladwy iawn, ac roedd bron i dri-chwarter (72%) yn ei disgrifio i fod rhywfaint yn anrheoladwy neu'n anrheoladwy iawn. Roedd y gweddill yn niwtral neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn.

Rhoddodd y cyfweiliadau gyfle am ddealltwriaeth ddyfnach o'r goblygiadau ariannol, yn enwedig ar gyfer bodloni targedau datgarboneiddio ac ynni-ffeithlonrwydd, lle soniwyd am gyfyngiadau ariannol fel y prif rwystrau. Mae llawer o sefydliadau wedi gosod targedau

hirdymor, rhai yn ymestyn i 2050, gan amlygu'r bwlch mawr rhwng yr hyn sy'n bosib ar hyn o bryd a'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau. Mae cyfyngiadau cyllidebol yn arafu eu cynnydd, ond ni ellir talu costau uchel gosodiadau ynni adnewyddadwy a gwaith uwchraddio ynni-effeithlonrwydd gydag incwm rhent oherwydd bod capiau'r llywodraeth ar rent yn atal codiadau rhent. Gan na all sefydliadau ailgyfeirio refeniw rhent, benthyca yw'r unig opsiwn, ac mae hynny yn ei dro yn gwrthdaro â'r angen i gyllido tai newydd a blaenoriaethau cystadleuol eraill.

At hynny, nododd y rhan fwyaf o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw fod capasiti yn y gweithlu yn cyflwyno haen arall o her ar ben cyfyngiadau cyllido. Hyd yn oed pan fydd cyllid ar gael, nid oes digon o gontractwyr medrus, aseswyr ôl-osodiadau, ac arbenigwyr technegol, yn enwedig yng ngogledd a gorllewin Cymru. Yn ogystal, esboniodd un landlord fod cystadleuaeth gyda phrosiectau datgarboneiddio ledled Cymru a Lloegr yn lleihau'r gweithlu lleol, ac nid yw rhaglenni hyfforddi presennol wedi cau'r bwlch sgiliau'n llawn eto. Dywedodd yr un landlord fod sefydliadau'n cystadlu am gronfa fach o weithwyr medrus, sy'n gallu rhoi pwysau ar adnoddau, achosi oedi, a chynyddu costau contract, gan ei gwneud hi'n anos i gwblhau prosiectau ar amser ac yn unol â'r gyllideb. Mae timoedd Cymdeithas Tai Mewnol ac Awdurdod Lleol hefyd yn wynebu problemau capasiti. Gall gwaith cynllunio a gweinyddu cyn y prosiect ymestyn amserlenni, a gall cydymffurfio â rheolau caffael, cadw gwaith yn lleol, a chymhlethdod technegol prosiectau ôl-osod gyfrannu at oedi pellach.

Hefyd, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod gofynion adrodd data a chofrestru ychwanegu her arall sy'n gysylltiedig â Rhan 3 o SATC. Mae casglu ac adrodd am wybodaeth amgylcheddol, megis larymau carbon monocsid, yn ychwanegu cymhlethdod oherwydd nid oedd contractwyr wedi paratoi i wneud hynny. Mae gosod mesuryddion clyfar a rhoi mesurau cynhwysiant digidol ar waith hefyd yn dibynnu ar barodrwydd tenantiaid, gan gyfyngu ar yr hyn y gall sefydliadau ei reoli. Mae achrediad TrustMark a dilyn safonau ôl-osod PAS yn cael eu disgrifio fel pethau sy'n llyncu amser, sy'n ddud ac sy'n feichus yn weinyddol. Mae newid rhwng gofynion yng nghanol contract yn gofyn am addasiadau mawr i sicrhau y caiff gwaith ei gofnodi'n briodol, ac mae nifer gyfyngedig y contractwyr achrededig a chydlynwyr ôl-osod yn achosi oedi pellach. Dim ond ffracsiwn bach yn unig o gontractwyr sydd wedi'u hachredu gyda TrustMark, gan greu tagfeydd o ran ansawdd a chapasiti. Dywedodd un landlord y gall hyn greu monopoli lleol, gan yrru costau i fyny ac achosi canlyniadau anghyson. Nododd landlord arall fod prosesau cofrestru data a sicrhau ansawdd arwain at ddyblygu a chostau gweinyddol uchel, gyda pheth gwaith dylunio yn defnyddio'r cronfeydd a allai gael eu defnyddio fel arall ar gyfer ôl-osodiadau gwirioneddol.

"Mae'r broblem fwyaf yn amlwg yn gysylltiedig â Rhan 3 - yr ochr ddatgarboneiddio - yn enwedig mewn perthynas â'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r gwaith. Mae cyfyngiadau cyllidebol, rydym eisoes wedi eu crybwyll, a sgiliau technegol ar gael yn lleol i gyflawni'r cynlluniau hyn yn her. Yn ogystal, mae'r gwaith ychwanegol sydd bellach yn ofynnol i gyflawni cynlluniau datgarboneiddio, megis cofrestrriad TrustMark, yn sylweddol ac mae'n effeithio ar gyllidebau adnoddau ac amser.... Rydym wedi defnyddio contractwyr a chydlynwyr ôl-osod sy'n cydymffurfio, ond mae'r gronfa yn fach... Nifer gyfyngedig o gontractwyr ac aseswyr ôl-osod sydd ar gael. Dw i'n siŵr y bydd hyn yn tyfu dros amser, ond rydym ni hefyd yn cystadlu gydag awdurdodau cyfagos sy'n defnyddio'r un dulliau cyflawni." (Landlord)

4.1.11 Newidiadau a roddwyd ar waith i fodloni'r Safon newydd

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2: Deall profiadau landlordiaid o fodloni SATC 2023

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 2: CY3** – Profiadau gweithredu, gan gynnwys pa agweddau sy'n haws neu'n anos eu bodloni; **CY6** – A oes gan landlordiaid sgiliau, capasiti a rhwydweithiau digonol i roi'r Safon ar waith. **Amcan 1: CY2** – Cynhwysiant a chyfranogiad: A yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith? A yw tenantiaid yn teimlo bod eu cartrefi'n bodloni safon briodol? **CY3** – Profiadau tenantiaid o'u cartrefi: I ba raddau mae tenantiaid yn credu bod newidiadau mewn perthynas â SATC yn effeithio ar eu lles?

Mae tystiolaeth yn dangos bod landlordiaid cymdeithasol wedi dechrau rhoi amrywiaeth o newidiadau ar waith i fodloni SATC 2023, gyda chynnydd yn amrywio'n sylweddol ar draws sefydliadau. Mae llawer o landlordiaid wedi integreiddio gofynion SATC i raglenni cynnal a chadw ac uwchraddio presennol, ac mae eraill wedi peilota ymagweddau newydd at brofi dilyniant a dichonolrwydd ar gyfer bodloni Rhan 3. I ychydig o landlordiaid, mae'r Safon wedi'i diweddaru wedi ysgogi ffyrdd newydd o weithio a rolau sefydliadol yn uniongyrchol, er bod eraill wedi adrodd mai prin yw'r newidiadau i weithgareddau a gynlluniwyd hyd yma. O safbwynt tenantiaid, roedd profiadau o welliannau cartref yn gymysg: er bod rhai tenantiaid wedi adrodd am waith gwella cadarnhaol wedi'i reoli'n dda, roedd eraill wedi profi tarfiadau, safon gwaith wael, neu gyfathrebu cyfyngedig.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Cynnydd cynnar drwy addasu rhaglenni presennol:**

Dywedodd llawer o landlordiaid eu bod nhw eisoes wedi dechrau gwaith sydd wedi'i alinio â SATC 2023, yn aml drwy addasu gweithgareddau busnes fel arfer a gynlluniwyd. Dyfynnwyd gwaith uwchraddio i geginau, ystafelloedd ymolchi, ffenestri newydd, a datrys lleithder yn aml, gydag elfennau SATC ychwanegol, megis dulliau awyru gwell, synwryddion mwg, a mesurau ynni-ffeithiolrwydd, wedi'u hymgorffori i waith arferol (Amcan 2: CY3).

- **Peilota a phrofi ymagweddau newydd at gyflawni:**

Dywedodd rhai landlordiaid eu bod yn peilota ymagweddau ôl-osod a dilynant dwfn i ddeall yn well sut y gellir cyflawni ymyriadau lluosog yn effeithiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynlluniau peilot ôl-osod dwfn ar raddfa fach gan ddefnyddio modelu a phartneriaethau gyda sefydliadau academiaidd, a chynlluniau peilota sy'n profi'r drefn orau ar gyfer insiweiddio, a gwaith uwchraddio ffenestri a drysau (Amcan 2: CY3, CY6).

- **SATC 2023 fel sbarduno i weithgaredd newydd:**

Dywedodd rhai landlordiaid na fyddai ymyriadau ynni-ffeithlonrwydd penodol wedi'u cyflawni heb y Safon wedi'i diweddarau. Mewn rhai achosion, ysgogodd SATC 2023 greu rolau sefydliadol newydd sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio. I'r gwrthwyneb, nododd ychydig o landlordiaid nad oedd ychydig o waith ychwanegol wedi digwydd eto y tu hwnt i weithgareddau busnes fel arfer (CY3).

- **Mae tensiynau gyda blaenoriaethau rheoli eiddo presennol:**

Dywedodd ychydig o landlordiaid fod camlinelliad rhwng gofynion SATC 2023 yn yr hirdymor a strategaethau rheoli asedau, cyllidebau a blaenoriaethau gweithredol presennol. Gwaethygydd y tensiynau hyn lle'r oedd gofynion cydymffurfio yn gwrthdaro ag anghenion tai argyfwng, er enghraifft, oedi wrth ailosod oherwydd gosodiad mesuryddion clyfar. Roedd hefyd bryderon y gellir gwaredu cartrefi sy'n gymhleth neu'n gostus i'w huwchraddio, o bosib drwy eu trosglwyddo i'r sector rhent preifat, lle gallai fod llai o anogaeth neu adnoddau i wella safonau (CY3, CY6).

- **Profiadau cymysg tenantiaid o welliannau, a'u cwblhau, i'w cartrefi:**

Nododd adborth tenantiaid profiadau amrywiol o welliannau i gartrefi, gydag ychydig dros draean yn dweud nad oeddent wedi cael gwaith yn ddiweddar na chyfathrebu am welliannau yn y dyfodol, a dywedodd tua dau o bob pump fod gwelliannau wedi'u cwblhau neu eu bod ar y gweill. Roedd gwaith cyffredin yn cynnwys ceginau,

ystafelloedd ymolchi, ffenestri, a drysau, a systemau gwresogi, a soniwyd yn llai aml am fesurau ynni-ffeithlonrwydd a gwelliannau allanol. Amlygodd cyfweiliadau amrywiaeth sylweddol yn ansawdd a tharfu gwaith, gan amrywio o brosiectau a reolwyd yn dda a chyfathrebu clir i brofiadau o safon gwaith isel, oedi, gwaith heb ei orffen, a phroblemau canlyniadol, megis lleithder neu fowld (Amcan 1: CY2, CY3).

Cynnydd a wnaed hyd yma gan landlordiaid cymdeithasol

Dywedodd llawer o landlordiaid cymdeithasol fod eu sefydliadau eisoes wedi dechrau gwaith i fodloni'r Safon wedi'i diweddarau. Roedd enghreifftiau yn cynnwys eu gweithgareddau a gynlluniwyd eisoes, megis mynd i'r afael â lleithder a lleithedd yn eu stoc tai gyfan. Dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol eu bod nhw wedi teilwra eu gwaith a gynlluniwyd eisoes i ymgorffori rhai o'r gofynion SATC ychwanegol ar yr un pryd. Dyfynnodd landlord waith uwchraddio i geginau ac ystafelloedd ymolchi fel gwaith arferol sydd bellach wedi'u cynllunio i ymgorffori gofynion SATC, gan gynnwys mesurau diogelwch, megis synwryddion mwg, gwelliannau ynni ac awyru gwell. Amlygwyd gwaith uwchraddio i ffenestri hefyd gan landlord arall, ac amnewid ffenestri gwydr dwbl gyda ffenestri gwydr triphlyg, mewn cyfuniad ag insiwleiddio waliau allanol, i fodloni targedau ynni-ffeithiolrwydd.

Roedd rhai o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn dweud bod eu sefydliadau wedi peilota ymagweddau i brofi dilyniant a chyfuniad eu hymyriadau yn y dyfodol. Disgrifiodd un landlord gynllun peilota ôl-osod dwfn ar 39 o gartrefi, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â phrifysgol, a oedd yn defnyddio modelu i gymhwyso mesurau ffabrig yn gyntaf, yn enwedig mewn adeiladau carreg galed sy'n gofyn am ymagweddau ôl-osod wedi'u teilwra a buddsoddiad sylweddol. Soniodd landlord arall am gynllun peilota bach a oedd wedi helpu i bennu'r dilyniant gorau ar gyfer cyfuno insiwleiddio waliau allanol, ffenestri a drysau newydd, a gwaith uwchraddio arall yn effeithiol. Ar raddfa fwy, ar wahân i waith sy'n gysylltiedig ag ORP, dim ond un enghraifft o gynllun gwaith ynni-ffeithiolrwydd ar raddfa fawr a roddwyd, a gwnaeth un landlord ddweud ei fod yn gosod PV solar a batris storio mewn sawl cant o gartrefi.

Dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol na fyddai'r gwaith hwn wedi cael ei wneud pe na fyddai'r Safon wedi cael ei diweddarau. Er enghraifft, dywedodd un landlord na fyddai wedi rhoi'r Insiwleiddio Waliau Allanol (EWI) ar waith heb y gofynion diweddaraf o SATC Rhan 3, ac awgrymodd un arall na fyddai ei sefydliad na'r sector tai cymdeithasol ehangach wedi dilyn targedau perfformiad ynni mor uchelgeisiol pe na fyddant wedi'u gosod. Yn ogystal,

nododd un landlord fod y gofynion newydd wedi arwain at greu rôl swyddog datgarboneiddio yn ei sefydliad. Mewn gwrthgyferbyniad, awgrymodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol y byddai'r gwaith wedi mynd yn ei flaen er gwaethaf popeth, naill ai oherwydd iddo fod wedi'i gynllunio cyn diweddariad y Safon neu oherwydd ei fod yn cwmpo o fewn y gwaith cynnal a chadw busnes fel arfer arferol. Yn ogystal, dywedodd ambell landlord cymdeithasol arall nad oedd unrhyw waith o bwys wedi'i gynnal hyd yma. Er na chafodd hyn ei drafod yn fanwl, esboniwyd eu bod nhw wedi bod yn canolbwyntio ar eu gweithrediadau busnes fel arfer yn y cyfamser.

Aliniad landlordiaid cymdeithasol ag arferion rheoli eiddo presennol

Roedd y landlordiaid y cyfwelwyd â nhw'n gymysg o ran a oedd y SATC wedi'i diweddaru yn alinio â'u harferion rheoli eiddo presennol. Fel a soniwyd yn yr adran uchod, roedd croeso i agweddau ar y Safon a oedd yn alinio ag arferion presennol ac roedd canfyddiad eu bod o fudd gwirioneddol i denantiaid, er enghraifft gwaith cynnal a chadw arferol a gwaith uwchraddio a gynlluniwyd sy'n ymgorffori ynni-ffeithlonrwydd neu welliannau diogelwch. Fodd bynnag, ystyriwyd bod nodau amgylcheddol a datgarboneiddio terfynol, yn enwedig y targedau SAP/EIR, yn uchelgeisiol ar y cyfan ac, mewn rhai achosion, yn her i'w rhoi ar waith yn unol â chyllidebau presennol, yn enwedig gyda stoc tai hŷn. Roedd llawer yn credu er bod y gwelliannau ynni-ffeithiolrwydd o dan y Safon wedi'i diweddaru o fudd gwirioneddol i denantiaid, gallant fod yn anymarferol neu hyd yn oed yn anghyflawnadwy mewn adeiladau hŷn. Awgrymodd landlord y byddai nodau datgarboneiddio'n fwy effeithiol pe baent yn cael eu cyfeirio at adeiladau newydd yn hytrach nac ôl-osod eiddo gyda chyfyngiadau ffisegol neu ddylunio.

Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol densiynau rhwng bodloni'r Safon a mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol tenantiaid. Amlygwyd heriau gweithredol lle'r oedd gofynion ynni-ffeithiolrwydd a datgarboneiddio yn gwrthdaro â galw enbyd am dai. Roedd y gofyniad am osod mesuryddion clyfar mewn eiddo cyn eu rhentu wedi'i nodi fel un sy'n cymryd sawl wythnos i'w drefnu, gan greu anawsterau ymarferol pan oedd cartrefi'n barod i'w meddiannu fel arall. Gan gofio'r galw enbyd am dai a nifer y teuluoedd digartref sy'n aros am lety, nid oedd cadw cartrefi'n wag er mwyn bodloni'r gofyniad hwn yn unig yn gwneud synnwyr iddynt. Roedd angen i benderfyniadau gweithredol flaenoriaethu gosod llety yn gyflymach yn hytrach nag oedi at ddiben gosod mesurydd clyfar:

"Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o safbwynt angen am lety pan fydd gennych chi X o deuluoedd digartref i gadw'r eiddo yn wag nes y bydd mesurydd clyfar wedi'i osod."
(Landlord)

Rhoddodd landlord arall enghraifft o faths ymolchi newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn bodloni targedau effeithiolrwydd dŵr, a oedd weithiau yn arwain at ail-osod ffitiadau hollol weithredol heb fod budd clir i'r tenant. Codwyd pryderon hefyd am eiddo hŷn gyda chyfyngiadau adeileddol sy'n gwneud cydymffurfiaeth lawn yn amhosib. Os nad ystyrir y cartrefi hyn i gydymffurfio, gall landlordiaid cymdeithasol deimlo dan bwysau i'w gwerthu. Fodd bynnag, unwaith y byddant ar y farchnad breifat, nid yw eiddo o'r fath yn debygol o gael gwaith uwchraddio sylweddol, oherwydd yn aml mae diffyg adnoddau, anogaeth a dyletswydd gyffredinol i'w wneud ar berchnogion preifat. Gallai hyn, yn ôl eu rhybuddion nhw, sefydlu amodau tai gwael yn gryfach yn hytrach na'u lleddfu.

"Un pryder a godon ni gyda Llywodraeth Cymru yn gynnwys yn y broses oedd os nad oeddem ni'n ofalus, gallai landlordiaid waredu'r stoc sy'n fwy cymhleth. Byddai hynny yn rhoi'r eiddo hwn ar y farchnad agored, lle mae hi'n annhebygol y byddai'n destun gwelliannau. Nid oes gan berchnogion preifat yr un lefel o fuddsoddiad nac anogaeth. Gallai eiddo sy'n perfformio'n wael bellach barhau i berfformio'n wael oherwydd bod meddianwyr yn ei chael hi'n anodd gyda morgais a chostau byw. Drwy ei gadw'n stoc landlord cymdeithasol, gydag ymrwymiad i'w wella, gallai'r eiddo gyrraedd ei gyflwr gorau posib. Mae hynny'n llawer mwy ffafriol i'w ryddhau oherwydd ei bod hi'n anodd gwneud y gwaith uwchraddio iddo." (Landlord)

Profiadau tenantiaid gyda gwelliannau cartref

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw waith wedi'i gwblhau i drwsio neu adnewyddu eu cartref yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd ychydig dros draean o ymatebwyr (sef 490 allan o 1,285) na wnaed gwaith trwsio nac adnewyddu, ac nad oeddent wedi clywed unrhyw beth am waith gwella o'r fath. Mewn gwrthgyferbyniad, nododd 39% o denantiaid fod gwelliannau naill ai wedi'u cwblhau neu eu bod ar y gweill: Cadarnhaodd 27% fod gwelliannau wedi'u cwblhau, a dywedodd 12% pellach fod gwelliannau'n parhau i fod ar y gweill ar adeg yr arolwg. Yn ogystal, dywedodd 166 o ymatebwyr (13%) er nad oedd unrhyw waith wedi'i wneud eto, dywedwyd wrthynt y byddai eu cartrefi'n cael eu gwella neu eu diweddarau yn y dyfodol. Roedd cyfran fach o denantiaid (11%) naill ai ddim yn gwybod bod gwelliannau wedi cael eu cwblhau neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn.

Ymhlith y rhai hynny a ddywedodd fod gwelliannau naill ai wedi'u cwblhau neu eu bod ar y gweill, gofynnwyd i denantiaid nodi'r math o waith a wnaed. Roedd y gwelliannau a adroddwyd amlaf yn cynnwys gwelliannau i ystafelloedd ymolchi (16%; 129 allan o 832), ceginau (15%), a gosod ffenestri neu ddrysau newydd (14%). Roedd gwaith ynni-effeithiolrwydd hefyd yn amlwg iawn, gyda 10% yn crybwyll gwelliannau i systemau

gwresogi, megis pypmiau gwres neu foeleri newydd. Adroddodd llai na 10% bob un o'r gwelliannau canlynol: datrysiadau i broblemau lleithder, mesurau insiwleiddio, gwelliannau diogelwch, gan gynnwys larymau diogelwch tân, paneli solar, gwelliannau i fannau awyr agored, a mannau storio ychwanegol.

Yn yr un modd, roedd y tenantiaid y cyfwelwyd â nhw a oedd wedi cael gwelliannau i'w cartrefi dros y 12 mis diwethaf yn cyfeirio at amrywiaeth eang o welliannau. Roedd y newidiadau mwyaf cyffredin yn cynnwys gwaith uwchraddio i systemau gwresogi, megis boeleri, rheiddiaduron a boeleri cyfuniad. Trafododd llawer o'r tenantiaid y cyfwelwyd â nhw eu bod wedi derbyn ffenestri gwydr dwbl a drysau newydd hefyd. Soniwyd yn aml am waith adnewyddu a thrwsio ystafelloedd ymolchi, ynghyd â gwelliannau diogelwch tân, megis systemau chwistrellu, larymau tân, a synwryddion mwg. Gosodwyd paneli solar i rai tenantiaid, ac roedd eraill wedi cael gwaith uwchraddio diogelwch, gan gynnwys camerâu a chloeon clyfar. Roedd gwelliannau ychwanegol yn cynnwys ffaniau alldynnu, gwaith insiwleiddio, cladio, gwaith trwsio to, ac adnewyddu ceginau.

Roedd y profiad o gael gwelliannau a'u cwblhau yn amrywio'n eang. Disgrifiodd rhai tenantiaid brosesau hwylus a phroffesiynol lle daeth gosodwyr ar amser, gan gwblhau'r gwaith yn effeithlon ac amddiffyn dodrefn a glanhau wedi'r gwaith. Roedd cyfathrebu'n glir, gyda rhybudd o flaen llaw a gwiriadau dilynol i sicrhau bod popeth yn gweithio'n gywir. Fodd bynnag, roedd tenantiaid eraill yn siarad am brofiadau mwy heriol. Disgrifiodd rhai y gwaith i fod yn aflonyddus. Soniodd rhai tenantiaid fod staff a oedd yn gwneud y gwaith yn fedrus ac yn gwrtais, ond disgrifiodd eraill safon wael o waith, gan gynnwys problemau gyda chloeon drws, fframiau drws o'r maint anghywir, carpedi ddim yn cael eu glanhau, wynebau nad oeddynt yn cael eu paentio, a selio anghywir a arweiniodd i ddifrod dŵr a mowld. Nododd rhai tenantiaid fod gwaith trwsio yn anghyflawn neu yr addawyd gwaith dilynol na wnaeth byth ddigwydd.

4.1.12 Effaith ar denantiaid SATC

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 3: Cynnal gwerthusiad canlyniad o SATC 2023

Amcan 1: Deall profiadau tenantiaid o SATC 2023

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: Amcan 3: I ba raddau mae SATC 2023 yn cyflawni ei heffeithiau bwriedig, gan gynnwys gwelliannau i foddhad ac ansawdd bywyd? A ellir arsylwi effeithiau ar ymddygiad tenantiaid, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o ynni. Amcan 1: I ba raddau y mae tenantiaid yn credu bod newidiadau sy'n

gysylltiedig â SATC yn effeithio ar eu lles corfforol neu feddyliol? A yw tenantiaid yn meddwl bod SATC 2023 wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac ym mha ffyrdd?

Mae tystiolaeth yn nodi bod SATC 2023 wedi cyflawni effeithiau cadarnhaol yn bennaf i denantiaid sydd wedi profi gwelliannau cartref, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd tai, cysur, diogelwch, a boddhad cyffredinol. Roedd gwelliannau hefyd yn gysylltiedig â lles a thawelwch meddwl gwell, er bod yr effeithiau ar effeithiolrwydd ynni a chanlyniadau ariannol yn fwy cymysg, gan adlewyrchu cynnydd ehangach mewn prisoedd ynni. Er bod tenantiaid yn adrodd am fuddion gwirioneddol o wresogi, insiwleiddio a gwaith gwella diogelwch, roedd eraill yn parhau i brofi heriau sy'n gysylltiedig â gwresogi anghyson, lleithder a chostau cynyddol ynni. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod SATC 2023 yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i denantiaid, ond bod effeithiau'n amrywio gan ddibynnu ar fath, ansawdd ac amserlenni gwaith, yn ogystal ag amodau economaidd ehangach.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Boddhad uchel gyda gwelliannau i ansawdd tai:**

Mae canlyniadau arolwg yn dangos bod tenantiaid sydd wedi profi gwelliannau yn crybwyll yr effaith gadarnhaol fwyaf ar gyflwr cyffredinol y cartref, ei ddiogelwch a'i ddiogeledd, ei gysur, a'u boddhad cyffredinol nhw gartref. Roedd tystiolaeth o'r cyfweiliadau'n atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn, ac roedd tenantiaid yn disgrifio amgylcheddau byw mwy cynnes, tawelach a mwy phlesurus yn dilyn gwaith uwchraddio (Amcan 3).

- **Effeithiau cadarnhaol ar gysur, gwres, a pherfformiad ynni:**

Roedd croeso eang i waith uwchraddio gwres, insiwleiddio gwres, a ffenestri gwydr dwbl, ac roedd tenantiaid yn adrodd am gadw gwres, llai o ddrafftiau a chysur acwstig gwell. Soniodd rhai tenantiaid hefyd am ddefnyddio llai o ynni a'i bod hi'n haws cadw eu cartrefi'n gynnes (Amcan 3).

- **Profiadau cymysg o fforddiadwyedd ynni:**

Er gwaethaf enillion effeithlonrwydd a adroddwyd, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod mwy na hanner o denantiaid yn profi cynnydd mewn biliau ynni o'u cymharu â'r gaeaf blaenorol, sy'n adlewyrchu amodau ehangach y farchnad mae'n debyg. Mae cyfweiliadau'n awgrymu er y gallai gwelliannau helpu i liniaru costau i rai tenantiaid, nid oedd y buddion hyn bob amser yn ddigonol i gydbwysu prisoedd ynni sy'n codi (Amcan 3).

- **Gwelliannau mewn canlyniadau iechyd corfforol i rai tenantiaid:**

Awgrymodd tystiolaeth o gyfweliadau fod gwelliannau i gartrefi yn arwain at fanteision iechyd corfforol i rai tenantiaid, yn enwedig drwy gartrefi mwy cynnes a sych sy'n lleihau problemau anadlu, yn gwella cwsig ac yn cyfyngu'r agoredrwydd i leithder a mowld. Fodd bynnag, nododd canlyniadau'r arolwg fod mwy o brofiadau cymysg yn gyffredinol, gyda lleiafrif nodedig yn dweud nad oedd newid o ran eu hiechyd. Roedd gwelliannau'n gysylltiedig yn fwy cyson â chanlyniadau iechyd meddwl a lles cadarnhaol, gan gynnwys llai o straen a gorbryder yn gysylltiedig â chostau gwresogi is, mwy o gysur, a diogelwch cartref gwell, yn ogystal â theimladau cryfach o falchder, urddas ac ymdeimlad o berthyn (Amcan 3).


- **Manteision rhagweladwy ymhlith tenantiaid sy'n aros am welliannau:**

Roedd tenantiaid nad oeddent eto wedi profi gwelliannau yn rhagweld effeithiau cadarnhaol ar gysur, iechyd, diogelwch a fforddiadwyedd. Roedd llawer yn disgwyl gwelliannau i leihau salwch, llai o straen, a gwella ansawdd bywyd, gan danlinellu pwysigrwydd cyflawniad prydlon a chyfathrebu clir (Amcan 1, Amcan 3).

Bodddhad gydag ansawdd gwell

Gofynnwyd i denantiaid a oedd wedi profi gwelliannau i'w cartref asesu eu heffaith ar draws 6 dimensiwn o safon cartref a lles (n=482). Ystyriwyd y gwelliannau i fod fwyaf cadarnhaol yn nhermau cyflwr cyffredinol eu cartrefi, gyda 68% yn mynegi cytundeb bod eu hannedd wedi gwella. Roedd mwyafrifoedd tebyg yn adrodd am welliannau i ddiogelwch (59%), lefelau o gysur (61%), a'u bodlonrwydd cyffredinol gartref (61%). Fodd bynnag, roedd canfyddiadau o effaith yn fwy cymysg ar gyfer ynni-effeithiolrwydd, gydag ychydig mwy na hanner yr ymatebwyr (55%) yn cytuno bod eu cartref bellach yn cadw gwres yn well ac yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Ffigur 11: Cytundeb tenantiaid tai cymdeithasol gyda datganiadau am yr effaith mae gwelliannau i gartrefi wedi'i chael dros y 12 mis diwethaf (n=482)



Disgrifiad o Ffigur 11: Siart bar pentyrrau sy'n dangos yr ymatebion o'r arolwg tenantiaid tai cymdeithasol SATC (n=482), a ofynnwyd dim ond i ymatebwyr a oedd wedi cael gwelliannau i'w cartrefi dros y 12 mis diwethaf. Archwiliodd y cwestiynau graddau'r cytundeb gyda'r datganiadau am effeithiau'r gwelliannau hyn, gydag opsiynau ymatebion yn amrywio o 'gytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf.' Ar gyfer pob effaith, dewisodd mwyafrif bach o ymatebwyr 'cytuno'n gryf,' 'cytuno,' neu 'gytuno rhywfaint.'

Cyfeiriwyd yn fwy bendant at y farn gadarnhaol ar y cyfan hon mewn cyfweiliadau â thenantiaid, a ddatgelodd foddhad mawr ag effaith gwelliannau cartref. Roedd gan newidiadau i ansawdd cartrefi effaith fwy sylweddol ar foddhad tenantiaid, gyda llawer yn crybwyll gwelliannau cadarnhaol a rhai heriau parhaus.

Roedd croeso eang i welliannau gwresogi a chysur. Roedd systemau gwresogi wedi'u huwchraddio, boeleri newydd, a rheiddiaduron wedi gwneud cartrefi'n fwy cynnes a chysurus. Roedd insiwleiddio gwell a ffenestri gwydr dwbl yn helpu eiddo i gadw gwres yn well, gan leihau'r angen i gadw'r gwres ymlaen yn barhaus. Nododd rhai tenantiaid fod eu biliau ynni wedi lleihau, gyda phaneli solar hefyd yn helpu rhai i leihau eu costau trydanol. Roedd cartrefi'n teimlo'n fwy cynnes, yn dawelach, heb ddrafftiau, gan wneud bywyd bob

dydd yn fwy pleserus. Roedd ffenestri gwydr dwbl yn lleihau sŵn o'r tu allan, gan helpu teuluoedd i ganolbwyntio, gweithio gartref a chysgu'n well.

Fodd bynnag, nid oedd yr holl brofiadau'n gadarnhaol. Dywedodd un tenant fod y gwres yn parhau i fod yn annibynadwy, gydag ystafelloedd yn cynhesu'n anghyson a rhai yn aros yn oer, gan achosi'r angen am flancedi ychwanegol a gwresogyddion cludadwy. Soniodd un arall am gael rheiddiaduron trydanol a oedd yn rhy ddrud i'w rhedeg, gan arwain at beidio â'u defnyddio i wresogi o gwbl.

Gwnaeth diogelwch a gwelliannau diogelwch gynyddu boddhad. Roedd drysau newydd, camerâu diogelwch, a chloeon clyfar wneud i denantiaid deimlo'n fwy diogel. Roedd larymau tân a synwryddion mwg yn gwella diogelwch, yn enwedig i'r bobl hynny a oedd wedi cael profiad o ddigwyddiadau yn y gorffennol. Roedd tenant arall yn teimlo'n ddiolchgar i gael cartref a oedd yn ddiogel ac yn diwallu ei anghenion ar ôl profi ansefydlogrwydd cartref.

"Mae'r lle yn teimlo'n fwy diogel. Gall y diweddariadau bach hynny arwain at welliant mawr o ran amgylchedd a gwneud i'r cartref deimlo'n fwy dymunol i fyw ynddo."

Cyfrannodd natur ymarferol a glendid hefyd at foddhad. Roedd gwaith adnewyddu i ystafelloedd ymolchi yn gwneud cyfleusterau nad oedd modd eu defnyddio yn ddefnyddiadwy eto, gan arwain at effaith gadarnhaol ar gysur dyddiol. Roedd gwaith trwsio nad oedd yn waith sylweddol yn gwneud tasgau'n haws ac yn lleihau rhwystredigaeth. Roedd gosod ffaniau alldynnu newydd mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn lleihau cyddwysiad, gan wneud i gartrefi deimlo'n lanach ac yn dawelach. Serch hynny, roedd heriau parhaus yn dal i barhau i eraill. Er gwaethaf gwelliannau, nododd un tenant fod problemau mawr gyda lleithder, mowld a gwresogi annibynadwy yn golygu nad oedd eu cartrefi yn teimlo'n hollol gynnes, yn iach, nac yn gyffyrddus o hyd, gan effeithio'n arbennig ar eu plant.

Roedd tenantiaid nad oeddent wedi cael gwelliannau eto yn rhagweld amrywiaeth o welliannau i'w boddhad. Diogelwch, cysur a golwg gwell ar eu cartrefi oedd y prif ganlyniadau disgwylid. Disgwylid i ddrysau a ffenestri newydd wella diogelwch a boddhad yn gyffredinol. Rhagwelwyd gwelliannau o ran natur ymarferol hefyd, gyda disgwyliad y byddai newidiadau i ddrysau, ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn ei gwneud hi'n haws byw. Roedd disgwyliad y byddai gwelliannau i erddi yn gwneud mannau awyr agored yn fwy dymunol a defnyddiol. Roedd disgwyliad y byddai mesurau ynni-

effeithiolrwydd, megis pypmiao gwres a phaneli solar, yn darparu ymdeimlad o gyfrannu at gynaliadwyedd, gan adlewyrchu gwerthoedd personol a phroffesiynol.

Effaith ar sefyllfa ariannol

Gofynnwyd i denantiaid a oedd wedi profi gwelliannau cartref am newidiadau i'w biliau ynni, o'u cymharu â'r gaeaf diweddaraf (2024 i 2025) â'r gaeaf blaenorol (2023 i 2024) (n=499). Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr (262 allan o 499) fod eu biliau wedi cynyddu, gyda 28% yn nodi cynnydd sylweddol a 25% yn nodi cynnych bach. Nid oedd bron i 1 allan o bob 5 wedi sylwi ar newidiadau yn eu costau ynni. Mewn gwrthgyferbyniad, dim ond 15% o ymatebwyr a oedd wedi profi lleihad yn eu biliau. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd cynnydd ehangach mewn costau ynni ledled y DU, yn hytrach nag effeithiolrwydd y gwelliannau cartref eu hunain.

Er gwaethaf y tueddiad ehangach mewn biliau ynni sy'n cynyddu, amlygodd cyfweiliadau â thenantiaid sut roedd gwelliannau penodol wedi helpu i leihau treuliant a rheoli costau'n fwy effeithiol. Helpodd systemau gwresogi wedi'u huwchraddio, boeleri newydd, ffenestri gwydr dwbl, ac insiwleiddio gwell i gartref gadw gwres yn well, gan leihau'r angen i redeg y gwres yn barhaus a, thrwy hynny, leihau biliau. Sylwodd rhai tenantiaid fod eu cartrefi'n aros yn gynnes yn haws. Helpodd paneli solar un aelwyd yn sylweddol i leihau ei gostau trydan. Roedd boeleri mwy effeithlon yn gwella rheolaeth ariannol ac yn darparu tawelwch meddwl am gostau parhaus. Nododd un tenant bod hyd yn oed gwelliannau bach i systemau gwresogi a ffenestri wedi cael effaith ariannol fach ond cadarnhaol. Fodd bynnag, i un tenant roedd yn anodd penderfynu a oedd yr arbedion oherwydd y system gwresogi ei hun neu newidiadau diweddar mewn prisoedd ynni, er bod y system yn perfformio'n dda yn gyffredinol.

Y tu hwnt i arbedion ynni, roedd rhai tenantiaid yn rhagweld costau cynnal a chadw ac amnewid llai. Roedd disgwyliad y byddai drysau o safon yn para'n hirach ac yn costio llai i'w cynnal dros amser. Roedd un tenant yn disgwyl y byddai datrys problemau lleithder yn dileu costau parhaus am addurno a thrwsio a achoswyd gan waith cynnal a chadw gwael, yr oedd yn ei dalu ei hun ar hyn o bryd. Soniodd un arall y byddai gwelliannau i'r ardd yn arbed arian a oedd y cael ei wario cyn hynny ar dalu am gymorth cynnal a chadw. Roedd un tenant yn rhagweld y byddai manteision ariannol i osod casgenni dŵr i leihau biliau dŵr, a soniodd ychydig o rai eraill y byddai'r gwelliannau hyn hefyd yn darparu ymdeimlad o gyfrannu at nodau cynaliadwyedd ehangach.

Effaith ar iechyd corfforol a meddwl

Roedd safbwyntiau wedi'u rhannu o ran buddion iechyd, lle'r oedd dim ond 43% (allan o 466 o ymatebwyr yr arolwg) yn teimlo'n iachach o ganlyniad i'r newidiadau, a bron i 3 allan o bob 10 o denantiaid a lenwodd yr arolwg â barn niwtral am y dimensiwn hwn.

Yn ystod y cyfweiliadau, trafodwyd effeithiau iechyd mewn perthynas â lles corfforol a meddwl. Dywedodd tenantiaid eu bod yn teimlo'n iachach, yn lanach ac yn dawelwch eu meddyliau yn dilyn gwelliannau. O ran iechyd corfforol, nododd tenantiaid fod cartrefi mwy cynnes a sych yn lleihau salwch. Roedd cartrefi'n aros yn gynnes ac yn sych, gan fynd i'r afael â phroblemau blaenorol lle'r oedd drafftiau a mannau oer yn achos poenau neu'n gwneud i denantiaid deimlo'n wan. Dywedodd un tenant fod oerni a lleithder yn ei gwneud hi'n anos cysgu'n iawn, ac achosi gorlawndra gyda'r bore, cyn y gwelliannau. Nododd tenant arall fod ei ferch ddim yn deffro mwyach yn teimlo'n oer gyda'r bore. Ar ôl gwaith trwsio, roedd yr aer yn teimlo'n fwy ffres, ac roedd yr amgylchedd byw llawer yn well at ddibenion lles. Dywedodd tenant arall fod gwaith atal lleithder a gwella awyru wedi gwneud i'w gartref fod yn iachach ac yn haws ei wresogi i'w deulu. Profwyd llai o alergeddau sy'n gysylltiedig â mowld yn dilyn gwelliannau.

"Dw i wir yn credu bod y gwelliannau wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd. Chi'n gwybod, ers gwneud y gwelliannau [...] mae'r tŷ yn teimlo'n fwy cynnes, yn fwy sych ac yn fwy cyffyrddus. Felly cyn hynny, roedd yr oerni a'r lleithder weithiau'n ei gwneud hi'n anos cysgu'n iawn. A byddwn i'n teimlo'n orlawn gyda'r bore. Felly nawr mae'r aer yn teimlo'n bur, ac mae'r amgylchedd byw cyffredinol cymaint yn well i'm lles." (Tenant)

Adroddwyd hefyd am welliannau o ran iechyd meddwl a lles. Disgrifiodd tenantiaid eu bod yn teimlo dan lai o straen a llai o orbryder, yn enwedig mewn perthynas â biliau ynni a chysur yn y cartref. Roedd teimlo'n gyffyrddus gartref yn helpu i wella hwyliau a lleihau straen. Profodd un tenant ansawdd cwsg gwell oherwydd ei fod yn teimlo'n fwy diogel. Cafwyd tawelwch meddwl gyda chartrefi cynnes, diogel ac effeithiol, gan wneud bywyd deimlo'n fwy sefydlog a hamddenol. Dywedodd rhai tenantiaid hefyd nad oeddent yn poeni mwyach am eu plant yn dal annwyd neu'n teimlo'n oer. Serch hyn, nododd yn tenant fod cynnal nodweddion newydd, megis ffaniau alldynnu a monitro lleithder, yn creu cyfrifoldeb bach ond parhaus.

Roedd tenantiaid nad oedd ganddynt waith yn gysylltiedig â SATC yn eu cartrefi ar adeg y cyfweiliad hefyd yn rhagweld manteision iechyd corfforol a meddwl o welliannau a gynlluniwyd neu a ddymunwyd. At ddibenion iechyd corfforol, y disgwyliad mwyaf cyffredin

oedd y byddai cartrefi mwy cynnes yn lleihau salwch. Roedd tenantiaid yn meddwl y byddai insiweiddio a gwresogi gwell yn atal anwydau a chyflyrau megis niwmonia, a oedd wedi effeithio ar gymdogion mewn cartrefi oer. Nododd un tenant y byddai gwres gwell yn y gegin yn gwella cysur ac iechyd i holl aelodau'r aelwyd, yn enwedig yn ystod y gaeaf, drwy ei gwneud hi'n bosib cynnal tymheredd cyson ym mhob rhan o'r tŷ. Roedd disgwyliad y byddai datrys problemau lleithder yn gwella iechyd ffisegol yn sylweddol. Roedd un tenant a oedd yn rheoli problemau lleithder parhaus yn disgwyl y byddai gwelliannau yn creu amgylchedd byw iachach. Roedd byw gyda lleithder wedi cael effaith negyddol ar ei iechyd corfforol, ac roedd yn rhagweld rhyddhad sylweddol pan fyddai'r problemau'n cael eu datrys.

Ystyriwyd datrys problemau megis lleithder, drysau diffygiol, neu fynediad cyfyngedig i fannau awyr agored fel pethau a fyddai'n lleihau straen a phryder parhaus, yn benodol o ran fforddiadwyedd a chynhaliaeth, gan alluogi pobl i ymlacio a chynnal cydbwysedd gwaith-bywyd gwell. Amlygwyd drysau a ffenestri newydd fel pethau a oedd yn gwella diogelwch, cysur, a boddhad cyffredinol gyda'r cartref. Disgrifiwyd mynediad gwell i erddi a mannau awyr agored fel pethau a oedd yn cefnogi diogelwch, gan annog gweithgareddau y tu allan, a meithrin ymdeimlad o berthyn ac ymfalchïo yn y cartref ac yn y gymdogaeth. Roedd canfyddiad bod mesurau ynni-effeithlonrwydd, megis insiweiddio gwell neu baneli solar, a gosodiadau ymarferol megis casgenni dŵr, yn lleihau biliau aelwydydd, gan ddarparu rhyddhad ariannol, a chyfrannu at les yn gyffredinol. Nodwyd bod gwaith uwchraddio i geginau, ystafelloedd ymolchi a systemau gwresogi yn gwneud byw o ddydd i ddydd yn haws ac yn fwy cysurus. Nododd ambell i denant hefyd fod byw mewn cartref ecogyfeillgar yn rhoi hwb i'w morâl ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad eu bod yn cyfrannu at achos mwy.

"Chi'n gwybod, cael cartref sy'n gynnes ac sy'n ddiogel, 'na gyd dw i'n gofyn amdano. Ac mae'n gwneud i chi deimlo'n dda. Mae'n gwneud i chi deimlo fel rhan o'r gymdeithas, yn rhan o rywbeth. Rydych chi'n ymfalchïo yn lle rydych chi'n byw ac yn teimlo balchder am bopeth sydd o'ch amgylch [...] mae'n angen dynol sylfaenol i gael lloches." (Tenant)

"Yn amlwg mae'n cael effaith ar eich lles corfforol a meddwl i wybod eich bod chi'n gwneud eich rhan chi i'r amgylchedd yn ogystal â theimlo'n ddiogel a bod pethau'n fwy fforddiadwy." (Tenant)

4.2 Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

4.2.1 Profiad landlordiaid cymdeithasol wrth hawlio a chyrchu cyllid ORP

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 4: Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 4: CY1** – Ymwybyddiaeth o ORP a chanfyddiad o eglurder canllawiau am hawlio a chyrchu'r gronfa; **CY2** – Canfyddiadau ynghylch a oedd y cymorth a ddarperir i roi gofynion ORP ar waith yn ddigonol, **CY7** – Sut oedd mynediad at gyflawni'r ORP yn amrywio dros amser ac ar draws camau gwahanol o'r rhaglen; **Amcan 2: CY3** – Asesu a oedd ORP wedi galluogi Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth ymarferol, capasiti, a hyder mewn ôl-osodiadau yn stoc tai Cymru.

Mae tystiolaeth o'r arolwg a'r cyfweiliadau yn awgrymu bod y rhan fwyaf helaeth o landlordiaid cymdeithasol yn profi'r broses gyllido ar gyfer ORP i fod yn gymharol syml ac yn ystyried y canllawiau i fod yn glir yn gyffredinol, gydag chymorth cryf ac ymatebol gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd dehongliadau amrywiol o'r canllawiau swyddogol, disgwyliadau sy'n newid, a therfynau amser cyllid tynn yn creu heriau ymarferol ar gyfer y rhan fwyaf helaeth. Dros amser, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol eu bod nhw a Llywodraeth Cymru wedi mireinio prosesau cyflawni, gan wella eglurder, cyfathrebu, a hyder wrth reoli'r rhaglen.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Hwyluster mynediad i gyllid:**

Canfu'r rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol (73%) fod cyrchu cyllid ORP yn hawdd, gyda thuag un traean yn ei ddisgrifio i fod yn hawdd iawn a 40% yn hawdd i raddau. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw'n disgrifio'r broses fel un syml, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny a oedd â phrofiad o gynlluniau cyllido tebyg (Amcan 1 – CY1).

- **Safbwyntiau cymysg ar eglurder canllawiau ffurfiol:**

Er gwaethaf deunydd ysgrifenedig clir, dywedodd rhai landlordiaid nad oedd dogfennaeth swyddogol bob amser yn mynegi graddau llawn y disgwyliadau sy'n newid. Ar adegau, mabwysiadwyd canllawiau drwy ddeialog anffurfiol gyda Llywodraeth Cymru, gan arwain at ddehongliadau gwahanol ar draws sefydliadau.

Roedd landlordiaid yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y trafodaethau hyn ond mynegon nhw bryder nad oedd diweddariadau'n cael eu hadlewyrchu'n gyson mewn canllawiau ysgrifenedig, gan achosi ansicrwydd ynghylch materion megis cymhwysedd a lefelau derbyniol o gyfraniad (Amcan 1 – CY1, CY7).

- **Gwerth mawr yn cael ei roi ar gymorth ar sail perthynas:**

Dyfynnwyd ymgysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru drwy weithdai, fforymau, a thrafodaethau un i un yn gyson fel prif gryfder, gan ei gwneud hi'n bosib cael eglurhad ar gymhwysedd ac addasiad cynigion (Amcan 1 – CY2).

- **Heriau sy'n gysylltiedig ag amserlenni cyllido:**

Nododd y rhan fwyaf o landlordiaid ffenestri gwneud cais byr a hysbysiadau hwyr am gyllid fel y rhwystrau ymarferol mwyaf sylweddol. Roedd amserlenni cywasgedig yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cymeradwyaeth fewnol, tendro cystadleuol, a chywirdeb cost, yn aml yn arwain at ddibyniaeth ar amcangyfrifon neu estyniadau i gontractau presennol. Roedd cylchoedd ariannol blynyddol yn creu uchafbwyntiau a bylchau mewn gweithgaredd contractwyr, gan atal dilyniant ac effeithlonrwydd. Roedd llawer o landlordiaid yn dadlau o blaid-cylchoedd cyllid hwy o sawl blwyddyn neu hysbysiad cynharach i wella cynllunio, rheoli costau, a dargadwad sgiliau (Amcan 1 – CY7).

- **Heriau gweinyddol ac adrodd am ddata:**

Roedd rhai landlordiaid yn profi anawsterau gyda thaenlenni cymhleth, adrodd ariannol, a ffurflenni data ar ôl cwblhau, yn enwedig lle nad oedd y data gofynnol wedi'u casglu yn ystod y broses gyflawni (Amcan 1 – CY4, CY7).

- **Tystiolaeth o ddysgu a mireinio rhaglenni:**

Dywedodd rhai landlordiaid fod cyflawniad a chanllawiau ORP wedi gwella dros amser, ynghyd â chapasiti mewnol cynyddol, yn gyson â lluniad "profi a dysgu" ORP (Amcan 2 – CY3).

Eglurder a cyfathrebu am ganllawiau cyllido

Mewn perthynas â pha mor hawdd oedd hi i gyrchu cyllid ORP, roedd y broses yn syml i'r rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol. Disgrifiodd tua thri chwarter (73%) ei bod hi naill ai'n hawdd iawn (33%) neu rywfaint yn hawdd (40%), a gwnaeth cyfran lai (20%) ddweud nad oedd hi'n hawdd nac yn anodd. Dim ond ychydig a oedd wedi canfod y broses yn fwy heriol.

Mae eglurder y canllawiau a'r prosesau ar gyfer hawlio o'r gronfa wedi amrywio ymhlith y landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw wedi canfod y canllawiau i fod yn glir, syml ac yn hwylus eu dilyn, gyda dogfennau a baratowyd yn dda nad oeddent yn anodd eu deall. Disgrifiodd un landlord ddulliau'r gronfa i fod yn glir a dywedodd fod y gronfa'n gael ei rheoli'n fewnol, heb yr angen am ymgynghorwyr rheoli allanol ar gyfer hawliadau. Disgrifiodd un arall y broses gwneud cais i fod yn rhesymol syml ar gyfer y rhai a oedd yn gyfarwydd â gofynion o'r fath.

Fodd bynnag, amlygodd rhai landlordiaid cymdeithasol feysydd lle gellir gwella. Awgrymodd rhai er bod dogfennaeth helaeth yn bodoli, roedd cyfathrebu llafar a fforymau trafod yn arbennig o werthfawr ar gyfer cyfleu gwybodaeth. Roedd pobl o'r farn fod gofynion monitro'n aneglur ac yn anodd eu dehongli, yn enwedig mewn perthynas â chasglu ac adrodd am ganlyniadau.

Nododd un landlord nad oedd y canllawiau swyddogol bob amser yn adlewyrchu'r darlun mawr, oherwydd bod trafodaethau dilynol â Llywodraeth Cymru weithiau'n arwain at addasiadau nad oeddent yn cael eu hymgorffori'n ddiweddarach i'r ddogfennaeth ffurfiol. O ganlyniad, gallai cyngor a syniadau llywio amrywio, gan ddibynnu ar y sefydliad. Datblygodd landlordiaid cymdeithasol ddealltwriaeth a oedd yn ehangu yn raddol o'r hyn a oedd yn dderbyniol ai peidio, megis lefelau o gyfraniad neu'r mathau o waith y gellid ei gyflwyno. Mewn un achos, dywedodd landlord fod ei sefydliad yn amharod i ofyn am gyllid ychwanegol oherwydd nad oedd hi'n glir a fyddai hyn yn cael ei gymeradwyo neu beth oedd y gofynion penodol. Awgrymodd landlord arall y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn llunio, yn adolygu ac yn diweddarau'r canllawiau yn unol â'r diweddariadau hyn i'w gwneud yn glir i bawb.

"Mae'n teimlo fel bod y canllawiau'n cael eu llywio'n aml gan negodiadau gyda Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn hawdd mynd atynt ac maent yn gymwynasgar, ac nid ydynt yn rhy fiwrocataidd. Felly gallwch chi drafod materion â nhw a dod i gytundeb neu ddealltwriaeth. Yr her yw nad yw'r trafodaethau hyn yn cael eu cyfleu yn y canllawiau swyddogol. Dros amser, golyga hyn y gallai eich dealltwriaeth chi amrywio ychydig o'r canllawiau a gyhoeddwyd. [...] Hynny yw, er nad yw'r canllawiau swyddogol yn rhoi'r darlun llawn, mae llawer o'r arferion wedi datblygu'n wahanol ymhlith landlordiaid gwahanol."

(Landlord)

Cymorth a chanllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Roedd bron yr holl landlordiaid cymdeithasol (94%; 30 allan o 32) a gymerodd ran yn yr arolwg yn dweud eu bod yn derbyn cyllid ORP. Pan ofynnwyd iddynt a oedd y canllawiau a'r cymorth ar gyfer hawlio o'r gronfa yn ddefnyddiol, dywedodd 90% (27 allan o 32) eu bod yn ddigonol iawn (43%) neu'n ddigonol i raddau (47%). Roedd gweddill yr ymatebion wedi'u rhannu rhwng y farn nad oedd y cymorth yn ddigonol nac yn annigonol, a dewis i beidio ag ateb y cwestiwn. Ni wnaeth yr un landlord cymdeithasol ddweud bod y canllawiau'n ddiffygiol.

Yn yr un modd, pan ofynnwyd iddynt a oedd swyddogion ORP Llywodraeth Cymru yn gefnogol yn ystod cam cyflwyno cynlluniau ORP yn eu barn nhw, ymatebodd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol yn yr arolwg yn gadarnhaol. Gwnaeth y rhan fwyaf helaeth (90%) ddweud bod swyddogion yn gwbl gefnogol (60%) neu'n gefnogol i raddau (30%). Dywedodd nifer fach eu bod nhw'n niwtral neu nad oeddent yn gwybod bod y cymorth ar gael, a dywedodd neb fod swyddogion yn anghefnogol.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol o ganllawiau a chymorth Llywodraeth Cymru wrth hawlio cyllid ORP hefyd wedi'i hadlewyrchu mewn canfyddiadau'r cyfweiliadau. Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol am eu profiadau o hawlio a chyrchu cyllid ORP, gan gynnwys digonedd y canllawiau, anghenion cymorth allanol, ac a yw'r cymorth yn amrywio ar draws camau gwahanol, siaradodd y rhan fwyaf helaeth am brofiadau cadarnhaol. Disgrifiwyd timoedd cymorth Llywodraeth Cymru fel cymwynasgar, ymatebol, a chydweithredol. Ystyriwyd y gallu i ymgysylltu â phobl wirioneddol yn hytrach na systemau wedi'u hawtomeiddio yn ystod y broses cynigion fel cryfder hanfodol yn y broses yn ei chyfanrwydd. Roedd landlordiaid cymdeithasol yn gwerthfawrogi gallu cynnal trafodaethau agored â swyddogion Llywodraeth Cymru yn hytrach na cheisio llywio proses amheronol, gan eu galluogi i brofi syniadau, gwirio a oedd cynigion yn cyd-fynd â'r meini prawf, ac addasu'n briodol.

Nododd llawer o landlordiaid cymdeithasol hefyd fod timoedd Llywodraeth Cymru bob amser ar gael pan oedd eu hangen, ac roedd gan rai gysylltiadau wedi'u henwi y gallant fynd atynt yn uniongyrchol pe bai angen canllawiau arnynt. Daeth cymorth yn nodweddiadol ar ffurf eglurhad, yn enwedig mewn perthynas â chymhwysedd y gwaith neu gydrannau mewn ceisiadau am gyllid. Darparwyd cymorth drwy gydol y cais a'r broses gwneud ceisiadau, er bod rhai landlordiaid cymdeithasol yn parhau i fod wedi'u drysu am agweddau megis anfonebu ac amserlenni.

"Y peth cadarnhaol i mi oedd bod gennym ni berthynas weithio dda â'r tîm yn Llywodraeth Cymru [...] Gallwch chi bob amser siarad â nhw, gallwch chi drafod. Nid cyfrifiadur sy'n eich ateb neu'n delio â'ch cynigion. Mae'n ymagwedd ddynol."
(Landlord)

Heriau gydag amserlenni cyllido

Er gwaethaf cydnabod rôl gefnogol Llywodraeth Cymru wrth sicrhau cyllid ORP, roedd y rhan fwyaf o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn myfyrio ar yr heriau a oedd yn rhan o'r amserlen gyllid a'r cylch oed.

Y pryder mwyaf cyffredin oedd y ffenestr fer ar gyfer cwblhau ceisiadau. Dywedodd y landlordiaid fod ganddynt, yn gyffredinol, ychydig o wythnosau'n unig i baratoi cynigion. Ar gyfer sefydliadau mwy, roedd yr amserlen hon yn peri heriau penodol wrth lywio strategaeth ar sut i ddyrannu cyllid yn effeithiol. Gadawodd yr amserlen ymateb fer amser cyfyngedig ar gyfer cymeradwyaeth ac adolygiadau mewnol cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw wedi codi pryderon ynghylch yr heriau a osodwyd gan y cylch ariannol blynyddol. Esboniwyd, yn enwedig ar gyfer y camau cyntaf, fod hysbysiadau cyllido'n cyrraedd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol yn aml, gyda therfynau gwario llym erbyn diwedd Mawrth. Nid oedd yr amserlen yn gadael digon o amser i sefydliadau gynnal proses tendro gystadleuol a pharatoi amcangyfrifon cywir o gostau. O ganlyniad, cawsant eu gorfodi i ddibynnu ar amcangyfrifon neu estyniadau o gontractau presennol yn lle dilyn proses cynigion gystadleuol. Llwyddodd rhai sefydliadau i sicrhau cyfleusterau contract a oedd yn galluogi estyniadau, ond roedd eraill yn oedi tendro ac yn wynebu heriau o ganlyniad.

Oherwydd amserlenni brys i wario'r cyllid a ddyfarnwyd, dywedodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol y gallant ddechrau gweithio gyda thenantiaid a chynllunio ar gyfer gwelliannau cyn derbyn y canlyniadau. Fodd bynnag, roedd yr ymagwedd hon yn peri risg o siomi tenantiaid pe nad oedd modd rhoi adnoddau i'r prosiect a'i gyflawni.

O ganlyniad i'r heriau hyn, rhannodd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol y byddai cylchoedd cyllido hiraf yn well iddyn nhw. Cynigwyd rhaglen 2 i 3 blynedd gydag amser ar gyfer adolygu i fod yn opsiwn a oedd llawer mwy rheoladwy na chylchoedd blynyddol. Cynigodd un landlord fodel amgen yn rhoi 4 wythnos ym mis Hydref i roi ceisiadau at ei gilydd, hysbysiad ym mis Ionawr neu Chwefror am gymeradwyaeth o gyllido, ac yna blwyddyn lawn o fis Ebrill i wario'r arian. Dadleuwyd bod grantiau tymor hwy yn cynnig gwerth gwell, oherwydd byddai contractwyr yn fwy tebygol o gynnig prisoedd cystadleuol ar

gyfer prosiectau parhaus, ond y gallai trefniadau o flwyddyn i flwyddyn arwain at gostau uwch.

"Hyd y deallaf i, yn seiliedig ar bobl â mwy o brofiad na mi, mae'n weinyddiaeth nodweddiadol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses ei hyn yn iawn, ac yn gyffredinol gellir rheoli'r gwaith papur. Mae'r holl heriau hyn yng nghyd-destun amser mewn gwirionedd. Yn ychydig iteriadau diwethaf ORP, er enghraifft, rydym yn cael cytundeb i gyflwyno cais, ond mae'n rhaid iddo fod o fewn pump neu chwech wythnos. Fel sefydliad mwy, mae gennym ni gyllideb fwy nag eraill, ond mae hynny'n ei gwneud hi'n heriol penderfynu ble rydym eisiau mynd, yr hyn rydym ni am ei wneud, ac yna cwblhau'r gwaith papur yn unol â'r amserlen." (Landlord)

"Mae'r materion yn fwy cysylltiedig â'r amserlen. Er enghraifft, mae oedi wrth gadarnhau symiau grantiau yn golygu nad oes gennym ni y dilyniant o waith ac felly mae contractwyr yn dechrau arafu gwaith dim ond i orfod cyflymu eto sy'n golygu bod cyfnod o weithgaredd isel iawn neu dim gweithgaredd o gwbl. Os oedd y dyfarniad cyllid neu raglen wedi'i gyflwyno yn Ch3 y flwyddyn gyfredol, gallem ni barhau gyda chontractwyr heb fawr o amser anweithredol neu ddim o gwbl. Byddai hyn yn ein helpu i leihau problemau argaeledd a diffyg sgiliau oherwydd bod gennym ni'r dilyniant gwaith sy'n ofynnol." (Landlord)

Elfennau gweinyddol heriol

Nodwyd bod heriau yn gysylltiedig â data hefyd gan rai landlordiaid cymdeithasol yn y cyfweiliadau. Y prif anhawster iddyn nhw yw'r ddibyniaeth ar ddata nad oedd gan y sefydliadau bob tro, hyd yn oed gydag ymdrechion i wella ansawdd data. Amlygwyd ansicrwydd ynghylch mynediad i ddata hefyd, gyda gwybodaeth a gesglir yn cael ei throsglwyddo'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach na chael ei dychwelyd yn awtomatig i gynghorau, gan ei gwneud hi'n heriol gwerthuso effaith y gwaith yn llawn. Roedd ychydig o landlordiaid cymdeithasol hefyd yn ei chael hi'n anodd iawn cwblhau'r taenlenni gofynnol. Dywedodd un ohonynt sut gallai rhai elfennau gweinyddol, megis y gwaith papur a gwaith cyfrifeg, beri her i sefydliadau eraill.

"Dw i'n meddwl i rai cydweithwyr mewn sefydliadau eraill nad oes ganddynt gynorthwywyr cyfrifyddu mae'r elfennau gweinyddol a'r elfennau ariannol yn eithaf heriol." (Landlord)

Cododd landlord arall y ffaith fod gofynion dychwelyd data ar ôl y gwaith yn arbennig o gymhleth. Cyfeirion nhw at gael ceisiadau am ddata nad oedd wedi'u casglu mewn amser

ac, felly, roedd yn rhaid iddynt fynd yn ôl i contractwyr i gael gwybodaeth, a oedd yn anodd unwaith bod contractau wedi dod i ben.

Gwelliannau wrth gyflwyno a chefnogi ORP dros y blynyddoedd

Dywedodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw fod strwythur a chyflawniad ORP wedi newid yn sylweddol dros amser. Maent wedi adrodd bod Llywodraeth Cymru wedi addasu'r rhaglen ac wedi cyflwyno fframweithiau cliriach yn effeithiol. Nodwyd ganddynt hefyd fod cymorth wedi'i dargedu'n well, yn enwedig mewn meysydd megis hyfforddiant a chyllid. Dros amser, roedd y sefydliadau dan sylw a Llywodraeth Cymru wedi cyd-fynd yn well yn eu hymdrechion. Roedd pob cam yn ychwanegu cymhlethdod mewn rhai ffyrdd ond arweiniodd hefyd at fireinio.

"Roedd amseroedd hefyd wedi gwella, a chrybwyllwyd cyn nawr, mae'r canllawiau wedi gwella hefyd wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Gwnaeth Llywodraeth Cymru fwy na thebyg gydnabod bod lle i wella ac maent wedi gwneud addasiadau wrth i bethau fynd yn eu blaenau." (Landlord)

Yn ogystal, arsylwodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod eu profiadau a'u capasiti gydag ORP wedi gwella'n sylweddol dros amser, wrth iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol.

4.2.2 Lefel arloesedd landlordiaid cymdeithasol

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 2:

Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Amcan 4:

Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: Amcan 2: CY3 – Asesu a oedd ORP wedi galluogi Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth ymarferol, capasiti, a hyder mewn ôl-osodiadau yn stoc tai Cymru. **Amcan 4: CY5** – Pa agweddau ar ORP3 oedd yn haws eu bodloni a pha rai oedd fwyaf heriol? **Amcan 4: CY6** – Beth oedd effaith ganfyddedig y gwaith ôl-osod a gyflawnwyd fel rhan o ORP ar eu stoc tai nhw?

Mae tystiolaeth yn nodi bod ORP wedi chwarae rôl bwysig wrth atgyfnerthu capasiti sefydliadol a gallu technegol landlordiaid wrth gyflawni gwaith ôl-osod. Roedd y rhaglen yn ddefnyddiol i'r mwyafrif o landlordiaid cymdeithasol wrth gefnogi dysgu a datblygu

sgiliau, gan ddisgrifio cynnydd clir o waith ôl-osod sylfaenol i osodiadau integreiddiedig, mwy cymhleth dros amser. Roedd ORP hefyd yn cefnogi datblygiad capasiti mewnol drwy rolau newydd, hyfforddiant, a systemau, gan wella cydlyniant rhwng timoedd technegol a staff ymgysylltu â thenantiaid. Fodd bynnag, roedd rhai landlordiaid cymdeithasol yn adrodd bod blaenoriaethau sy'n newid rhwng arloesedd a chydymffurfiaeth, gyda chamau diweddar yn canolbwyntio llawer yn fwy ar gyflawni targedau SATC 2023 na threialu technolegau neu fodelau newydd.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Roedd ORP yn cael ei hystyried yn eang fel rhywbeth a oedd yn cefnogi dysgu a datblygu capasiti:**

Mae tystiolaeth o'r arolwg yn dangos bod bron i dri chwarter o landlordiaid cymdeithasol yn ystyried ORP i fod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn wrth gefnogi dysgu am arferion ôl-osod. Roedd canfyddiadau'r cyfweiliad yn atgyfnerthu hyn, gyda llawer o landlordiaid yn disgrifio ORP yn hanfodol wrth ddatblygu dealltwriaeth dechnegol, hyder wrth gyflawni, a gallu sefydliadol (Amcan 2 – CY3).

- **Twf blaengar mewn soffistigedigrwydd technegol a sefydliadol:**

Ar draws camau olynol ORP, dywedodd landlordiaid eu bod yn symud o wneud rhaglenni cynhaliaeth presennol yn gyflawn tuag at gyflawniad ôl-osod cymhleth. Yn aml roedd ymagweddau cynnar yn canolbwyntio ar fesurau ffabrig yn gyntaf, a chamau hwyrach yn integreiddio ymyriadau lluosog, megis cyfuno insiwleiddio â PV solar, pypiau gwres hybrid, storio batris, cynyddu maint prosiectau a gofynion cydlynu (Amcan 2 – CY4, CY6).

- **Creu rolau, systemau, a phrosesau newydd:**

Mae cyllid ORP yn cefnogi sefydliad rolau ymroddedig, gan gynnwys Swyddogion Effeithiolrwydd Ynni a Swyddogion Ymgysylltu Datgarboneiddio, yn ogystal â buddsoddiad mewn systemau rheoli asedau, llwyfannau TG, a phrosesau sy'n cydymffurfio â PAS 2035. Gwellodd y newidiadau hyn gydlyniant mewnol, ymgysylltiad â thenantiaid, a throsolwg dros gyflawni gwaith ôl-osod (Amcan 2 – CY3).

- **Ffocws strategol ar enillion SAP uniongyrchol:**

Mabwysiadodd rhai landlordiaid ymagwedd "ffrwythau hawdd eu pigo" i fwyafu gwelliannau SAP effeithiol, yn enwedig lle'r oedd gwaith uwchraddio ffabrig o flaen llaw eisoes wedi'i gwblhau. Pwysleisiodd hyn osodiadau PV solar ar gyfer enillion

SAP cyflym ond lleihaodd arbrofi gyda mesurau llai confensiynol neu gost uwch (Amcan 4 – CY5, CY6).

- **Tensiwn rhwng arloesedd a chydymffurfiaeth:**

Mynegodd rhai landlordiaid bryder bod camau hwyrach ORP yn cael ei gyrru'n fwyfwy gan-dargedau, gan flaenoriaethu sgorau SAP a chydymffurfiaeth SATC dros fanteision ehangach i denantiaid neu arloesedd hirdymor. Er bod yr ymagwedd hon wedi gwella metrigau perfformiad tai yn effeithiol, cyfyngodd ar gyfleoedd i archwilio technolegau a allai fynd i'r afael yn well â chysur neu'r defnydd o ynni gan denantiaid (Amcan 4 – CY6; Amcan 2 – CY3).

Twf capasiti mewnol drwy ORP

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol pa mor ddefnyddiol oedd y ORP wedi bod wrth eu cefnogi i ddysgu am arferion ôl-osod, disgrifiodd 73% (22 allan o 30) ohoni fel yn ddefnyddiol iawn (13%) neu'n ddefnyddiol (60%). Roedd bron i chwarter (23%) yn teimlo nad oedd yn ddefnyddiol neu'n ddiwerth, a dywedodd nifer fach ei bod yn ddiwerth (3%) neu'n ddiwerth iawn (3%).

Ar draws camau olynol yr ORP, roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw hefyd yn adrodd am dwf sylweddol o ran capasiti sefydliadol ac arbenigedd technegol. I ddechrau, defnyddiwyd cyllid ORP i gyfrannu at gynhaliaeth gynlluniedig bresennol sefydliadau. Dros amser, fodd bynnag, daeth i fod yn ysgogydd dysgu mewnol. Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol cromlin dysgu technegol a sefydliadol glir. Er enghraifft, esboniodd un landlord fod ei ymagwedd wedi canolbwyntio i ddechrau ar strategaeth "ffabrig yn gyntaf", gan flaenoriaethu gwella adeiladwaith ac insiwleiddiad adeilad i leihau colli ynni. Dros amser, integreiddiodd sefydliadau fesurau ôl-osod lluosog, megis ychwanegu paneli solar pan oedd sgaffaldiau eisoes mewn lle. Disgrifiodd un arall sut yr oedd gwaith cynnar yn canolbwyntio ar waith uwchraddio llai o faint, megis ffenestri gwydr triphlyg. Roedd camau hwyrach yn cynnwys gwaith ôl-osod cyflawn gyda mwy o gymhlethdod technegol, gan gynnwys pypiau gwres hybrid, PV solar, a gosodiadau batri. Yn gyffredinol, cytunodd y landlordiaid hyn fod natur aml-gam ORP wedi cynyddu graddfeydd prosiectau a gofynion cydlyn.

I rai landlordiaid cymdeithasol, roedd cyllid ORP yn cefnogi'n uniongyrchol greu rolau a systemau newydd o fewn y sefydliad. Roedd swyddi ymroddedig, megis Swyddogion Effeithiolrwydd Ynni a Swyddogion Ymgysylltu Datgarboneiddio, yn cael eu cyflwyno i reoli cyflawniad technegol ac ymgysylltiad â thenantiaid. Mewn ychydig o sefydliadau,

defnyddiwyd cyllid hefyd i ddatblygu systemau rheoli asedau, llwyfannau TG, a'r prosesau mae eu hangen i gydymffurfio â PAS 2035. Helpodd hyn i wella cydlyniant mewnol a goruchwyliaeth prosiect.

"Yn nhermau ORP, defnyddion ni ohoni hefyd i gyllido swyddog ymgysylltiad Datgarboneiddio rhan amser. Mae'r [PERSON] bellach yn ei ail flwyddyn yn gweithio gyda ni, ac mae'r rôl hon yn hanfodol i ni wrth gyflawni gwaith i denantiaid. Gyda [PERSON] yn ymdrin ag ymgysylltu â phreswylwyr ac ateb ymholiadau, gall syrfewyr y prosiect ganolbwyntio ar gyflawni'r gwaith a rheoli contractwyr. Mae [PERSON] hefyd yn casglu gwybodaeth o breswylwyr i helpu i sicrhau y caiff prosiectau eu cwblhau'n llwyddiannus." (Landlord)

Strategaeth ffrwythau sy'n hawdd eu pigo: Mwyafu manteision SAP ar unwaith

Ar y llaw arall, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod trywydd gwahanol ar gyfer gweithgareddau ôl-osod a gyllidir drwy ORP. Yn yr achosion hyn, newidiodd y ffocws tuag at ymyriadau sy'n cyflwyno'r gwelliannau sgôr SAP mwyaf uniongyrchol, yn aml ar draul mesurau mwy arloesol. Digwyddodd hyn oherwydd bod gwaith uwchraddio ffabrig, megis insiweiddio waliau allanol neu fewnol a gosod ffenestri neu ddrysau newydd, eisoes wedi'i roi ar waith. Er gwaethaf hyn, roedd llawer o gartrefi'n dal i fod islaw'r targed SAP 75 o dan SATC 2023. Er mwyn pontio'r bwlch hwn, blaenoriaethwyd cyllid ar gyfer gosodiadau PV solar, a allai ychwanegu 10 i 12 o bwyntiau SAP fesul cartref am gost gymharol isel. Mewn rhai o'r achosion hyn, dylanwadodd yr ymagwedd hon ar benderfyniadau i beidio â gosod storfa batri ochr yn ochr â PV, gan gofio'r gost uchel a'r effaith ychwanegol fach ar sgoriau SAP. Y tu hwnt i effeithlonrwydd wrth wella SAP, nododd ychydig o landlordiaid cymdeithasol fanteision uniongyrchol i denantiaid yn sgil y gwaith hwn, gan gynnwys mynediad yn ystod y dydd i drydan am ddim a'r posibilrwydd o allforio ynni dros ben i'r grid. Fodd bynnag, nododd ychydig o landlordiaid cymdeithasol a oedd yn dilyn y trywydd hwn fod cyfyngiadau posib i'r strategaeth hon. Arsylwodd un landlord fod gosod PV solar heb le storio yn darparu llai o fanteision uniongyrchol i breswylwyr. Gallai ynni a gynhyrchwyd yn ystod y dydd fynd heb ei ddefnyddio, yn enwedig i denantiaid a oedd i ffwrdd yn ystod oriau gweithio. Awgrymodd yr un landlord y gall pwyslais ar bwyntiau SAP weithiau achos blaenoriaethu metrigau cydymffurfiaeth dros ganlyniadau sydd fwyaf ystyrlon i denantiaid. Myfyriodd landlord arall ar arloesedd o fewn ORP, gan nodi bod y camau cynharaf yn caniatáu arbrofi gydag amrywiaeth ehangach o dechnolegau ôl-osod. Mewn gwrthgyferbyniad, dywedwyd bod y cyllid presennol yn canolbwyntio'n fwy ar gyflawni

targedau amgylcheddol SATC 2023 tymor canolog, sydd wedi lleihau cyfleoedd ar gyfer arbrofi rhywfaint a'r potensial am fanteision hirdymor ehangach.

"Nid ydym yn gosod batris ar hyn o bryd oherwydd rheoliadau diogelwch tân—allwch chi ddim a'u rhoi yn yr eiddo heb gyfleusterau helaeth i'w gosod yn ddiogel y tu allan. Mae hynny'n mynd yn ddrud iawn, gyda thanciau diogelwch a'r holl amddiffyniadau angenrheidiol. Mae problemau ymarferol hefyd: bydd rhai sefydliadau wedi cael profiad o fatris yn cael eu dwyn, oherwydd eu bod nhw'n eithaf gwerthfawr. Yn flaenorol, hyd yn oed cyn y newidiadau SAP, ni dderbynion ni bwyntiau SAP am osod batri. Felly prin yw'r anogaeth i wario symiau sylweddol o arian pan nad yw'n cyfrannu at fodloni'r targedau. Yn ogystal, mantais gyfyngedig sydd i osod paneli solar heb fatri i denantiaid—os byddant allan yn ystod y dydd yn y gwaith, ni fyddant yn defnyddio'r ynni a gynhyrchir mewn gwirionedd. Yn y diwedd, mae'n teimlo fel ceisio cael pwyntiau er mwyn bodloni targedau yn hytrach na gwneud yr hyn sy'n wirioneddol er budd gorau'r tenantiaid." (Landlord)

4.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar roi ORP ar waith

Amcanion SATC 2023 perthnasol:

Amcan 4: Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 4: CY4** – Canfyddiadau o ofynion ORP (gan gynnwys gwaith ôl-osod a gofynion adrodd cyfatebol); **CY5** – Pa agweddau o ORP3 a oedd yn haws eu bodloni a pha rai oedd fwyaf heriol?; **CY6** – Beth yw'r effaith ganfyddedig ar gyflawni'r gwaith ôl-osod fel rhan o ORP ar eu stoc tai?; **CY7** – Sut mae mynediad at gyflawni ORP wedi amrywio dros amser ac ar draws camau gwahanol o'r rhaglen. **Amcan 2: CY2** – Cymharu a gwerthuso ymagweddau gwahanol at waith ôl-osod, gan gynnwys addasrwydd ar gyfer archdeipiau ac ardaloedd gwahanol.

Crynodeb:

Mae tystiolaeth o'r cyfweiliadau yn dangos er bod cyllid ORP wedi ehangu gweithgareddau ôl-osod landlordiaid, yn aml roedd eu cyflawni wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau technegol, sefydliadol a rheoleiddiol. Amlygodd landlordiaid cymdeithasol yr heriau a oedd yn gysylltiedig â rheoliadau diogelwch tân, cyfyngiadau eiddo treftadaeth, prosesau caffael, derbyniad tenantiaid, a gofynion cydymffurfiaeth. Roedd y ffactorau hyn yn cynyddu costau, yn lleihau hyblygrwydd, ac weithiau yn atal cyflawniad ar raddfa fawr neu a oedd yn arloesol. Er gwaethaf hyn, gwnaeth landlordiaid barhau i addasu

drwy brofiad a dysgu ar draws camau rhaglenni, sy'n alinio ag athroniaeth "profi a dysgu" yr ORP.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Rhwystrau technegol a rheoleiddiol:**

Dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod anawsterau wrth osod mannau storio batris ochr yn ochr â PV solar oherwydd cyfyngiadau diogelwch tân, cyfyngiadau adeileddol, a'r risg o ddwyn. Roedd methiannau technegol mewn gosodiadau cynnar hefyd yn arafu cynnydd. Roedd cyfyngiadau ymarferol eraill, megis cyfyngiadau adeiladau treftadaeth a lle mewnol cyfyngedig mewn stoc tai hŷn, yn cyfyngu ar opsiynau ar gyfer insiwleiddio gan arwain i lawer yn dibynnu ar PV solar fel y mesur effeithiolrwydd ynni mwyaf dichonol (Amcan 4 – CY4, CY5).

- **Cyfyngiadau gweithluoedd a chapasiti caffael:**

Dyfynnodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol ddiffyg gosodwyr cymwys, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ochr yn ochr â rheoli mewnol a rheolau caffael sy'n cyfyngu ar hyblygrwydd. **Yn achlysurol, roedd y gofynion gweithdrefnol hyn yn oedi** cyflawni gwaith ac yn cymhlethu ymdrechion i raddio gwaith ôl-osod (**Amcan 4 – CY5, CY7**).

- **Heriau ymgysylltiad â thenantiaid:**

Disgrifiodd landlordiaid ymatebion cymysg gan denantiaid i dechnolegau newydd. Er bod croeso i fesurau megis insiwleiddio a PV solar yn gyffredinol, roedd mabwysiadu-isel o bympiau gwres o'r aer yn adlewyrchu pryderon am gostau rhedeg uwch, sŵn, a diffyg dealltwriaeth amdanynt. Cyfunodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol fesurau, e.e., gosod pypiau gwres ochr yn ochr â PV solar, i gynnal niwtraled o ran costau i **denantiaid a sicrhau cyfranogiad (Amcan 4 – CY6; Amcan 2 – CY2)**.

- **Beichiau gweinyddol a chydymffurfio:**

Ychwanegodd cydymffurfiaeth ag achrediad TrustMark a safonau PAS 2035 yn sylweddol at bwysau gweinyddol ac ariannol. Dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol fod costau achrediad, dibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol, a gofynion cyflwyno data cymhleth wedi tynnu adnoddau o'r broses gyflawni. Gwnaeth y rheoliadau hyn hefyd achosi amserlenni prosiectau hwy drwy nifer o ymweliadau â safleoedd a rhyngweithio â thenantiaid, yn achlysurol yn achosi oedi i waith cyflwyno a diffyg ymgysylltiad (Amcan 4 – CY4, CY5).

- **Effaith ar effeithlonrwydd cyflwyno gwaith a dysgu:**

Er gwaethaf yr heriau hyn, cydnabu landlordiaid fod cyfyngiadau rheoleiddiol a gweithredol wedi creu dysgu gwerthfawr mewn prosesau rheoli, cydlynu a chyfathrebu. Adroddodd llawer o'r landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw eu bod nhw wedi mireinio systemau mewnol ac wedi datblygu ymwybyddiaeth o gyfyngiadau ymarferol ôl-osod mathau amrywiol o dai, gan gyfrannu at y sylfaen wybodaeth ehangach sy'n ganolog i ymagwedd "profi a dysgu" ORP (Amcan 2 – CY2, CY3).

Cyfyngiadau sefydliadol ac ymarferol

Y tu hwnt i'r ffocws ar wella sgoriau SAP, roedd rhai landlordiaid cymdeithasol y cyfwelwyd â nhw yn dweud bod cyfyngiadau technegol, rheoleiddiol a sefydliadol wedi llywio eu gwaith ôl-osod dan gyllid ORP. Problem dechnegol gyffredin oedd gosod systemau batri ochr yn ochr â PV solar. Mewn sawl achos, canslwyd gosodiadau batri oherwydd rheoliadau diogelwch tân, yr angen am systemau tancio allanol, a'r risg o ddwyn. Yn ogystal, dywedodd un landlord fod methiannau technegol gyda batris, yn rhannol fel canlyniad y defnydd dros dro o unedau dosbarth diwydiannol yn lle modelau domestig yn ystod cyfnodau o ddiffygion cyflenwi.

"Gyda systemau PV a batri, rydym wedi ystyried a ddylid gosod batris yn fewnol neu'n allanol i fynd i'r afael â risgiau posib o dân a phwyntiau tanio. Rydym hefyd wedi ystyried materion adeileddol; beth sy'n digwydd os bydd batri'n mynd ar dân neu'n cwmpo, er enghraifft. Rydym wedi arbrofi gydag opsiynau gosod mewn safleoedd allanol, gorchuddion amddiffynnol, ac a ddylem ni osod yr offer llywio y tu mewn neu y tu allan. Ar gyfer blociau o fflatiau, rydym wedi archwilio ffyrdd o rannu pŵer rhwng preswylwyr drwy gynllun rhannu solar, ni oedd y cyntaf yng Nghymru i wneud hyn a bellach rydym wedi cwblhau cwpl o brosiectau." (Landlord)

Amlygodd rhai landlordiaid cymdeithasol hefyd gyfyngiadau technegol ychwanegol. Esboniodd un fod gwaith insiwleiddio'n aml yn cael ei gyfyngu gan ffactorau sy'n benodol i'r safle a threftadaeth, megis eiddo wedi'u hadeiladu'n uniongyrchol gyfagos â phrif ffyrdd, adeiladau rhestredig, ffasadau carreg, a lle mewnol cyfyngedig mewn cartrefi Fictoriaidd bychain. Mae'r amodau hyn yn gwneud mesurau ffabrig yn gyntaf yn anodd i'w gweithredu ar raddfa, gan arwain llawer o sefydliadau i ddibynnu'n drymach ar osodiadau PV solar fel ffyrdd ymarferol a llai aflonyddus i wella perfformiad ynni yn gyffredinol.

Soniodd ychydig o landlordiaid cymdeithasol hefyd am ddiffyg personél cymwys i ymgymryd â'r gwaith hwn ar raddfa fawr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wrth i eraill sôn am reolau caffael fel rhwystr arall. Dywedodd un awdurdod lleol fod yn rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau rheoli mewnol, sy'n arafu'r broses o gyflawni gwaith ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd wrth ganfod deunyddiau neu gontractwyr.

Ymgysylltu a derbyniad tenantiaid

Nodwyd bod derbyniad tenantiaid o dechnolegau newydd hefyd gan rai landlordiaid cymdeithasol fel her a oedd yn effeithio ar ddarpariaeth ORP. Disgrifiodd un landlord brosiect peilot yn profi papur wal is-goch, a ddatgelodd broblemau ymarferol ac ymddygiadol fel ei gilydd, gan fod preswylwyr yn ansicr sut i ddefnyddio'r system ac yn cwestiynu ei heffeithiolrwydd. Gyda thystiolaeth hirdymor gyfyngedig, roedd landlordiaid cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd meithrin hyder tenantiaid neu gyfiawnhau gosodiadau pellach. Roedd hyn yn adlewyrchu her ehangach o fabwysiadu technolegau anghyfarwydd, wrth i landlordiaid cymdeithasol nodi'r her o gydbwyso arloesedd ag ymddiriedaeth gyfyngedig gan denantiaid, a all rwystro mabwysiadu ar raddfa fawr. Adroddwyd hefyd bod tenantiaid yn gwrthwynebu pypiau gwres ffynhonnell aer oherwydd gwresogi arafach, costau trydan uwch, a sŵn posibl.

“Rydw i wedi cael trafferth cael mynediad at gartrefi, gan ein gorfodi i flaenoriaethu eiddo lle mae mynediad yn haws. Roedd trigolion yn fwy cymwynasgar y llynedd, ond nawr maen nhw'n fwy petrusgar. Maen nhw fel arfer yn derbyn mesurau ffabrig, fel inswleiddio, oherwydd eu bod nhw'n gweld yr arbedion cost, ac mae paneli solar yn cael eu derbyn am yr un rheswm. Mae pypiau gwres ffynhonnell aer yn wahanol. Maent yn cynyddu costau, felly anaml y rhoddir caniatâd os cânt eu gosod ar eu pen eu hunain. Ein dull ni yw gosod mesurau ffabrig yn gyntaf, yna ychwanegu pypiau gwres gyda phaneli solar. Fel 'na, mae o leiaf yn niwtral o ran cost i'r preswlydd: mae'r paneli solar yn helpu i wrthbwysu costau rhedeg y pwmp gwres, gan ei wneud yn fwy derbyniol.” (Landlord)

Gofynion gweinyddol a chydymffurfio

Nodwyd hefyd fod cydymffurfio â gofynion achredu a chyflwyno data ORP, sy'n sicrhau bod contractwyr yn bodloni safonau'r diwydiant a bod data ôl-osod yn cael ei gofnodi'n briodol, yn gyfyngiad gweithredol ychwanegol wrth gyflawni gwaith a ariennir gan ORP gan rai landlordiaid cymdeithasol. Roedd y gofynion hyn yn gosod beichiau ariannol a gweinyddol sylweddol. Adroddodd rhai sefydliadau fod costau cydymffurfio yn aml yn cael eu talu o'u cyllidebau eu hunain, gan leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith ôl-osod gwirioneddol.

Nododd un landlord cymdeithasol fod y fframwaith rheoleiddio yn gofyn am lawer iawn o adnoddau ar gyfer ymgynghori a chydymffurfiaeth, a oedd weithiau'n cyfyngu ar y ffocws ar welliannau ffisegol. Roeddent yn teimlo y gallai'r broses fod yn fwy syml a'i halinio'n well ag arferion presennol i wneud y mwyaf o werth.

Roedd achrediad TrustMark yn peri heriau penodol o ran staffio a chyflenwi i rai landlordiaid cymdeithasol, gyda phrinder gosodwyr achrededig yn cyfyngu ar gapasiti prosiectau, hyd yn oed pan oedd cyllid ar gael. Adroddodd landlord, mewn un achos, fod contractwr dibynadwy wedi gwrthod ceisio achrediad, gan nodi ei gost a'i faich gweinyddol, gan gyfyngu ymhellach ar gadwyni cyflenwi. Mynegodd landlord arall amheuaeth hefyd ynghylch gwerth ychwanegol rhai rolau, fel aseswyr ôl-osod, pan oedd trefnuryddion mewnol profiadol eisoes yn cael eu cyflogi.

Nodwyd hefyd fod gweithdrefnau PAS 2035 yn effeithio'n negyddol ar effeithlonrwydd cyflwyno ORP i ychydig o landlordiaid cymdeithasol. Er enghraifft, cwestiynodd un landlord gymesuredd y gofynion cyflwyno data, gan nodi bod monitro systemau sydd wedi'u gosod yn dibynnu ar gysylltiadau Wi-Fi tenantiaid, a gall toriadau neu newidiadau mewn darparwyr amharu ar ddata synwryddion, gan ei gwneud yn ofynnol i staff ymyrryd â llaw.

Ychwanegodd landlord arall, y tu hwnt i'r llwyth gwaith gweinyddol ychwanegol, fod y fframwaith cydymffurfio yn cynyddu nifer y ryngweithiadau â thenantiaid yn sylweddol, o ychydig o ymweliadau o dan osodiadau safonol i tua 20, gan arwain at ymddieithrio tenantiaid ac oedi wrth gwblhau ôl-osodiadau.

“Felly, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer grantiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n rhaid i ni nawr lletya'r eiddo gyda TrustMark. Mae hynny'n iawn, a dyna beth rydyn ni'n ei wneud. Fodd bynnag, mae'n ddrudd. Mae'n rhaid i ni gomisiynu trydydd parti i wneud y gwaith, ac mae hyn wedi achosi oedi o bryd i'w gilydd. Weithiau maen nhw'n gwneud ceisiadau anarferol, gan ofyn i ni newid rhywbeth na fyddem ni fel arfer wedi'i wneud. Er ein bod ni'n cydymffurfio, mae'r gofynion hyn yn dod â phwysau amser a chostau ychwanegol.” (Landlord)

4.2.4 Ystyriaethau ariannu, cynllunio a chyflawni

Amcanion Gwerthuso ORP Perthnasol:

Amcan 4: Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: Amcan 4: CY4 – Canfyddiadau o ofynion ORP

(gan gynnwys gwaith ôl-osod a gofynion adrodd cyfatebol); **CY5** – Pa agweddau o ORP3 a oedd yn haws eu bodloni a pha rai oedd fwyaf heriol?; **CY6** – Beth yw'r effaith ganfyddedig ar gyflawni'r gwaith ôl-osod fel rhan o ORP ar eu stoc tai?; **CY7** – Sut mae mynediad at gyflawni ORP wedi amrywio dros amser ac ar draws camau gwahanol o'r rhaglen. **Amcan 2: CY3** – Asesu a oedd ORP wedi galluogi Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth ymarferol, capasiti, a hyder mewn ôl-osodiadau yn stoc tai Cymru.

Mae tystiolaeth yn dangos bod ORP wedi'i alinio'n dda yn fras â strategaethau ôl-osod a rheoli eiddo presennol landlordiaid cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe'i defnyddiwyd i ategu rhaglenni cynnal a chadw a buddsoddi a gynlluniwyd, gan gefnogi cyflawni gwelliannau i'r tŷ cyfan a chyflymu cynnydd tuag at dargedau SATC a datgarboneiddio. Er bod landlordiaid yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a'r dysgu a ddarparwyd gan gyllid ORP ar gyfer profi atebion ôl-osod newydd, fe wnaethant hefyd adrodd bod y raddfa, y strwythur costau, a'r cylch ariannu blynyddol yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd ar gyfer darpariaeth ar raddfa fawr neu gynaliadwy.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Cyd-fynd yn gryf â strategaethau eiddo mewnol ac ôl-osod:**

Dywedodd tua thri chwarter (74%) o landlordiaid cymdeithasol a holwyd fod eu cynlluniau ORP yn cyd-fynd yn dda neu'n dda iawn â strategaethau rheoli eiddo presennol. Cadarnhaodd tystiolaeth o gyfweiliadau fod cyllid ORP yn aml yn cael ei integreiddio â gwaith cyfalaf wedi'i gynllunio, gan alluogi cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar y cyd ochr yn ochr â chynnal a chadw arferol. Cefnogodd y cydlynid hwn nodau sefydliadol ehangach o amgylch cynaliadwyedd hirdymor ac ansawdd tai (Amcan 4 – CY6, CY7).

- **Mae cyllid yn galluogi profi ac arloesi ar raddfa gyfyngedig:**

Er bod hanner y landlordiaid a holwyd wedi canfod bod costau'r cynllun yn fras fel y disgwyliwyd, disgrifiodd mwyafrif y landlordiaid a gyfwelwyd gyllid ORP fel digonol i alluogi cynlluniau peilot ar raddfa fach neu brofi technolegau newydd a fyddai wedi bod yn anhyfyw heb gymorth grant. Tynnodd rhai landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd sylw at enghreifftiau, megis pymphiau gwres hybrid a threialon cynnar ar PV solar a batris (Amcan 2 – CY3; Amcan 4 – CY4).

- **Adnoddau annigonol ar gyfer ôl-osod ar raddfa lawn:**

Adroddodd mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd fod lefelau cyllid ORP

yn annigonol ar gyfer ôl-osod cynhwysfawr ar draws portffolios tai cyfan, yn enwedig o dan ofynion SATC 2023. Ystyriwyd bod amodau cyllid cyfatebol a chostau cydymffurfio cynyddol (e.e., TrustMark a PAS 2035) yn rhwystrau mawr i raddio'r ddarpariaeth. Roedd costau cynyddol deunyddiau a llafur yn cyfyngu ymhellach ar gapasiti, gan greu tensiwn rhwng treialu atebion arloesol a chyflawni ar raddfa fawr (Amcan 4 – CY5, CY6).

- **Mae strwythur ariannu yn cyfyngu ar gynllunio hirdymor:**

Nododd landlordiaid yn aml fod cylchoedd ariannu blynyddol ORP yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio, caffael a chyflawni'n effeithlon. Roedd ansicrwydd cyllidebol blynyddol a ffenestri gwario byr yn rhoi pwysau ar amserlenni caffael a gweithredu, gan beryglu ansawdd neu arloesedd weithiau. Roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol yn dadlau dros gylchoedd ariannu hirach, aml-flwyddyn, er mwyn caniatáu darpariaeth llyfnach a mwy o barhad strategol (Amcan 4 – CY7).


- **Cydbwyso uchelgais, cyllid a dichonoldeb:**

Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol ac ymarferol, pwysleisiodd landlordiaid fod ORP wedi cefnogi cynnydd sylweddol tuag at ddatgarboneiddio ac wedi meithrin hyder mewn darparu ôl-osod. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio hefyd bwysigrwydd ailystyried mecanweithiau ac amserlenni ariannu i sicrhau y gall camau yn y dyfodol gynnal ansawdd a maint y gwaith sydd ei angen i gyrraedd nodau tai a hinsawdd cenedlaethol (Amcan 2 – CY3; Amcan 4 – CY6).

Cyd-fynd â strategaethau eiddo mewnol

Fel y dangosir yn Ffigur 6, pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol pa mor dda y mae eu cynlluniau ORP yn cyd-fynd â'u strategaethau ôl-osod a rheoli eiddo presennol, dywedodd bron i dri chwarter (74%; 22 allan o 30) fod y cynlluniau'n cyd-fynd yn dda iawn (17%) neu'n dda (57%). Teimlai tri ar ddeg % nad oedd y cynlluniau'n ffitio'n dda nac yn wael, tra bod lleiafrif bach wedi nodi nad oedd y cynlluniau'n ffitio'n dda (3%) neu ddim yn ffitio'n dda o gwbl (3%).

Ffigur 12: Pa mor dda oedd eich cynlluniau ORP yn cyd-fynd â'ch strategaethau ôl-osod a rheoli eiddo presennol? (n=30)



Disgrifiad o Ffigur 12: Siart colofn yn dangos ymatebion o'r arolwg landlordiaid cymdeithasol (n=30), a ofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod wedi derbyn cyllid ORP yn unig.

Archwiliodd y cwestiwn sut mae cynlluniau ORP yn ffitio o fewn eu strategaethau ôl-osod a rheoli eiddo presennol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o 'yn dda iawn' i 'ddim yn dda o gwbl.' Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd 'yn dda,' ac yna 'yn dda iawn,' ac yna 'nid yn dda nac yn wael.'

Adroddodd y mwyafrif helaeth o landlordiaid cymdeithasol yn ein harolwg fod ORP wedi cyd-fynd yn agos â'u strategaethau rheoli asedau, cynnal a chadw eiddo a buddsoddi presennol. Mae canfyddiadau cyfweiliadau yn taflu mwy o oleuni ar hyn, gyda llawer o landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd yn adrodd am achosion, defnyddiwyd cyllid ORP i ategu rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig a gwaith cyfalaf, yn enwedig y rhai sy'n dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y ffabrig yn gyntaf. Galluogodd yr integreiddio hwn landlordiaid cymdeithasol i gyflawni gwelliannau i'r tŷ cyfan. Gwnaethant adrodd eu bod wedi cyfuno uwchraddiadau effeithlonrwydd ynni, fel gosodiadau PV solar a storfa batris, â gwaith arall a drefnwyd, fel ailosod toeau neu atgyweirio ffabrig allanol.

“Roedden ni'n gallu defnyddio cyllid ORP i ategu gwaith cynnal a chadw cynlluniedig presennol sy'n canolbwyntio ar ddull tŷ cyfan i gyflawni gwelliannau allanol. Mae ORP hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ategu gwariant cyfalaf ar ein Cynllun Storfa Batris a PV Solar 5 mlynedd.” (Landlord)

Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd fod cyllid ORP wedi caniatáu iddynt gyflymu neu ehangu prosiectau a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan gefnogi eu nodau cynaliadwyedd a datgarboneiddio hirdymor. I rai landlordiaid cymdeithasol, cynlluniwyd ORP yn benodol i gyd-fynd â chylchoedd ailosod cydrannau presennol ac amcanion strategol, gan helpu i gyrraedd targedau SATC ac EPC wrth wella cyflwr cyffredinol a fforddiadwyedd eu stoc tai.

“Yn [Sefydliad], mae ein dull o reoli ac ôl-osod eiddo bob amser wedi'i arwain gan weledigaeth hirdymor o gynaliadwyedd, lles tenantiaid, a gwydnwch asedau. Mae'r Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig ORP wedi profi i fod yn gydnaws iawn â'r strategaeth hon, gan atgyfnerthu a chyflymu ein nodau mewn sawl maes.” (Landlord)

Cyllid digonol ar gyfer dulliau profi

Pan ofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol a oedd eu cynlluniau ORP wedi bod yn ddrytach neu'n llai costus nag a amcangyfrifwyd ym manylion a chostau cychwynnol y cynllun a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, dywedodd hanner (50%; 15 allan o 30) fod y costau tua'r un fath â'r disgwyl. Nododd pedwar deg tri % fod eu cynlluniau wedi bod ychydig yn ddrytach (30%) neu'n llawer ddrytach (13%) nag a ddisgwyliwyd. Roedd gweddill yr ymatebwyr o'r farn bod eu cynllun ychydig yn rhatach neu dewisasant beidio ag ateb y cwestiwn.

Er bod hanner yr ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi bod y costau fel y rhagwelwyd, roedd mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd yn ystyried bod cyllid ORP yn ddigonol, yn bennaf i alluogi profi ôl-osodiadau, yn enwedig ar gyfer sefydliadau â chapasiti benthyca cyfyngedig. Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol fod y grant yn talu am gyfran sylweddol o gostau'r prosiect, wedi'i ategu gan gyllid cyfatebol mewnol. Roedd y gefnogaeth hon yn hanfodol ar gyfer ymgymryd â mesurau a fyddai fel arall yn anhyfyw yn ariannol ac ar gyfer arbrofi gyda thechnolegau treial a dulliau newydd. Ar wahân i'r gwaith gwirioneddol, ystyriwyd bod cyfrifyddu hyblyg ar gyfer costau cysylltiedig, megis cydymffurfio ag iechyd a diogelwch, a rheoli prosiectau mewnol, yn ddefnyddiol wrth reoli rhaglenni ôl-osod cymhleth.

“Mae gwariant yr ORP wedi ategu ein rhaglen cynnal a chadw gynlluniedig flynyddol yn eithaf effeithiol. Ar adegau, mae hefyd wedi ein galluogi i dreialu cynhyrchion nad oeddem wedi'u cyflwyno eto ar draws y stoc tai bresennol. Yn ystod y rownd gyntaf un o ORP, gosodwyd tua 25 o bympiau gwres hybrid SAP, lle cadwyd y boeler nwy presennol ond ategwyd hynny gan y pwmp gwres. Gallaf ddweud yn hyderus, heb ORP, ei bod hi'n annhebygol iawn y byddem wedi treialu'r gosodiad hwnnw. Yn y blynyddoedd dilynol, caniatodd ORP inni gynnwys eiddo lesddeiliaid ar ystadau a

oedd yn cael yr hyn y byddwn i'n ei alw'n waith cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol. I ni, mae hynny'n cynnwys dull sy'n canolbwyntio ar y ffabrig yn gyntaf, y tŷ cyfan, gan gynnwys ardaloedd allanol, ac mae'n ymgorffori mesurau fel PV solar.” (Landlord)

Annigonolrwydd i gefnogi rhaglen ôl-osod ar raddfa lawn

Er y barnwyd bod cyllid ORP yn ddigonol ar gyfer prosiectau treial neu arbrofion ar raddfa fach, dywedodd mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd ei fod yn annigonol ar gyfer ôl-osodiadau ar raddfa lawn ar draws portffolios tai mawr, yn enwedig o ystyried y goblygiadau ariannol o fodloni gofynion effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio SATC 2023. Wrth fynegi eu diolchgarwch am unrhyw gyllid sydd ar gael, dywedodd rhai landlordiaid cymdeithasol eu bod yn amcangyfrif bod cost y gwaith a argymhellir ymhell yn fwy na'r cyllid ORP sydd ar gael a'u dyraniadau cyllideb eu hunain. Mae maint y diffyg hwn, ynghyd â'r cyfraniadau cyllid cyfatebol sydd eu hangen, yn gosod baich ariannol sylweddol ar sefydliadau. Er enghraifft, amcangyfrifodd un landlord y byddai ôl-osod llawn yn costio rhwng £25,000 a £30,000 fesul cartref ar draws 13,000 o eiddo, gan olygu bod angen £15 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar ben y cyllidebau cyfalaf a chynnal a chadw presennol. Gan nad yw incwm rhent yn cynyddu o ôl-osodiadau, nid yw mecanweithiau benthygiadau confensiynol a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn darparu enillion hyfyw ar fuddsoddiad.

“A dweud y gwir, dim ond diferyn yn y cefnfor yw'r cyllid rydyn ni wedi'i dderbyn. Maen nhw wedi gofyn i ni roi arian cyfatebol iddo, ond nid oes gennym ni'r adnoddau wrth reoli rhaglenni cynnal a chadw mawr, gwaith diogelwch tân parhaus, a rhwymedigaethau hanfodol eraill hefyd. Mae costau wedi codi oherwydd prisiau deunyddiau uwch, prinder contractwyr yng Ngogledd Cymru, a thaliadau premiwm am inswleiddio waliau allanol. Mae gofynion cofrestru TrustMark wedi ychwanegu costau sylweddol. Er fy mod yn deall nod Llywodraeth Cymru i sicrhau ansawdd, mae'n cyflwyno llawer o waith a threuliau ychwanegol.” (Landlord)

Nododd rhai landlordiaid cymdeithasol hefyd y gall strwythur ac amodau cyllid ORP ystumio blaenoriaethau cyflawni. Gwnaethant sylwi, heb ofynion gweinyddol TrustMark a PAS 2035, y gallent gyflawni mwy o ôl-osodiadau am yr un gost gyffredinol.

“Nid yw cyllid byth yn ddigon mewn gwirionedd. Mae'n hael, peidiwch â'm camddeall. Dwi ddim yn meddwl y gallem ni fod wedi gwneud y gwaith a wnaethom hebddo. Ond, mae yna heriau hefyd. Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r model hwn, efallai y bydd angen iddynt ei adolygu wrth i gostau godi. Mae sefydliadau'n wynebu costau uwch oherwydd ffactorau byd-eang, gofynion achredu, llafur, a phwysau eraill. Mae'r

gofyniad cyllid cyfatebol o 60% yn arwyddocaol pan ystyriwch y costau cynyddol hyn. Efallai y bydd angen metrig ychydig yn wahanol i bennu cyllid, gan gydnabod bod gan Lywodraeth Cymru amcanion uchelgeisiol ac yn dibynnu arnom ni i'w cyflawni. Os ydyn nhw eisiau cyflawni'r amcanion hyn, efallai y bydd angen rhyw fath o dir canol o ran cyllid. Er enghraifft, hoffem dreialu gwahanol systemau gwresogi—fel is-goch neu atebion arloesol eraill, ond mae hynny'n dod â chostau ychwanegol ar gyfer dysgu, capasiti ac adnoddau. Bydd bodloni'r gofyniad cyllid cyfatebol o 60% ar gyfer y flwyddyn nesaf yn her wirioneddol i ni.” (Landlord)

Mae cylchoedd bywyd ORP yn cyfyngu ar faint ac ansawdd y gwaith a ddanfonir

Y tu hwnt i'r lefel ariannu gyfan, nododd mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol fod cylch blynyddol yr ORP, a ddiffinnir gan gyfrifoldebau blynyddol, terfynau ariannu, a therfynau amser, yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio a chyflawni ôl-osodiadau yn effeithiol. Credir bod natur flynyddol y gronfa yn creu ansicrwydd wrth wneud penderfyniadau a symud y gweithlu, yn enwedig ar gyfer mesurau sydd ag amseroedd paratoi hir. Mae paratoi a chyflwyno cynigion i gael mynediad at y cyllid hefyd yn defnyddio llawer o amser ac adnoddau sefydliadol. Gwnaethant fynegi dewis ar gyfer gwarantau cyllido aml-flwyddyn, a fyddai'n galluogi cynllunio mwy cydlynol, prosesau caffael llyfnach, a dyrannu adnoddau'n fwy cyson.

“Mae cyflawni'r gwaith ar gyfer ORP wedi bod yn eithaf syml, fodd bynnag, mae cyllid o flwyddyn i flwyddyn yn codi problemau fel nad yw'r amserlenni ar gyfer cael mynediad at gronfeydd a'u gwario yn aml yn cyd-fynd â chyfnodau cynllunio a chyflawni prosiectau ôl-osod. Mae hyn wedi arwain at bwysau i gyflymu caffael a gweithredu, a all beryglu ansawdd neu gyfyngu ar arloesedd. Byddem yn croesawu cylchoedd ORP 3 blynedd i ganiatáu cynllunio mwy cydweithredol.” (Landlord)

4.2.5 Profi a dysgu landlordiaid cymdeithasol

Amcanion Gwerthuso ORP Perthnasol:

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Amcan 4: Deall profiadau landlordiaid o ddarparu ORP

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 2: CY1** – Mapio prosesau casglu data ORP; **CY3** – Asesu a yw ORP wedi galluogi Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i feithrin gwybodaeth ymarferol, gallu a hyder wrth ôl-osod stoc tai Cymru.

Amcan 4: CY7 – Sut roedd mynediad at ddarpariaeth ORP yn amrywio dros amser ac ar draws gwahanol gamau'r rhaglen.

Crynodeb:

Mae tystiolaeth yn dangos bod landlordiaid cymdeithasol yn ymgysylltu'n weithredol â gwahanol sianeli dysgu a chyfathrebu a sefydlwyd o dan fframwaith "profi a dysgu" ORP. Hwylusodd sesiynau Cymunedau Ymarfer Llywodraeth Cymru, digwyddiadau'r Hwb Carbon, a fforymau sector gyfnewid gwybodaeth werthfawr, gan ganiatáu i sefydliadau rannu mewnwelediadau a llywio strategaethau ôl-osod y dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd landlordiaid hefyd yr angen am strwythurau cryfach i gasglu a lledaenu dysgu yn fwy cyson ar draws y sector.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Defnydd gweithredol o rwydweithiau dysgu:**

Roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol yn gwerthfawrogi Cymunedau Ymarfer Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau sector eraill, fel digwyddiadau Tai Cymunedol Cymru, am rannu profiadau a chlywed gan gyfoedion ac arbenigwyr gwadd. Roedd sianeli anffurfiol a chysylltiadau personol hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn cyfnewid gwybodaeth o ddydd i ddydd (Amcan 2 – CY3).

- **Bylchau mewn gweledd data a dysgu hirdymor:**

Roedd rhai landlordiaid yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at ddata monitro a'u defnyddio, gyda gwybodaeth yn aml yn cael ei rheoli gan gyfryngwyr trydydd parti. Roedd cylchoedd ariannu byr hefyd yn cyfyngu ar y gallu i werthuso technolegau dros gylchoedd tymhorol llawn, gan gyfyngu ar ddysgu mwy cadarn (Amcan 2 – CY1, CY3).

- **Cyfleoedd i wella rhannu strwythuredig:**

Awgrymodd y cyfranogwyr ganoli astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd yn fwy systematig i wella gweledd traws-sector. Gwnaethant nodi bod preifatrwydd data ac adrodd yn ôl yr angen weithiau'n cyfyngu ar agoredrwydd, ac y gallai mecanweithiau adborth mwy ffurfiol gefnogi amcanion profi-a-dysgu ORP yn well (Amcan 2 – CY3).

Sianeli cyfathrebu i ddysgu o arloesiadau ORP

Gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol a gyfwelwyd am eu profiadau gyda chydran profi-a-dysgu'r ORP. Dywedodd llawer ohonynt eu bod wedi mynychu a gwerthfawrogi'r sesiynau

Cymunedau Ymarfer a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethant nodi bod y siaradwyr gwadd a'r cyflwyniadau astudiaethau achos yn ystod y digwyddiadau hyn yn arbennig o ddefnyddiol i lywio eu cynlluniau eu hunain. Cyfeiriwyd at sianeli ffurfiol eraill, fel yr Hwb Carbon, fel rhai defnyddiol gan rai sefydliadau hefyd i hwyluso cyfnewid mewnwelediadau. Cyfeiriodd rhai landlordiaid cymdeithasol hefyd at ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff masnach, fel Tai Cymunedol Cymru, a rhwydweithiau rhanbarthol. Trafododd cwpl o landlordiaid cymdeithasol fod dysgu'n digwydd yn bennaf drwy gysylltiadau personol a sgysrsiau â'r sector.

Meysydd i'w gwella

Fodd bynnag, nododd rhai landlordiaid cymdeithasol feysydd lle gellid cryfhau'r elfen profi-a-dysgu. Nodasant, er bod ORP yn cynnig cyfleoedd dysgu, fod natur tymor byr cylchoedd ariannu yn gwneud cynllunio tymor hir a gwerthuso cynhwysfawr yn heriol. Roedd mynediad at ddata monitro yn peri anawsterau i rai sefydliadau. Gosodwyd systemau, ond weithiau roedd gan sefydliadau welededd cyfyngedig o ddata defnyddiol, gyda gwybodaeth weithiau'n cael ei llwybro trwy gyfryngwyr, fel prifysgolion, heb fecanweithiau adborth clir, fel y trafodwyd gan un landlord. Nododd landlord arall fod cyfyngiadau amser ar gyfer cwblhau gosodiadau yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gasglu data ystyrion ar draws gwahanol dymhorau, yn enwedig ar gyfer gwerthuso technolegau fel systemau PV solar. Tynnodd rhai landlordiaid cymdeithasol sylw at y ffaith, er bod astudiaethau achos wedi'u cynhyrchu fel gofynion grant, fod lle i ganoli mwy systematig a rhannu gwersi ar draws y sector, yn enwedig o ystyried pryderon ynghylch preifatrwydd data ar blatfformau cyhoeddus, sydd weithiau'n cyfyngu ar rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Yn gyffredinol, nododd landlordiaid cymdeithasol y gallai dulliau mwy strwythuredig o gasglu, dadansoddi a lledaenu canlyniadau dysgu wella amcanion profi-a-dysgu'r rhaglen.

4.2.6 Profiadau tenantiaid gyda gwaith ôl-osod

Amcanion Gwerthuso ORP Perthnasol:

Amcan 3: Deall profiadau tenantiaid o ORP

Amcan 2: Archwilio a yw ORP yn bodloni ei amcanion fel rhaglen "profi a dysgu"

Cwestiynau Ymchwil (CY) perthnasol: **Amcan 3: CY1** – Beth yw lefelau ymwybyddiaeth sylfaenol a pharhaus tenantiaid o ORP?; **CY2** – A yw tenantiaid yn teimlo eu bod yn ddigon gwybodus cyn, yn ystod ac ar ôl gwaith, ac a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt drwy gydol y broses?; **CY3** – A yw tenantiaid yn credu bod ORP wedi gwella ansawdd eu cartrefi, ac ym mha ffyrdd?; **CY4** – Sut mae

profiadau'n amrywio ar draws mathau o aelwydydd, daearyddiaethau, a LCCau? **Amcan 2: CY3** – Asesu a yw ORP wedi galluogi dysgu ar draws partneriaid cyflawni i wella gweithredu ôl-osod ac ymgysylltiad tenantiaid.

Mae tystiolaeth yn awgrymu, er bod tenantiaid yn gyffredinol yn ystyried gwelliannau sy'n gysylltiedig ag ORP yn gadarnhaol, bod ymwybyddiaeth o'r rhaglen ei hun yn isel. Nid oedd hanner y tenantiaid a holwyd yn ymwybodol o ORP, ac roedd llawer yn ansicr a oedd eu gwelliannau cartref yn rhan ohono. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ôl-osod yn cynnwys paneli solar, ffenestri neu ddrysau newydd, ac uwchraddio inswleiddio, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi ond yn aml yn cyd-fynd â chyfathrebu anghyson ac arweiniad cyfyngedig ar ddefnyddio technolegau newydd.

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau:

- **Ymwybyddiaeth isel o ORP ymhlith tenantiaid:**

Dim ond 35% o'r tenantiaid a holwyd oedd wedi clywed am y rhaglen, ac roedd ychydig dros hanner yn ymwybodol bod gwelliannau cartref wedi digwydd o fewn y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bwlch cyfathrebu rhwng brandio rhaglenni a phrofiadau byw tenantiaid (Amcan 3 – CY1).

- **Mathau cyffredin o welliannau:**

Ymhlith y tenantiaid a adroddodd am waith diweddar, gosod PV solar oedd y mesur mwyaf cyffredin o bell ffordd (72%), ac yna drysau, ffenestri newydd, ac uwchraddio inswleiddio. Derbyniodd nifer llai systemau clyfar, batris, neu bympiau gwres.

Dywedodd y rhan fwyaf o denantiaid fod y gwelliannau'n cyd-fynd yn dda â'u cartrefi (Amcan 3 – CY3).

- **Bodlonrwydd cymysg gyda chyfathrebu ac ymgysylltu:**

Er bod 72% o denantiaid yn fodlon ar y cyfan â chyfathrebu gan landlordiaid, roedd llai yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth dda am y broses waith. Dim ond 47% a nododd eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr hyn fyddai'n digwydd a phwy oedd yn gyfrifol. Dangosodd canfyddiadau ansoddol gyfathrebu anghyson ar draws landlordiaid, gyda rhai tenantiaid yn derbyn diweddariadau amserol ac eraill yn profi ymweliadau annisgwyl neu ddryswch ynghylch amserlenni (Amcan 3 – CY2, CY4).

- **Profiadau a tharfu ar osod:**

Roedd tua dwy ran o dair o denantiaid yn wynebu heriau yn ystod y gosodiadau, y mwyaf cyffredin oedd tarfu ar drefn ddyddiol, oedi, neu golli preifatrwydd. Roedd y profiadau'n amrywio o osodiadau effeithlon, wedi'u cydlynu'n dda i anghyfleustra

sylweddol a achosir gan sgaffaldiau neu ddifrod i eiddo am gyfnod hir (Amcan 3 – CY3).


- **Gwybodaeth annigonol am dechnolegau newydd:**

Adroddodd llawer o denantiaid fod ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o sut i ddefnyddio systemau newydd fel paneli solar, mesuryddion clyfar a phympiau gwres. Dim ond tua thraean oedd yn teimlo eu bod wedi paratoi'n ddigonol, gyda rhai yn nodi bod yn rhaid iddynt geisio gwybodaeth yn annibynnol. Tanseiliodd yr ymgysylltiad cyfyngedig hwn ar ôl y gosodiad rai o'r manteision a fwriadwyd ac mae'n awgrymu bod angen addysg denantiaid a chymorth dilynol mwy cyson (Amcan 3 – CY2; Amcan 2 – CY3).

Ymwybyddiaeth

Pan ofynnwyd i denantiaid a oeddent wedi clywed am yr ORP, dywedodd hanner (50%; 136 allan o 274) nad oeddent wedi (gweler Ffigur 7). Dywedodd ychydig dros draean (35%) eu bod wedi clywed am y rhaglen, tra dywedodd 13% nad oeddent yn siŵr, ac roedd y gweddill yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn.

Ffigur 13: Ymwybyddiaeth o'r ORP ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol cyn cymryd rhan yn yr arolwg (n=274)



Disgrifiad o Ffigur 13: Siart bar yn dangos ymatebion o arolwg tenantiaid yr ORP (n=274) ynghylch a oedd cyfranogwyr yn ymwybodol o'r ORP cyn cymryd rhan yn yr arolwg.

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r rhaglen, tra bod y gweddill wedi'u rhannu'n bennaf rhwng 'ydw' ac 'ddim yn siŵr.'

Cadarnhaodd dwy ran o dair o denantiaid (180 allan o 274) fod gwelliannau wedi'u gwneud yn ystod y 3 blynedd diwethaf, tra bod ychydig dros chwarter (26%) wedi nodi nad oedd unrhyw welliannau wedi digwydd. O'r 180 o denantiaid a gadarnhaodd y gwelliannau, roedd 170 yn byw yn yr eiddo pan ddigwyddodd y gwelliannau.

Ymhlith y rhai a gadarnhaodd fod gwelliannau wedi'u gwneud yn ystod y 3 blynedd diwethaf (n=180), nododd 170 y math o waith a wnaed. Mae'r canfyddiadau'n datgelu pwyslais cryf ar fesurau effeithlonrwydd ynni: dywedodd bron i dri chwarter o denantiaid (122 allan o 170) fod paneli solar wedi'u gosod, gan wneud hyn yn welliant mwyaf cyffredin o bell ffordd. Roedd gwelliannau eraill a grybwyllwyd yn aml yn cynnwys ffenestri a drysau newydd (34%), gorchudd llofft wedi'i uwchraddio (27%), a gorchudd wal gwell ^[troednodyn5] (25%). Gosodwyd batris storio ynni mewn 15% o achosion, tra bod 20 wedi derbyn dyfeisiau cartref clyfar, fel thermostatau clyfar, a 15 wedi gosod systemau pwmp gwres. Yn ogystal, nododd 62% o denantiaid fod ganddynt dechnolegau sy'n helpu i olrhain pa mor dda y mae gwelliannau o'r fath yn gweithio, fel mesuryddion clyfar neu fonitorau ynni.

Yn yr un modd, dim ond nifer fach o'r tenantiaid hyn a oedd wedi profi ôl-osodiadau a ariannwyd gan ORP yn y 3 blynedd diwethaf a gafodd eu cyfweld. Rhannodd y tenantiaid hyn eu profiadau o'r gwelliannau, gan ddatgelu sawl thema ynglŷn â sut y rheolwyd y broses ôl-osod a'i heffaith ganfyddedig ar eu cartrefi a'u bywydau. Ymhlith y gwaith ôl-osod a wnaed, paneli solar oedd y gwelliant mwyaf cyffredin, gyda rhai gosodiadau'n cynnwys systemau batri. Cafodd un tenant inswleiddio llofft ddwywaith i fynd i'r afael â phroblemau llwydni cylchol. Gosodwyd ffenestri triphlyg mewn un eiddo, a gosodwyd mesuryddion clyfar mewn un arall. Roedd cartref un tenant wedi cael ei adnewyddu cyn iddyn nhw symud i mewn, a ddisgrifiwyd fel arfer cyffredin i'w landlord.

Gwybodaeth am osod

Ymhlith y 180 o denantiaid a holwyd a oedd wedi profi gwelliannau yn ystod y 3 blynedd diwethaf, rhoddodd 170 eu barn ar yr ymgysylltiad â'r landlordiaid cymdeithasol drwy gydol y broses. Mynegodd y mwyafrif foddhad â chyfathrebu â landlordiaid, gyda 72% (122 allan o 170) yn nodi rhywfaint o foddhad, a dim ond 19% oedd yn anfodlon. Fodd bynnag, roedd profiadau gyda darparu gwybodaeth yn fwy cymysg: er bod 47% yn teimlo eu bod wedi cael

Footnotes

[5] Er mwyn casglu gwybodaeth gywir gan denantiaid, symleiddwyd yr iaith. Yn benodol, defnyddiwyd y term "gorchudd wal" i footgyfeirio at bob math o arferion inswleiddio waliau.

gwybodaeth glir am y broses waith, nododd 32% fod rhai agweddau'n aneglur, ac roedd 19% yn teimlo nad oeddent wedi cael gwybodaeth dda. Y wybodaeth a ddarparwyd amlaf oedd amseru, gyda 73% yn cael gwybod pryd y byddai'r gwaith yn dechrau, ac yna beth fyddai'r gwaith yn ei olygu (58%), a phwy fyddai'n gyfrifol (56%). Roedd ymgynghori cyn ac yn ystod y gwaith yn gyfyngedig: Ni ofynnwyd i 71 o denantiaid am eu barn cyn i'r gwaith ddechrau, er bod 73 wedi nodi eu bod wedi cael eu hymgyngori. Yn ystod y broses waith, ni ofynnwyd i bron i hanner yr ymatebwyr am eu barn, tra bod traean wedi nodi eu bod wedi cael eu hymgyngori.

Yn ystod y cyfweiliadau, trafododd yr ychydig denantiaid a gyfwelwyd eu profiadau o ran cyfathrebu â'u landlordiaid cymdeithasol. Derbyniodd un tenant wybodaeth drwy lythyr heb gyfathrebu pellach cyn gosod y mesurydd clyfar. Rhoddwyd dyddiad i un arall ar gyfer gosod paneli solar, ond yna ni ddigwyddodd dim, a daeth neb; ymddangosodd y gosodwyr fis yn ddiweddarach heb gyswllt pellach rhyngddynt. Nid oedd y tenant hwn yn gwybod bod y gwaith yn digwydd nes iddynt weld deunyddiau yn yr eiddo. Byddai'r landlord yn ffonio dros y ffôn ond byth yn dilyn i fyny, a byddai pobl yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau nad oeddent erioed wedi'u trefnu.

Ychydig iawn o rybudd a gafodd tenant arall cyn gosod paneli solar. Fodd bynnag, ymwelodd y contractwr â'r eiddo yn gyntaf i gynnal arolwg a rhoddodd amserlen amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith. Roedd y tîm hefyd yn hyblyg, gan wirio a oedd yr amserlen osod yn addas i'r aelwyd. Ar gyfer gwaith inswleiddio llofft, ni chafodd un tenant wybod ymlaen llaw. Daeth gweithwyr i gael triniaeth llwydni a dywedasant y byddent hefyd yn inswleiddio'r llofft tra byddant yno.

Proses gosod

Nododd ychydig o dan draean (54 allan o 170) nad oeddent wedi wynebu unrhyw heriau yn ystod y gwaith, tra bod y mwyafrif wedi wynebu rhai anawsterau. Yr her fwyaf cyffredin oedd ymyriadau â'r drefn ddyddiol (41%), ac yna'r broses yn teimlo'n ymledol oherwydd colli preifatrwydd ac aflonyddwch mynych (28%) ac oediadau neu newidiadau annisgwyl i'r amserlen (26%). Roedd bron i 1 o bob 5 tenant yn profi llai o le ar gael oherwydd cyfyngiadau storio neu offer swmpus. Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd y rhan fwyaf o denantiaid yn fodlon ar ba mor dda roedd y newidiadau newydd yn gweddu i'w cartref: Roedd 118 allan o 170 o'r farn bod y gosodiadau'n ffitio'n dda i ryw raddau, gan gynnwys 38% a nododd eu bod yn ffitio'n dda iawn. Fodd bynnag, roedd 13% yn teimlo'n niwtral ynglŷn â'r addasrwydd, ac roedd 13% yn teimlo bod y newidiadau'n ffitio'n wael i ryw raddau.

Yn yr un modd, disgrifiodd tenantiaid a gyfwelwyd amrywiadau yn ansawdd y gosodiadau a heriau amrywiol. Disgrifiwyd gosod mesurydd clyfar gan un tenant fel un llyfn a chyflym, gan gymryd dim ond un diwrnod. Yn yr un modd, cwblhawyd gosod y panel solar mewn un eiddo yn gyflym ac yn broffesiynol, gyda'r lleiafswm o aflonyddwch. Roedd y tenant yn fodlon ag ansawdd y gosodiad, gan nodi nad oedd unrhyw broblemau wedi hynny a dim angen ymweliadau dilynol na chywiriadau.


“Daeth y dyn draw i wneud arolwg, a rhoddodd amcangyfrif bras i ni o pryd a pha mor hir y byddai'n ei gymryd. Gofynasant hefyd a oedd angen i ni symud ar hyd yr amserlen. Ac fe ddaethon nhw a'i wneud ac roedd yn osodiad cyflym. Effeithlon iawn a dim angen unrhyw alwadau yn ôl”. (Tenant)

Fodd bynnag, disgrifiodd tenant arall eu profiad fel un trafferthus. Achoswyd aflonyddwch sylweddol gan sgaffaldiau a phaneli solar, gyda'r maes parcio a ddefnyddir i storio deunyddiau, gan rwystro mynediad i eiddo a ddefnyddir yn bennaf gan bobl ag anableddau. Parhaodd y sefyllfa hon am 2 fis a hanner. Gosodwyd ffenestri triphlyg ar ddiwrnod oer iawn yn y gaeaf a chymerodd ddiwrnod cyfan i'w cwblhau. Achosodd y gwaith ôl-osod ddifrod i'r eiddo na chafodd ei atgyweirio, a gadawodd gweithwyr llanast a sbwriel o'r paneli solar, gan gynnwys deunyddiau dros ben, fel sgriwiau, ar y palmant.

Gwybodaeth am dechnoleg newydd a sut i'w defnyddio

Ymhlith tenantiaid a brofodd welliannau cartref yn ystod y 3 blynedd diwethaf, nododd y rhai yr oedd y technolegau newydd yn berthnasol iddynt lefelau amrywiol o wybodaeth a pharatoad (gweler Ffigur 8). Paneli solar oedd â'r lefelau ymwybyddiaeth uchaf, gyda 37% yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ac wedi paratoi, a 31% yn dweud y gallent fod wedi derbyn mwy o wybodaeth. Ar gyfer synwryddion amgylcheddol, roedd 32% yn teimlo eu bod wedi paratoi, ond dywedodd cyfran gyfartal (32%) nad oeddent wedi cael gwybod. Roedd parodrwydd yn is ar gyfer systemau cartref clyfar (24%), storio batri (17%), a phympiau gwres (20%), gyda llawer o denantiaid yn ansicr ynghylch sut i ddefnyddio'r systemau hyn. Dim ond ymatebwyr yr oedd pob technoleg yn berthnasol iddynt sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn. Roedd cyfran yr ymatebion “ddim yn berthnasol” yn amrywio rhwng 20% a 65%, yn dibynnu ar y dechnoleg.

Ffigur 14: Parodrwydd tenantiaid ORP a adroddwyd a gwybodaeth a dderbyniwyd ynghylch addasu i dechnolegau cartref newydd ar ôl gwelliannau



Disgrifiad o Ffigur 14: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion tenantiaid ORP ynghylch pa mor wybodus a pharod yr oeddent yn teimlo i addasu i dechnolegau cartref newydd ar ôl gwelliannau cartref diweddar. Gofynnwyd y cwestiwn i'r rhai yr oedd pob technoleg yn berthnasol iddynt yn unig, gyda'r opsiynau ymateb yn amrywio o "gwybodus ac yn barod" i "ddim yn wybodus o gwbl."

Disgwylir i ORP 3 gynhyrchu nifer o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), a hynny'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae cyflogaeth wedi'i chreu o fewn adeiladwaith, rheoli prosiect, gosodiad, a gwasanaethau technegol, ynghyd ag o fewn y gadwyn gyflenwi. Nid yw'r effeithiau cyflogaeth hyn wedi'u cynnwys yn y CBA craidd. Er bod y rhaglen wedi creu swyddi, noda [arweiniad Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#) y gall cyflogaeth o'r fath ddisodli gweithgaredd yn rhywle arall yn yr economi, sy'n golygu nad yw o reidrwydd yn codi llesiant cymdeithasol yn gyffredinol. Am y rheswm hwn, nid yw effeithiau cyflogaeth net fel arfer yn cael eu cyfrif yn yr arfarniad economaidd.

Serch hynny, maen nhw'n debygol o gyflenwi effeithiau lluosog cadarnhaol ar gyfer yr economi leol. Mae gweithwyr a gyflogir trwy'r rhaglen yn cyfrannu at alw lleol am nwyddau a gwasanaethau, gan gefnogi gweithgarwch economaidd ehangach ac adfywiad cymunedol. Ymhellach, disgwyliwyd y byddai'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd datblygu sgiliau ac uwchsgilio, gan helpu i feithrin gweithlu mwy profiadol o fewn technolegau carbon isel a chyflenwi ôl-osod. Gallai'r buddsoddiad cyfalaf dynol hwn gyfoethogi cyflogadwyedd yn y dyfodol a chefnogi pontio i economi werdd fedrus.

Effeithiau cymdeithasol a dosbarthiadol

Disgwylir i'r rhaglen gynhyrchu buddion dosbarthiadol pwysig i aelwydydd incwm is hefyd. Er bod [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#) yn cynnig dulliau ar gyfer rhoi gwerth ariannol ar effeithiau dosbarthiadol, mae gwneud hynny yn gofyn am ddata manwl ar lefelau incwm a nodweddion aelwyd nad oeddynt ar gael ar gyfer y dadansoddiad hwn. Gan hynny, disgrifir y buddion hyn yn ansoddol yn hytrach na'u hymgorffori i'r CBA canolog.

Mae gwelliannau ôl-osod o fudd pennaf i aelwydydd incwm is, y mae gostyngiadau mewn biliau ynni ac amodau byw gwell yn cynrychioli buddion sylweddol o ran llesiant. Yn ôl egwyddorion [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#), mae gan drosglwyddiadau i aelwydydd incwm is incwm defnyddiol ychydig yn uwch, sy'n golygu bod yr un budd ariannol yn cynnig lles cyffredinol uwch. Gan hynny, gall hyd yn oed gostyngiadau gwylaidd mewn costau gwresogi gyflenwi gwelliannau llesiant anghyfartal o fawr i denantiaid tai cymdeithasol, lliniaru ar straen ariannol, gwella lles meddyliol, a chryfhau gwydnwch tuag at amrywiadau ym mhrisiau ynni.

Mae cartrefi cynnes, wedi'i gwresogi'n ddigonol hefyd yn gostwng absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith, a all gynyddu cynhyrchaeth cymdeithasol - effeithiau nad ydynt wedi'u cipio yn y canlyniadau canolog.

Lles tenantiaid ac ansawdd bywyd

Mae rhywfaint o welliannau lles ac ansawdd bywyd yn cael eu cipio yn y dadansoddiad meintiol trwy amcangyfrifon QALY a WELLBY, ond ni ellir rhoi gwerth ariannol ar bob agwedd ar brofiad tenant. Mae'r canfyddiadau ansoddol, felly, yn cynnig cyd-destun pwysig ac yn helpu i ddangos yr ystod lawn o fuddion y mae preswylwyr yn eu profi.

Mae tystiolaeth ansoddol, yn bennaf o gyfweiliadau tenantiaid SATC, yn atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn, gan dynnu sylw at welliannau pendant mewn cysur, diogelwch, a lles meddyliol yn dilyn gwaith ôl-osod. Disgrifia denantiaid eu cartrefi yn gynhesach, yn sychach, yn dawelach, ac yn fwy diogel - gwelliannau sy'n cyfoethogi'n sylweddol ar fodlonrwydd ac ansawdd bywyd o ddydd i ddydd.

Ymhlith y prif themâu y mae:

- Rhyddhad ariannol: Cyfrannodd gostau gwresogi a biliau ynni is at reolaeth ariannol well a thawelwch meddwl, sy'n arbennig o bwysig i aelwydydd ar incymau is
- Cysur thermol ac iechyd corfforol: Cartrefi cynhesach, wedi'u hinsiwleiddio'n dda yn gostwng lleithder, llwydni, a phroblemau resbiradol cysylltiedig
 - adroddodd denantiaid am lai o achosion o annwyd a salwch, gwell ansawdd cwsg, ac awyr iachach
- Lles meddyliol: Roedd teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn sefydlog yn ariannol yn gostwng pryder a straen
 - nododd un tenant, "Mae cael cartref sy'n gynnes, yn ddiogel ac yn saff ... mae'n deimlad da. Mae'n gwneud i chi deimlo'n rhan o gymdeithas."
- Synnwyr o berthyn a balchder: Mae amgylcheddau gwell yn y cartref a'r ardd yn meithrin balchder a chysylltiad cymunedol, gan atgyfnerthu lles a chydlyniant cymdeithasol.

Mae tystiolaeth ansoddol yn tynnu'n bennaf ar gyfweiliadau tenantiaid SATC oherwydd dim ond nifer fechan o denantiaid ORP a oedd ar gael i gymryd rhan. Er bod hyn yn gyfyngiad, disgwylir i'r profiadau a adroddir fod yn gyffredinol gynrychiadol o denantiaid sy'n derbyn mathau tebyg o fesurau ôl-osod.

Buddion lefel system a landlordiaid

Tynnodd gyfweiliadau gyda landlordiaid, yn bennaf y rheini a oedd yn gysylltiedig ag ORP 3, sylw at fuddion ychwanegol nad oes gwerth ariannol iddynt. Adroddodd lawer ar fodlonrwydd cynyddol gan denantiaid, amodau eiddo gwell, a gwerth asedau hirdymor gwell. Cafodd gwaith ôl-osod hefyd ei weld fel cyfle i ddysgu, gan eu helpu i ddeall dilyniannau mesurau effeithiol, meithrin ymddiriedaeth tenantiaid, a datblygu capasiti mewnol ar gyfer datgarboneiddio ar raddfa fawr.

Ar yr un pryd, tynnodd rai landlordiaid cymunedol ar heriau posibl – megis aflonyddwch dros dro yn ystod gosod neu, mewn rhai achosion, risg o filiau uwch os yw mesurau megis pypiau gwres yn cael eu gweithredu heb insiwleiddio digonol. Mae'r mewnwelediadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau'r tŷ cyfan, ffabrig yn gyntaf ac ymgysylltu effeithiol â thenantiaid i sicrhau buddion cynaliadwy.

Gwerth eiddo a gwelliannau asedau

Er nad yw'n cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol yn y CBA, mae buddsoddiadau ôl-osod yn gwella ansawdd, gwydnwch, a gwerth hirdymor y stoc dai. Yn y sector preifat, mae gwelliannau o'r fath yn aml yn cael eu hadlewyrchu mewn gwerthoedd eiddo neu incwm rhent uwch, wrth i berfformiad ynni ac ansawdd tai gwell gael eu cyfalafu i brisiau'r farchnad. Mae'r cynnydd hyn yn cynrychioli enillion economaidd gwirioneddol ar gyfer perchnogion preifat.

I'r gwrthwyneb, mae tai cymdeithasol yn gweithredu ar sylfaen nad ydynt ar gyfer y farchnad, sy'n golygu nad yw cynnydd yng ngwerth yr ased yn trosi i renti uwch neu fudd ariannol uniongyrchol i denantiaid. Yn lle hynny, mae gwerth cymdeithasol y gwelliannau hyn yn cael eu gwireddu trwy safonau byw uwch, costau ynni is, a gofynion cynnal a chadw is ar gyfer landlordiaid cymdeithasol.

5. Casgliadau ac argymhellion

5.1.1 Casgliadau ar gyfer SATC 2023

Profiad a chanlyniadau i'r tenant

Mae ymwybyddiaeth tenantiaid o SATC 2023 yn parhau yn isel. Nid oedd y rhan fwyaf o denantiaid a holwyd, a 62% o'r tenantiaid a arolygwyd, yn ymwybodol o'r Safon ei hun. Serch hynny, mynegodd denantiaid ddiddordeb clir mewn gwelliannau i'w cartrefi, yn enwedig ar gyfer gwaith yn ymwneud â buddion penodol, megis gwell cynhesrwydd, llai o leithder, a chostau ynni is. Yn aml, cafodd y gwelliannau hyn eu gweithredu neu'u cyhoeddi heb eu cysylltu'n benodol â'r SATC. Awgryma hyn, er mai cyfyngedig yw'r ymwybyddiaeth, mae potensial i gynyddu ymgysylltiad â thenantiaid a diddordeb yn SATC 2023 trwy gyfathrebu a strwythuro gwaith yn well, a chysylltu'r gwaith arfaethedig yn gliriach â'r SATC 2023.

Er bod ymwybyddiaeth o SATC fel fframwaith polisi yn gyfyngedig, mae profiadau byw ychydig o denantiaid yn nodi bod y Safon wedi'i diweddarau yn cyfrannu at ansawdd tai a lles gwell, yn enwedig trwy waith ynni a chysylltiedig â diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys cysur cynyddol, llai o straen, iechyd corfforol gwell, a mwy o fodlonrwydd â'u cartrefi. Roedd gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn cael eu gwerthfawrogi'n benodol pan oeddent yn cyfrannu at gartrefi cynhesach a mwy fforddiadwy i'w gwresogi. Mae'r profiadau hyn yn arddangos cynnydd tuag at ganlyniadau bwriadedig SATC 2023, hyd yn oed lle mae dealltwriaeth ffurfiol tenantiaid o'r Safon yn parhau'n gyfyngedig.

Profiad y landlordiaid o weithredu

Mae SATC 2023 yn rhoi galwadau sylweddol ar landlordiaid cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â gofynion ynni a datgarboneiddio. Mae targedau hirdymor, megis cyflawni SAP 92/EPC A ar draws y stoc dai, wedi'u hystyried yn eang fel rhai uchelgeisiol iawn. Er bod landlordiaid yn gyffredinol yn cefnogi'r rhesymeg dros safonau uchel, roedd llawer o'r farn bod disgwyliadau yn cael eu gosod yn ganolog heb fawr o gwmpas ar gyfer cyd-gynllunio, gan greu synnwyr bod uchelgais ar hyn o bryd yn gynt na'r gallu i gyflenwi.

Ymhlith y cyfyngiadau allweddol y mae pwysau ariannol, sicrwydd cyfyngedig dros ariannu hirdymor, prinder personél hyfforddedig ac achrededig, a gofynion gweinyddol cynyddol yn ymwneud ag adrodd data. Gall ansicrwydd am y dystiolaeth sy'n ofynnol, ynghyd ag amrywiad yn sut y mae landlordiaid yn dehongli gofynion ac yn defnyddio'r canllaw sydd ar gael gynyddu llwyth gwaith a gostwng cysondeb ac ansawdd y data a gyflwynir.

Mae landlordiaid wedi croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru, gydag ymgysylltu cynnar, sesiynau cyfarwyddyd, a dialog parhaus yn cynnig cymorth gwerthfawr wrth lywio'r pontio rhwng Safonau, er gwaethaf yr heriau.

Yn ymwneud â gweithredu'r safon wedi'i diweddarau, cafwyd amrywiaeth yn y lefelau gweithredu. Mae'r cynnydd yn fwyaf amlwg yn yr ardaloedd sydd wedi'u halinio â gweithgareddau busnes fel arfer cyfredol, megis diogelwch, ceginau ac ystafelloedd ymolchi, lloriau, a chynnal a chadw arfaethedig. Mae landlordiaid yn cymryd eu camau cychwynnol tuag at fodloni'r gofynion effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio, er nad oes cynnydd sylweddol tuag at fodloni targedau SAP 92 terfynol wedi'i gyflawni hyd yma.

5.1.2 Casgliadau ar gyfer ORP

Profiad y tenant

Roedd ymwybyddiaeth o raglen ORP yn gyfyngedig, gyda rhan fwyaf y tenantiaid yn adrodd nad oedd y rhaglen yn gyfarwydd iddynt yn gymdeithasol, er bod eu cartref wedi profi gwaith ôl-osod fel rhan o'r cynllun.

Roedd barn tenantiaid ar y gwaith ei hun yn gymysg. Cafodd cyfathrebu gyda landlordiaid ei ystyried yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda mwyafrif helaeth y tenantiaid a holwyd yn mynegi bodlonrwydd. Serch hynny, roedd cyflenwi'r gwaith ôl-osod yn aml yn tarfu. Adroddodd y rhan fwyaf o denantiaid a holwyd heriau yn ystod y broses osod, yn enwedig tarfu ar drefnau dyddiol ac oedi neu newidiadau annisgwyl i'r amserlen. Er hynny, fe wnaeth bodlonrwydd cyffredinol gyda gwaith ôl-osod a ariannwyd gan ORP barhau'n uchel.

Mater cyson a nodwyd ar draws cyfweiliadau tenantiaid oedd adroddiadau o wybodaeth annigonol am sut i wneud y defnydd gorau o'r technolegau hyn, yn enwedig PV solar, batris, a systemau gwresogi. Roedd yr ychydig denantiaid a holwyd yn teimlo nad oeddynt yn barod i ddefnyddio'r systemau a osodwyd yn effeithiol, gan ddibynnu ar ffynonellau anffurfiol megis cymdogion neu edrych ar-lein. Fe wnaeth hyn gyfyngu ar fuddion posibl y gwaith ôl-osod ac, gyda rhai, fe gyfrannodd at rwystredigaeth.

Profiad y landlord a chyflenwi

Roedd ORP yn cael ei ystyried yn gyffredin yn hygyrch a gyda chefnogaeth dda gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd landlordiaid cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r gallu i siarad yn uniongyrchol â staff rhaglen, derbyn arweiniad prydlon, a datrys materion ar y cyd. Roedd ORP yn cyd-fynd yn dda â strategaethau rheoli asedau oedd yn bodoli'n barod ac yn aml yn ategu at raglenni cynnal a chadw arfaethedig.

Serch hynny, mae heriau gweithredu yn parhau. Mae'r cylch ariannu blynyddol yn creu pwysau trwy ffenestri bidio byr a dyddiadau cau gwario diwedd blwyddyn, gan arwain at gynllunio cywasgedig, cyflenwi sy'n ysbeidiol, ac aneffeithlonrwydd caffael. Roedd gofynion gweinyddol ac achredu o dan PAS 2035 a TrustMark yn aml yn cael eu hystyried yn ddwys o ran adnoddau gan landlordiaid cymdeithasol, gyda rhai yn cwestiynu eu cymesuredd. Ar yr un pryd, esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod gofynion achredu wedi'u bwriadu i gynnal safonau cadarn fel bod gosodiadau ôl-osod yn ddiogel, yn ddibynadwy, ac yn cael eu cyflenwi'n effeithiol.

Mae cyflenwi yn cael ei gyfyngu ymhellach gan brinder gweithlu, cyfyngiadau'r gadwyn gyflenwi (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), cyfyngiadau safle a threftadaeth, a phetruster tenantiaid tuag at rai technolegau megis pypiau gwres. Roedd ffocws cynyddol hefyd ar uchafu ar dargedau SAP o fewn amserlenni tynn a gyda'r gwariant lleiaf, sydd mewn rhai achosion ag arloesedd cyfyngedig a llai o bwyslais ar ganlyniadau yn canolbwyntio ar y tenant.

Profi a dysgu a gallu sector

Mae ORP wedi chwarae rôl bwysig fel rhaglen profi a dysgu. Ar draws camau dilynol, adroddodd landlordiaid ar dwf mewn gallu sefydliadol, arbenigedd technegol, a hyder wrth gyflenwi gwaith ôl-osod. Cefnogodd ORP arbrofi gyda gwahanol dechnolegau, dulliau dilyniannol, ac archdeipiau, gan gyfrannu at ddysgu ar draws y sector.

Yn gyffredinol, mae ORP wedi bod yn effeithiol wrth feithrin gallu ac arbenigedd technegol mewnol ymhlith llawer o landlordiaid cymdeithasol, gan gefnogi dysgu sefydliadol a datblygu rolau a systemau newydd a dulliau ôl-osod mwy integredig dros gamau dilynol y rhaglen. Serch hynny, mae'r cyflenwi wedi'i siapio yn fwyfwy gan gyfyngiadau rheoleiddio, technegol, a sefydliadol. Cafodd Cymunedau Arfer ac astudiaethau achos eu gwerthfawrogi, er teimlodd landlordiaid y gallai'r dysgu gael ei gryfhau yn fwy trwy fynediad gwell at ddata monitro, gwerthusiad tymhorol, a rhannu mewnwelediadau yn fwy systematig ar draws y sector. Cafodd gofynion monitro eu cydnabod yn anuniongyrchol fel rhai gwerthfawr, er y gallent fod yn feichus pan oeddynt yn cael eu rheoli'n fewnol.

Er nad yw ORP yn ddigonol yn ei iawn ei hun i gyflenwi datgarboneiddio stoc gyfan ar raddfa sy'n ofynnol gan SATC 2023, mae wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer cyflenwi yn y dyfodol.

Gwerth am Arian

Mae canfyddiadau CBA yn arddangos bod ORP 3 yn cyflenwi VfM ar draws pob opsiwn a senario ôl-osod. Yn anad dim, mae hyn yn wir hyd yn oed o dan ragdybiaethau ceidwadol a gymhwysir drwyddi draw'r dadansoddiad. Mae'r systemau PV a batri (Pecyn 2), mesurau ffabrig yn gyntaf (Pecyn 4), a'u cyflenwi ar y cyd yn cyflawni BCRs ar 1.9 neu uwch yn gyson - sy'n golygu am bob £1 sy'n cael ei wario, mae o leiaf £1.90 yn cael ei gynhyrchu mewn buddion. Mae hyn yn cadarnhau bod yr enillion ynni, iechyd, ac amgylcheddol a gyflenwir trwy QRP 3 yn rhagori'n sylweddol ar gostau rhaglen.

Mae'r gyfran fwyaf o fuddion yn deillio o ganlyniadau iechyd corfforol gwell. Mae'r effeithiau hyn yn trosi yn enillion mesuradwy yn QALYs a chostau GIG is. Gan fod canlyniadau iechyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at fuddion gwerth ariannol cyffredinol, mae'n bwysig dehongli'r canlyniadau hyn yng ngoleuni'r dystiolaeth waelodol. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio ar ymatebion i'r arolwg cyn ac ar ôl yr ôl-osod (86 ar gyfer systemau PV solar a batri, Pecyn 2, a 19 ar gyfer mesurau ffabrig yn gyntaf, Pecyn 4). Ar gyfer Pecyn 2, adroddodd 9 o'r 86 ymatebydd iechyd gwell a 6 wedi adrodd ar ddirywiad. Ar gyfer Pecyn 4, adroddodd 4 o'r 19 ymatebydd iechyd gwell ac ni adroddodd unrhyw un ar ddirywiad; yn y ddau becyn, adroddodd y mwyafrif nad oedd unrhyw newid.

O fewn y samplau hyn, dim ond lleiafrif o ymatebwyr a adroddodd ar well iechyd; serch hynny, mae gwerthoedd QALY yn adlewyrchu'r newid cyfartalog mewn defnyddioldeb iechyd wedi'i fapio ar draws yr holl ymatebwyr wedi paru, nid dim ond y rheini a oedd yn adrodd ar welliannau. Cafodd y newid cyfartalog net gwylaidd a arsylwyd yn yr 86 o ymatebwyr Pecyn 2 eu cymhwyso i bob un o'r 488 eiddo sy'n derbyn Pecyn 2, a chafodd y newid cyfartalog net gwylaidd a arsylwyd yn yr 19 ymateb Pecyn 4 eu cymhwyso i bob un o'r 971 eiddo sy'n derbyn Pecyn 4, gan gynnwys aelwydydd heb ddata arolwg wedi'i baru. O ganlyniad, roedd y newidiadau iechyd a adroddwyd gan nifer gweddol fechan o ymatebwyr ym mhob pecyn yn dangos dylanwad pwysig ar gyfanswm y buddion â gwerth ariannol, NPVs a BCRs pennawd.

Gan fod newidiadau iechyd wedi'u hunangofnodedig yn cael eu trosi i sgorau defnyddiol EQ-5D-5L a'u cymhwyso ar draws aelwydydd a dros amser, gall hyd yn oed newidiadau cyfartalog gwylaidd gynhyrchu buddion gwerth ariannol sylweddol. Mae tebygolïaeth resymol nad yw'r 86 eiddo wedi'u paru ar gyfer Pecyn 2 a'r 19 eiddo wedi'u paru ar gyfer Pecyn 4 yn gwbl gynrychioladol o'r holl aelwydydd sy'n derbyn y mesurau hynny. Os yw'r effeithiau iechyd cyfartalog ar draws y poblogaethau ehangach yn llai na'r rheini a arsylwyd yn y samplau wedi'u paru hyn, byddai'r enillion QALY amcangyfrifedig - ac felly'r NPVs a

BCRs - yn is. Mae'r cyfyngiad samplu hwn yn cynrychioli ffynhonnell allweddol o ansicrwydd yn yr asesiad gwerth am arian cyffredinol. Cymhwyswyd rhagdybiaethau ceidwadol drwyddi draw.

Mae arbedion ynni a gostyngiadau carbon yn cynnig buddion ychwanegol, cyflenwol sy'n cryfhau'r achos economaidd cyffredinol. Hyd yn oed o dan ragdybiaethau ceidwadol - megis cymhwyso mesurau cyfleustod iechyd amgen - mae'r pecynnau ORP 3 yn parhau i gyflenwi gwerth net cadarnhaol. Mae hyn yn dangos cadernid y canlyniadau a'r gwydnwch i ansicrwydd yr achos gwerth am arian, mewn paramedrau allweddol.

Mae amseru hefyd yn ffactor critigol. Mae cyflenwi cynt trwy ORP 3 yn cyflawni buddion gwerth presennol sylweddol yn uwch na chyflwyniad 20 mlynedd wedi'i oedi, gan fod effeithiau yn cael eu gwireddu ynghynt ac yn amodol ar lai o ddisgowntio. Yn y cyflwyniad 20 mlynedd sydd wedi'i oedi, mae'r 2 flynedd gyntaf o arbedion carbon ac ynni posibl wedi'u colli'n llwyr, gan ostwng cyfanswm y buddion. Tra bod graddfa llwyr effeithiau iechyd a GIG yn parhau yr un peth ar draws senarios, mae eu gwerth presennol yn is o'u cyflenwi'n hwyrach. Mae cyflymu'r buddsoddiad ôl-osod felly yn uchafu ar effeithlonrwydd economaidd ac yn dwyn ymlaen buddion iechyd, carbon, ac ynni mesuradwy.

Mae'r gwerthusiad yn dangos mesurau PV solar a batri cost is ac ymyriadau ffabrig yn gyntaf dwys o ran cyfalaf ill dau yn cyflenwi VfM da, ond nid yw'n cynnig sylfaen bendant ar gyfer blaenoriaethu ôl-osod dwfn dros fasgedi rhatach o fesurau. Mae dulliau ffabrig yn gyntaf yn cynhyrchu buddion llwyr mwy, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, ond mae'n cynnwys costau uwch ymlaen llaw. Mae mesurau cost is hefyd yn cyflenwi BCRs cryf ac yn cynnig potensial cynyddol ar gyfer graddio i fyny yn gyflym. Mae'r canlyniadau, felly, yn pwyntio at gyfnewidiad strategol rhwng dyfnder ymyrraeth a hyd y sylw, yn hytrach nac un dull optimaidd ar sail tystiolaeth VfM ar ei ben ei hun. Dylid gwneud ymchwil pellach pan ddaw data ar gael ar gyfer pob pecyn ORP 3 i asesu a ddylai strategaethau ôl-osod yn y dyfodol flaenoriaethu ôl-osod dwfn neu ffocws ar becynnau o fesurau cost isel.

Y tu hwnt i'r buddion wedi'u meintioli, mae ORP 3 yn cyflenwi effeithiau ansoddol pwysig. Mae tenantiaid yn adrodd ar fwy o gysur, diogelwch, a bodlonrwydd, ac mae landlordiaid yn nodi llai o anghenion cynnal a chadw a gwell hirhoedledd asedau. Mae'r enillion ansoddol hyn yn atgyfnerthu'r dystiolaeth wedi'i meintioli, sy'n dangos nid yn unig y mae ORP 3 yn cynrychioli VfM ond hefyd yn cyfrannu at gymunedau iachach, mwy cydnerth.

Amcanion heb eu bodloni

Ni chafodd yr amcanion i fapio prosesau casglu data (Amcan 3) ac i gwmpasu dichonoldeb cyflwyno ôl-osod yn ehangach (Amcan 4) eu bodloni'n llawn o fewn y gwerthusiad hwn oherwydd nodau a blaenoriaethau sy'n esblygu'r ymchwil a'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Wrth i'r amcanion hyn gael eu dad-flaenoriaethu, dylid eu hateb ac ailymweld â hwy mewn ymchwil yn y dyfodol.

5.1.3 Cyfuniad traws-raglen

O'u hystyried ar y cyd, mae SATC 2023 ac ORP yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae SATC yn cynnig fframwaith rheoleiddio hirdymor, wrth i ORP weithredu fel dull cyflenwi a dysgu sy'n cyflymu cynnydd tuag at nodau ynni a datgarboneiddio. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd alinio safonau, dulliau ariannu, capasiti cyflenwi, ac ymgysylltu â thenantiaid i uchafu ar effaith.

5.1.4 Argymhellion

Argymhellion ar gyfer SATC

Argymhelliad 1^{af}: Cyflwyno templed Polisi Cydymffurfiaeth Safonedig.

Y sylfaen ar gyfer argymhelliad: Mae tystiolaeth yn tynnu sylw bod landlordiaid wedi wynebu heriau wrth gyflwyno Polisiâu Cydymffurfiaeth ar gyfer y Safon a ddiweddarwyd. Gall y ffordd y mae landlordiaid yn dehongli canllawiau gynyddu llwyth gwaith ac affeithio ar ansawdd y data a gyflwynir.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Adroddodd landlordiaid cymdeithasol ansicrwydd am y cwmpas gofynnol a lefel y manylion ar gyfer polisiâu cydymffurfiaeth. Mae diffyg templed safonedig Polisi Cydymffurfiaeth weithiau wedi cynyddu'r llwyth gwaith ac wedi arwain at anghysondeb yn strwythur, cynnwys, a dyfnder polisiâu ar draws sefydliadau.

I fynd i'r afael â hyn, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn cynnig templed strwythuredig ar gyfer y polisi cydymffurfiaeth sy'n amlinellu'n glir yr adrannau gofynnol, a'r disgwyliadau gofynnol.

Mae'r argymhelliad hwn yn perthyn i'r Canlyniad ToC SATC "Penderfyniadau wedi'u gyrru gan ddata ac wedi'u hysbysu'n well ar gyfer tai cymdeithasol" ar bolisiau cydymffurfiaeth, adrodd blynyddol, a monitro, gan gefnogi cynnydd cyson tuag at gydymffurfiaeth lawn a chanlyniadau i'r tenant maes o law.

2^{il} Argymhelliad: Gwella Canllawiau ar gyfer Ffurflenni Data

Y sylfaen ar gyfer argymhelliad: Mae tystiolaeth yn nodi bod landlordiaid wedi profi heriau wrth ddehongli'r gofynion adrodd wedi'u diweddarau. Gall y ffordd y mae landlordiaid yn dehongli canllawiau gynyddu llwyth gwaith ac affeithio ar ansawdd y data a gyflwynir.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Adroddodd landlordiaid ar ansicrwydd ynglŷn â'r hyn yw lefel ddigonol o ddata ar gyfer ffurflenni ystadegol, tra hefyd yn nodi bod y gofyniad hwn yn aml yn gosod baich gweinyddol sylweddol arnynt. Er bod Llywodraeth Cymru yn argymhell tynnu ar ffurflenni ystadegol yn uniongyrchol o'r systemau rheoli tai, fe aeth rhai landlordiaid ati yn lle hynny i lenwi ffurflenni â llaw, gan gynyddu'r llwyth gwaith a'r risg o anghysondeb.

I fynd i'r afael â hyn, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau ychwanegol ar gyfer ffurflenni ystadegol, gan egluro'r hyn sy'n ofynnol, lefel y manylion disgwylidig, a'r fformat ar gyfer cyflwyniadau. Byddai hyn yn helpu landlordiaid i osgoi ailwneud y gwaith, gostwng camddehongli'r gofynion, a sicrhau cysondeb.

Mae'r argymhelliad hwn yn perthyn i'r Canlyniad ToC SATC "Penderfyniadau wedi'u gyrru gan ddata ac wedi'u hysbysu'n well ar gyfer tai cymdeithasol" ar bolisiau cydymffurfiaeth, adrodd blynyddol, a monitro, gan gefnogi cynnydd cyson tuag at gydymffurfiaeth lawn a chanlyniadau i'r tenant maes o law.

3^{ydd} argymhelliad: Sicrhau cyllid ar gyfer gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni

Sail dros yr argymhelliad: Cafodd targedau hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio (gan gyflawni SAP 92/EPC A) ar draws y stoc dai eu hystyried yn eang fel rhai hynod uchelgeisiol. O ganlyniad, cafwyd rhywfaint o ansicrwyd a fyddai'r targedau SAP 92 terfynol yn cael eu bodloni yn y pendraw, gyda phwysau ariannol parhaus yn cael eu nodi fel cyfyngiad o bwys.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol; ORP 3 CBA

Tynnodd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol sylw at argaeledd cyfyngedig cyllid y tu hwnt i ORP. O ystyried VfM a ddangoswyd o'r ORP, argymhellir bod ffrydiau ariannu pellach ar gael i gefnogi gweithiau ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Byddai ehangu cyllid yn galluogi i landlordiaid raddio gweithgaredd ôl-osod, cyflymu cynnydd tuag at dargedau datgarboneiddio, ac uchafu ar fuddion tenantiaid o ran cysur, iechyd, ac effeithlonrwydd ynni. Ochr yn ochr â darparu cyllid ychwanegol, mae angen i

landlordiaid cymdeithasol gryfhau eu capasiti i fynd ati i adnabod, sicrhau, a defnyddio'n llawn yr ystod o ffrydiau ariannu sydd eisoes ar gael iddynt.

Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi "perfformiad ynni" SATC cyfan a chanlyniadau "effaith amgylcheddol", sy'n cael effaith anuniongyrchol ar "fodlonrwydd a lles tenantiaid" hefyd.

4^{ydd} argymhelliad: Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu

Sail dros yr argymhelliad: Y tu hwnt i gyfyngiadau ariannol, adnabu landlordiaid hefyd brinder personel wedi'u hyfforddi ac wedi'u hachredu fel her ychwanegol i gyflenwi'r gwaith ôl-osod gofynnol i fodloni nodau datgarboneiddio.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Er mwyn cefnogi cyflenwi targedau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio, argymhellir clustnodi mwy o arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer uwchsgilio a datblygu'r gweithlu. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu [Cyfrifon Dysgu Personol](#), rhaglen uwchsgilio gyda ffocws penodol ar sgiliau gwyrdd, ynghyd â'r [Rhaglen Sgiliau Hyblyg](#), sy'n talu am hyd at 50% o'r costau hyfforddi achrededig ar gyfer busnesau, gyda chap o £50,000. Bydd buddsoddiad wedi'i dargedu mewn hyfforddiant ac uwchsgilio o fewn y sectorau adeiladu a gwyrdd yn helpu i fynd i'r afael â phrinder staff achrededig a chyfoethogi capasiti technegol ar draws landlordiaid cymdeithasol.

Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi holl ganlyniadau "perfformiad ynni" ac "effaith amgylcheddol" SATC.

5^{ed} argymhelliad: Gwella ymwybyddiaeth o SATC ymhlith tenantiaid

Sail dros yr argymhelliad: Adroddir bod ymwybyddiaeth tenantiaid o SATC 2023 yn isel. Nid oedd y rhan fwyaf o denantiaid a holwyd yn ymwybodol o'r Safon, a nododd landlordiaid cymdeithasol radd o ddifaterwch ymhlith tenantiaid.

Ffynhonnell dystiolaeth: Arolygon a chyfweiliadau tenantiaid; cyfweiliadau landlordiaid

O ystyried lefelau isel o ymwybyddiaeth tenantiaid yn ymwneud â SATC 2023, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn cynghori landlordiaid cymdeithasol i weithredu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'u targedu. Mewn achosion lle mae'r ymwybyddiaeth yn parhau'n isel, fe allai fod yn bwysig i landlordiaid cymdeithasol archwilio'r rhesymau gwaelodol ac adnabod ffyrdd o wella effeithlonrwydd.

Gallai gwella dealltwriaeth tenantiaid o'r Safon, ei buddion, a gweithiau arfaethedig annog ymgysylltiad cynyddol a meithrin cefnogaeth gan denantiaid ar gyfer gweithgareddau ôl-osod. Mae'n arbennig o bwysig cynnig cyfathrebu clir a chefnogaeth cyn, yn ystod, ac ar ôl

gwaith, yn enwedig pan fydd technolegau carbon isel newydd yn cael eu gosod, gan fod rhai tenantiaid wedi adrodd ar faterion gyda sut y mae landlordiaid yn rheoli'r broses a'r wybodaeth y maen nhw wedi'i derbyn.

Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â chanlyniadau ToC SATC "ymgysylltu â'r gymuned" a "bodlonrwydd a lles tenantiaid".

6^{ed} argymhelliad: Adnoddau a hygyrchedd strategol

Sail dros yr argymhelliad: Adroddodd lawer o denantiaid ymgysylltiad minimal o ochr y landlordiaid, dull ymatebol tuag at atgyweiriadau, a rhyngweithiadau amhersonol, heb fawr o rybudd am ymweliadau a rhagdybiaethau am argaeledd.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau tenantiaid; Cyfweiliadau landlord cymdeithasol

Adroddodd lawer o denantiaid a holwyd gyfathrebu minimal neu aneffeithiol, gydag atgyweiriadau a gwelliannau yn ymatebol, a chefnogaeth ddilynol annigonol ar ôl i waith ôl-osod gael ei gwblhau. Adroddodd rai hefyd bod rhyngweithiadau rhwng tenant a landlord yn amhersonol, heb fawr o rybudd am ymweliadau a rhagdybiaethau am argaeledd. Dylai Llywodraeth Cymru annog landlordiaid cymdeithasol i adolygu ac addasu argaeledd staff i alinio'n well ag anghenion tenantiaid. Bydd cynnig cynnal gwaith ôl-osod y tu hwnt i oriau gwaith safonol neu ddarparu opsiynau mynediad amgen yn helpu i sicrhau bod tenantiaid sy'n gwweithio neu sydd ag ymrwymadau eraill yn gallu ymgysylltu'n llawn â gwasanaethau tai a rhaglenni ôl-osod.

Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi canlyniadau "ymgysylltu â'r gymuned" ToC SATC trwy alluogi ymgysylltu ystyrlon gan denantiaid.

Argymhellion ar gyfer ORP

Argymhelliad 1^{af}: Gweithredu cylch ariannu amlflwyddyn

Sail dros yr argymhelliad: Mae'r cylch ariannu blynyddol ORP yn creu pwysau trwy ffenestri cynnig byr a therfynau amser gwariant diwedd blwyddyn, sy'n arwain at gynllunio cywasgedig, cyflenwi ysbeidiol, ac aneffeithlonrwydd caffael.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau landlordiaid cymdeithasol; Arolwg landlordiaid cymdeithasol

Mae'r brif her strwythurol a adroddwyd gan landlordiaid cymdeithasol gyda ORP yn perthyn i'r cylch ariannu blynyddol a'r gofynion rheoli cysylltiedig, er hefyd yn cydnabod y gefnogaeth sydd eisoes wedi'i darparu gan y tîm ORP trwy estyniadau terfyn amser, cymorth un i un, hyblygrwydd cynnig o fewn y flwyddyn, ac argaeledd cyllid dros ben. Mae'r

tîm gwerthuso yn cydnabod bod y dull model ar sail stoc hefyd yn rhoi lefel o sicrwydd i landlordiaid yn ymwneud â chyllid a chynllunio hirdymor o'i gymharu â system gynnig gystadleuol, gan eu helpu i gynllunio'n strategol a rheoli adnoddau er gwaethaf cyfyngiadau cylch blynyddol.

Argymhellir i Lywodraeth Cymru bod ORP (neu gyllid tebyg yn y dyfodol) yn mabwysiadu cylch ariannu amlflwydd neu ddulliau eraill o sicrwydd ar ariannu ar gyfer LCCau. Byddai hyn yn gostwng y pwysau a grëwyd gan ffenestri cynnig byr a therfynau amser gwariant diwedd blwyddyn, yn caniatáu ar gyfer cynllunio a chaffael mwy effeithiol, a galluogi i dimau cyflenwi i gyflawni cyfaint uwch a mwy cyson o waith ôl-osod a datgarboneiddio.

Mae'r argymhelliad hwn yn cryfhau mewnbynnau a gweithgareddau ToC ORP, gan gefnogi'r holl ganlyniadau dilynol yn anuniongyrchol.

2^{il} Argymhelliad: Cymell achrediad TrustMark ar gyfer contractwyr

Sail dros yr argymhelliad: Roedd gofynion gweinyddol ac achredu o dan PAS 2035 a TrustMark yn aml yn cael eu hystyried yn ddwys o ran adnoddau gan landlordiaid cymdeithasol, gyda rhai yn cwestiynu eu cymesuredd.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Argymhellir bod cymhellion yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru i annog contractwyr i sicrhau a chynnal achrediad TrustMark. Bydd cefnogi contractwyr wrth gyflawni achrediad, trwy gymhellion ariannol neu weithdrefnol, yn helpu i ehangu'r pwll o ddarparwyr cymwys, hwyluso cydymffurfiaeth gyda safonau megis PAS 2035, ac yn sicrhau cyflenwi gwaith ôl-osod a datgarboneiddio yn brydlon ac yn effeithiol.

I'r perwyl hwnnw, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu ni am bapur a ddrafftwyd yn 2025 sy'n amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru ariannu 50% o gost archwilio TrustMark blwyddyn gyntaf ar gyfer cwmnïau sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Mae'r papur yn cael ei ystyried ar gyfer gweithredu posibl yn 2026–2027.

Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi holl ganlyniadau "Economi a sgiliau gwyrdd" ORP.

3^{ydd} argymhelliad: Mesur canlyniadau, ac nid pwyntiau SAP yn unig

Sail dros yr argymhelliad: Ar gamau diweddaraf ORP, roedd ffocws cynyddol ar uchafu ar dargedau SAP o fewn amserlenni tynn a gyda'r gwariant lleiaf, sydd mewn rhai achosion ag arloesedd cyfyngedig a llai o bwyslais ar ganlyniadau yn canolbwyntio ar y tenant.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Adroddodd rai landlordiaid ar fabwysiadu strategaeth ôl-osod "hawdd", megis gosodiad màs o baneli solar, weithiau heb storfa fatri yn cyd-fynd, i fodloni safonau SATC canol tymor. Credir bod y mesurau hyn yn cynnig buddion cyfyngedig i denantiaid.

Argymhellir bod landlordiaid cymdeithasol yn ehangu ac yn cyfoethogi ar ddulliau gwerthuso sy'n blaenoriaethu perfformiad hirdymor a chanlyniadau tenantiaid (megis dangosyddion perfformiad allweddol bodlonrwydd/lles), fel y nodwyd yn barod yn y broses hawlio cronfa ORP, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar welliannau sgôr SAP.

Nodwch fod yr argymhelliad hwn yn adlewyrchu ar gasgliadau'r tîm ymchwil, ar sail cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol, a oedd yn nodi bod rhywfaint o waith ORP yn cael ei gynnal yn bennaf i fodloni targedau SATC amgylcheddol tymor canol. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru, trwy'r broses gwneud cais am grant, anogir landlordiaid cymdeithasol i ystyried strategaethau hirdymor a lles tenantiaid fel ei gilydd. Anogir landlordiaid hefyd i osod synhwyrddion mewn cartref i fonitro perfformiad ar draws dangosyddion lluosog, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a materion megis lleithder a llwydni.

Mae'r argymhelliad hwn yn alinio â chanlyniadau "perfformiad ynni", "effaith amgylcheddol," a "bodlonrwydd a lles tenantiaid" ORP.

4^{ydd} argymhelliad: Cyfoethogi gwelededd canlyniadau profi a dysgu

Sail dros yr argymhelliad: Teimlodd landlordiaid y gellid cryfhau'r dysgu trwy well mynediad at ddata monitro, gwerthusiad tymhorol, a rhannu mewnwelediadau yn fwy systematig ar draws y sector. Cafodd gofynion monitro eu cydnabod yn anuniongyrchol fel rhai gwerthfawr, er y gallent fod yn feichus pan oeddynt yn cael eu rheoli'n fewnol.

Ffynhonnell dystiolaeth: Cyfweiliadau â landlordiaid cymdeithasol

Argymhellir bod ORP a landlordiaid cymdeithasol yn canolbwyntio ar wreiddio'r technolegau profedig a dulliau ymyriad a brofwyd gan ORP, ond hefyd yn sicrhau bod canlyniadau, astudiaethau achos, a phrif bwyntiau dysgu yn weladwy yn eang ac yn hawdd eu cyrchu, er enghraifft, rhannu gwybodaeth trwy ddigwyddiadau Cymuned Arfer a hyrwyddo tudalen astudiaethau achos ORP.

Hysbysodd swyddogion Llywodraeth Cymru ni bod bylchau sylweddol yn parhau yn nata cyflenwyr a sgiliau, ynghyd ag astudiaethau achos, y mae llawer ohonynt heb eu cwblhau eto. Ym mlwyddyn olaf y rhaglen ORP gyfredol, bydd y tîm ORP yn canolbwyntio ar gasglu a dosbarthu'r holl allbynnau a chanfyddiadau perthnasol i bartneriaid.

Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi canlyniadau "ymgysylltu â'r gymuned" ORP.

Atodiad A: Proffil ymatebwyr arolwg

Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg disgrifiadol o nodweddion demograffig ymatebwyr ar gyfer y 2 arolwg a ddosbarthwyd i denantiaid tai cymdeithasol fel rhan o'r ymchwil hwn. Mae canfyddiadau arolygon ORP a SATC 2023 yn cael eu disgrifio ar wahân.

Arolwg tenantiaid ORP

Cyflwynir gwybodaeth ddemograffig a chefnidir ymatebwyr yr arolwg ar gyfer yr arolwg tenantiaid ORP isod. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 274 o ymatebion.

- **Rhywedd:** Roedd 72% o'r ymatebwyr yn fenywod o'i gymharu â 27% yn wrywod
- **Oed:** Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (81%) rhwng 35 a 74 oed, gyda thua un pumed ohonynt yn perthyn i'r grwpiau oed isod (17% rhwng 35 a 44, 20% rhwng 45 a 54, 22% rhwng 55 a 64, a 22% rhwng 65 a 74) - roedd cyfranogwyr rhwng 75-84 oed yn gwneud 9% o'r sampl, tra bod y rheini rhwng 25 a 34 oed yn 7%
- **Awdurdod lleol:** O blith y 22 awdurdod lleol a archwilwyd, roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr (15%) wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac yna Wrecsam (14%), Merthyr Tudful (12%), Pen-y-bont ar Ogwr (8%), Rhondda Cynon Taf (8%), Caerdydd (7%), a Sir Gâr (6%)
- **Ethnigrwydd:** Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn Wyn (95%), a'r gweddill wedi'u rhannu, yn Ddu, yn Gymysg, neu'n grwpiau ethnig eraill, neu'n dewis peidio ag ateb y cwestiwn
- **Math o eiddo:** Adroddodd gyfran fwyaf (42%) o gyfranogwyr eu bod yn byw mewn tai pârl. Cofnododd gyfrannau llai eu bod yn byw mewn tai teras (19%), fflatiau (17%), a byngalos (16%)
- **Nifer y bobl sy'n byw yn yr aelwyd:** Roedd dros draean o'r ymatebwyr (36%) yn byw ar eu pennau eu hunain, gyda 28% yn byw mewn aelwydydd 2 berson. Roedd llai yn byw mewn aelwydydd o 3 (15%) neu 4 o bobl (13%), a dim ond 7% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn aelwydydd o 5+ o bobl
- **Anabledd:** Cofnododd 67% o ymatebwyr bod ganddynt gyflwr neu salwch iechyd meddwl neu gorfforol yn para neu y mae disgwyl iddo bara 12 mis neu fwy, ac adroddodd 27% nad oed ganddynt gyflwr
- **Anghenion gofal:** Adroddodd ymron i hanner y cyfranogwyr (45%) nad oedd unrhyw un ar yr aelwyd a oedd angen gofal neu gefnogaeth reolaidd, ac adroddodd y 44%

arall bod o leiaf un aelod o'r aelwyd angen cefnogaeth - penderfynodd 11% o gyfranogwyr i beidio ag ateb y cwestiwn

- **Profiad wrth dderbyn gofal:** Adroddodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) nad oed unrhyw un ar eu haelwyd wedi profi derbyn gofal. Dywedodd tua un chwarter (27%) eu bod nhw eu hunain wedi cael profiad, ac adroddodd 8% bod rhywun arall ar yr aelwyd wedi cael profiad - dim ond 4% o gyfranogwyr gofnododd eu bod nhw ac aelod arall o'r aelwyd ill dau wedi cael profiad o ofal, a phenderfynodd 10% i beidio ag ateb y cwestiwn
- **Landlord cymdeithasol:** Adroddodd mwyafrif yr ymatebwyr (61%) eu bod yn byw mewn llety cymdeithasol, ac adroddodd 36% eu bod yn byw mewn cartref wedi'i ddarparu gan y cyngor
- **Nifer y blynyddoedd yn byw yn yr eiddo:** Roedd un chwarter o'r ymatebwyr (27%) wedi byw yn eu heiddo cyfredol am dros 20 mlynedd - tua 1 o bob 6 (16%) wedi byw yno rhwng 10 a 15 mlynedd, a 15% rhwng 7 a 10 mlynedd - adroddodd lai eu bod yn byw yn eu heiddo am 3-5 o flynyddoedd (12%), 5-7 o flynyddoedd (8%), 1-3 o flynyddoedd (8%), 15-20 o flynyddoedd (8%), a 4% wedi byw yno am lai na blwyddyn

Arolwg tenantiaid SATC 2023

Cyflwynir gwybodaeth ddemograffig a chefnidir ymatebwyr yr arolwg ar gyfer arolwg tenantiaid SATC 2023 isod. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 1,285 o ymatebion.

- **Rhywedd:** Roedd 70% o ymatebwyr yn fenywod o'i gymharu â 27% a oedd yn wrywod
- **Oed:** Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) rhwng 35 a 74 oed, gyda 26% yn 55-64, 20% yn 45-54 oed, 18% yn 65-74 oed, a 17% yn 35-44 oed. Roedd llai o gyfranogwyr rhwng 25-34 oed (8%) a 75-84 oed (7%)
- **Awdurdod lleol:** Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr (37%) wedi'u lleoli yng Nghasnewydd, gyda bron i un o bob pump wedi'u lleoli yn Sir Benfro (19%); roedd ymatebwyr eraill wedi'u lleoli yn Rhondda Cynon Taf (9%), Sir Fynwy (7%), Torfaen (7%), a Bro Morgannwg (6%).
 - adroddodd ardaloedd eraill ar ganrannau is, sef Wrecsam (4%), Blaenau Gwent (2%), Castell-nedd Port Talbot (2%), a Phowys (2%), gyda'r ardaloedd sy'n weddill yn cofnodi rhwng 1% neu lai o ymatebwyr

- **Ethnigrwydd:** Nododd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr eu bod yn Wyn (93%), tra bod y 7% sy'n weddill o'r cyfranogwyr wedi'u rhannu rhwng bod yn Asiaidd, Du, Ethnigrwydd cymysg neu ddewis i beidio ag ateb y cwestiwn
- **Math o eiddo:** Mae cyfran fwyaf y cyfranogwyr, 37%, yn byw mewn fflatiau, ac yna'r rheini sy'n byw mewn tŷ pâr (26%) a thai teras (23%). Dim ond 9% o gyfranogwyr adroddodd eu bod yn byw mewn byngalos.
- **Nifer y bobl ar yr aelwyd:** Roedd ychydig dros draean y cyfranogwyr (38%) yn byw ar eu pennau eu hunain, gydag ychydig dros chwarter (28%) yn byw gydag un person arall; roedd aelwydydd o 3 pherson yn 17% o'r ymatebwyr, y rheini â 4 yn cynrychioli 9% o'r sampl, a 5 neu'n fwy yn cynrychioli 6%.
- **Anabledd:** Cofnododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (66%) bod ganddynt gyflyrau iechyd corfforol neu feddwl yn para 12 mis neu'n fwy neu y disgwylir iddo bara'r cyfnod hwnnw, a dim ond 26% a adroddodd nad oedd ganddynt gyflwr; dewisodd 8% i beidio ag ateb y cwestiwn.
- **Anghenion gofal:** Adroddodd ymron i hanner y cyfranogwyr (48%) nad oes unrhyw un ar yr aelwyd sydd angen gofal neu gefnogaeth reolaidd, ac adroddodd ychydig yn llai (41%) bod o leiaf un aelod ar yr aelwyd angen y gefnogaeth honno; penderfynodd 11% o'r cyfranogwyr i beidio ag ateb y cwestiwn.
- **Profiad wrth dderbyn gofal:** Nododd dros hanner (56%) y cyfranogwyr nad oedd unrhyw un ar eu haelwyd wedi profi derbyn gofal, adnabu 24% o ymatebwyr eu hunain fel rhai wedi profi gofal, dywedodd 6% bod aelod arall o'r aelwyd wedi'i brofi, a dywedodd 3% eu bod nhw ac aelod arall o'r aelwyd wedi profi gofal - dewisodd tua 1 o bob 9 i beidio ag ateb y cwestiwn hwn.
- **Landlord cymdeithasol:** Adroddodd mwyafrif yr ymatebwyr (72%) eu bod yn byw mewn llety cymdeithasol, ac adroddodd 26% eu bod yn byw mewn cartref a ddarperir gan y cyngor
- **Cyfnod o amser yn byw yn yr eiddo:** Mae ymron i un pumed o ymatebwyr (20%) wedi byw yn eu heiddo cyfredol am 20 mlynedd neu fwy, ac yna ychydig o dan un pumed (17%) wedi byw yno rhwng 10-15 o flynyddoedd; roedd 12% o ymatebwyr wedi byw yn eu heiddo o rhwng 7 i lai na 10 mlynedd, 11% o rhwng 3 i lai na 5 mlynedd, ac 11% arall rhwng 1 i lai na 3 o flynyddoedd; adroddodd gyfran debyg o 10% eu bod yn byw yn yr eiddo ers rhwng 5 a 7 o flynyddoedd

Atodiad B: Atodiad Technegol ar gyfer CBA

Cynhaliwyd Dadansoddiad Cost a Budd Cymdeithasol (CBA) i asesu gwerth economaidd y Pecynnau sy'n cael eu hadolygu, fel yr argymhellir yn [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#).

Mae CBA yn ddull cyffredin a ddefnyddir i amcangyfrif VfM ymyrraeth drwy feintoli a phennu gwerth ariannol costau a buddion economaidd-gymdeithasol.

Datblygwyd y fframwaith CBA i fesur costau ORP 3, ynghyd â'r buddion economaidd-gymdeithasol a all lifo o'r ymyrraeth hon. Adnabuwyd costau a buddion a'u cymharu â senario gwrthffeithiol (busnes fel arfer), lle nad yw'r ymyrraeth yn digwydd. Cipiodd CBA gostau'r ymyrraeth, ynghyd â buddion diriaethol ac anniriaethol yn llifo o Becynnau ORP 3.

Buddion diriaethol - arbedion ynni, allyriadau carbon is, ac arbedion costau gofal iechyd o ganlyniadau iechyd gwell tenantiaid - a buddion anniriaethol (canlyniadau iechyd a lles gwell i denantiaid), wedi'u meintoli a phennu gwerth ariannol gan ddefnyddio (i) tystiolaeth o lenyddiaeth, (ii) canlyniadau arolwg, a (iii) data sydd ar gael yn gyhoeddus neu fel arall. Cafodd tystiolaeth ansoddol ei grynhoi hefyd i gipio effeithiau nad oedd modd eu meintoli. Ystyriwyd yr effeithiau meintiol hyn fel rhan o'r asesiad VfM ond ni chawsant eu cipio yn yr NPV, hynny yw, y gwahaniaeth rhwng gwerth presennol buddion a gwerth presennol costau, neu yn y BCR, sy'n mesurau cymhareb gwerth presennol y buddion i werth presennol y costau.

Gan ddilyn arfer safonol, dadansoddwyd costau a buddion y rhaglen dros gyfnod o 30 mlynedd, gan ddechrau yn 2022 i 2023 (Blwyddyn 1 ORP 3) ac yn dod i ben yn 2051/52 (Blwyddyn 30). Mae'r cyfnod amser hwn yn alinio â safonau CBA arferol ar gyfer gwerthusiadau seilwaith a pholisi hirdymor, gan sicrhau bod effeithiau byr dymor a hirdymor yn cael eu cipio ([Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, 2022](#)).

Mynegir costau a buddion yn y dyfodol mewn termau real, sy'n golygu bod chwyddiant wedi cael ei dynnu fel bod modd cymharu'r gwerthoedd dros amser. Yn ôl [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#), defnyddiwyd [Dadchwyddwyr GDP ar brisiau'r farchnad \(Medi 2025\)](#) i drosi'r holl werthoedd i dermau real 2022 i 2023.

Cafodd costau a buddion yn y dyfodol yn nhermau real 2022 i 2023 eu disgowntio i bennu eu gwerth presennol, gan ystyried VfM amser (h.y., y dewis o dderbyn buddion nawr yn hytrach nag yn y dyfodol). Cymhwyswyd cyfradd ddisgownt cymdeithasol o 3.5%, fel yr amlinellwyd yn [Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#).

Senario gwrthffeithiol ('busnes fel arfer')

Nodwedd bwysig ar fethodoleg CBA yw y dylai costau a buddion gael eu cymharu i senario gwrthffeithiol neu "busnes fel arall"- sefyllfa lle nad yw'r ymyrraeth yn digwydd, h.y. nid yw'r OPR 3 yn cael ei weithredu. Gan na ellir arsylwi ar realtioedd amgen, mae'r senario gwrthffeithiol yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y rhaglen. Felly gall y dewis o senario gwrthffeithiol gael effaith sylweddol ar y canlyniadau.

Cafodd dwy senario gwrthffeithiol eu diffinio:

Senario gwrthffeithiol statig: Dim ymyrraeth

Roedd y senario hwn yn cymryd yn ganiataol na fyddai mesurau ôl-osod wedi'u cyflenwi o dan ORP 3 wedi digwydd. O dan y sefyllfa hon:

- lefelau cyfredol o leithder a chysur thermol gwael yn parhau
- ni fyddai unrhyw welliannau canlyniadol o ran iechyd corfforol, lles, neu ganlyniadau amgylcheddol
- byddai ymrwymïadau sero net cenedlaethol yn parhau mewn grym, ond byddai'r gweithgarwch ôl-osod yn cael ei oedi, gyda'r potensial am ymyriadau mwy costus yn y dyfodol

Roedd y senario "gwneud dim" hwn yn gwasanaethu fel gwaelodlin ceidwadol er mwyn asesu buddion llawn ORP 3 yn ei erbyn.

Senario cyflwyno gohiriedig: Ôl-osod graddol wedi'i yrru gan bolisi

Roedd y senario gwrthffeithiol hwn yn tybio y byddai gwelliannau ôl-osod tebyg i ORP 3 yn cael eu gweithredu yn y pendraw, ond ar gyflymder arafach ac yn fwy gwasgaredig oherwydd fframweithiau polisi cyfredol, absenoldeb cyllid wedi'i neilltuo (fel sydd o dan ORP 3), a dynameg y farchnad. Roedd y senario hwn yn tybio:

- byddai gweithgaredd ôl-osod yn dechrau ym Mlwyddyn 3
- byddai dilyniant yn cael ei gyfyngu i 5% o'r tai wedi'u hôl-osod ORP 3 fesul blwyddyn (wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn 23)
- y byddai costau a buddion yn digwydd yn fwy graddol dros amser, sy'n golygu bod yr effeithiau yn cael eu lledaenu ar draws cyfnod hwy yn hytrach na'n digwydd o flaen llaw

- byddai'r buddion net cyffredinol yn cael eu gostwng oherwydd disgowntio - y broses o addasu costau a buddion yn y dyfodol i adlewyrchu eu gwerth is o'i gymharu â'r rheini a wireddir yn gynt
- byddai buddion cynnar - megis arbedion ynni - yn cael eu hoedi, gan arwain at effaith gyffredinol is

Roedd y llwybr gweithredu wedi'i oedi hwn yn adlewyrchu'r cyflymder y gallai ymrwymadau polisi cyfredol gael eu cyflenwi'n realistig heb y buddsoddiad wedi'i dargedu gan ORP 3.

Costau ORP 3

Darparodd Lywodraeth Cymru gostau ORP 3 ar gyfer is-set o Becynnau 2 a 4. Cafodd cyfartaleddau syml o gostau fesul eiddo fesul landlord eu cyfrifo, gan gynhyrchu cost gyfartalog amcangyfrifedig fesul eiddo (gwerthoedd 2022 i 2023) o £10,300 ar gyfer Pecyn 2 a £15,400 ar gyfer Pecyn 4.

Nododd data Llywodraeth Cymru bod 488 eiddo ORP 3 (wedi'u cwblhau ac ar y gweill) yn disgyn o dan Becyn 2 a 971 o dan Becyn 4.

Mae amseru'r costau yn bwysig yn CBAs. Cafodd costau ar gyfer y ddau becyn eu dyrannu ar draws y blynyddoedd yn ôl y cylch ôl-osod y cafodd y gweithgareddau eu cynnal o'i fewn: ORP 3.1 yn 2022 i 2023, ORP 3.2 yn 2023 i 2024, ac ORP 3.3 yn 2024 i 2025.

Ar gyfer Pecyn 2, roedd y gost yn £4.9 miliwn yn 2022 i 2023 a £0.1 miliwn yn 2023 i 2024 (termau real 2022 i 2023). Ar gyfer Pecyn 4, roedd y costau yn £9.2 miliwn yn 2022 i 2023, £4.8 miliwn yn 2023 i 2024, a £1 miliwn yn 2024 i 2025 (termau real 2022 i 2023).

Buddion

Roedd y buddion a ganlyn wedi'u cynnwys yn y CBA craidd: arbedion i aelwydydd o ddefnydd ynni is, allyriadau carbon is, iechyd corfforol gwell wedi'i fesur trwy QALYs, ac arbedion cost gofal iechyd sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn lleithder a chysur thermol gwell.

Arbedion ynni

Cododd arbedion ynni a gynhyrchwyd gan ORP 3 oherwydd bod mesurau ôl-osod yn gostwng faint o drydan a nwy sy'n ofynnol i wresogi a gweithredu cartref. Mae defnydd ynni is yn ostyngiad uniongyrchol yn nefnydd adnoddu sector ynni, a dyma ffynhonnell y cynnydd mewn llesiant. Yn ymarferol mae aelwydydd yn profi'r budd hwn trwy filiau ynni is.

Serch hynny, nid yw gostyngiad mewn biliau aelwydydd yn mapio un-i-un i gynnydd mewn llesiant cymdeithasol net. Y rheswm dros hyn yw bod £1 o ostyngiad ym mil yr aelwyd hefyd yn £1 yn llai o refeniw ar gyfer cyflenwyr ynni. O safbwynt economeg-llesiant, dim ond cyfran y refeniw a gollwyd sy'n cynrychioli gweddill cynhyrchwr (h.y. trethi cynhyrchiad net ac elw) y dylid ei drin fel colled llesiant. Mae'r gweddill yn adlewyrchu mewnbynnau canolradd a gafodd eu hosgoi - costau tanwydd, cynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu - sy'n adnoddau wedi'u harbed, nid lleihad mewn llesiant.

I gymhwyso'r addasiad llesiant cywir, defnyddiom y [Tablau Cyflenwi a Defnydd Mewnbwn-Allbwn](#) i nodi cyfran allbwn y sector ynni sy'n cynrychioli gweddill y cynhyrchydd. Ar gyfer "Cynhyrchu, trawsyrru, a dosbarthu pŵer trydanol," mae gweddill gweithredu gros ac incwm cymysg yn cynrychioli 16% o gyfanswm yr allbwn, tra bod trethi cynhyrchu net i gyfrif am 3% pellach. Mae hyn yn golygu bod pob £1 o arbedion bil trydan yn cyfateb i £0.19 mewn trethi net ac elw is. Ar gyfer "Cynhyrchu nwy; dosbarthu tanwydd nwy trwy brif bibellau; cyflenwad stêm ac aerdymheru," y ffigur cyfatebol yw 12% (£0.11 mewn elw a £0.01 mewn trethi net am bob £1 o arbedion nwy). Mae cymryd y cyfartaledd ar draws y ddau sector yn rhoi amcangyfrif o 15% o gyfran yr arbedion ar filiau y dylid eu tynnu i adlewyrchu trethi net ac elw a gollwyd. Yn unol â hynny, mae 85% o arbedion y bil gros yn cynrychioli llesiant cymdeithasol net cynyddol.

Ar gyfer y ddau becyn, rhoddodd xRI wybodaeth am yr arbedion ynni fesul cartref fesul blwyddyn, ar sail dadansoddiad o ddata monitro ORP 3 o ddefnydd ynni yn y cartrefi a oedd yn cymryd rhan.

Ar gyfer Pecyn 2, amcangyfrifodd xRI y byddai eiddo gyda gosodiadau PV-yn-unig yn gwrthbwysio tua £430 y flwyddyn fesul cartref (gwerthoedd 2024 i 2025), tra byddai eiddo gyda systemau PV a batri yn gwrthbwysio £650 y flwyddyn fesul cartref (gwerthoedd 2024 i 2025) ([xRI, 2025](#)). Yn ôl data Llywodraeth Cymru, cafodd 45 eiddo osodiadau PV-yn-unig, a derbyniodd 443 systemau PV a batri.

Ar gyfer Pecyn 4, amcangyfrifodd xRI y byddai eiddo'n gwrthbwysio £81 y flwyddyn fesul cartref (gwerthoedd 2024 i 2025) ^[troednodyn6]. Sylwch fod rhybudd: cyfrifwyd yr arbedion ynni drwy gymharu eiddo Pecyn 4 (gydag EWI) ag eiddo ORP 3 eraill nad ydynt ag EWI (gyda man ôl-osodiadau). Yn ddelfrydol, byddai data ynni cyn ac ar ôl ôl-osod ar gyfer holl eiddo Pecyn 4 wedi bod yn ofynnol i gael amcangyfrif cywirach. Yn ogystal, gallai defnyddio

Footnotes

[6] Gwerthuso Perfformiad Mesurau Ôl-osod a Gyflenwyd o dan Bapur Byr ORP: Methodoleg meincnodi galw gwres a data carbon a chost ynni gwaelodlin 2024 (xRI, 2026).

gwerthoedd (cymedr) cyfartalog yn hytrach na chanolrif gyflwyno rhagfarn bosibl pe bai unrhyw allanolynnau yn bodoli ym Mhecyn 4 neu setiau data gwaelodlin. Er bod yr ystyriaeth hon yn berthnasol i'r holl becynnau, efallai ei bod yn arbennig o berthnasol lle'r oedd dosbarthiad yr arbedion ynni wedi'i sgiwio.

Defnyddiwyd y wybodaeth ar arbedion ynni blynyddol fesul cartref, ynghyd â'r rhagdybiaeth bod 85% o'r arbedion bil gros yn cynrychioli llesiant cymdeithasol net, i amcangyfrif cyfanswm yr arbedion ynni blynyddol wedi'u haddasu i lesiant a gronwyd yn ôl eiddo wedi'u hôl-osod.

Roedd hefyd angen rhagdybiaeth ynglŷn â sut y mae buddion yn esblygu dros amser. Cafodd gwahanol ragdybiaethau eu cymhwyso ar gyfer y 2 becyn, gan adlewyrchu natur y mesurau a osodwyd. Ar gyfer Pecyn 2, sy'n cynnwys paneli PV a batris, cafodd ffactor dibrisiant ei gymhwyso i gyfrif am y dirywiad graddol ym mherfformiad technoleg. Wedi'i seilio ar [Eleftheriadis, G., & Hamdy, M. \(2018\)](#), gallai adeiladau un teulu brofi diraddiad perfformiad o 0.9% i 2.4% y flwyddyn. Mabwysiadwyd terfyn isaf yr ystod hon (0.9%) fel rhagdybiaeth resymol ar gyfer gosodiadau PV yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. O dan y rhagdybiaeth hon, mae cartrefi yn profi arbedion llawn yn union ar ôl cwblhau gwaith ôl-osod, ac yna gostyngiad graddol mewn arbedion ynni bob blwyddyn.

Ar gyfer Pecyn 4, sy'n cynnwys ymyriadau ffabrig yn gyntaf (EWI) yn bennaf, ni thybiwyd unrhyw ddibrisiad mewn perfformiad. Mae hyn yn gyson ag adborth gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru bod gwelliannau ffabrig wedi'i osod yn gywir yn rhan annatod o'r adeilad ac y dylent gynnal perfformiad dros amser heb unrhyw ddirywiad ystyrlon. Bwriad y tybiaethau gwahaniaethol hyn yw adlewyrchu oesau bywyd technoleg realistig wrth barhau'n ofalus ac ar sail tystiolaeth.

Allyriadau carbon is

Ar gyfer y ddau becyn, darparodd xRI wybodaeth am ostyngiadau carbon fesul cartref fesul blwyddyn. Ar gyfer Pecyn 2, amcangyfrifodd xRI y bydd eiddo gyda gosodiadau PV-yn-unig yn lleihau tua 190 kg CO₂ y cartref y flwyddyn, tra bod eiddo gyda systemau PV a batri yn lleihau tua 293 kg CO₂ y cartref y flwyddyn ([xRI, 2025](#)). Ar gyfer Pecyn 4, amcangyfrifodd xRI fod eiddo yn lleihau 234 kg CO₂ fesul cartref y flwyddyn [troednodyn⁷]. Cafodd hyn ei

Footnotes

[7] Gwerthuso Perfformiad Mesurau Ôl-osod a Gyflenwyd o dan Bapur Byr ORP: Methodoleg meincnodi galw gwres a data carbon a chost ynni gwaelodlin 2024 (xRI, 2026).

gyfrifo gan ddefnyddio senario gwaelodlin gan gymharu eiddo Pecyn 4 (EWI) gydag eiddo ORP 3 heb fod yn EWI (gyda mân waith ôl-osod).

Defnyddiwyd y wybodaeth ar ostyngiadau allyriadau fesul cartref y flwyddyn i amcangyfrif cyfanswm yr arbedion carbon blynyddol a gynhyrchwyd gan y gwaith ôl-osod.

Mae'r rhagdybiaethau ar wydnwch y buddion hyn yn adlewyrchu'r rheini a gymhwyswyd ar gyfer arbedion ynni. Ar gyfer Pecyn 2, caiff diraddiad perfformiad blynyddol o 0.9% ei gymhwyso i adlewyrchu'r dirywiad disgwylidig yn allbwn system PV. Ar gyfer Pecyn 4, ni thybir unrhyw ddiraddiad, gan fod gwelliannau ffabrig wedi'u hintegreiddio i strwythur yr adeilad. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod arbedion carbon yn cyd-fynd ag ystod oes ymyrraeth a ddisgwylir ac mae'n parhau ar sail tystiolaeth ond eto'n geidwadol.

Pennwyd gwerth ariannol ar ostyngiadau allyriadau carbon (mewn kg CO₂) gan ddefnyddio'r atodlen gwerthuso carbon diweddaraf gan [Department for Energy Security and Net Zero \(2024\)](#), sy'n darparu amcangyfrifon canolog, isel, ac uchel o gost gymdeithasol carbon. Yn unol ag [canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#) a [ei ganllawiau ategol ar brisiad nwyon tŷ gwydr](#), cymhwyswyd y senario canolog ar gyfer gwerthoedd carbon a'i addasu yn ôl blwyddyn brisio. Er mwyn rhoi cyd-destun, rhoddwyd gwerth ar leihad o 1 tunnell o CO₂ yn 2022 (mewn gwerthoedd 2020) ar £248 ([DESNZ, 2021](#)), gyda'r gwerth hwn yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod i adlewyrchu costau difrod hinsawdd cynyddol.

Effaith ar iechyd (QALYs)

I amcangyfrif enillion blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) sy'n deillio o ôl-osodiadau ORP 3, defnyddiwyd data iechyd corfforol hunangofnodedig gan denantiaid yn ymateb i arolwg ORP 3. Gofynnwyd i'r ymatebwyr "Sut byddech chi'n disgrifio eich iechyd corfforol cyffredinol cyn y gwaith yn eich cartref? / Gan ddefnyddio'r un raddfa, pa mor iach ydych chi'n gorfforol ar ôl i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?" gyda dewisiadau ymateb ar raddfa drefnol 5-pwynt: Gwael iawn; gwael; teg; da; da iawn; Dw i ddim yn gwybod; Mae'n well gen i beidio â dweud.

Cafodd cwestiwn yn gofyn i denantiaid pa ôl-osodiadau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt hefyd ei gynnwys, gan ganiatáu i effeithiau iechyd gael eu hamcangyfrif ar gyfer Pecyn 2, Pecyn 4, ac yn gyffredinol.

Cwblhaodd 274 o denantiaid yr arolwg i gyd. Gan ddefnyddio'r cwestiwn ymwybyddiaeth ôl-osod, cafodd yr ymatebwyr eu grwpio yn becynnau wedyn. Ar gyfer Pecyn 2, cafodd 89 o bobl eu dosbarthu yn byw mewn cartrefi a oedd wedi derbyn y mesurau hyn; darparodd 86 ohonynt ymatebion iechyd cyn ac ar ôl y gwaith ôl-osod.

Diffiniwyd “gwelliant” mewn iechyd corfforol fel newid cadarnhaol mewn o leiaf un categori ar raddfa iechyd hunan-sgorio 5-pwynt rhwng yr ymatebion cyn ac ar ôl gwaith ôl-osod (er enghraifft, o “teg” i “da”). Mae “dim newid” yn cyfeirio at ymatebion cyn ac ar ôl y gwaith ôl-osod hynod debyg, tra bod “dirywiad” yn adlewyrchu dirywiad un neu'n fwy o gategoriâu. Mae'r dull hwn yn cipio newid cyfeiriadol mewn iechyd corfforol canfyddedig wrth osgoi rhagdybiaethau am faint y newid rhwng categorïau.

Ymhlith 86 o ymatebwyr Pecyn 2, adroddodd 9 am welliant mewn iechyd corfforol, adroddodd 71 am ddim newid, ac adroddodd 6 am ddirywiad. Ar gyfer Pecyn 4, cafodd 20 o ymatebwyr eu dosbarthu i'r grŵp hwn, a darparodd 19 ymatebion cyflawn cyn ac ar ôl gwaith ôl-osod; adroddodd 4 ar welliant, 15 am ddim newid, ac ni adroddodd unrhyw un ddirywiad. Yr oedd y gwelliant cyfartalog a adroddwyd gan y rhai a welodd eu hiechyd yn gwella yn fwy na'r dirywiad cyfartalog ymysg y rhai a adroddodd am ddirywiad, er bod y meintiau sampl - yn enwedig ar gyfer Pecyn 4 - yn fach ac mae'n rhaid ei ddehongli'n ofalus.

Er mwyn galluogi dadansoddiad meintiol o newidiadau yn statws iechyd, cafodd yr ymatebion eu codio yn gyntaf ar raddfa rifol o 1 (Gwael iawn) i 5 (Da iawn). Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer asesiad syml o newid cyfeiriadol (h.y., gwelliant neu ddirywiad) ar lefel unigol. Mae ymatebion yr arolwg yn cynrychioli graddfa drefnol – sy'n golygu bod gan y categorïau drefn glir (e.e., mae “da” yn well na “teg”), ond nid yw maint y gwahaniaeth rhwng y categorïau yn hysbys. Ni ellir defnyddio graddfeydd trefnol yn uniongyrchol mewn prisiad economaidd. Fodd bynnag, i amcangyfrif QALYs, sy'n gofyn am sgoriau ansawdd bywyd perthnasol i iechyd ar raddfa brifol o 0-1, trosglwyddwyd y sgoriau trefnol hyn yn werthoedd defnyddiol. Mae graddfa brifol yn cynnig gwahaniaethau rhifol ystyrlon rhwng gwerthoedd – er enghraifft, mae symudiad o 0.6 i 0.7 yn cynrychioli cynnydd manwl yn ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae QALYs yn dibynnu ar "werthoedd defnyddiol" prifol o'r fath, sy'n cipio pa mor dda neu ddrwg yw cyflwr iechyd yn gymharol i iechyd perffaith (1) a marwolaeth (0). Felly, mae trosi ymatebion arolygon trefnol i werthoedd defnyddiol prifol yn caniatáu i newidiadau iechyd gael eu mynegi mewn termau QALY, gan eu gwneud yn addas ar gyfer gwerthusiad economaidd.

Dull mapio sy'n seiliedig ar EQ-5D-5L

I seilio amcangyfrifon ar lenyddiaeth economeg iechyd a gyhoeddwyd, defnyddiwyd dull mapio sy'n seiliedig ar EQ-5D-5L. Mae EQ-5D yn offeryn safonedig a ddatblygwyd gan y [Grŵp EuroQol](#) i fesur ansawdd bywyd yn gysylltiedig ag iechyd ar draws 5 dimensiwn (symudedd, hunan-ofal, gweithgareddau arferol, poen/anghysur, a gorbryder/iselder), pob

un gyda 3 lefel o ddifrifoldeb. Mae'r sgôr mynegai canlyniadol yn adlewyrchu iechyd cyffredinol unigolyn ar raddfa 0 (i gynrychioli marwolaeth) i 1 (iechyd perffaith) ^[troednodyn8].

Er na chasglodd arolwg ORP 3 broffiliau EQ-5D penodol i ddimensiwn llawn, cynlluniwyd y cwestiwn iechyd corfforol hunan-sgorio i gipio statws iechyd gweithredol cyffredinol mewn ffordd sy'n gydnaws yn gysyniadol â mesur defnyddioldeb EQ-5D. Mae astudiaethau poblogaeth wedi dangos cysylltiadau cryf rhwng iechyd hunan-sgorio cyffredinol a sgorau mynegai EQ-5D, gan gefnogi defnyddio iechyd wedi'i hunan-asesu fel dirprwy ar gyfer ansawdd bywyd sy'n ymwneud ag iechyd mewn gwerthusiad economaidd lle nad yw offerynnau llawn ar gael ([Kind et al., 1999](#); [Burström et al., 2001](#)).

Canfu ymchwil gan [Dolan \(1997\)](#), a ddatblygodd y set gwerthoedd DU gwreiddiol ar gyfer EQ-5D, fod cyflyrau iechyd cymedrol (h.y., y rhai sydd â "rhywfaint o broblemau" mewn un neu'n fwy o ddimensiynau EQ-5D) fel arfer yn cynhyrchu sgoriau defnyddioldeb cyfartalog o tua 0.6–0.7. Yn seiliedig ar hyn, roedd iechyd a hunan-sgoriwyd yn "Deg" yn cyfateb i sgôr defnyddioldeb o ~0.65, "Gwael" gyda ~0.50, a "Gwael iawn" gyda ~0.30. Ar y llaw arall, cafodd "Da" a "Da iawn" eu mapio i ~0.75 a 0.90, yn y drefn honno, yn gyson â normau'r boblogaeth yn gyffredinol a adroddwyd yn y llenyddiaeth. [Kind et al. \(1999\)](#) adroddodd bod mynegai EQ-5D cyfartalog ar gyfer poblogaeth oedolion cyffredinol y DU yn gorwedd rhwng 0.85 a 0.90, sy'n cyd-fynd â neilltuo 0.90 ar gyfer iechyd "Da iawn". Mae dadansoddiad mwy diweddar gan [Alava et al. \(2022\)](#) ar gyfer Uned Cefnogi Penderfyniadau NICE yn darparu amcangyfrifon EQ-5D-3L wedi'u diweddarau yn ôl oed a rhywedd, gan ddangos bod cyfartaleddau defnyddioldeb yn gostwng o 0.93 yn 30 oed i tua 0.68–0.75 yn 90 oed, sy'n cefnogi defnyddio 0.65–0.75 fel sgoriau defnyddioldeb rhesymol ar gyfer categori "Teg" a "Da". Ymhellach, darparodd [Szende et al. \(2014\)](#) dystiolaeth ar draws gwledydd bod arferion poblogaeth terfyn uchaf fel arfer rhwng 0.87 a 0.92, yn unol â'r aseiniad defnyddioldeb uchaf.

Tabl 11: Gwerthoedd iechyd i ddefnyddioldeb wedi'u hunan-sgorio (EQ-5D-5L)

Disgrifiad	Tua lefel EQ-5D-5L	Defnyddioldeb (EQ-5D-5L)
------------	--------------------	--------------------------

Footnotes

[8] Gall gwerthoedd EQ-5D, mewn egwyddor, gynnwys gwerthoedd defnyddioldeb negyddol (sgoriau < 0) i gynrychioli cyflyrau iechyd a ystyriwyd yn "waeth na marwolaeth." Fodd bynnag, nid yw'r cysyniad hwn yn berthnasol i gyd-destun gwaith ôl-osod, sydd yn ymwneud â gwella ansawdd a chysur tai yn raddol yn hytrach nag am gyflyrau iechyd difrifol neu sy'n bygwth bywyd. Felly, eithriwyd gwerthoedd negyddol o'r dadansoddiad. Mae hyn yn cyd-fynd â chynllun yr arolwg, lle graddiodd ymatebwyr eu hiechyd corfforol rhwng "gwael iawn" a "da iawn," heb gynnwys cyflyrau sy'n gysyniadol islaw sero.

Gwael iawn	Lefel 5 (problemau eithafol)	0.30
Gwael	Lefel 4 (problemau difrifol)	0.50
Teg	Lefel 3 (problemau cymedrol)	0.65
Da	Lefel 2 (mân broblemau)	0.78
Da iawn	Lefel 1 (dim problemau)	0.90

Amcangyfrif enillion QALY

Cyfrifwyd newidiadau defnyddioldeb lefel unigol (ar ôl-tynnu-cyn) a'u cyfartalu i amcangyfrif y cynnydd defnyddioldeb blynyddol cymedrig fesul person. Ar gyfer Pecyn 2, cynyddodd ddefnyddioldeb cymedrig o 0.66 i 0.68 (cynnydd o 0.02). Ar gyfer Pecyn 4, cynyddodd defnyddioldeb cymedrig o 0.67 i 0.72 (cynnydd o 0.05). I amcangyfrif cyfanswm enillion QALY fesul cyfranogwr, tybiwyd y byddai'r gwelliannau iechyd a arsylwyd yn parhau dros gyfnod penodol. Gan ystyried y cyd-destun ôl-osod ac ansicrwydd dros effeithiau cynaliadwy hirdymor y gwelliannau tai, mabwysiadwyd gorwel o 5 mlynedd fel achos sylfaen ceidwadol. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd gan ddefnyddio cyfnodau hwy (e.e., 10 a 20 mlynedd) i brofi cadernid y canlyniadau.

O dan y dybiaeth achos sylfaen 5 mlynedd, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm enillion iechyd fesul person o 0.10 QALY ar gyfer Pecyn 2 a 0.25 QALY ar gyfer Pecyn 4, sydd yn gyffredinol yn unol ag amcangyfrifon a adroddir yn y llenyddiaeth tai ac iechyd. Archwiliodd [Milner et al. \(2015\)](#) effaith iechyd adnewyddu tai a oedd yn anelu at wella ansawdd aer mewnol. Gan ddefnyddio data o Gymru a Lloegr, canfu awduron y byddai ymyriadau effeithlonrwydd ynni cartref sy'n lleihau'r datguddiad i lygredd aer yn cael effaith gadarnhaol ar farwolaeth a morbidrwydd o asthma, clefyd y galon coronaidd, a chanser yr ysgyfaint. Byddai'r ymyriadau hyn yn arwain at gynnydd mewn QALYs o 0.24 y pen dros 90 mlynedd. Yn yr un modd, archwiliodd astudiaeth arall effeithiau iechyd ymyriadau effeithlonrwydd ynni cartref yn Lloegr, megis ôl-osodiad i ffabrig ac awyru i fodloni rheoliadau adeiladu ([Hamilton et al., 2015](#)). Darganfu'r awduron y byddai'r gwaith ôl-osod i wella'r effeithlonrwydd ynni hyn yn arwain at gynnydd cyfartalog o 0.22 QALY fesul person dros 50 oed oherwydd ansawdd aer a thymheredd gwell dan do.

Mae'n bwysig nodi bod iechyd hunangofnodedig gwaelodlin ymhlith ymatebwyr ORP 3 yn debygol o fod yn is na chyfartaledd y boblogaeth gyffredinol, ac o bosibl yn is na'r boblogaeth tai cymdeithasol ehangach. Mae hyn yn adlewyrchu targedu ymyriadau ôl-osod

tuag at aelwydydd sy'n profi amodau tai gwaeth a lefelau angen uwch. Mae iechyd gwaelodlin is yn awgrymu mwy o gyfle ar gyfer gwelliant ymylol ac mae hynny'n cyd-fynd ag amcanion y rhaglen. Felly, mae amcangyfrifon QALY yn adlewyrchu newidiadau o fewn yr unigolion sy'n berthynol â gwaelodlin pob unigolyn yn ei hun, yn hytrach na chymariaethau â normau poblogaeth allanol, gan helpu i leihau rhagfarn sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau iechyd gwaelodlin.

Mae'r dull hwn yn caniatáu prisio buddion iechyd mewn termau economaidd, gan gynnig pont rhwng gwerthusiad iechyd cyhoeddus a lles goddrychol. Er bod iechyd hunan-sgorio yn ddirprwy bras ar gyfer statws iechyd aml-ddimensiynol, fe'i defnyddir yn helaeth mewn epidemioleg gymdeithasol ac mae wedi'i ddilysu fel rhagfynegydd i forbidrwydd, marwolaeth, a defnydd gwasanaethau iechyd ([DeSalvo et al., 2006](#); [Idler & Benyamini, 1997](#)).

Model mapio ar groes o EQ-5D-5L i EQ-5D-3L (Dadansoddiad sensitifrwydd)

Er bod fframwaith EQ-5D-5L yn cynnig sensitifrwydd gwell ac yn lleihau effeithiau nenfwd o'i gymharu â'r fersiwn gwreiddiol 3-lefel, mae llawer o sail dystiolaeth y DU – gan gynnwys y set gwerth [Dolan \(1997\)](#) a ddefnyddiwyd yn yr achos cyfeirio NICE – yn parhau i fod wedi'i glymu i ddefnyddioldeb EQ-5D-3L. Er mwyn sicrhau cymariaeth â'r fframwaith prisio sefydledig hwn, rydym yn defnyddio model mapio ar groes i drosi'r ymatebion iechyd hunan-sgorio 5-lefel i'r strwythur 3-lefel. Mae'r dull hwn yn dilyn y mapio a ddatblygwyd gan [van Hout et al. \(2012\)](#), sy'n darparu dull wedi'i ddilysu'n empirig ar gyfer trosi data disgrifiadol EQ-5D-5L i werthoedd mynegai EQ-5D-3L. Cafodd y mapio ei adeiladu gan ddefnyddio setiau data lle cwblhaodd y cyfranogwyr y fersiynau 3L a 5L, gan ganiatáu i'r Grŵp EuroQol amcangyfrif cysylltiadau ystadegol rhwng y 2 system. Cefnogwyd model mapio ar groes Van Hout yn ddiweddarach gan y set gwerth hybrid ar gyfer Lloegr a ddatblygwyd gan [Devlin et al. \(2018\)](#), sy'n mireinio'r mapio hyn trwy gyfuniad o ddata dewis arwahanol a masnachu amser.

Yn y bôn, mae'r model mapio ar groes yn cyd-fynd â 5 lefel difrifoldeb EQ-5D-5L gyda'r categorïau 3-lefel ehangach o'r offeryn gwreiddiol EQ-5D-3L. Mae lefelau cyntaf ac ail y system 5L ("dim problemau" a "mân broblemau") yn cael eu hystyried yn gyfystyr â "dim problemau" yn y fersiwn 3L, mae'r lefel ganol ("problemau cymedrol") yn cyfateb i "rywfaint o broblemau," ac mae'r 2 lefel uchaf ("difrifol" ac "eithafol/analluog") yn cyfateb i "broblemau eithafol." Mae'r cwmp hwn yn adlewyrchu strwythur cysyniadol y fframwaith 3L a'r calibrad empirig a arsylwyd yn [van Hout et al. \(2012\)](#), lle cafodd gwerthoedd defnyddioldeb 5L cyfartalog o fewn pob grŵp eu meincnodi â thariif 3L y DU a ddatblygwyd gan [Dolan \(1997\)](#).

Oherwydd bod y dadansoddiad yn dibynnu ar iechyd cyffredinol wedi'i hunan-sgorio yn hytrach nag ar broffiliau EQ-5D penodol i ddimensiwn, caiff y rhesymeg hon ei chymhwyso ar lefel gyfanredol. Mae'r 5 categori hunangofnodedig – “Gwael iawn,” “Gwael,” “Teg,” “Da,” a “Da iawn” – yn cael eu dehongli yn gyfatebol i'r 5L lefel disgrifiadol ac yna'n cael eu mapio i'r system 3L yn unol â hynny. Felly, ystyrir iechyd “Da iawn” yn adlewyrchu cyflwr heb unrhyw broblemau wedi'u hadrodd ac yn cael eu neilltuo â defnyddioldeb 3L bras o 0.90, yn gyson â normau poblogaeth y DU ar gyfer iechyd llawn ([Dolan, 1997](#); [Kind et al., 1999](#)). Mae iechyd “Da” a “Theg” wedi'u mapio i gategori 3L “ychydig o broblemau”, gyda defnyddioldeb cyfartalog o tua 0.72, sy'n cyfateb i gyflwr iechyd cymedrol yn y model mapio ar groes. Mae iechyd “Gwael” a “Gwael iawn” wedi eu grwpio yn lefel “problemau difrifol” 3L, gyda defnyddioldeb cyfartalog o tua 0.40, sy'n gyson â chyfartaledd cyflwr difrifol yn setiau gwerth van Hout a Devlin. Mae'r defnyddioldeb bras hwn yn cadw'r gwahaniaethau cymharol a welwyd ar draws y raddfa 5-pwynt tra'n eu lleoli o fewn y fframwaith prisiad 3L sefydledig.

Tabl 12: Model mapio ar groes o EQ-5D-5L i EQ-5D-3L

Categori EQ-5D-5L	Categori 3L	Defnyddioldeb (Ar sail EQ-5D)
Gwael iawn/Gwael	Problemau eithafol	0.40
Teg/Da	Rhai problemau	0.72
Da iawn	Dim problemau	0.90

Mae'r trosiad hwn yn galluogi profi sensitifrwydd amcangyfrifon QALY a ddaw o'r dull sylfaenol ar sail 5L yn erbyn strwythur gwerth cydnaws â 3L. Mae defnyddio'r ddau set o werthoedd yn caniatáu ar gyfer asesiad a yw dewis y system brisio yn effeithio'n sylweddol ar fuddion iechyd a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ôl-osod ORP 3.

Ar gyfer Pecyn 2, o dan y diffiniad hwn, cynyddodd ddefnyddioldeb cymedrig o 0.65 i 0.66 (cynnydd o 0.01). Ar gyfer Pecyn 4, cynyddodd ddefnyddioldeb cymedrig o 0.64 i 0.69 (cynnydd o 0.05).

Tybiaethau meddiannaeth

Er mwyn amcangyfrif cyfanswm buddion iechyd pob tenant sy'n byw mewn cartrefi wedi'u hôl-osod o dan Becynnau 2 a 4, roedd yn bwysig amcangyfrif nifer y preswylwyr yr

effeithiwyd arnynt. Gan nad yw'r setiau data sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth am faint yr aelwyd, defnyddiwyd data o [Gyfrifiad 2021](#) i gyfrifo'r nifer gyfartalog o bobl sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol yng Nghymru.

Gan ddefnyddio'r tabl Cyfrifiad ar ddaliadaeth aelwyd yn ôl maint yr aelwyd, cyfrifwyd cyfanswm nifer yr unigolion sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol (tua 488,000) ^[troednodyn9] a'u rhannu â chyfanswm nifer y cartrefi rhent cymdeithasol (tua 222,000). Cynhyrchodd hyn faint aelwyd cyfartalog amcangyfrifedig o 2.20 o bobl fesul tŷ.

Cymhwyswyd yr un rhagdybiaeth meddiannaeth hwn hefyd wrth amcangyfrif buddion lles, gan sicrhau cysondeb ar draws y dadansoddiad.

Pennu gwerth ariannol ar effeithiau iechyd

Yna pennwyd gwerth ariannol ar effeithiau iechyd gan ddefnyddio amcangyfrifon QALYs a gyhoeddwyd. Yn ôl [Canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF \(2022\)](#), gellir pennu gwerth ariannol ar QALYs trwy gymhwyso gwerth o £70,000 (mewn prisiau 2020 i 2021) am bob QALY a enillir. Er enghraifft, os yw ymyrraeth yn cynhyrchu 0.4 QALY (sy'n gyfwerth â 40% o'r flwyddyn mewn iechyd perffaith), byddai budd ariannol ymyrraeth yn £28,000 ym mhrisiau 2020 ([Alma Economics, 2024](#)).

Mae gwahanol werthusiadau effaith iechyd yn bodoli; serch hynny, yn y dadansoddiad hwn, cadwyd at ddull y Llyfr Gwyrdd, gan mai dyma'r un mwyaf priodol ar gyfer yr ymarfer hwn o'i gymharu â phrisiau effaith iechyd eraill. Yn ôl [Mullin \(2022\)](#), mae ffigur £70,000 fesul QALY yn y Llyfr Gwyrdd yn seiliedig ar ymchwil academiaidd ar y parodrwydd cyffredinol i dalu am leihau risg neu atal anafiadau, megis astudiaethau gan [Carthy et al. \(1998\)](#). Mae'r Llyfr Gwyrdd yn cymhwyso'r trothwy hwn yng nghyd-destunau iechyd cyhoeddus neu atal anafiadau, gan fod y ffocws ar leihau niwed cymdeithasol cyffredinol, yn hytrach na thargedu dim ond yr ymyriadau mwyaf cost-effeithiol ^[troednodyn10].

Arbedion cost gofal iechyd o ganlyniadau iechyd gwell

Gall canlyniadau iechyd gwell o ymyriadau ôl-osod leihau pwysau ar y GIG trwy osgoi costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chyflyrau tai gwael. I amcangyfrif yr arbedion hyn, cafodd canfyddiadau effaith ar iechyd eu cyfuno gyda data cost uned yn deillio o [Nicol et al. \(2019\)](#).

Footnotes

[9] Mae'r categorïau Cyfrifiad yn adrodd ar feintiau aelwydydd o un person hyd at "6 neu'n fwy." Ar gyfer y categori uchaf hwn, fe wnaethom dybio maint aelwyd o 6 o bobl yn geidwadol.

[10] Mewn cyferbyniad, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn gosod ystod trothwy is o £20,000 i £30,000 fesul QALY ar gyfer cymeradwyo meddyginiaethau, gan ei fod yn anelu at reoli gwariant GIG yn fwy effeithiol.

Yn ôl [Nicol et al. \(2019\)](#), mae tai o ansawdd gwael yn cynhyrchu tua £95 miliwn y flwyddyn mewn costau triniaeth GIG. Mae oerfel gormodol i gyfrif am tua £41 miliwn bob blwyddyn, tra bod lleithder a llwydni yn cyfrannu tua £3 miliwn. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyfateb i oddeutu 56,500 annedd gyda pheryglon oerfel gormodol categori 1 ac oddeutu 10,000 annedd gyda pheryglon lleithder a llwydni categori 1.

Yn y gwerthusiad hwn, cyfrifwyd tebygolrwydd lefel yr aelwyd o beryglon tai gwael – yn benodol lleithder a chysur thermol – cyn ac ar ôl yr ôl-osod. Gofynnwyd i ymatebwyr:

- “cyn y gwaith... faint o leithder neu lleithedd yr oeddech chi'n ei weld yn eich cartref?” (graddfa o “Dim o gwbl” i “Lefel uchel iawn”)
- “ers y gwaith... faint mae lleithder neu lleithedd wedi lleihau?”

Defnyddiwyd cwestiwn tebyg ar gyfer cysur thermol.

Am bob perygl, cyfrifwyd cyfran yr aelwydydd a brofodd ostyngiad ystyrion ar ôl y gwaith ôl-osod. Amcangyfrifon cost uned GIG gan [Nicol et al. \(2019\)](#) yna cafodd eu cymhwyso i gyfrifo cyfanswm yr arbedion. Er enghraifft, adroddodd [Nicol et al. \(2019\)](#) bod 10,000 o gartrefi gyda lleithder difrifol yn cynhyrchu £3 miliwn mewn costau blynyddol i'r GIG – sy'n cyfateb i tua £300 fesul cartref wedi'i affeithio bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r meincnod hwn, amcangyfrifwyd bod arbedion GIG sy'n ymwneud â lleithder yn gymesur â'r gostyngiad mewn lleithder a adroddwyd yn y sampl.

Ar gyfer cysur thermol, cymhwyswyd y gost i'r GIG sy'n gysylltiedig ag oerfel gormodol. Amcangyfrifa [Nicol et al. \(2019\)](#) hyn ar £730 fesul cartref wedi'u haffeithio'r flwyddyn.

Felly, cyfrifwyd arbedion blynyddol ar gyfer pob perygl fel a ganlyn:

Arbediad blynyddol = (Nifer y cartrefi gyda llai o berygl × Cost uned GIG fesul cartref)
gyda chostau uned o £300 ar gyfer lleithder a £730 ar gyfer cysur thermol.

Ar gyfer Pecyn 2, dangosodd canlyniadau arolwg ORP 3 fod 19% o gyfranogwyr wedi adrodd am well cysur thermol, ac 83% o'r rhai a brofodd leithder o'r blaen yn nodi ei fod wedi lleihau gan lefel finimal o leiaf ar ôl yr ôl-osod.

Ar gyfer Pecyn 4, adroddodd 32% o ymatebwyr am welliant yn y cysur thermol, tra bod 79% o'r rhai a brofodd leithder o'r blaen wedi adrodd am leihad minimal o leiaf ar ôl y gwaith.

Mae cyfuno ar draws y ddau berygl yn rhoi cyfanswm yr arbedion blynyddol i'r GIG. Gan dybio bod gwelliannau'n parhau am 5 mlynedd – yn unol â gorwel amser QALY – cyfrifwyd arbedion gofal iechyd crynodedig fel:

Cyfanswm arbedion = Arbediad blynyddol × 5 mlynedd

Un cyfyngiad yw bod [Nicol et al. \(2019\)](#) wedi amcangyfrif arbedion o liniaru ar peryglon yn llwyr, tra bod canlyniadau'r arolwg yn mesur lleihad mewn lefelau perygl. Gallai hyn arwain at rywfaint o oramcan.

Serch hynny, mae'r dull hwn yn cynnig dull tryloyw o bennu gwerth ariannol ar fuddion i wasanaethau iechyd sydd i'w priodoli i leihau peryglon sy'n gysylltiedig â gwaith ôl-osod, gan ddefnyddio tystiolaeth benodol i'r DU empirig. Er bod rhywfaint o ansicrwydd yn parhau – yn enwedig o ran hyd a sefydlogrwydd y gwelliannau – mae'n cynnig amcangyfrif cadarn o liniaru ar gostau'r GIG wedi'i alluogi gan amodau cartref gwell.

Lles cynyddol (WELLBYs)

Gallai tenantiaid brofi gwelliannau mewn lles oherwydd llai o straen, cysur wedi'i wella, a gwell diogelwch ynni sy'n deillio o ymyriadau ôl-osod. I fesur hyn, defnyddiwyd y mesur Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Lles (WELLBYs), sy'n meintoli newidiadau mewn lles goddrychol (e.e., boddhad â bywyd a hapusrwydd).

Er mwyn gwerthuso effaith ymyrraeth ar les goddrychol cyfranogwyr, defnyddiwyd 4 cwestiwn lles craidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y cyfeirir ato'n gyffredin fel ONS-4. Mae'r cwestiynau hyn yn cipio asesiadau hunangofnodedig o foddhad â bywyd, ymdeimlad o deimlo'n werthfawr, hapusrwydd, a gorbryder, pob un wedi'i fesur ar raddfa o 0 i 10 ([ONS, 2025](#)). Mae'r eitem gorbryder wedi'i chodio'n wrthdro fel bod gorbryder is yn cyd-fynd â lles uwch. Trwy gyfuno ymatebion ar draws y 4 maes hwn, lluniwyd sgôr lles cyfansawdd yn adlewyrchu lles goddrychol cyffredinol.

Er mwyn amcangyfrif newidiadau lles i'w priodoli i'r ymyrraeth, cyfyngwyd ar y dadansoddi i ymatebwyr a roddodd ymatebion cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Ar gyfer Pecyn 2, cynyddodd y sgôr lles ONS-4 cyfansawdd cyfartalog o 6.54 cyn yr ymyrraeth i 7.05 ar ôl ymyrraeth, gan gynrychioli gwelliant o 0.52 pwynt. Ar gyfer Pecyn 4, cynyddodd y sgôr cyfartalog o 5.33 to 6.58, gan gyfateb i welliant mwy o 1.26 pwynt, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd gwaelodol anghrwn (dangosir ffigurau crwn er mwyn cyflwyno).

Mae'r rhesymeg dros drosi ymatebion ONS-4 yn WELLBYs yn gorwedd yn yr angen i fynegi effeithiau lles mewn uned gyson a mesuradwy y gellir eu cymharu ar draws rhaglenni a meysydd polisi. Mae WELLBY yn cynrychioli un pwynt o foddhad â bywyd wedi'i gynnal gan un person am flwyddyn – neu, yn gyfatebol, cynnydd o un uned ar raddfa les 0–10 wedi'i gynnal dros flwyddyn (lle mae 10 yn dangos y lles uchaf posibl a 0 yr isaf) ([Canllawiau ategol y Llyfr Gwyrdd: lles](#)). Mae'r dull hwn yn galluogi crynhoi newidiadau lles yn ystyrllon

dros amser ac ar draws budd-ddeiliaid, gan gefnogi cymariaeth â buddsoddiadau cyhoeddus eraill.

Roedd y broses yn cynnwys cyfrifo sgoriau ONS-4 unigol yn gyntaf trwy greu cyfartaledd o ymatebion pob cyfranogwr i'r 4 cwestiwn lles (gyda gorbryder yn cael ei godio'n wrthdro). Rhoddodd y newid yn y sgoriau cyfansawdd hyn rhwng cyn ac ar ôl ymdriniaeth amcangyfrif o'r effaith ar les goddrychol.

I drosi'r newid hwn yn WELLBYs a enillwyd, cafodd y gwahaniaeth mewn sgoriau lles cyfartalog eu llusoi â'r hyd tybiedig y mae'r gwelliant mewn lles yn para. Er enghraifft, os bydd ymyriad yn cynyddu lles cyfartalog gan 1 pwynt ar y raddfa 0–10 ac y disgwylir i'r effaith bara am 5 mlynedd, cyfanswm yr enillion WELLBY fyddai 5. Mae'r dull hwn yn tybio bod lefelau lles yn aros yn gyson dros y cyfnod dan ystyriaeth a bod newidiadau mewn lles yn cyfateb yn llinol i newidiadau mewn ansawdd bywyd.

Yn ôl y Llyfr Gwyrdd, "gellir troi amcangyfrif cadarn o newid mewn boddhad â bywyd yn werth ariannol trwy luosi â £13,000" (mewn prisiau 2019). Mae'r canllawiau hefyd yn dangos y dull gydag enghraifft wedi'i datblygu: "Enghraifft: ... gwelliant mewn lles o 0.2 pwynt ... Yr amcangyfrif ariannol ... ym mhrisiau 2019: prisiad lles = $0.2 \times £13,000 = £2,600$ y flwyddyn." Pennwyd gwerth ariannol i enillion WELLBY a gynhyrchwyd gan y gwaith ôl-osod trwy luosi'r newid cyfartalog mewn boddhad â bywyd (0–10) y pen y flwyddyn gan £13,000 (prisiau 2019) ^[troednodyn11].

Trwy drosi data ONS-4 yn WELLBYs, mae'r dadansoddiad yn cipio buddion ehangach nad ydynt yn ymwneud ag iechyd o ymyriadau, gan ategu at fesuriadau defnyddioldeb iechyd fel QALYs. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth gliriach i lunwyr polisïau o werth cymdeithasol llawn ymyriadau ôl-osod.

Mae'n bwysig nodi y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng QALYs a WELLBYs, gan fod lles meddyliol ac iechyd corfforol yn agos gysylltiedig ac yn gallu dylanwadu ar ei gilydd. Oherwydd y gorgyffwrdd hwn, mae cynnwys y ddau fesur yn llawn mewn CBA yn peryglu cyfrif buddion ddwywaith. O ganlyniad, mae ymchwil CBA fel arfer yn defnyddio naill ai QALYs neu WELLBYs, ond nid y ddau, er mwyn osgoi gor-ddatgan yr effaith gyffredinol.

Footnotes

[11] Y flwyddyn waelodlin ar gyfer holl werthoedd pennu gwerth ariannol yn y dadansoddiad hwn fydd 2022 i 2023.

Atodiad C: Deunyddiau gwaith maes

Arolwg ar gyfer landlordiaid

Gwybodaeth gefndir

Er mwyn deall anghenion gwahanol landlordiaid yn well, hoffem gasglu rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am eich sefydliad. Bydd hyn yn ein helpu i ddadansoddi ymatebion yn seiliedig ar ffactorau fel maint y stoc dai, cwrpas daearyddol, a nodweddion yr eiddo.

Ar gyfer unrhyw gwestiynau nad ydych am eu hateb, gallwch ddewis yr opsiwn 'Mae'n well gen i beidio ag ateb' ar waelod pob rhestr.

1. Rhwch enw llawn y sefydliad rydych chi'n gweithio iddo.

Adran A: Gwerthuso eiddo preswyl

2. Pa gyfran o'ch eiddo preswyl sy'n bodloni'r meini prawf canlynol? Graddfa fesul eitem [Mwyafrif helaeth (90%+); Llawer (70-89%); Rhai (40-69%); Ychydig (20-39%); Ychydig iawn (llai nag 20%); Ddim yn gwybod; Mae'n well gen i beidio ag ateb]
 - a. Cyflwr da o ran atgyweirio
 - b. Diogel a chadarn
 - c. Fforddiadwy i'w wresogi
 - d. Ecogyfeillgar
 - e. Cegin fodern ac ardaloedd cyfleustodau
 - f. Ystafelloedd ymolchi modern
 - g. Cyfforddus i fyw ynddo
 - h. Hyrwyddo llesiant tenantiaid
3. O'ch eiddo preswyl sydd â gardd neu ofod awyr agored, pa gyfran sy'n bodloni'r meini prawf canlynol? Graddfa fesul eitem [Mwyafrif helaeth (90%+); Llawer (70-89%); Rhai (40-69%); Ychydig (20-39%); Ychydig iawn (llai nag 20%); Ddim yn gwybod; Ddim yn berthnasol; Mae'n well gen i beidio ag ateb]
 - a. Gardd wedi'i chynnal yn dda
 - b. Digon o ofod awyr agored

B: SATC – Ymwybyddiaeth a theimladau

Mae'r cwestiynau canlynol yn canolbwyntio ar y safon ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol sydd wedi'i diweddarau, sef Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC 2023). Mae hyn yn gosod gofynion wedi'u diweddarau ar gyfer eiddo rhent, gan ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni, cynaliadwyedd a llesiant tenantiaid. Mae'n cyflwyno disgwyliadau newydd ynghylch datgarboneiddio, effeithlonrwydd dŵr, bioamrywiaeth, ac ymgysylltu â thenantiaid, gan sicrhau bod pob cartref yn bodloni safon ansawdd uwch. Am ragor o fanylion, gallwch gyfeirio at y [ddolen](#) yma.

4. Sut byddech chi'n disgrifio eich lefel o ddealltwriaeth o SATC 2023?
 - a. Cyfarwydd iawn (dealltwriaeth gref o'r gofynion)
 - b. Yn weddol gyfarwydd (yn ymwybodol o'r prif newidiadau/diffyg gwybodaeth fanwl)
 - c. Yn weddol anghyfarwydd (wedi clywed ond heb fod yn wybodus)
 - d. Yn anghyfarwydd iawn (ddim yn ymwybodol o'r diweddariad) [ewch i adran C]
 - e. Mae'n well gen i beidio ag ateb

5. Pa mor wybodus ydych chi'n teimlo am yr agweddau canlynol ar SATC 2023? Graddfa fesul eitem [Gwybodus iawn; Cymharol wybodus; Nid yw'n wybodus nac yn anwybodus; Cymharol anwybodus; Yn anwybodus iawn; Mae'n well gen i beidio ag ateb]
 - a. Asesiadau cyflwr eiddo
 - b. Gwiriadau cydymffurfio
 - c. Gwelliannau effeithlonrwydd ynni a thargedau datgarboneiddio
 - d. Bioamrywiaeth a mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol
 - e. Gofynion effeithlonrwydd a chadwraeth dŵr
 - f. Safonau lloriau
 - g. Strategaethau cynnwys ac ymgysylltu â thenantiaid

Nawr, hoffem ddeall sut mae'r trawsnewidiad o'r SATC flaenorol i SATC 2023 wedi bod i chi.

6. Sut mae'r trawsnewidiad i SATC 2023 wedi bod hyd yn hyn?
 - a. Syml iawn
 - b. Syml
 - c. Nid yn syml nac yn heriol
 - d. Heriol
 - e. Heriol iawn
 - f. Mae'n well gen i beidio ag ateb [ewch i C5]

7. Ymhelaethwch ar eich ateb i sut mae'r trawsnewidiad i SATC newydd 2023 wedi bod hyd yn hyn?

8. Pa mor glir yw gofynion newydd SATC 2023 yn eich barn chi?

Nodyn pwysig: Mae SATC 2023 yn cyflwyno gofynion newydd, gan gynnwys safonau effeithlonrwydd ynni wedi'u diweddarau, mesurau hygyrchedd gwell, a phrotocolau diogelwch tenantiaid gwell. Am ragor o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-06/welsh-housing-quality-standard-2023.pdf>.

- a. Clir iawn [ewch i C7]
- b. Clir gan fwyaf [ewch i C7]
- c. Yn weddol glir
- d. Yn weddol aneglur
- e. Aneglur iawn
- f. Mae'n well gen i beidio ag ateb [ewch i C7]

9. Pa agweddau penodol sy'n aneglur yn eich barn chi?

10. Pa mor ddigonol yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i fodloni SATC 2023? Mae hyn yn cynnwys sesiynau ymgysylltu, gweithdai sy'n canolbwyntio ar bwnc, ac adnoddau ychwanegol a gynigir i'r sector

- a. Digonol iawn
- b. Yn weddol ddigonol
- c. Nid yn ddigonol nac yn annigonol
- d. Yn weddol annigonol
- e. Annigonol iawn
- f. Nid wyf yn ymwybodol o'r canllawiau
- g. Mae'n well gen i beidio ag ateb

Bydd bodloni SATC 2023 yn gofyn am ddulliau gwahanol yn dibynnu ar eich eiddo. Hoffem ddeall pa mor aml rydych chi'n asesu cydymffurfiaeth a pha gamau rydych chi'n eu cymryd.

11. Pa mor aml ydych chi'n bwriadu asesu'ch eiddo i sicrhau cydymffurfiaeth â SATC 2023?

- a. Bob blwyddyn
- b. Bob 2-3 blynedd

- c. Bob 4-5 mlynedd
- d. Ar newid deiliadaeth
- e. Heb benderfynu eto
- f. Mae'n well gen i beidio ag ateb

12. Ar gyfer pa gyfran o'ch stoc dai mae'r camau canlynol wedi'u cymryd, er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â SATC 2023? Graddfa fesul eitem [Mwyafrif helaeth (90%+); Llawer (70-89%); Rhai (40-69%); Ychydig (20-39%); Ychydig iawn (llai nag 20%); Ddim yn gwybod; Mae'n well gen i beidio ag ateb]

- a. Cynnal asesiadau eiddo Stoc Gyfan
- b. Datblygu llwybrau ynni wedi'u targedu
- c. Gweithredu camau ôl-osod effeithlonrwydd ynni (e.e. inswleiddio, gwresogi carbon isel, atebion ynni gwyrdd)
- d. Gosod mesuryddion clyfar mewn cartrefi
- e. Gwellu mesurau diogelwch a diogeledd (larymau mwg, systemau diogelwch tân)
- f. Adnewyddu mannau mewnol
- g. Gwellu mannau awyr agored

13. Wrth fodloni SATC 2023, sut ydych chi'n bwriadu ymgysylltu â thenantiaid ynglŷn â'r newidiadau yn eu cartrefi?

- a. Arolygon boddhad tenantiaid / ffurflenni adborth
- b. Adran pryderon a chanmoliaeth ar y wefan
- c. Sesiynau galw heibio
- d. Grwpiau / byrddau tenantiaid
- e. Cyfryngau Cymdeithasol
- f. Cylchlythyron
- g. Arall, nodwch

14. Pa mor anodd yw'r meysydd canlynol o SATC 2023 yn eich barn chi? Graddfa fesul eitem [Anodd iawn; Yn weddol anodd; Niwtral; Yn weddol hawdd; Hawdd iawn; Mae'n well gen i beidio ag ateb]

- a. Bodloni targedau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio
- b. Cynnal asesiadau eiddo llawn ar amser

- c. Sicrhau'r cyllid angenrheidiol
- d. Diweddaru cynlluniau busnes i gyd-fynd â'r gofynion newydd (e.e. ailddyrannu cyllidebau neu addasu blaenoriaethau corfforaethol)
- e. Ymgysylltu â thenantiaid yn effeithiol

15. Pa mor hyderus ydych chi y byddwch chi'n cyflawni cartrefi gydag isafswm sgôr SAP 75 erbyn 2030?

- a. Hyderus iawn
- b. Eithaf hyderus
- c. Niwtral
- d. Ddim yn hyderus iawn
- e. Ddim yn hyderus o gwbl
- f. Mae'n well gen i beidio ag ateb

16. Erbyn 2040, pa gyfran o'ch stoc dai ydych chi'n disgwyl fydd yn cyflawni isafswm sgôr SAP 92 / graddfa EPC A?

Nodyn pwysig: Rydym yn cydnabod na all pob cartref gyrraedd y safon hon.

Cwmpflen

- a. Bob un (100%) [Ewch i C15)
- b. Mwyafrif helaeth (90-99%)
- c. Llawer (70-89%)
- d. Rhai (40-69%)
- e. Ychydig (20-39%)
- f. Ychydig iawn (llai nag 20%)
- g. Ddim yn gwybod
- h. Mae'n well gen i beidio ag ateb

17. Ar gyfer y cartrefi hynny nad ydych chi'n rhagweld y byddant yn cyrraedd isafswm sgôr SAP 92 / EPC A erbyn 2040, allech chi esbonio'r ffactorau neu'r rhesymau y tu ôl i hyn?

18. Pa mor hawdd fydd rheoli effaith ariannol bodloni SATC 2023 i'ch sefydliad yn eich barn chi?
Ateb unigol

- a. Hawdd iawn
- b. Hawdd
- c. Niwtral
- d. Braidd yn anodd
- e. Anodd iawn
- f. Mae'n well gen i beidio ag ateb

C: Cyllid – ORP

19. Ydych chi wedi derbyn cyllid ORP?

- a. Ydw
- b. Nac ydw [Ewch i Adran E]
- c. Ddim yn gwybod [Ewch i Adran E]
- d. Mae'n well gen i beidio ag ateb [Ewch i Adran E]

D: ORP – Manylach

20. Pa mor ddigonol fu'r canllawiau a ddarperir ar gyfer hawlio'r gronfa yn eich barn chi?

- a. Digonol iawn
- b. Yn weddol ddigonol
- c. Nid yn ddigonol nac yn annigonol
- d. Yn weddol annigonol
- e. Annigonol iawn
- f. Nid wyf yn ymwybodol o'r canllawiau
- g. Mae'n well gen i beidio ag ateb

21. Oedd swyddogion ORP Llywodraeth Cymru yn gefnogol wrth gyflwyno cynlluniau ORP yn eich barn chi?

- a. Cwbl gefnogol
- b. Yn weddol gefnogol
- c. Ddim yn gefnogol nac yn anghefnogol
- d. Yn weddol anghefnogol
- e. Anghefnogol iawn

- f. Nid wyf yn ymwybodol o'r canllawiau
 - g. Mae'n well gen i beidio ag ateb
22. Os yw'n berthnasol, rhowch ragor o fanylion am y cymorth neu'r diffyg cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
23. Pa mor hawdd oedd hi i gael mynediad at gyllid ORP?
- a. Hawdd iawn
 - b. Yn weddol hawdd
 - c. Ddim yn hawdd nac yn anodd
 - d. Yn weddol anodd
 - e. Anodd iawn
 - f. Mae'n well gen i beidio ag ateb
24. Pa heriau, os o gwbl, rydych chi wedi'u hwynebu wrth hawlio a chael mynediad i'r gronfa? Os ydych chi wedi cyflawni sawl cynllun ORP, tynnwch sylw at unrhyw heriau a rannwyd ar draws y cynlluniau.
25. Ydy eich cynllun ORP wedi bod yn fwy neu'n llai costus nag yr amcangyfrifwyd ym manylion a chostau cychwynnol y cynllun a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru?
- a. Llawer drutach na'r disgwyl
 - b. Ychydig yn ddrutach na'r disgwyl
 - c. Tua'r un gost â'r disgwyl
 - d. Ychydig yn llai costus na'r disgwyl
 - e. Sylweddol llai costus na'r disgwyl
 - f. Mae'n well gen i beidio ag ateb
26. Pa mor dda oedd eich cynlluniau ORP yn cyd-fynd â'ch strategaethau presennol o ôl-osod a rheoli eiddo?
- a. Yn dda iawn
 - b. Yn dda
 - c. Nid yn dda, nac yn wael

- d. Ddim yn dda
- e. Ddim yn dda o gwbl
- f. Mae'n well gen i beidio ag ateb

27. Ymhelaethwch ar eich ateb i ba mor dda mae eich cynlluniau ORP yn cyd-fynd â'ch strategaethau ôl-osod a rheoli eiddo presennol?
28. I ba raddau y mae'r ORP wedi bod o gymorth wrth ddysgu am, ac ymgorffori arferion ôl-osod arloesol yn eich strategaethau rheoli eiddo ac ôl-osod cyffredinol?
- a. Defnyddiol iawn
 - b. Defnyddiol
 - c. Niwtral
 - d. Ddim yn ddefnyddiol
 - e. Dim o gwbl
 - f. Mae'n well gen i beidio ag ateb
29. Pe na bai'r Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio (ORP) yn bodoli ond bod SATC 2023 yn dal i fod ar waith, a fydddech chi wedi gwneud unrhyw waith ôl-osod heb gyllid ORP?
- a. Byddwn [Ewch i C13]
 - b. Na fyddwn
 - c. Mae'n well gen i beidio ag ateb
30. Pe na bai'r Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio na'r SATC 2023 ar waith, a fydddech chi wedi gwneud unrhyw waith ôl-osod heb gyllid ORP?
- a. Byddwn
 - b. Na fyddwn [Ewch i Adran F]
 - c. Mae'n well gen i beidio ag ateb [Ewch i Adran F]

31. Pa waith ôl-osod o'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud fydddech chi wedi'i wneud? [Ewch i Adran F]

E. ORP – Manylach

32. A allech chi rannu'r rhesymau pam na ddyrannwyd cyllid drwy'r Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio (ORP) i chi?

F. Diolch

Diolch am eich amser a'ch egni wrth gwblhau'r arolwg hwn! Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cyfraniad i'r prosiect pwysig hwn!

Arolwg Tenantiaid

Arolwg SATC 2023

A. Profiad Tenantiaeth Gartref

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r gosodiadau nesaf?

[Y raddfa (Cytuno'n gryf; Cytuno; Cytuno i ryw raddau; Niwtral; Anghytuno i ryw raddau; Anghytuno; Anghytuno'n gryf; Byddai'n well gen i beidio ateb)]

- Mae fy nghartref mewn cyflwr da
- Mae fy nghartref yn ddiogel a saff
- Mae fy nghartref yn fforddiadwy i'w wresogi
- Mae gan fy nghartref gegin fodern
- Mae gan fy nghartref ystafell ymolchi fodern
- Mae fy nghartref yn gyfforddus ac yn addas i'r anghenion sydd gen i
- Mae gan fy nghartref ardd sy'n addas ar gyfer fy anghenion
- Mae gan fy nghartref ardd sy'n hawdd ei chadw

B. Addasiadau i'r Cartref

2. A gafodd unrhyw waith ei wneud i drwsio neu foderneiddio eich cartref yn y 12 mis diwethaf?
 - a. Do, ac mae'r gwelliannau wedi eu cwblhau
 - b. Do, ond mae'r gwelliannau'n dal i fynd yn eu blaenau
 - c. Naddo, ond maen nhw'n dweud y bydd fy nghartref yn cael ei wella neu ei foderneiddio yn y dyfodol [neidiwch i adran C]
 - d. Naddo, a dydw i ddim wedi clywed unrhyw beth am waith gwella o'r fath [neidiwch i adran D]
 - e. Dydw i ddim yn gwybod [neidiwch i adran D]
 - f. Byddai'n well gen i beidio ateb [neidiwch i adran D]
3. Pa waith sydd wedi cael ei wneud neu sy'n cael ei wneud yn eich cartref? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- a. Gwelliannau mewn ceginau
 - b. Gwelliannau mewn ystafelloedd ymolchi
 - c. Gwelliannau i'r grisiau
 - d. Gosod ffenestri neu ddrysau newydd
 - e. Gwelliannau i'r gwresogi (e.e. pypiau gwres, boeleri newydd)
 - f. Wedi gosod paneli solar
 - g. Gwell amddiffyniad yn erbyn yr oerfel (e.e. gwella'r waliau, toeau, lloriau)
 - h. Gwelliannau diogelwch (e.e. larymau diogelwch tân)
 - i. Gwelliannau i fannau awyr agored
 - j. Trwsio problemau lleithder
 - k. Ychwanegu lleoedd storio
 - l. Arall
 - i. Manylwch [Testun agored]
 - m. Byddai'n well gen i beidio ateb
4. Pwy benderfynodd y dylai'r gwaith gael ei wneud yn eich cartref? Dewiswch bob un sy'n berthnasol
- a. Fy landlord neu ddarparwr tai
 - b. Fi fy hun neu rywun yn fy nghartref
 - c. Fi fy hun neu rywun yn fy nghartref, ar y cyd gyda fy landlord neu ddarparwr tai
 - d. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
 - e. Dydw i ddim yn gwybod
 - f. Byddai'n well gen i beidio ateb
5. [Os yw C3 yn cynnwys A] Ydych chi'n gwybod / oes rhywun wedi dweud wrthy a ydy'r gwaith yma'n rhan o raglen wella tai ehangach?
- a. Ydy, mae'n rhan o raglen wedi'i chynllunio ar gyfer fy ardal/adeilad
 - b. Na, cafodd ei wneud fel prosiect ar wahân
 - c. Dydw i ddim yn gwybod
 - d. Ddim yn berthnasol

- e. Byddai'n well gen i beidio ateb
6. Dywedwch faint rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r gosodiadau nesaf am unrhyw welliannau a gafwyd yn eich cartref yn y deuddeg mis diwethaf.] [Y raddfa (Cytuno'n gryf; Cytuno; Cytuno i ryw raddau; Niwtral; Anghytuno i ryw raddau; Anghytuno; Anghytuno'n gryf; Byddai'n well gen i beidio ateb)]

O'i gymharu â'r llynedd....

- a. Mae cyflwr fy nghartref wedi cael ei wella
 - b. Mae fy nghartref yn cadw gwres yn well ac yn defnyddio ynni'n fwy effeithiol
 - c. Mae fy nghartref yn fwy diogel a saff
 - d. Mae fy nghartref yn fwy cyfforddus
 - e. Rydw i'n teimlo'n hapusach yn fy nghartref
 - f. Rydw i'n teimlo'n fwy iach oherwydd newidiadau yn fy nghartref
7. **O'i gymharu â'r gaeaf blaenorol (2023/2024), ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newid yn eich biliau ynni y gaeaf diweddaraf yma (2024/2025)?**

Do, mae'r biliau wedi gostwng yn fawr

Do, mae'r biliau wedi gostwng ychydig

Dim newid

Do, mae'r biliau wedi cynyddu ychydig

Do, mae'r biliau wedi cynyddu'n fawr

Doeddwn i ddim yn byw yn y tŷ yma y gaeaf diwethaf

Dydw i ddim yn gwybod

Byddai'n well gen i beidio ateb

C. Cynhwysiant ac ymgysylltiad y tenant

8. Ar raddfa o 1 i 7, lle mae 1 yn golygu "Anghytuno'n gryf" a 7 yn golygu "Cytuno'n gryf", faint ydych chi'n cytuno gyda'r gosodiadau nesaf? Y raddfa [Cytuno'n gryf; Cytuno; Cytuno i ryw raddau; Niwtral; Anghytuno i ryw raddau; Anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn berthnasol i mi; Byddai'n well gen i beidio ateb]
- a. Rydw i'n teimlo fy mod yn derbyn llawer o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud yn fy nghartref

- b. Rydw i'n teimlo bod fy marn yn cael ei chlywed am y gwaith sy'n cael ei wneud yn fy nghartref
- c. Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi pan mae gwaith yn cael ei wneud yn fy nghartref (er enghraifft, pan fydd technoleg newydd yn cael ei gosod, rydw i'n cael cymorth i'w defnyddio)
- d. Rydw i'n cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau am fy nghartref a'm lleoedd byw

D. Ffocws ar SATC 2023

9. Cyn yr arolwg hwn, oeddech chi wedi clywed am Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC 2023), sef safon Llywodraeth Cymru i geisio gwella ansawdd cartrefi?

I gael rhagor o wybodaeth am SATC 2023, cliciwch [yma](#).

- a. Oeddwn, roeddwn i wedi clywed amdano
- b. Na, doeddwn i ddim wedi clywed amdano [Neidiwch i neges SATC 2023]
- c. Dydw i ddim yn siŵr [Neidiwch i neges SATC 2023]
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i neges SATC 2023]

10. Sut glywsoch chi am SATC 2023? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- a. Gan fy landlord/darparwr tai
- b. O ddogfennau / ffynonellau swyddogol (dogfennaeth Llywodraeth Cymru ac awdurdod lleol)
- c. O ohebiaeth ar-lein
- d. Gan ffrindiau / cymdogion
- e. O'r cyfryngau cymdeithasol
- f. O gyfarfodydd/digwyddiadau cymunedol
- g. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- h. Dim o'r uchod
- i. Byddai'n well gen i beidio ateb

11. Ydych chi'n teimlo bod y wybodaeth a roddwyd i chi am SATC 2023 yn glir a defnyddiol?

Cwestiwn un ateb

- a. Ydw, roedd yn glir a defnyddiol

- b. Ydw, ond byddai wedi gallu bod yn fwy clir
- c. Nac ydw
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb

ESBONIO SATC 2023 - AMLINELLWCH I BAWB

Mae SATC 2023 yn gyfres o reolau i sicrhau bod cartrefi yng Nghymru'n ddiogel, yn gyfforddus, yn dda i'r amgylchedd ac nad ydynt yn costio llawer i'w gwresogi. Mae'n canolbwyntio ar wella tai cymdeithasol i sicrhau eu bod nhw'n gynnes, mewn cyflwr da, ac yn iach i fyw ynddynt.

Mae hyn yn cynnwys gwneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy diogel ac yn rhatach i'w gwresogi, yn ogystal â gwella'r manau byw i'w gwneud nhw'n fwy cyfforddus i bobl a theuluoedd.

12. Pa rannau o'r SATC 2023 yw'r mwyaf pwysig yn eich barn chi ar gyfer gwella ansawdd eich cartref?

- a. Cael cartref sydd mewn cyflwr da
 - b. Cael cartref sy'n ddiogel a saff
 - c. Cael cartref sy'n fforddiadwy i'w wresogi
 - d. Cael cartref sydd â chegin fodern
 - e. Cael cartref sydd ag ystafell ymolchi fodern
 - f. Cael cartref sy'n gyfforddus ac sy'n addas i fy anghenion
 - g. Cael cartref sydd â gardd sy'n addas i fy anghenion
- Cael cartref sydd â gardd sy'n hawdd ei chadw

13. Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau o dan SATC 2023 yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ba mor hapus rydych chi'n teimlo yn eich cartref? Mae hyn yn amrywio o deimlo'n hapusach yn eich cartref am fod llai o effeithiau gwael ar eich iechyd (e.e. alergeddau) neu am fod y newidiadau'n gwella agweddau o'ch iechyd (e.e. anadlu).

- a. Ydw, byddan nhw'n gwneud i mi deimlo'n llawer hapusach
- b. Ydw, byddan nhw'n gwneud i mi deimlo ychydig yn hapusach
- c. Na, dydw i ddim yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaeth [neidiwch i adran E]
- d. Ydw, byddan nhw'n gwneud i mi deimlo ychydig yn llai hapus
- e. Ydw, byddan nhw'n gwneud i mi deimlo'n llawer llai hapus
- f. Dydw i ddim yn gwybod

- g. Byddai'n well gen i beidio ateb [neidiwch i adran E]

14. Gadewch i ni wybod sut neu pam y bydd y newidiadau o dan SATC 2023 yn gwneud y gwahaniaeth a ddewiswyd gennych uchod?

E. Gwybodaeth gefndir

Yn yr adran hon, byddwn ni'n gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi a'ch aelwyd. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu ni i ddeall anghenion gwahanol denantiaid a sicrhau bod pawb yn cael budd o'r gwelliannau i dai. Mae eich atebion yn ddienw.

Os oes unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau eu hateb, gallwch ddewis yr opsiwn 'Byddai'n well gen i beidio ateb' ar waelod pob rhestr.

15. Beth yw eich rhyw?

- a. Benyw
- b. Gwryw
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb

16. Ydy'r rhyw yr ydych yn uniaethu ag ef yn awr yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd i chi adeg eich geni?

- a. Ydy
- b. Nac ydy
 - i. Ysgrifennwch eich hunaniaeth rhyw [testun agored]
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb

17. Os gwelwch yn dda, ysgrifennwch yn eich hunaniaeth rhyw

18. Beth yw eich oed?

- a. O dan 18
- b. 19-24
- c. 25-34
- d. 35-44
- e. 45-54
- f. 55-64
- g. 65-74

- h. 75-84
- i. 85-94
- j. 95+
- k. Byddai'n well gen i beidio ateb

19. Ym mha ardal awdurdod lleol mae eich cartref ar hyn o bryd?

- a. Caerdydd
- b. Caerffili
- c. Blaenau Gwent
- d. Torfaen
- e. Sir Fynwy
- f. Casnewydd
- g. Ynys Môn
- h. Gwynedd
- i. Conwy
- j. Sir Ddinbych
- k. Sir y Fflint
- l. Wrecsam
- m. Ceredigion
- n. Powys
- o. Sir Benfro
- p. Sir Gaerfyrddin
- q. Abertawe
- r. Castell Nedd Port Talbot
- s. Pen-y-Bont ar Ogwr
- t. Rhondda Cynon Taf
- u. Merthyr Tudful
- v. Bro Morgannwg
- w. Byddai'n well gen i beidio ateb

20. Beth yw eich grŵp ethnig?

- a. Asiaidd / Asiaidd Prydeinig [Dangoswch C7]
- b. Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig [Dangoswch C8]
- c. Grwpiau ethnig cymysg / niferus [Dangoswch C9]
- d. Gwyn [Dangoswch C10]
- e. Grŵp ethnig arall [Dangoswch C11]
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C12]

21. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu gefndir ethnig orau – Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

- a. Indiaidd
- b. Pacistanaidd
- c. Bangladeshaidd
- d. Tsieineaidd
- e. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb

22. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Du / Affricanaidd Caribïaidd / Du Prydeinig /

- a. Affricanaidd
- b. Caribïaidd
- c. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb

23. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Grwpiau ethnig cymysg / niferus

- a. Caribïaidd Du a Gwyn
- b. Caribïaidd Du a Gwyn
- c. Gwyn ac Asiaidd

- d. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

24. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Gwyn

- a. Cymro/Cymraes / Sais/Saesnes / Albanwr/Albanes / Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeinig
- b. Gwyddelig
- c. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- d. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

25. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Grŵp ethnig arall

- a. Arabaidd
- b. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb

26. Ym mha fath o eiddo ydych chi'n byw? *Cwestiwn un ateb*

- a. Tŷ teras
- b. Tŷ pâr
- c. Tŷ sengl
- d. Fflat/rhandy
- e. Byngalo
- f. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- g. Byddai'n well gen i beidio ateb

27. Faint o bobl, yn eich cynnwys chi, sy'n byw ar eich aelwyd? *Cwestiwn un ateb*

- a. 1 [Neidiwch i C15]

- b. 2
- c. 3
- d. 4
- e. 5+
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C15]

28. Pa un o'r gosodiadau nesaf sy'n disgrifio eich aelwyd chi orau? *Cwestiwn un ateb*

- a. Byw gyda phriod/partner gyda phlant
- b. Byw gyda phriod/partner heb blant [Neidiwch i C15]
- c. Byw heb briod/partner ond gyda phlant
- d. Mwy nag un teulu'n cydfyw
- e. Byw gyda'r ddau riant
- f. Byw gyda rhiant sengl
- g. Byw gydag aelodau eraill o'r teulu
- h. Arall, manylwch
- i. Byddai'n well gen i beidio ateb

29. Faint o blant (o dan 18 oed) sy'n byw yn eich cartref?

- a. 1
- b. 2
- c. 3
- d. 4
- e. 5+
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb

30. Oes gennych chi unrhyw salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol a fydd yn parhau, neu y mae disgwyl iddyn nhw barhau, am 12 mis neu fwy?

- a. Oes
- b. Nac oes [Neidiwch i C20]
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C20]

31. Ydy unrhyw rai o'ch cyflyrau neu'r salwch yn lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd?
- a. Ydyn, yn fawr iawn
 - b. Ydyn, ychydig bach
 - c. Na, ddim o gwbl
 - d. Byddai'n well gen i beidio ateb
32. A oes gan unrhyw un yn eich cartref anghenion gofal sy'n gofyn am gymorth rheolaidd gyda thasgau o ddydd i ddydd, fel gwneud gwaith tŷ, gofal personol neu weithgareddau dyddiol eraill?
- a. Oes
 - b. Nac oes
 - c. Byddai'n well gen i beidio ateb
33. Ydych chi, neu unrhyw un yn eich cartref yn brofiadol mewn gofalu?
- a. Ydw, fi fy hun
 - b. Person arall yn fy nghartref
 - c. Fi fy hun a pherson arall yn fy nghartref
 - d. Na
 - e. Byddai'n well gen i beidio ateb
34. Pwy yw eich landlord cymdeithasol?
- a. Cyngor / awdurdod lleol
 - b. Cymdeithas tai
 - c. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
 - d. Byddai'n well gen i beidio ateb
35. Ers faint ydych chi wedi byw yn yr eiddo hwn?
- Llai na 6 mis
- 6 mis i lai na blwyddyn
- 1 flwyddyn i lai na 3 blynedd

3 blynedd i lai na 5 mlynedd
5 mlynedd i lai na 7 mlynedd
7 mlynedd i lai na 10 mlynedd
10 mlynedd i lai na 15 mlynedd
15 mlynedd i lai nag 20 mlynedd
20 mlynedd +
Byddai'n well gen i beidio ateb

F. Diolch

Diolch yn fawr am roi o'ch amser a'ch egni i gwblhau'r arolwg hwn! Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad i'r prosiect pwysig hwn yn fawr iawn!

Arolwg Tenantiaid: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

A. Profiad y tenant o'r cartref

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r gosodiadau nesaf?

[Y raddfa (Cytuno'n gryf; Cytuno; Cytuno i ryw raddau; Niwtral; Anghytuno i ryw raddau; Anghytuno; Anghytuno'n gryf; Byddai'n well gen i beidio ateb)]

- a. Mae fy nghartref mewn cyflwr da
- b. Mae fy nghartref yn ddiogel a saff
- c. Mae fy nghartref yn fforddiadwy i'w wresogi
- d. Mae gan fy nghartref gegin fodern (Ymwadiad: Wrth sôn am gegin fodern, rydym yn golygu ei bod yn llai nag 16 oed)
- e. Mae gan fy nghartref ystafell ymolchi fodern (Ymwadiad: Wrth sôn am ystafell ymolchi fodern, rydym yn golygu ei bod yn llai na 26 oed)
- f. Mae fy nghartref yn addas i'r anghenion sydd gen i
- g. Mae gan fy nghartref ardd sy'n addas ar gyfer fy anghenion
- h. Mae gan fy nghartref ardd sy'n hawdd ei chadw

2. Cyn yr arolwg hwn, oeddech chi wedi clywed am y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP), sef cynllun Llywodraeth Cymru i wella effeithiolrwydd ynni cartrefi drwy wneud gwaith adnewyddu arnyn nhw?

Oeddwn, roeddwn i wedi clywed amdani

Na, doeddwn i ddim wedi clywed amdani

Dydw i ddim yn siŵr

Byddai'n well gen i beidio ateb

3. A gafodd eich cartref unrhyw welliannau yn y 3 blynedd diwethaf?
 - a. Do
 - b. Naddo [Neidiwch i Adran D]
 - c. Dydw i ddim yn gwybod [Neidiwch i Adran D]
 - d. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i Adran D]
4. Oeddech chi'n byw yn yr eiddo pan gafodd y gwelliannau hyn eu gwneud?
 - a. Oeddwn
 - b. Nac oeddwn [Neidiwch i Adran D]
 - c. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i Adran D]
5. Pa rai o'r gwelliannau hyn a gafodd eu gwneud i'ch cartref yn rhan o'r gwaith? Dewiswch bob un sy'n berthnasol
 - a. Gwell gorchudd ar y waliau
 - b. Gwell gorchudd yn yr atig
 - c. Gwell gorchudd ar y lloriau
 - d. Ffenestri a drysau newydd
 - e. Wedi gosod systemau pwmpio gwres
 - f. Wedi gosod paneli solar
 - g. Wedi gosod batris storio ynni
 - h. Wedi gosod dyfeisiau cartref clyfar (e.e., thermostatau clyfar)
 - i. Gwresogyddion storio a phanelau gwres
 - j. Gwelliannau i'r cylchrediad aer
 - k. Arall
 - i. Manylwch [Testun agored]
 - l. Dydw i ddim yn gwybod
 - m. Byddai'n well gen i beidio ateb

6. Oes gennych chi unrhyw dechnoleg yn eich cartref sy'n helpu i olrhain pa mor dda mae gwelliannau fel hyn yn gweithio? (e.e., mesuryddion clyfar, offer monitro ynni)
- a. Oes
 - b. Nac oes
 - c. Dydw i ddim yn gwybod
 - d. Byddai'n well gen i beidio ateb

B. Y profiad gyda'r gwaith

7. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'r cyfathrebu gan eich landlord am y gwaith yn eich cartref?
- a. Bodlon iawn
 - b. Bodlon
 - c. Gweddol fodlon
 - d. Niwtral
 - e. Gweddol anfodlon
 - f. Anfodlon
 - g. Anfodlon iawn
 - h. Byddai'n well gen i beidio ateb
8. Wnaethoch chi dderbyn gwybodaeth glir a chyson am y gwaith oedd yn cael ei wneud i'ch cartref, drwy gydol y broses?
- a. Do, derbyniais wybodaeth glir am yr hyn a fyddai'n digwydd yn ystod y gwaith
 - b. Do, ond roedd rhai agweddau'n aneglur
 - c. Na, ni chefais ddigon o wybodaeth am broses y gwaith
 - d. Ansicr
 - e. Byddai'n well gen i beidio ateb
9. Dewiswch y wybodaeth a roddodd eich landlord i chi, ar unrhyw gam o'r gwaith.
- a. Pryd y byddai'r gwaith yn dechrau
 - b. Beth fyddai'r gwaith yn ei gynnwys
 - c. Pwy fyddai'n gyfrifol am y gwaith
 - d. Faint o amser y byddai'r gwaith yn ei gymryd

- e. Sut y byddai'r gwaith yn cael ei wneud
- f. Sut y gallai'r gwaith effeithio ar eich cartref
- g. Manteision y gwaith
- h. Dim o'r uchod
- i. Byddai'n well gen i beidio ateb

10. Cyn i'r gwaith gychwyn, a ofynnwyd i chi am eich barn ynghylch y newidiadau i'ch cartref?

- a. Do, gofynnwyd i mi
- b. Do, ond byddan nhw wedi gallu gofyn mwy i mi
- c. Na, ni ofynnwyd i mi o gwbl
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb

11. Yn ystod proses y gwaith, a ofynnwyd i chi am eich sylwadau?

- a. Do, gofynnwyd i mi
- b. Do, ond byddan nhw wedi gallu gofyn mwy i mi
- c. Na, ni ofynnwyd i mi o gwbl
- d. Ansicr
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

12. Wnaethoch chi wynebu unrhyw rai o'r heriau nesaf yn ystod yr amser pan oedd y gwaith yn cael ei wneud?

- a. Y gwaith yn torri ar draws eich arferion pob dydd
- b. Roedd y broses yn teimlo fel pe bai'n ymyrryd arnoch chi (colli preifatrwydd, tarfu arnoch yn aml)
- c. Llai o le ar gael (cyfyngiad ar y lle storio, newid i gynllun ystafelloedd, offer mawr)
- d. Oedi neu newidiadau annisgwyl yn yr amserlen waith
- e. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- f. Ni wynebais unrhyw heriau
- g. Byddai'n well gen i beidio ateb

13. I ba raddau oedd y newidiadau newydd yn cyfateb i'ch cartref (e.e. maint, lleoliad, ymddangosiad, hawdd eu defnyddio)?

- a. Yn dda iawn
- b. Yn dda
- c. Yn weddol dda
- d. Ddim yn dda nac yn wael
- e. Braidd yn wael
- f. Yn wael
- g. Yn wael iawn
- h. Ansicr/Rhy fuan i ddweud
- i. Byddai'n well gen i beidio ateb

14. Ar ôl gwneud y gwelliannau i'r cartref, a esboniwyd i chi sut i addasu i'r technolegau nesaf?

[Graddfa (Do, rhoddwyd gwybod i mi ac roeddwn i'n teimlo'n barod: Do, ond gallwn fod wedi derbyn rhagor o wybodaeth; Naddo, ni roddwyd gwybodaeth i mi o gwbl; Ansicr; ddim yn berthnasol i mi; Byddai'n well gen i beidio dweud)]

Mae technolegau newydd yn cynnwys pethau fel dyfeisiau clyfar, cyfarpar sy'n arbed ynni, neu systemau newydd eraill a ychwanegwyd wrth wneud y gwelliannau i'r cartref.

- a. Synwryddion amgylcheddol
- b. Systemau cartref clyfar
- c. Pymphiau gwres
- d. Paneli solar
- e. Storfeydd batri

C. Effaith gwelliannau i'r cartref ar lesiant

Nawr hoffem ganolbwyntio ar y ffordd y mae'r gwaith hwn wedi effeithio ar eich bywyd yn gyffredinol. Byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi am amrywiol agweddau o'ch bywyd, cyn ac ar ôl y gwaith, yn cynnwys meysydd fel lles ac iechyd meddwl a chorfforol.

RHAN A [*Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ddewisol*]

Mae'r rhan hon yn cynnwys 4 cwestiwn sy'n gofyn i chi am agweddau eang o'ch bywyd mewn perthynas â'ch cartref cyn ac ar ôl gwneud y gwaith. Gofynnir i chi roi eich atebion ar raddfa o 0 i 10. Darllenwch yn ofalus sut i ddehongli'r raddfa ymhob cwestiwn. Mae pob rhyddid i chi neidio dros unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb.

15. Boddhad â bywyd: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "ddim yn fodlon o gwbl" a 10 yn golygu "cwbl fodlon," pa mor fodlon oeddech chi gyda'ch bywyd cyn y cafwyd y gwaith yn eich cartref?
16. Gan ddefnyddio'r un raddfa, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd yn awr, ar ôl i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?
17. Werth eu gwneud: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "ddim yn werth eu gwneud o gwbl" a 10 yn golygu "werth eu gwneud yn llwyr," cyn y gwaith yn eich cartref, i ba raddau oeddech chi'n teimlo bod y pethau yr oeddech chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth eu gwneud?

Nodyn: Wrth sôn am 'werth eu gwneud', rydyn ni'n golygu faint o werth neu foddhad a gewch chi o'r pethau a wnewch chi, fel gwaith, hobiau neu weithgareddau personol.
18. Ar ôl i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau a wnewch chi yn eich bywyd yn werth eu gwneud?
19. Hapusrwydd: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "ddim yn hapus o gwbl" ac mae 10 yn golygu "yn gwbl hapus", pa mor hapus oeddech chi'n teimlo cyn y gwaith yn eich cartref?
20. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor hapus ydych chi'n teimlo nawr, wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?
21. Gorbryder: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "ddim yn bryderus o gwbl" ac mae 10 yn golygu "hollol bryderus", pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo cyn y gwaith yn eich cartref?
22. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor bryderus ydych chi'n teimlo nawr, wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?

RHAN B

Mae'r rhan hon yn cynnwys 8 cwestiwn sy'n gofyn i chi am rai agweddau o'ch bywyd sy'n ymwneud fwy â'ch amodau byw, mewn perthynas â'ch cartref cyn ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Unwaith eto, mae angen i chi roi eich atebion ar raddfa, ond mae'r raddfa'n wahanol i bob cwestiwn. Darllenwch yn ofalus sut i ddefnyddio'r raddfa ymhob cwestiwn. Mae pob rhyddid i chi neidio dros unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb.

23. Lechyd corfforol cyffredinol: Sut fydddech chi'n disgrifio eich iechyd corfforol cyffredinol cyn y cafwyd y gwaith yn eich cartref? [Y raddfa: Gwael iawn; gwael; gweddol; da; da iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
24. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor iach ydych chi'n gorfforol wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?
25. Lleithder: Cyn y gwaith yn eich cartref, faint o leithder neu damprwydd welsoch chi yn eich cartref? [Y raddfa: Dim o gwbl [neidiwch i C7]; Ychydig bach; maint cymedrol; llawer; llawer iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
26. Gan ddefnyddio yr un raddfa, ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint mae'r lleithder neu'r tamprwydd wedi lleihau yn eich cartref?
27. Effaith y lleithder: Cyn y gwaith yn eich cartref, faint oedd y lleithder neu'r tamprwydd yn effeithio ar eich iechyd yn eich barn chi [Y raddfa: Heb fy effeithio o gwbl; ychydig o effaith; effaith cymedrol; wedi fy effeithio i raddau mawr; wedi fy effeithio'n eithriadol; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
28. Ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint o welliant ydych chi wedi sylw arno mewn cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â lleithder? [Y raddfa: Dim gwelliant o gwbl, Ychydig bach o welliant; Gwelliant cymedrol; Gwelliant mawr; Gwelliant mawr iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
29. Gwres gormodol: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor aml wnaethoch chi brofi gwres gormodol yn eich cartref yn ystod yr haf neu'r misoedd cynhesach? [Y raddfa: Byth; bron byth; weithiau; yn aml; trwy'r amser; dydw i ddim yn gwybod; byddai'n well gen i beidio dweud]
30. Gan ddefnyddio yr un raddfa, ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, pa mor aml ydych chi'n profi gwres gormodol yn eich cartref yn ystod yr haf neu'r misoedd cynhesach?
31. Effaith gwres gormodol: Cyn y gwaith yn eich cartref, i ba raddau oedd gwres gormodol yn effeithio ar eich iechyd (e.e. problemau cysgu, dadhydradu, cur pen)? [Y raddfa: Heb fy effeithio o gwbl; wedi fy effeithio ychydig; wedi fy effeithio'n gymedrol; wedi fy effeithio i raddau mawr; wedi fy effeithio'n eithriadol; Byddai'n well gen i beidio ateb]
32. Ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint o welliant ydych chi wedi sylwi arno mewn cyflyrau iechyd sy'n ymwneud â gwres gormodol? [Y raddfa: Dim gwelliant o gwbl, Ychydig bach o welliant; Gwelliant cymedrol; Gwelliant mawr; Gwelliant mawr iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
33. Tymheredd cyfforddus: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor gyfforddus oeddech chi'n teimlo gyda'r tymheredd tu mewn i'ch cartref drwy gydol y flwyddyn? [Y raddfa: Anghyfforddus iawn; Ychydig yn anghyfforddus; Niwtral; Gweddol gyfforddus; Cyfforddus iawn; Byddai'n well gen i beidio ateb]
34. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo gyda'r tymheredd o fewn eich cartref wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?

35. Fforddiadwyedd y gwresogi: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor fforddiadwy oedd eich cartref i'w wresogi? [Y raddfa: Ddim yn fforddiadwy o gwbl; Gweddol anfforddiadwy; Niwtral; Gweddol fforddiadwy; Fforddiadwy iawn; Byddai'n well gen i beidio ateb]
36. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor fforddiadwy yw eich cartref i'w wresogi wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau? [Neidiwch i adran E]

D. Boddhad â bywyd

Mae'r adran hon yn cael ei dangos i ymatebwyr oedd naill ai ddim yn gwybod bod eu cartref wedi cael ôl-osodiadau ORP neu nad oeddent yn byw yn yr eiddo ar amser gwneud y gwaith.

RHAN A [*Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ddewisol*]

Mae'r rhan hon yn cynnwys 4 cwestiwn sy'n gofyn i chi am agweddau eang o'ch bywyd mewn perthynas â'ch cartref cyn ac ar ôl gwneud y gwaith. Gofynnir i chi roi eich atebion ar raddfa o 0 i 10. Darllenwch yn ofalus sut i ddehongli'r raddfa ymhob cwestiwn. Mae pob rhyddid i chi neidio dros unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb.

37. Boddhad â bywyd: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "*ddim yn fodlon o gwbl*" a 10 yn golygu "*cwbl fodlon*", pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd yn gyffredinol?
38. Werth eu gwneud: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "*ddim yn werth eu gwneud o gwbl*" a 10 yn golygu "*yn werth eu gwneud yn llwyr*", i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau a wnewch chi yn eich bywyd yn werth eu gwneud?
- Nodyn: Wrth sôn am 'werth eu gwneud', rydyn ni'n golygu faint o werth neu foddhad a gewch chi o'r pethau a wnewch chi, fel gwaith, hobiau neu weithgareddau personol.
39. Hapusrwydd: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "*ddim yn hapus o gwbl*" a 10 yn golygu "*cwbl hapus*", pa mor hapus ydych chi'n teimlo yn gyffredinol?
40. Gorbryder: Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu "*ddim yn bryderus o gwbl*" a 10 yn golygu "*hollol bryderus*", pa mor fodlon ydych chi'n teimlo'n gyffredinol?

RHAN B

Mae'r rhan hon yn cynnwys 8 cwestiwn sy'n canolbwyntio ar eich amodau byw ar hyn o bryd. Mae gan bob cwestiwn ei raddfa ei hun — darllenwch yr opsiynau'n ofalus. Mae pob rhyddid i chi neidio dros unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb.

41. Lechyd corfforol cyffredinol: Sut fydddech chi'n disgrifio eich iechyd corfforol cyffredinol cyn y cafwyd y gwaith yn eich cartref? [Y raddfa: Gwael iawn; gwael; gweddol; da; da iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
42. Lleithder: Cyn y gwaith yn eich cartref, faint o leithder neu damprwydd welsoch chi yn eich cartref? [Y raddfa: Dim o gwbl [neidiwch i C7]; Ychydig bach; maint cymedrol; llawer; llawer iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
- a. Gan ddefnyddio yr un raddfa, ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint mae'r lleithder neu'r tamprwydd wedi lleihau yn eich cartref?
43. Effaith y lleithder: Cyn y gwaith yn eich cartref, faint oedd y lleithder neu'r tamprwydd yn effeithio ar eich iechyd yn eich barn chi [Y raddfa: Heb fy effeithio o gwbl; ychydig o effaith; effaith]

cymedrol; wedi fy effeithio i raddau mawr; wedi fy effeithio'n eithriadol; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]

- a. Ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint o welliant ydych chi wedi sylw arno mewn cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â lleithder? [Y raddfa: Dim gwelliant o gwbl, Ychydig bach o welliant; Gwelliant cymedrol; Gwelliant mawr; Gwelliant mawr iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
44. Gwres gormodol: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor aml wnaethoch chi brofi gwres gormodol yn eich cartref yn ystod yr haf neu'r misoedd cynhesach? [Y raddfa: Byth; bron byth; weithiau; yn aml; trwy'r amser; dydw i ddim yn gwybod; byddai'n well gen i beidio dweud]
- a. Gan ddefnyddio yr un raddfa, ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, pa mor aml ydych chi'n profi gwres gormodol yn eich cartref yn ystod yr haf neu'r misoedd cynhesach?
45. Effaith gwres gormodol: Cyn y gwaith yn eich cartref, i ba raddau oedd gwres gormodol yn effeithio ar eich iechyd (e.e. problemau cysgu, dadhydradu, cur pen)? [Y raddfa: Heb fy effeithio o gwbl; wedi fy effeithio ychydig; wedi fy effeithio'n gymedrol; wedi fy effeithio i raddau mawr; wedi fy effeithio'n eithriadol; Byddai'n well gen i beidio ateb]
- a. Ers i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau, faint o welliant ydych chi wedi sylw arno mewn cyflyrau iechyd sy'n ymwneud â gwres gormodol? [Y raddfa: Dim gwelliant o gwbl, Ychydig bach o welliant; Gwelliant cymedrol; Gwelliant mawr; Gwelliant mawr iawn; Dydw i ddim yn gwybod; Byddai'n well gen i beidio dweud]
46. Tymheredd cyfforddus: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor gyfforddus oeddech chi'n teimlo gyda'r tymheredd tu mewn i'ch cartref drwy gydol y flwyddyn? [Y raddfa: Anghyfforddus iawn; Ychydig yn anghyfforddus; Niwtral; Gweddol gyfforddus; Cyfforddus iawn; Byddai'n well gen i beidio ateb]
- a. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo gyda'r tymheredd o fewn eich cartref wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?
47. Fforddiadwyedd y gwresogi: Cyn y gwaith yn eich cartref, pa mor fforddiadwy oedd eich cartref i'w wresogi? [Y raddfa: Ddim yn fforddiadwy o gwbl; Gweddol anfforddiadwy; Niwtral; Gweddol fforddiadwy; Fforddiadwy iawn; Byddai'n well gen i beidio ateb]
- a. Gan ddefnyddio yr un raddfa, pa mor fforddiadwy yw eich cartref i'w wresogi wedi i'r gwaith yn eich cartref gael ei gwblhau?

E. Gwybodaeth gefndir

Yn yr adran hon, byddwn ni'n gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi a'ch aelwyd. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu ni i ddeall anghenion gwahanol denantiaid a sicrhau bod pawb yn cael budd o'r gwelliannau i dai. Mae eich atebion yn ddienw.

Os oes unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau eu hateb, gallwch ddewis yr opsiwn 'Byddai'n well gen i beidio ateb' ar waelod pob rhestr.

48. Beth yw eich rhyw?

- a. Benyw
- b. Gwryw
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb

49. Ydy'r rhyw yr ydych yn uniaethu ag ef yn awr yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd i chi adeg eich geni?

- a. Ydy
- b. Nac ydy

50. Ysgrifennwch yn eich hunaniaeth rheng-fawr, os gwelwch yn dda.

51. Beth yw eich oed?

- l. O dan 18
- m. 19-24
- n. 25-34
- o. 35-44
- p. 45-54
- q. 55-64
- r. 65-74
- s. 75-84
- t. 85-94
- u. 95+
- v. Byddai'n well gen i beidio ateb

52. Ym mha ardal awdurdod lleol mae eich cartref ar hyn o bryd?

- x. Caerdydd
- y. Caerffili
- z. Blaenau Gwent
- aa. Torfaen
- bb. Sir Fynwy

- cc. Casnewydd
- dd. Ynys Môn
- ee. Gwynedd
- ff. Conwy
- gg. Sir Ddinbych
- hh. Sir y Fflint
- ii. Wreccsam
- jj. Ceredigion
- kk. Powys
- ll. Sir Benfro
- mm. Sir Gaerfyrddin
- nn. Abertawe
- oo. Castell Nedd Port Talbot
- pp. Pen-y-Bont ar Ogwr
- qq. Rhondda Cynon Taf
- rr. Merthyr Tudful
- ss. Bro Morgannwg
- tt. Byddai'n well gen i beidio ateb

53. Beth yw eich grŵp ethnig?

- g. Asiaidd / Asiaidd Prydeinig [Dangoswch C7]
- h. Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig [Dangoswch C8]
- i. Grwpiau ethnig cymysg / niferus [Dangoswch C9]
- j. Gwyn [Dangoswch C10]
- k. Grŵp ethnig arall [Dangoswch C11]
- l. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C12]

54. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu gefndir ethnig orau – Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

- a. Indiaidd

- b. Pacistanaidd
- c. Bangladeshaidd
- d. Tsieineaidd
- e. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb

55. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig

- a. Affricanaidd
- b. Caribïaidd
- c. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb

56. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Grwpiau ethnig cymysg / niferus

- a. Caribïaidd Du a Gwyn
- b. Caribïaidd Du a Gwyn
- c. Gwyn ac Asiaidd
- d. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

57. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Gwyn

- a. Cymro/Cymraes / Sais/Saesnes / Albanwr/Albanes / Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeinig
- b. Gwyddelig
- c. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- d. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

58. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau – Grŵp ethnig arall

- a. Arabaidd
- b. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb

59. Ym mha fath o eiddo ydych chi'n byw?

- h. Tŷ teras
- i. Tŷ pâr
- j. Tŷ sengl
- k. Fflat/rhandy
- l. Byngalo
- m. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- n. Byddai'n well gen i beidio ateb

60. Faint o bobl, yn eich cynnwys chi, sy'n byw ar eich aelwyd?

- g. 1 [Neidiwch i C15]
- h. 2
- i. 3
- j. 4
- k. 5+
- l. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C15]

61. Pa un o'r gosodiadau nesaf sy'n disgrifio eich aelwyd chi orau?

- j. Byw gyda phriod/partner gyda phlant
- k. Byw gyda phriod/partner heb blant [Neidiwch i C15]
- l. Byw heb briod/partner ond gyda phlant
- m. Mwy nag un teulu'n cydfyw
- n. Byw gyda'r ddau riant

- o. Byw gyda rhiant sengl
- p. Byw gydag aelodau eraill o'r teulu
- q. Arall, manylwch
- r. Byddai'n well gen i beidio ateb

62. Faint o blant (o dan 18 oed) sy'n byw yn eich cartref?

- g. 1
- h. 2
- i. 3
- j. 4
- k. 5+
- l. Byddai'n well gen i beidio ateb

63. Oes gennych chi unrhyw salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol a fydd yn parhau, neu y mae disgwyl iddyn nhw barhau, am 12 mis neu fwy?

- a. Oes
- b. Nac oes [Neidiwch i C20]
- c. Byddai'n well gen i beidio ateb [Neidiwch i C20]

64. Ydy unrhyw rai o'ch cyflyrau neu'r salwch yn lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd?

- a. Ydyn, yn fawr iawn
- b. Ydyn, ychydig bach
- c. Na, ddim o gwbl
- d. Byddai'n well gen i beidio ateb

65. A oes gan unrhyw un yn eich cartref anghenion gofal sy'n gofyn am gymorth rheolaidd gyda thasgau o ddydd i ddydd, fel gwneud gwaith tŷ, gofal personol neu weithgareddau dyddiol eraill?

- d. Oes
- e. Nac oes
- f. Byddai'n well gen i beidio ateb

66. Ydych chi, neu unrhyw un yn eich cartref yn brofiadol mewn gofalu?

- a. Ydw, fi fy hun
- b. Person arall yn fy nghartref
- c. Fi fy hun a pherson arall yn fy nghartref
- d. Na
- e. Byddai'n well gen i beidio ateb

67. Pwy yw eich landlord cymdeithasol?

- e. Cyngor / awdurdod lleol
- f. Cymdeithas tai
- g. Arall
 - i. Manylwch [testun agored]
- h. Byddai'n well gen i beidio ateb

68. Ers faint ydych chi wedi byw yn yr eiddo hwn?

- a. Llai na 6 mis
- b. 6 mis i lai na blwyddyn
- c. 1 flwyddyn i lai na 3 blynedd
- d. 3 blynedd i lai na 5 mlynedd
- e. 5 mlynedd i lai na 7 mlynedd
- f. 7 mlynedd i lai na 10 mlynedd
- g. 10 mlynedd i lai na 15 mlynedd
- h. 15 mlynedd i lai nag 20 mlynedd
- i. 20 mlynedd +
- j. Byddai'n well gen i beidio ateb

F. Diolch

Diolch yn fawr am roi o'ch amser a'ch egni i gwblhau'r arolwg hwn! Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad i'r prosiect pwysig hwn yn fawr iawn!

Canllaw trafodaeth y cyfweliad – Landlordiaid

Cynhesu i fyny

1. Oes unrhyw beth y dylwn i ei wybod am eich sefydliad cyn i ni ddechrau'r cyfweliad? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys unrhyw ailstrwythuro diweddar neu arfaethedig, oedran eich proffil stoc, neu heriau penodol a allai helpu i roi cyd-destun i'n trafodaeth.

Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

SATC: Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

2. Pa mor gynhwysfawr fydddech chi'n dweud yw eich dealltwriaeth o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023?

Awgrym: I ba raddau mae eich sefydliad yn gwybod am y Safon ac yn ei deall?

Awgrym: A oes unrhyw elfennau sy'n gofyn eich bod yn ceisio cymorth neu eglurhad allanol? Os felly, gan bwy? (e.e. Llywodraeth Cymru, Ymgynghorwyr, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Lleol, Tai Pawb, TPAS)

[Dilydol] Ydy'r dysgu hwn wedi'i rannu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / Cymdeithasau Tai Lleol eraill?

Awgrym: Yn SATC 2023, a oes elfennau rydych chi'n ei chael hi'n anodd deall sut i'w gweithredu (neu roeddech chi'n ei chael hi'n anodd deall sut i'w gweithredu)? (Sylwer: Nid yw'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ddichonoldeb, dim ond dealltwriaeth)

SATC: Profiad cynnar

3. Yn eich profiad chi, sut cafodd y trawsnewidiad i'r SATC 2023 newydd ei reoli?

Awgrym: Oedd y cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru yn glir ac yn amserol?

Awgrym: Oedd digon o amser i ymgynghori?

Awgrym: Oeddech chi'n teimlo bod eich barn chi a'ch sector wedi cael ei hadlewyrchu yn yr ymgynghoriad?

Awgrym[*Rhaid cwmpasu*]: Ydy'r arweiniad a'r gefnogaeth a roddwyd ynglŷn â'r Safon newydd wedi bod yn ddigonol yn eich barn chi?

4. Ydych chi'n bersonol wedi bod yn rhan o gwblhau Polisi Cydymffurfiaeth fel rhan o SATC 2023?

[OS YDY – DILYNOL] Sut oedd eich profiad o gwblhau Polisi Cydymffurfiaeth fel rhan o SATC 2023?

Awgrym: A gawsoch chi ddigon o arweiniad gan Lywodraeth Cymru i gwblhau'r polisi cydymffurfiaeth?

Awgrym: A fu'n rhaid i chi ofyn am unrhyw eglurhad ynglŷn â'r SATC wrth lunio eich Polisi Cydymffurfiaeth? Os felly, gan bwy?

[Dilynol] Ydy'r dysgu hwn wedi'i rannu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / Cymdeithasau Tai Lleol eraill?

5. Beth yw eich profiad hyd yma o ymgysylltu â thenantiaid wrth weithredu SATC 2023?

Awgrym: Yn eich barn chi, pa mor ymwybodol ydy'r tenantiaid o'r SATC 2023 a beth mae'n ei olygu iddyn nhw?

Awgrym: Sut wnaethoch chi ymgysylltu â thenantiaid wrth gynhyrchu eich Polisi Cydymffurfiaeth?

SATC: Dichonoldeb

6. Ydych chi wedi dechrau asesu maint y newidiadau i eiddo a fydd yn ofynnol i fodloni'r Safon?

Awgrym: Ydych chi wedi amcangyfrif cyfanswm y gost o fodloni'r Safon? Os felly, ydy hyn wedi'i ddadansoddi fesul elfen o'r SATC - ac a fyddai'r data hwn ar gael i'w rannu ar gyfer y gwerthusiad?

Awgrym: Ydych chi o'r farn bod gennych fynediad digonol i'r rhwydweithiau a'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i weithredu SATC 2023?

7. Ydych chi eisoes wedi gwneud newidiadau i eiddo er mwyn bodloni'r Safon sydd wedi'i diweddarau? Os felly, pa newidiadau sydd wedi'u gwneud?

Awgrym: A fyddai'r gwaith yma wedi digwydd pe na bai'r Safon wedi cael ei diweddarau yn eich barn chi?

8. Pa agweddau ar SATC 2023 ydych chi'n eu hystyried fel y rhai mwyaf syml i'w bodloni?

Awgrym: O'r gofynion newydd, sef rhai nad ydynt yn rhan o'r SATC wreiddiol, pa rai yw'r mwyaf syml i'w bodloni?

9. Pa agweddau ar SATC 2023 ydych chi'n eu hystyried fel y rhai mwyaf heriol?

Awgrym: Beth sydd fwyaf heriol am yr agweddau hyn (e.e. cost, diffyg gweithlu, diffyg arbenigwyr, diffyg cadwyn gyflenwi, gwrthodiadau)?

Awgrym: Oes gennych chi strategaethau neu syniadau cynnar i liniaru'r heriau hyn?

Awgrym: [Os codwyd cyllid] Ydych chi wedi archwilio opsiynau cyllido amgen neu arloesol i dalu'r gost o gyflawni SATC 2023?

10. Yn eich barn chi, ydy'r Safon yn ategu'r arferion presennol o ran rheoli eiddo, fel hyrwyddo ailosod nodweddion neu ôl-osod eiddo ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol a/neu economaidd?

Awgrym: Os felly, a oes unrhyw agweddau penodol ar y Safon sy'n hwyluso'r dull ategol hwn? (Er enghraifft, caniatáu ar gyfer methiant derbyniol)

Awgrym: Os na, pa agweddau ar y Safon nad ydynt yn ategu eich arferion a'ch cynlluniau presennol o ran rheoli eiddo? (Nodyn ar gyfer cyfwelydd: Mae EPC C erbyn 2030 wedi'i godi mewn cyfweiliadau cwmpasu, ond peidiwch â chodi hyn mewn cyfweiliadau heb eich cymell).

SATC: Asesu cydymffurfiaeth

11. Pa mor aml ydych chi'n arolygu eich eiddo i asesu cydymffurfiaeth â'r Safon?

Awgrym: Sut ydych chi'n disgwyl i hyn newid yn ystod oes y Safon?

12. Ydych chi'n hyderus yn eich dealltwriaeth o'r egwyddorion cyffredinol i asesu cydymffurfio â SATC 2023?

Awgrym: Er enghraifft, ydych chi'n hyderus o safbwynt asesu eiddo o'i gymharu â'r "cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y math penodol o annedd a'i oedran"?

Awgrym: Oes unrhyw fathau o eiddo lle mae'n anoddach gwneud yr asesiad hwn yn hyderus?

13. Ydych chi'n hyderus yn eich dealltwriaeth o'r hierarchaeth asesu y dylid ei defnyddio (h.y. Dd/B, Pasio, Pasio Amodol, Methiant Dros Dro)?

Awgrym: Oes gennych unrhyw sylwadau ar y categorïau asesu hyn?

Awgrym [Os defnyddir]: Sut ydych chi wedi defnyddio'r meini prawf pasio amodol a methiant dros dro?

Awgrym: Oes unrhyw beth y dylai gwerthuswyr ei ystyried wrth ddefnyddio'r asesiadau hyn (a'r is-godau) yn y dyfodol ynglŷn â sut maent yn cael eu defnyddio'n ymarferol?

14. Ydych chi'n bwriadu hysbysu tenantiaid o'ch asesiadau ynghylch a yw eu cartref yn cydymffurfio â phob elfen o'r Safon?

Awgrym: Os na, beth yw'r rhwystrau sy'n atal hyn?

Awgrym: Allech chi amcangyfrif y gost o hysbysu tenantiaid am gydymffurfiaeth eu cartref?

15. Oes gennych chi sylwadau ar sut mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gyfer SATC 2023?

Awgrym: Sut y gellid cryfhau hyn yn y dyfodol?

Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

ORP: Canllawiau a chymorth

16. Yn eich barn chi, oedd y canllawiau a ddarparwyd ar gyfer hawlio a chael mynediad i'r gronfa yn ddigonol?

Awgrym: Oes unrhyw elfennau o'r ORP sy'n gofyn eich bod yn ceisio cymorth neu eglurhad allanol? Os felly, gan bwy?

17. Ydych chi o'r farn eich bod wedi derbyn digon o gymorth gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi cynigion a chynlluniau a fyddai'n defnyddio cyllid ORP?

Awgrym: Oedd hyn yn amrywio dros amser? Er enghraifft, ei fod yn wahanol yn ystod ORP 1, 2, neu 3?

18. A wnaethoch chi ddefnyddio cymorth Llywodraeth Cymru wrth gyflawni cynlluniau a ariannwyd gan ORP? Er enghraifft, ceisio cyngor technegol?

Awgrym: Oedd hyn yn ddefnyddiol?

ORP: Arloesi a chyllid

19. Pa addasiadau ôl-fodern gwnaethoch chi gyda ORP?

20. Yn eich barn chi, oedd y math o ôl-osod a gynigiwyd ac a gyflawnwyd gan eich sefydliad yn debyg ar draws holl flynyddoedd yr ORP? A newidiodd graddau'r

newidiadau arloesol rhwng ORP 1, 2, a 3?

21. A wnaethoch chi dderbyn digon o gyllid i dalu costau'r ôl-osod a ddarparwyd fel rhan o'r ORP?

Awgrym: Yn eich barn chi, oedd cyfraniad eich sefydliad at gostau'r ôl-osod yn rhesymol?

Awgrym: A newidiodd y costau o'r cam ymgeisio i gyflawni'r gwaith ôl-osod?

ORP: Profi a dysgu

22. Yn eich barn chi, oedd yr ORP wedi creu digon o gyfleoedd a fframweithiau i chi 'brofi' effeithiolrwydd eich ymyriadau?

Awgrym: Allwch chi fanylu ar sut y gwnaethoch chi brofi effeithiolrwydd eich ymyriadau?

23. Yn eich barn chi, oedd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi creu cyfleoedd i chi rannu 'gwersi' o'ch cynlluniau chi a ariannwyd gan ORP, gyda'r sector ehangach?

Awgrym: Beth oedd yr agweddau mwyaf effeithiol ar y cyfleoedd hyn?

Awgrym: Sut y gellid gwella'r cyfleoedd hyn i rannu arferion gorau?

24. Yn eich barn chi, oedd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi creu cyfleoedd effeithiol i chi ddysgu am lwyddiannau, heriau ac effeithiolrwydd cynlluniau eraill a ariannwyd gan ORP?

Awgrym: Pa gynlluniau gafodd y dylanwad mwyaf ar eich gwaith?

Awgrym: Sut gellid gwella'r cyfleoedd hyn i rannu arferion gorau?

ORP: Effeithiau canfyddedig

25. Wrth edrych yn holistig, beth, yn eich barn chi, yw'r un neu ddwy brif effaith yn sgil y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ar gyfer: a) y tenantiaid mewn eiddo wedi'u hól-osod, b) eich sefydliad, c) y sector tai cymdeithasol ehangach yng Nghymru, ac ch) y gadwyn gyflenwi ôl-osod?

Ôl-drafodaeth

26. Oes unrhyw beth arall nad ydym wedi crybwyll eisoes a fyddai'n ddefnyddiol i ni ei drafod?

Canllaw A: Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

Cynhesu a safbwyntiau ar eu cartref

1. Am ba mor hir ydych chi wedi byw yn eich cartref presennol?
 - a. *Cwestiwn dilynol:* Oes rhywun arall yn byw yn eich cartref? Os felly, faint o bobl?
 - b. *Cwestiwn dilynol:* Ble yng Nghymru ydych chi'n byw?
2. Sut ydych chi'n teimlo am eich cartref ar hyn o bryd?

Cwestiynau cynorthwyol:

- A yw mewn cyflwr da?
- A yw'n saff ac yn ddiogel?
- A yw'n fforddiadwy i'w wresogi?
- A oes ganddo gegin fodern?
- A oes ganddo ystafell ymolchi fodern?
- A yw'n gyfforddus (ac a yw'n gweddu i'ch anghenion)?
- A oes ganddo ardd sy'n addas i'ch anghenion?
- A oes ganddo ardd sy'n hawdd ei chynnal a'i chadw?

Ymwybyddiaeth o Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

3. Oeddech chi wedi clywed am Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 cyn y gwaith ymchwil hwn?
 - a. *Cwestiwn dilynol:* [Os ydoedd] Os felly, allwch chi ddweud wrthyf beth rydych yn ei wybod amdani?

Er mwyn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir, mae Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 ar waith i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn cyrraedd safon ofynnol, er enghraifft:

- Maen nhw mewn cyflwr da.
- Maen nhw'n saff a diogel.
- Nid ydyn nhw'n rhy ddud i'w gwresogi (sy'n gallu bod yn wael i'r amgylchedd).

- Mae ganddyn nhw gegin fodern.
- Mae ganddyn nhw ystafell ymolchi fodern.
- Maen nhw'n gyfforddus (ac yn gweddu i'r unigolyn sy'n byw yno).
- Mae ganddyn nhw ardd, os oes modd.
- Mae ganddyn nhw ardd sy'n hawdd ei chynnal a'i chadw.

Mae fersiwn ddiweddaraf y Safon yn ymwneud â defnyddio llai o ynni a dŵr, gwella lloriau, annog pobl i fynd o gwmpas mewn ffyrdd mwy egnïol (e.e. beicio), a lleihau sŵn uchel (e.e. o drenau/traffig).

4. Ydych chi'n gwybod a yw'ch landlord wedi gwneud unrhyw welliannau i'ch cartref yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf? I gadarnhau, rwy'n cyfeirio at waith i uwchraddio'ch cartref, nid trwsio eitemau sydd wedi torri, er enghraifft. Os ydych yn ansicr, fe allwn ni drafod ymhellach.

a. [Os ydyw] Symudwch i Gangen 1

5. [Os nad ydyw] A yw'ch landlord wedi siarad â chi am yr angen i wneud unrhyw welliannau i'ch cartref yn y dyfodol?

i. [Os ydyw] Symudwch i Gangen 2

ii. [Os nad ydyw] Symudwch i Gangen 3

Gangen 1: Tenantiaid y gwnaed gwelliannau i'w cartrefi yn ystod y 12 mis diwethaf

6. Pa newidiadau a wnaed i'ch cartref yn ystod y 12 mis diwethaf? [Nodyn i'r hwylusydd: Cadarnhewch a rheolwch ddisgwyliadau'r cyfwelai ynglŷn â gwelliannau a wnaed – ni fydd angen i bob cartref gael y gwelliannau hyn ac efallai na fyddant yn digwydd o fewn 12 mis].

Awgrymiadau: [Nodyn i'r hwylusydd: cyfeiriwch at y gwelliannau o dan Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 i gynorthwyo yn unig, pan fydd angen]

- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn saff a diogel:*
 - Drysau diogel wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Ffenestri newydd (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Larymau mwg wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Systemau diogelwch rhag tân eraill wedi'u gosod (WHQS 2023)
- *O dan y Safon, ni ddylai eich cartref fod yn rhy ddrud i'w wresogi:*

- Mesuryddion ynni deallus (e.e. i fonitro faint o ynni i'w ddefnyddio) (WHQS 2023 a'r ORP) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]
- Rhywle i storio deunydd i'w ailgylchu (naill ai y tu mewn neu'r tu allan) (WHQS 2023)
- Inswleiddio wedi'i wella (e.e. llofft a waliau) (WHQS 2023 a'r ORP)
- Awyru wedi'i wella (e.e. atal lleithder) (WHQS 2023 a'r ORP)
- Boeleri nwy effeithlon iawn neu bympiau gwres (ORP)
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych egin fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych ystafell ymolchi fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn gyfforddus (a gweddu i'r unigolyn sy'n byw yno).*
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â gardd, os oes modd:*
 - Casgenni dŵr wedi'u gosod (cynwysyddion sy'n casglu dŵr glaw ac y gellir eu defnyddio i ddyfrio eu gerddi) (WHQS 2023) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â man awyr agored braf, os oes modd:*
 - Sied feiciau neu le storio y tu allan (WHQS 2023)

7. Sut brofiad oedd y broses o drefnu [ychwanegwch y gwelliant]? [Nodyn i'r hwylusydd: cyfeiriwch at y gwelliannau a grybwyllwyd yng Nghwestiwn 5]

- a. *Cwestiwn dilynol:* A gysylltodd eich landlord â chi ynglŷn â'r newidiadau hyn cyn iddynt gael eu gosod? Oeddech chi'n gallu awgrymu unrhyw newidiadau eich hun?
- b. *Cwestiwn dilynol (os yw'n berthnasol):* A roddwyd gwybodaeth glir i chi am sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd?

8. A oedd unrhyw un o'r newidiadau wedi gwneud eich cartref yn well?

- a. *Awgrymiadau:* dyfeisiau o ansawdd gwell, ac ati.

- b. *Cwestiynau cynorthwyl:* A oedd y newidiadau wedi cael eu gwneud yn dda, neu ydych chi wedi cael unrhyw broblemau â nhw?
- 9. Os cawsoch chi unrhyw broblemau, beth oedden nhw? A ddaethoch chi o hyd i ffordd o'u datrys nhw?
- 10. Rhan bwysig o'r safon newydd yw arbed ynni. A fu unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych chi'n gallu gwresogi'ch cartref ers i'r newidiadau hyn gael eu gwneud?
 - a. *Cwestiwn cynorthwyl:* Ydych chi'n fodlon ar sut rydych chi'n gallu gwresogi'ch cartref?
 - b. *Cwestiwn dilynol:* Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i'ch biliau ers i'r newidiadau gael eu gwneud?
- 11. A yw'r gwaith wedi newid y ffordd rydych yn teimlo am eich cartref? Ym mha ffordd?
- 12. Pa addasiad sy'n cael yr effaith fwyaf ar eich amodau byw?
 - a. *Cwestiwn dilynol:* Pa un sydd wedi cael yr effaith leiaf ar eich amodau byw?
- 13. A yw unrhyw un o'r newidiadau i'ch cartref wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eich iechyd a lles corfforol a meddyliol?
 - a. *Awgrymiadau:* teimlo'n hapusach, osgoi salwch, gwella ansawdd eich bywyd, ac ati.
 - b. *Cwestiynau dilynol:* Pa newid sy'n cael yr effaith fwyaf ar eich iechyd meddyliol neu gorfforol? Pa un sydd wedi cael yr effaith leiaf ar eich iechyd meddyliol neu gorfforol?
 - c. *Cwestiwn dilynol:* A fu unrhyw effeithiau ar aelodau o'r teulu/ pobl eraill sy'n byw yn eich cartref?
- 14. A fu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar eich bywyd o ganlyniad i'r newidiadau i'ch cartref? (*Awgrym:* cyllid)

Cangen 2: Tenantiaid na wnaed gwelliannau i'w cartrefi yn ystod y 12 mis diwethaf (y maen nhw'n ymwybodol ohonynt) ond sy'n eu disgwyl

- 15. Beth mae eich landlord wedi'i rannu am y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i'ch cartref?

- a. *Cwestiwn cynorthwyl*: Pa newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eich cartref?
- b. *Cwestiwn dilynol*: Sut cysylltodd eich landlord â chi? (*Awgrymiadau*: llythyr, galwad ffôn, neges destun)
- c. *Cwestiwn dilynol*: A yw'r cyfathrebu wedi bod yn glir? Oeddech chi'n teimlo y gallech ofyn unrhyw gwestiynau dilynol?
- ch. *Cwestiwn dilynol*: A gawsoch chi gyfle i wneud awgrymiadau neu roi adborth?

16. [Os yw'r cynlluniau'n hysbys] Ydych chi eisiau'r newidiadau hyn?

- b. [Os na] Pa newidiadau fydddech chi'n eu hoffi a pham?

Awgrymiadau: [Nodyn i'r hwylusydd: cyfeiriwch at y gwelliannau o dan Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 fel awgrymiadau pan fydd angen yn unig]

- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn saff a diogel*:
 - Drysau diogel wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Ffenestri newydd (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Larymau mwg wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Systemau diogelwch rhag tân eraill wedi'u gosod (WHQS 2023)
- *O dan y Safon, ni ddylai eich cartref fod yn rhy ddrud i'w wresogi*:
 - Mesuryddion ynni deallus (e.e. i fonitro faint o ynni i'w ddefnyddio) (WHQS 2023 a'r ORP) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]
 - Rhywle i storio deunydd i'w ailgylchu (naill ai y tu mewn neu'r tu allan) (WHQS 2023)
 - Inswleiddio wedi'i wella (e.e. llofft a waliau) (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Awyru wedi'i wella (e.e. atal lleithder) (WHQS 2023 a'r ORP)
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych gegin fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych ystafell ymolchi fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn gyfforddus (a gweddu i'r unigolyn sy'n byw yno).*

- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â gardd os oes modd:*
 - Casgenni dŵr wedi'u gosod (cynwysyddion sy'n casglu dŵr glaw ac y gellir eu defnyddio i ddyfrio eu gerddi) (WHQS 2023) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â man awyr agored braf, os oes modd:*
 - Sied feiciau neu le storio y tu allan (WHQS 2023)

17. Beth ydych chi'n credu fydd effaith y newidiadau hyn?

- a. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich cyllid? [Os ydyw] Os felly, sut?
- b. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich iechyd corfforol? [Os ydyw] Os felly, sut?
- c. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich iechyd meddwl a'ch llesiant? [Os ydyw] Os felly, sut?
- ch. *Cwestiwn dilynol:* [Os yw'n berthnasol] Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich teulu neu bwy bynnag sy'n byw gyda chi? [Os felly] Os felly, bydd fyddai'r effaith honno?

Cangen 3: Tenantiaid na wnaed gwelliannau i'w cartrefi ac nad ydynt yn ymwybodol o gynlluniau i wneud gwaith yn y dyfodol

18. A yw'ch landlord wedi anfon unrhyw ddiweddariadau yn flaenorol ynglŷn ag unrhyw welliannau a gynlluniwyd i'ch cartref?

- a. *Cwestiwn cynorthwyol:* Pa welliannau oedd y rhain?
- b. *Cwestiwn dilynol:* Sut cysylltodd eich landlord â chi? (*Awgrymiadau:* llythyr, galwad ffôn, neges destun)
- c. *Cwestiwn dilynol:* A yw'r cyfathrebu wedi bod yn glir? Oeddech chi'n teimlo y gallech ofyn unrhyw gwestiynau dilynol?
- ch. *Cwestiwn dilynol:* A gawsoch chi gyfle i wneud awgrymiadau neu roi adborth?
- d. *Cwestiwn dilynol:* Yn y pen draw, pa mor fodlon oeddech chi ar y gwelliannau a wnaed i'ch cartref yn flaenorol?

19. A fydddech chi'n hoffi i newidiadau gael eu gwneud i'ch cartref i wella pob un o'r meini prawf a restrwyd uchod?

b. *Cwestiwn dilynol*: Beth fyddai eich blaenoriaeth, a pham?

c. *Cwestiwn dilynol*: A oes unrhyw newid nad ydych ei eisiau, a pham?

Awgrymiadau: [Nodyn i'r hwylusydd: cyfeiriwch at y gwelliannau o dan Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 fel awgrymiadau pan fydd angen yn unig]

- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn saff a diogel*:
 - Drysau diogel wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Ffenestri newydd (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Larymau mwg wedi'u gosod (WHQS 2023)
 - Systemau diogelwch rhag tân eraill wedi'u gosod (WHQS 2023)
- *O dan y Safon, ni ddylai eich cartref fod yn rhy ddrud i'w wresogi*:
 - Mesuryddion ynni deallus (e.e. i fonitro faint o ynni i'w ddefnyddio) (WHQS 2023 a'r ORP) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]
 - Rhywle i storio deunydd i'w ailgylchu (naill ai y tu mewn neu'r tu allan) (WHQS 2023)
 - Inswleiddio wedi'i wella (e.e. llofft a waliau) (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Awyru wedi'i wella (e.e. atal lleithder) (WHQS 2023 a'r ORP)
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych gegin fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai fod gennych ystafell ymolchi fodern (WHQS 2023)*
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod yn gyfforddus (a gweddu i'r unigolyn sy'n byw yno).*
- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â gardd, os oes modd*:
 - Casgenni dŵr wedi'u gosod (cynwysyddion sy'n casglu dŵr glaw ac y gellir eu defnyddio i ddyfrio eu gerddi) (WHQS 2023) [Canllaw i'r cyfwelydd: mae hyn yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig – cadwch mewn cof pryd y dechreuodd eu tenantiaeth]

- *O dan y Safon, fe ddylai eich cartref fod â man awyr agored braf, os oes modd:*
 - Sied feiciau neu le storio y tu allan (WHQS 2023)

20. Pa effaith fydddech chi'n disgwyl i'r newidiadau hyn ei chael?

- a. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich cyllid? [Os ydyw] Os felly, sut?
- b. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich iechyd corfforol? [Os ydyw] Os felly, sut?
- c. *Cwestiwn cynorthwyol:* Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich iechyd meddwl a'ch llesiant? [Os ydyw] Os felly, sut?
- ch. *Cwestiwn dilynol:* [Os yw'n berthnasol] Ydych chi'n credu y bydden nhw'n cael unrhyw effaith ar eich teulu neu bwy bynnag sy'n byw gyda chi? [Os felly] Os felly, bydd fyddai'r effaith honno?

Ôl-drafodaeth

21. A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi sôn amdano eisoes yr ydych yn credu y byddai'n ddefnyddiol i ni ei drafod?

Canllaw B: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Cynhesu a safbwyntiau ar eu cartref

1. Am ba mor hir ydych chi wedi byw yn eich cartref presennol?
 - c. *Cwestiwn dilynol:* Oes rhywun arall yn byw yn eich cartref? Os felly, faint o bobl?
 - d. *Cwestiwn dilynol:* Ble yng Nghymru ydych chi'n byw?
2. Sut ydych chi'n teimlo am eich cartref ar hyn o bryd?

Cwestiynau cynorthwyol:

- fA yw mewn cyflwr da?
- A yw'n saff ac yn ddiogel?
- A yw'n rhy ddrud i'w wresogi (sy'n gallu bod yn wael i'r amgylchedd)?
- A oes ganddo gegin fodern?
- A oes ganddo ystafell ymolchi fodern?

- A yw'n gyfforddus (ac a yw'n gweddu i'ch anghenion)?
- A oes ganddo ardd?
- A oes ganddo fan awyr agored braf?

Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

3. Oeddech chi wedi clywed am y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio cyn y gwaith ymchwil hwn?
 - a. *Cwestiwn dilynol:* [Os ydoedd] Os felly, allwch chi ddweud wrthyf beth rydych yn ei wybod amdani?

Mae'r **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** yn helpu landlordiaid cymdeithasol i sicrhau bod eu hadeiladau'n defnyddio llai o ynni ac yn llai drud i'w gwresogi. Mae'n gwneud hyn trwy ychwanegu pethau fel inswleiddio gwell, systemau ynni deallus, a thechnoleg i gadw golwg ar sut mae'r adeilad yn defnyddio ynni. Mae hyn yn fuddiol i'r amgylchedd ac yn gwneud yr adeilad yn rhatach i fyw ynddo.

Profiadau tenantiaid o'r Rhaglen Ôl-ofal er mwyn Optimeiddio

4. Pa newidiadau a wnaed i'ch cartref yn ystod y tair blynedd diwethaf?

Awgrymiadau:

- Mesuryddion ynni deallus (e.e. i fonitro faint o ynni i'w ddefnyddio) (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Inswleiddio wedi'i wella (e.e. llofft a waliau) (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Awyru wedi'i wella (e.e. atal lleithder) (WHQS 2023 a'r ORP)
 - Boeleri nwy effeithlon iawn neu bympiau gwres (ORP)
 - Paneli solar ar y to (ORP)
 - Batris ïon lithiwm (ORP)
5. Sut brofiad oedd y broses o drefnu [ychwanegwch y gwelliant]? [Nodyn i'r hwylusydd: cyfeiriwch at y gwelliannau a grybwyllwyd yng Nghwestiwn Q4]
 - a. *Cwestiwn dilynol:* A gysylltodd eich landlord â chi ynglŷn â'r newidiadau hyn cyn iddynt gael eu gosod? Oeddech chi'n gallu awgrymu unrhyw newidiadau eich hun?
 - b. *Cwestiwn dilynol:* A roddwyd gwybodaeth glir i chi am sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd?

6. A oedd unrhyw un o'r newidiadau wedi gwneud eich cartref yn well?
 - a. *Awgrymiadau*: ansawdd aer gwell, ac ati.
 - b. *Cwestiynau cynorthwyol*: A oedd y newidiadau wedi cael eu gwneud yn dda, neu ydych chi wedi cael unrhyw broblemau â nhw?
 - i. Os cawsoch chi unrhyw broblemau, beth oedden nhw? A ddaethoch chi o hyd i ffordd o'u datrys nhw?
7. A fu unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych chi'n gallu gwresogi'ch cartref ers i'r newidiadau hyn gael eu gwneud?
 - a. *Cwestiwn cynorthwyol*: Ydych chi'n fodlon ar sut rydych chi'n gallu gwresogi'ch cartref?
 - b. *Cwestiwn dilynol*: Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i'ch biliau ers i'r newidiadau gael eu gwneud?
8. A yw'r gwaith wedi newid y ffordd rydych yn teimlo am eich cartref? Ym mha ffordd?
9. Pa addasiad sy'n cael yr effaith fwyaf ar eich amodau byw?
 - a. *Cwestiwn dilynol*: Pa un sydd wedi cael yr effaith leiaf ar eich amodau byw?
10. A yw unrhyw un o'r newidiadau i'ch cartref wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eich iechyd corfforol neu feddyliol?
 - a. *Awgrymiadau*: osgoi salwch, gwella iechyd, ac ati.
 - b. *Cwestiynau dilynol*: Pa newid sy'n cael yr effaith fwyaf ar eich iechyd a lles corfforol a meddyliol? Pa un sydd wedi cael yr effaith leiaf ar eich iechyd meddyliol neu gorfforol?
 - c. *Cwestiwn dilynol*: A fu unrhyw effeithiau ar aelodau o'r teulu/ pobl eraill sy'n byw yn eich cartref?
11. A fu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar eich bywyd o ganlyniad i'r newidiadau i'ch cartref? (*Awgrym*: cyllid)

Ôl-drafodaeth

- A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi sôn amdano eisoes yr ydych yn credu y byddai'n ddefnyddiol i ni ei drafod?